

Defnyddio Cyfieithu Awtomatig a Chof Cyfieithu wrth gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg:

*Astudiaeth ystadegol o ymdrech, cynhyrchedd ac ansawdd
gan ddefnyddio data Cofnodwyr Trawiadau Bysell a Thracio
Llygaid*

Benjamin Alun Screen

**Thesis a gyflwynir ar gyfer gradd Ph.D
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
2018**



DATGANIADAU

DATGANIAD 1

Ni chafodd y gwaith hwn ei gyflwyno'n sylweddol ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall yn y brifysgol hon nac unrhyw brifysgol arall, nac ychwaith unrhyw fan dysgu arall, ac nid yw wedi ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth ar gyfer unrhyw radd neu ddyfarniad arall.

Llofnod *Ben Screen* (ymgeisydd) Dyddiad 02/05/2018

DATGANIAD 2

Cyflwynir y traethawd ymchwil hwn er mwyn cyflawni'n rhannol ofynion gradd PhD.

Llofnod *Ben Screen* (ymgeisydd) Dyddiad 02/05/2018

DATGANIAD 3

Mae'r traethawd hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwil annibynnol fy hun, oni nodir fel arall. Nid yw'r traethawd wed ei olygu gan drydydd parti y tu hwnt i'r hyn a ganateir gan bolisi Prifysgol Caerdydd. Cydnabyddir cyfeiriadau yn eglur. Fy syniadau i yw'r syniadau a fynegir.

Llofnod *Ben Screen* (ymgeisydd) Dyddiad 02/05/2018

DATGANIAD 4

Rhoddaf fy nghaniatâd drwy hyn i'm traethawd, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar-lein yn ystorfa Mynediad Agored y Brifysgol ac ar gyfer benthyca rhwng llyfrgelloedd, a hefyd i'r teitl a chrynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod *Ben Screen* (ymgeisydd) Dyddiad 02/05/2018

DIOLCHIADAU

Mawr yw fy niolch i bawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r 18 cyfieithydd proffesiynol a roddodd o'u hamser i'm helpu, a hwythau â'u baich gwaith eu hunain. Rhaid diolch yn wresog i'r Dr. Jeremy Evas am fod yn oruchwylydd cystal, ar y cyd â'r Dr. Jon Morris am ei gyngor. Roedd sylwadau'r ddau arholwr yn adeiladol ac yn deg, a hoffwn ddiolch iddynt am wella'r gwaith terfynol. Hoffwn gydnabod hefyd gyllid a chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; ni fyddai'r cyfle i wneud ymchwil wedi codi fel arall. Diolch yn fawr hefyd i rai o fyfyrwyr yr Ysgol am fenthyg eu llygaid imi yn yr arbrawf olaf. Yn olaf, rhaid diolch i Ffion sydd hefyd wedi gorfod byw o dan gysgod y ddoethuriaeth hon ac sydd wedi bod yn gefn imi trwy gydol y broses.

Diolch ichi.

“Translation can be done by one person, or several, or hundreds – or by machine.”

Reynolds (2016, t. 11).

Datganiadau	ii
Diolchiadau.....	iii
Cynnwys	v
1.1 Rhestr o ffigurau	x
1.2 Rhestr o dablau.....	xi
1.3 Rhestr o fyrfodau	xii
1.4 Rhestr o dermau.....	xiii
1.5 Rhestr o gyhoeddiadau a phapurau cynhadledd a ddeilliodd o'r prosiect ymchwil hwn	xiv
1.6 Crynodeb	xv
1.7 Cyflwyniad	1
1.8 Cwestiynau Ymchwil.....	4
2 Cyfieithu proffesiynol yng Nghymru fel cyd-destun i'r astudiaeth	6
2.1 Cyd-destun cyfieithu yng Nghymru	6
3 Cyfieithu Awtomatig a Chofion Cyfieithu.....	17
3.1 Diffiniadau o dechnoleg MT a chyfyngiadau arni	17
3.2 Mathau o MT	19
3.2.1 MT ar sail rheolau	19
3.2.2 Cyfieithu awtomatig ar sail ystadegau	22
3.2.3 Cyfieithu awtomatig ar sail enghreifftiau.....	25
3.2.4 Systemau aml-beiriant.....	26
3.3 MT Cymraeg.....	26
3.3.1 Apertium (2009)	27
3.3.2 Cyfieithu Cymru/TranslateWales (2009)	27
3.3.3 Google Translate (2009).....	28
3.3.4 Microsoft Translator (2014).....	28
3.3.5 Yandex.Translate (2015).....	29
3.4 Ôl-olygu a chyfieithu proffesiynol	29
3.4.1 Diffinio Ôl-olygu	29
3.4.2 Mathau o Ôl-olygu.....	30
3.5 Beth yw Cof Cyfieithu (TM)?.....	31
3.6 Integreiddio MT A TM.....	36
3.7 Diwedd glo	39
4 Fframweithiau Gwybyddol Cyfieithu a Golygu	40
4.1 Cyflwyniad	40
4.2 Y Cof Gweithredol	42
4.3 Y Cof Tymor Byr	43
4.4 Gwahanol gydrannau'r Cof Gweithredol hwn.....	44

4.5	Y Cof Synhwyrdd	45
4.6	Y Cylch Ffonolegol	45
4.7	Y Pad Gweledol-Gofodol	46
4.8	Y Gweithredydd Canolog	47
4.9	Y Byffer Cyfnodol	48
4.10	Y Cof Tymor Hir	50
4.11	Camau Cynhyrchu Cyfieithu	53
4.12	Prosesau Allanol a Chamau Cynhyrchu Cyfieithu	54
4.12.1	Cam Ymgylfarwyddo	55
4.12.2	Cam Cynhyrchu	56
4.12.3	Cam Hunan-adolygu	59
4.13	Prosesau Mewnol a Gwybyddiaeth Cyfieithu	59
4.14	Prosesu Dilyniannol	60
4.15	Model Gile (2009)	61
4.16	Prosesu Cydamserol	64
4.17	Model Danks a Griffin (1997)	64
4.18	Y Broses Cyfieithu â Chymorth Systemau TM ac MT	67
4.19	Diwedd glo	68
5	Ymdrech: Diffiniadau a Methodolegau Ymchwil	69
5.1	Cyflwyniad	69
5.2	Ystyr Ymdrech	69
5.3	Yr Ymdrech Amseryddol	70
5.4	Yr Ymdrech Wybyddol	71
5.5	Cynhwysedd y Cof Gweithredol	72
5.6	Yr Ymdrech Dechnegol	74
5.7	Perthynas y tri math â'i gilydd	75
5.8	Pam Ymdrech?	80
5.9	Ystyriaethau Economaidd	80
5.10	Rhwystredigaeth broffesiynol ac Ymchwil Ddyneiddiol	83
5.11	Ymchwil Ergonomegol	85
5.12	Gwerthuso'r Dulliau Ymchwil	86
5.13	Dulliau i fesur yr Ymdrech Wybyddol Gymharol	87
5.14	Dulliau i Fesur yr Ymdrech Dechnegol Gymharol	90
5.15	Mesur 'InEff'	90
5.16	TER	91
5.17	Dulliau i Fesur yr Ymdrech Amseryddol Gymharol	92
5.18	Diffiniad o Gofnodi Trawiadau Bysell	92
5.19	Translog II	93
5.20	Mesur yr Ymdrech Wybyddol	100

5.21	Mesur yr Ymdrech Dechnegol.....	111
5.22	Mesur yr Ymdrech Amseryddol	112
5.23	Ymchwil Ansoddol ac Ymchwil Dulliau Cymysg wrth ymchwilio i ymdrech.....	112
5.24	Crynodeb o'r Newidynnau Dibynnol a chyflwyno'r chwe Rhagdybiaeth.....	114
5.25	Y Peilot.....	118
5.26	Trosolwg.....	118
5.27	Dilysrwydd	119
5.28	Dilysrwydd Mewnol	120
5.29	Bygythiadau a gyflwynir gan yr ymchwilydd.....	121
5.30	Bygythiadau a gyflwynir gan sut y mae'r ymchwil wedi'i chynnal.....	122
5.31	Bygythiadau a gyflwynir gan gyfranogwyr ymchwil	124
5.32	Dilysrwydd Allanol.....	126
5.33	Canlyniadau'r Ymdrech Wybyddol	134
5.34	Canlyniadau'r Ymdrech Dechnegol.....	138
5.34.1	Prosesau Cynhyrchu Testun Anllinellol.....	139
5.34.2	Prosesau Cynhyrchu Testun Llinellol	141
5.35	Diweddgllo: Prif Ddarganfyddiadau: Cyfieithu ac Ôl-olygu allbwn MT	143
5.36	Canlyniadau'r Ymdrech Wybyddol.....	145
5.37	Canlyniadau'r Ymdrech Dechnegol.....	148
5.37.1	Prosesau Cynhyrchu Testun Anllinellol.....	148
5.37.2	Prosesau Cynhyrchu Testun Llinellol	150
5.38	Diweddgllo: Prif Ddarganfyddiadau: Cyfieithu ac addasu allbwn systemau TM.....	153
6	Yr Arbrawf ar Gynhyrchedd	155
6.1	Pam cynhyrchedd?.....	155
6.2	Newidynnau Dibynnol a Rhagdybiaethau	157
6.3	Dyluniad Arbrawf.....	171
6.4	Trosolwg o'r Arbrawf ar Gynhyrchedd.....	172
6.5	Dulliau Samplo.....	173
6.6	Creu'r corpws a'r testunau a ddefnyddiwyd	173
6.7	Cyfeiriadedd.....	176
6.8	Y feddalwedd a ddefnyddiwyd	176
6.9	Cyfarwyddiadau i Gyfranogwyr	178
6.10	Dilysrwydd Mewnol, Allanol a Mesurol	178
6.11	Dyblygadwyedd.....	180
6.12	Gwahaniaethau Cyffredinol: Canlyniadau ANOVA o ran amser.....	180
6.13	Gwahaniaethau Cyffredinol.....	183
6.14	Ymateb i'r Rhagdybiaethau Rhagfynegol o ran Amser yn unigol.....	185
6.15	Dim Cyfatebiaeth a Chyfatebiaethau Rhannol	187
6.16	Dim Cyfatebiaeth ac MT	188

6.17	Dim Cyfatebiaeth a Chyfatebiaethau Llawn.....	189
6.18	WPM Cyffredinol Ac Unigol.....	190
6.19	Cydberthyniadau Deunewidyn.....	192
6.20	Newidiadau i'r Testun a Sgoriau TER.....	193
6.21	Arbedion ac Enillion Canrannol.....	199
6.22	Arbedion Canrannol Amseryddol.....	199
6.23	Enillion Canrannol mewn WPM.....	201
6.24	Allosod Cynhyrchedd.....	202
6.25	Diwedd glo: Prif Ddarganfyddiadau o ran cynhyrchedd.....	203
7	Ansawdd, Technoleg a Chyfieithu Proffesiynol.....	207
7.1	Technoleg cyfieithu ac ansawdd: Astudiaethau allweddol.....	207
7.2	Technoleg cyfieithu ac ansawdd: Sgil-ffeithiau posibl.....	221
7.3	Cywerthedd, Ansawdd ac Astudiaethau Cyfieithu.....	224
7.4	Modelau Ansawdd Diwydiannol.....	226
7.5	Dyluniad Arbrofion.....	229
7.6	Diffiniadau.....	231
7.6.1	Diffinio a Chyfrifo Cysondeb.....	233
7.7	Dulliau Samplu.....	235
7.8	Y feddalwedd a chaledwedd a ddefnyddiwyd.....	235
7.9	Cyfarwyddiadau.....	237
7.10	Y testunau a ddefnyddiwyd yng Nghyfnod B.....	238
7.11	Y Prawf Sgrinio a ddefnyddiwyd yng Nghyfnod B.....	239
7.12	Peilot.....	239
7.13	Dilysrwydd.....	240
7.14	Newidynnau a Rhagdybiaethau.....	240
7.15	Canlyniadau Cyfnod A: Asesiad Ansawdd Dwyieithog.....	243
7.16	Asesiad Ansawdd gan yr Adolygwyr.....	243
7.17	Cysondeb Cyfieithiadau.....	249
7.18	Canlyniadau Cyfnod B: Arbrawf Tracio Llygaid.....	251
8	Casgliad.....	259
8.1	Ymdrech.....	259
8.2	Cynhyrchedd.....	261
8.3	Ansawdd.....	261
8.4	Diwedd glo.....	265
9	Llyfryddiaeth.....	267
10	Atodiadau.....	293
10.1	Atodiad 1: Canllawiau Ôl-olygu.....	293
10.2	Atodiad 2: Testun Arbrofol Arbrawf 1 Rhan I.....	294
10.3	Atodiad 3: Testun Arbrofol Arbrawf 1 Rhan II.....	295

10.4	Atodiad 4: Y Cyfieithiad Awtomatig a ddefnyddiwyd yn Arbrawf 1 Rhan I	296
10.5	Atodiad 5: Y Cyfatebiaethau Rhannol a addaswyd yn Arbrawf 1 Rhan II	297
10.6	Atodiad 6: Cyfieithiadau'r Cyfieithwyr o Arbrawf 1 Rhan I	298
10.7	Atodiad 7: Cyfieithiadau'r Cyfieithwyr o Arbrawf 1 Rhan II	308
10.8	Atodiad 8: Allbwn Seibiannol Translog Arbrawf 1 Rhan I	311
10.9	Atodiad 9: Allbwn Seibiannol Translog Arbrawf 1 Rhan II.....	317
10.10	Atodiad 10: Testunau Arbrolfol yr Arbrawf Cynhyrchedd.....	323
10.11	Atodiad 11: Cyfarwyddiadau'r Arbrawf ar Gynhyrchedd	330
10.12	Atodiad 12: Cyfieithiadau'r Cyfieithwyr o'r Arbrawf Cynhyrchedd.....	332
10.13	Atodiad 13: Y Cyfieithiad a ddefnyddiwyd yn yr Arbrawf Tracio Llygaid	469
10.14	Atodiad 14: Yr Ôl-olygiad a ddefnyddiwyd yn yr Arbrawf Tracio Llygaid.....	470
10.15	Atodiad 15 : Y Prawf Sgrinio a ddefnyddiwyd yn yr Arbrawf Tracio Llygaid.....	471
10.16	Atodiad 16: Y Raddfa Likert a ddefnyddiwyd yn yr Arbrawf Tracio Llygaid.....	472
10.17	Atodiad 17: Sgoriau Ansawdd Adolygydd Un	473
10.18	Atodiad 18: Sgoriau Ansawdd Adolygydd Dau.....	561
10.19	Atodiad 19: Taenlen Gyflawn Sgoriau Cysondeb.....	649

1.1 RHESTR O FFIGURAU

Ffigur 1: Rhyngwyneb system Cof Cyfieithu boblogaidd.....	34
Ffigur 2: Prif rannau'r Ymennydd Dynol. Wedi'i addasu o Clare (1997)	52
Ffigur 3: Model Gile (1995).....	63
Ffigur 4: Model Danks a Griffin (1997).....	65
Ffigur 5: Metrig InEff yn dilyn Carl et al. (2015)	90
Ffigur 6: Rhyngwyneb User	95
Ffigur 7: Sgrin lawn y Swyddogaeth Ailchwarae	96
Ffigur 8: Cynrychioliad Llinellol Supervisor	97
Ffigur 9: Segmentau Hawdd a Chymhleth. A: Segment Cyfieithu, B: Segment Ôl-olygu.....	105
Ffigur 10: Seibiannau a gofnodwyd fesul safle yn y frawddeg a dull cyfieithu (milieiliadau)	135
Ffigur 11: Trawiadau Bysell yn ymwneud ag ysgrifennu anllinellol.....	140
Ffigur 12: Nodau Alffaniwmerig a gynhyrchwyd.....	141
Ffigur 13: Canolrif Cyfanswm yr Holl Drawiadau Bysell a gofnodwyd ar gyfer y ddau grŵp	143
Ffigur 14: Seibiannau a gofnodwyd fesul safle yn y frawddeg a dull cyfieithu (milieiliadau)	146
Ffigur 15: Trawiadau Bysell Prosesau Cynhyrchu Testun Anllinellol	149
Ffigur 16: Nodau Alffaniwmerig a gynhyrchwyd wrth gyfieithu ac wrth addasu'r TM.....	151
Ffigur 17: Canolrif yr Holl Drawiadau Bysell a gofnodwyd ar gyfer y ddau grŵp	152
Ffigur 18: Rhyngwyneb Teclyn DQF sefydliad TAUS	177
Ffigur 19: Amseroedd Prosesu Cyffredinol fesul Cyfatebiaeth	183
Ffigur 20: Canolrif Amser Prosesu pob cyfranogwr fesul math o gyfatebiaeth	186
Ffigur 21: Cymedr WPM ar gyfer pob math o gyfatebiaeth.....	191
Ffigur 22: Sgôr TER yn ôl math o gyfatebiaeth	197
Ffigur 23: Sgôr TER pob cyfranogwr fesul math o gyfatebiaeth	198
Ffigur 24: Hafaliad ar gyfer Cyfrifo Arbedion Amseryddol	200
Ffigur 25: Hafaliad ar gyfer cyfrifo Enillion Canrannol mewn WPM.....	201
Ffigur 26: Cynhyrchedd wedi ei allosod i ddiwrnod gwaith, wythnos a blwyddyn	203
Ffigur 27: Enghraifft o sut y mae cysondeb wedi ei gyfrifo.....	234
Ffigur 28: Sgrin-lun o ryngwyneb GazePlot Analysis.....	236
Ffigur 29: Y fframwaith asesu ansawdd a ddefnyddiwyd ar gyfer Rhan A	237
Ffigur 30: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: Dim Cyfatebiaeth.....	244
Ffigur 31: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: Cyfatebiaethau Rhannol.....	244
Ffigur 32: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: Cyfatebiaethau Llawn	245
Ffigur 33: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: MT	245
Ffigur 34: Sgôr Cysondeb fesul Math o Gyfatebiaeth	250
Ffigur 35: Hyd sylliadau fesul Grŵp.....	253
Ffigur 36: Cyfanswm yr Amser Syllu	254
Ffigur 37: Y sgoriau a roddwyd ar raddfa 5 pwynt Likert	255

1.2 RHESTR O DABLAU

Tabl 1: Enghraifft o Gyfatebiaethau TM	35
Tabl 2: Gwahanol enwau ar rannau penodol o'r broses cyfieithu	55
Tabl 3: Allwedd i symbolau'r Cynrychioliad Llinellol	98
Tabl 4: Y tri math o seibiant a'r prosesau y maent yn eu dynodi.....	102
Tabl 5: Y Newidynnau Dibynnol.....	114
Tabl 6: Rhagdybiaethau Ymdrech.....	117
Tabl 7: Dilysrwydd, yn seiliedig ar O'Brien a Saldanha (2013).....	120
Tabl 8: Data Seibiannol: Cyfieithu ac ôl-olygu allbwn MT.....	138
Tabl 9: Cyfanswm Trawiadau Bysell a Chliciadau Llygoden fesul Segment	142
Tabl 10: Crynodeb o Ddarganfyddiadau Arbrawf: Cyfieithu ac Ôl-olygu allbwn MT	144
Tabl 11: Data Seibiannol: Cyfieithu ac addasu'r TM	148
Tabl 12: Cyfanswm Trawiadau Bysell fesul Segment wrth gyfieithu ac addasu TM.....	153
Tabl 13: Prif Ddarganfyddiadau Arbrawf 1 Rhan II.....	154
Tabl 14: Newidynnau Dibynnol Cynhyrchedd	158
Tabl 15: Rhagdybiaethau'r Arbrawf ar Gynhyrchedd.....	170
Tabl 16: Manylion meintiol am y corpws a ddefnyddiwyd	176
Tabl 17: Dilysrwydd Ymchwil	179
Tabl 18: Cymariaethau Rhwng Parau o'r ANOVA: Amser	182
Tabl 19: Ystadegau Disgrifiadol fesul Cyfatebiaeth (eiliadau)	184
Tabl 20: Ystadegaeth Ddisgrifiadol ar gyfer pob cyfranogwr (eiliadau)	185
Tabl 21: Profion-t Samplau Dibynnol: Dim Cyfatebiaeth v. Cyfatebiaethau Rhannol.....	187
Tabl 22: Profion-t Samplau Dibynnol: Dim Cyfatebiaeth v. MT	189
Tabl 23: Profion-t Samplau Dibynnol: Dim Cyfatebiaeth v. Cyfatebiaethau Llawn	190
Tabl 24: WPM Pob Cyfranogwr yn unigol	191
Tabl 25: Enghraifft o Sgôr TER.....	194
Tabl 26: Arbedion Canrannol: Amser	200
Tabl 27: Enillion Canrannol: WPM	202
Tabl 28: Prif Ddarganfyddiadau Cynhyrchedd	206
Tabl 29: Sgil-ffeithiau posibl defnyddio systemau TM a MT wrth gyfieithu	221
Tabl 30: Modelau Asesu Ansawdd Eraill	228
Tabl 31: Strwythur y fethodoleg a ddefnyddiwyd i fesur ansawdd terfynol testunau	230
Tabl 32: Dilysrwydd Ymchwil	240
Tabl 33: Newidynnau Dibynnol Ansawdd.....	241
Tabl 34: Rhagdybiaethau Ansawdd	242
Tabl 35: Canrannau'r sgoriau a roddwyd gan y ddau olygydd annibynnol	246
Tabl 36: Cydberthyniadau'r Sgoriau Ansawdd	247
Tabl 37: Tueddiad Canolog y Sgoriau Ansawdd	248
Tabl 38: Canolrif Hyd Sylliadau fesul cyfranogwr mewn ms.....	254
Tabl 39: Sgoriau a roddwyd fesul cyfranogwr	255
Tabl 40: Prif Ddarganfyddiadau Ansawdd, Rhan A.....	257
Tabl 41: Prif Ddarganfyddiadau Ansawdd, Rhan B.....	258

1.3 RHESTR O FYRFODDAU

AVOVA	Analysis of Variance
BYS	Cofnodi Trawiadau Byself
EBMT	Example-based Machine Translation
Gtrans	Google Translate
GTT	Google Translator Toolkit
ID	Iaith Darged
IFf	Iaith Ffynhonnell
LLYG	Tracio Llygaid
MT	Machine Translation
RBMT	Rules-based Machine Translation
SMT	Statistical Machine Translation
TAUS	Translation Automation Users Society
TER	Translation Edit Rate
TM	Translation Memory
TPR	Translation Process Research
WPM	Words Per Minute

1.4 RHESTR O DERMAU

Cymraeg

Blinder Cyfranogwyr
Cofnodi Trawiadau Bysell
Cyfatebiaeth
Cymhariaeth Rhwng Parau
Cynhwysedd Cyfyngedig
Dadansoddi Rhwydwaith Dewisiadau
Dilysrwydd Ymchwil
Dyblygadwyedd
Effaith Datgelu'r Canlyniadau a Ddisgwylir
Effeithiau Ymarfer
Gogwydd y gellid ei rannu rhwng cyfranogwyr
Gorolygu
Gwerthusiad derbynnydd
Hyd y Sylliad
Nifer y Sylliadau
Ôl-olygu
Pellter Levenshtein
Plot Syllu
Prosesau Gweithredol
Prosesu Cydamserol
Prosesu Dilyniannol
Protocol Meddwl yn Uchel
Rhagdybiaeth
Samplo Hwylus
Sfferiaeth
Sylliad
Symudiad y Llygad
Ymdrech Amseryddol
Ymdrech Dechnegol
Ymdrech Wybyddol
Ymddygiad Syllu
Ymlediad Cannwyll y Llygad
Ysgogiad

Saesneg

Subject Fatigue
Keyboard Logging
Match
Pairwise Comparisons
Limited Capacity [y Cof Gweithredol]
Choice Network Analysis
Research Validity
Replicability
Unintentional Expectancy Effect
Practice Effects
Intersubject bias
Overediting
Recipient Evaluation
Fixation Duration
Fixation Count
Post-editing
Levenshtein Distance
Gaze Plot
Executive Processes
Parallel Processing
Sequential Processing
Think Aloud Protocol
Hypothesis
Convenience Sampling
Sphericity
Fixation
Saccade / Saccadic Movement
Temporal Effort
Technical Effort
Cognitive Effort
Gaze Behaviour
Pupil Dilation
Stimulus

1.5 RHESTR O GYHOEDDIADAU A PHAPURAU CYNHADLEDD A DDEILLIODD O'R PROSIECT YMCHWIL HWN

Screen, B. 2016a. What Does Translation Memory do to translation? The effect of Translation Memory output on specific aspects of the translation process. *Translation and Interpreting* 8(1), tt. 1-18.

Screen, B. 2016b. What place for technology in the translation of Welsh? Language technology, language planning and the professional translation of Welsh. Cyflwynwyd yn: *2nd Poznan Conference of Celtic Studies*, Poznan, Poland, 5-6 Gorffennaf 2016.

Screen, B. 2017a. Effaith Defnyddio Cofion Cyfieithu ar y broses cyfieithu: Ymdrech a chynhyrchedd wrth gyfieithu i'r Gymraeg. *Gwerddon* 23, tt. 10-38.

Screen, B. 2017b. Machine Translation and Welsh: Analysing free Statistical Machine Translation for the professional translation of an under-researched language pair. *The Journal of Specialized Translation* 28(1), tt. 317-344.

Screen, B. 2017c. Productivity and Quality when editing Machine Translation and Translation Memory Outputs: An Empirical Analysis of English to Welsh Translation. *Studia Celtica Posnaniensia* 2, tt. 119-142.

Mae'r traethawd hwn yn ymchwilio i sut y gall technoleg cyfieithu, sef Cyfieithu Awtomatig a Chofion Cyfieithu, fod o fudd i'r cyfieithydd proffesiynol mewn perthynas ag ymdrech wybyddol, cynhyrchu testun a chynhyrchedd, a sut y gall fod o gymorth o'r herwydd i'r gwaith o greu Cymru ddwyieithog. Ystyrir hefyd yr effaith a gaiff y defnydd o'r technolegau hyn ar ansawdd terfynol y cyfieithiadau, yn ôl cyfieithwyr profiadol a darpar ddefnyddwyr y cyfieithiadau hyn. Defnyddir dulliau ymchwil cofnodi trawiadau bysell a thracio llygaid, ynghyd â theclynnau ymchwil sefydliad *Translation Automation Users Society* (TAUS), sef dulliau nad ydynt wedi eu defnyddio hyd yma wrth ymchwilio i gyfieithu proffesiynol Cymraeg. Mae'r defnydd o dracio llygaid wrth ymchwilio i ansawdd cymharol hefyd yn wreiddiol yn rhyngwladol, a'r astudiaeth hon yw'r gyntaf i ddefnyddio'r dechnoleg hon i ymchwilio i effaith testunau a ôl-olygwyd ar y darllenydd. Hon yw'r astudiaeth gyntaf o'i bath hefyd i ymchwilio i fuddion ymarferol defnyddio technoleg cyfieithu i'r cyfieithydd proffesiynol Cymraeg y tu fewn i fframwaith rhagdybiaethol-diddwythol, gan ddefnyddio ystadegaeth gasgliadol berthnasol. Dengys y canlyniadau fod modd i'r defnydd o dechnoleg cyfieithu hwyluso gwaith y cyfieithydd yn wybyddol, lleihau'r gwaith wrth gynhyrchu testun ynghyd â chynyddu cynhyrchedd cyfieithwyr. Darganfuwyd hefyd nad yw'r defnydd o dechnoleg cyfieithu yn effeithio'n negyddol ar ansawdd cyfieithiadau terfynol, a hynny yn ôl cyfieithwyr proffesiynol profiadol a'r gymuned Gymraeg sy'n darllen gwaith cyfieithwyr. Y traethawd hwn yw'r cyntaf i ddadlau hyn ar gyfer y Gymraeg. Mae'r ymchwil a gyflwynir yma felly yn gyfraniad sylweddol i Astudiaethau Cyfieithu o safbwynt y Gymraeg, gan mai hwn yw'r traethawd cyntaf i ddadansoddi defnyddioldeb Cof Cyfieithu a Chyfieithu Awtomatig ar gyfer cyfieithwyr y Gymraeg mewn un astudiaeth sylweddol. Ar adeg pan fydd cyfieithu i'r Gymraeg yn tyfu (cf. Pennod 2), cyfraniad gwreiddiol y traethawd hwn yw dangos, trwy arbrofion rheoledig, fod Cyfieithu Awtomatig a Chof Cyfieithu yn medru bod yn arfau gwirioneddol bwerus i gyfieithwyr proffesiynol y Gymraeg.

1.7 CYFLWYNIAD

Dadansoddir yn y traethawd ymchwil hwn effaith defnyddio technoleg cyfieithu mewn cyd-destun proffesiynol ar gyfieithu. Telir sylw yn benodol i'r ymdrech ddynol gymharol mewn perthynas â gwybyddiaeth a chynhyrchu testun, cynhyrchedd cyfieithwyr ac ansawdd terfynol testunau. Cyfieithu proffesiynol o'r Saesneg i'r Gymraeg a fydd dan sylw, gan mai o'r Saesneg i'r Gymraeg y mae'r rhan fwyaf o gyfieithu yn digwydd yn y Gymru gyfoes (Prys *et al.* 2009, t. 10). Dewiswyd testunau go iawn o'r sector gyhoeddus, gan eithrio testunau llenyddol yn fwriadol. Testunau anllenyddol yw'r math o destunau a gyfieithir amlaf yng Nghymru heddiw, ac fel y'n hatgoffir gan Cronin (1998, t. 155), "Minority languages arguably need to be as concerned about their technical, commercial and scientific translators as they are about their literary translators, for cultural as well as pragmatic purposes".

Mae ymchwilio i'r agwedd hon ar gyfieithu proffesiynol a'i pherthynas â thechnoleg yn amserol. Yn 2012 yn ei strategaeth iaith *Iaith Fyw, Iaith Byw*, datganodd Llywodraeth Cymru (2012, t. 50) "Rhaid i ni sicrhau [...] fod y proffesiwn cyfieithu yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r offer TGCh sydd ar gael er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, cysondeb a gwerth am arian". Cadarnhaodd ei hymrwymiad i dechnoleg iaith unwaith eto yn ddiweddarach pan ddiweddarwyd y strategaeth yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2011. Yn ei dogfen *Bwrw 'Mlaen*, nododd Llywodraeth Cymru (2014, t. 11) fod "Aildefnyddio cyfieithiadau, Cyfieithu Awtomatig ac awtomeiddio cyfieithu ar gyfer ôl-olygu a rheoli ansawdd gan fodau dynol, fel y gellid gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg" yn un o'i blaenoriaethau mewn perthynas â thechnoleg. Cawn gan y Llywodraeth thema gyson o ran technoleg, sef ei bod yn ddefnyddiol i gyfieithwyr ac felly o fudd i'r Gymraeg. Dyma sydd gan y Llywodraeth i'w ddweud yn ei strategaeth iaith newydd, Cymraeg 2050, "I

gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg [...], mae angen adnoddau digidol, cyfryngau iach ac amrywiol, proffesiwn cyfieithu fodern [sic] sy'n manteisio i'r eithaf ar dechnoleg, ac adnoddau ieithyddol (yn eiriaduron terminolegau a chorpora)" (Llywodraeth Cymru 2017, t. 59). Safbwynt Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â chyfieithu a thechnoleg cyfieithu yw "Gall technoleg iaith gynorthwyo'r cyfieithydd drwy gyflymu a hwyluso ei waith. Gall hefyd gynorthwyo sefydliadau sy'n comisiynu gwaith cyfieithu i sicrhau ansawdd y gwaith a gomisiynir ac i sicrhau gwerth am arian" (Comisiynydd y Gymraeg 2012, t. 6). Mae adroddiad diweddar ar ddyfodol llywodraeth leol a'r Gymraeg hefyd yn nodi bod y defnydd o dechnoleg cyfieithu mewn awdurdodau yn hanfodol, ac mae awduron yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at sut y mae technoleg yn debygol o newid swydd y cyfieithydd yn y dyfodol, "Cwyd y dechnoleg gwestiynau pwysig am rôl y cyfieithydd mewn cyrff cyhoeddus ac i ba raddau y bydd gofyn iddyn nhw gyflawni'r un swyddogaeth yn y dyfodol" (Llywodraeth Cymru 2016, t. 21). Serch hynny, prin yw'r gwaith ymchwil academiaidd sydd wedi mynd ati i fesur unrhyw fuddion ymarferol a ddaw o ddefnyddio technoleg cyfieithu yn briodol yng nghyd-destun y Gymraeg, heblaw am waith Watkins (2013, 2016) ym maes systemau cof cyfieithu.¹ Mae ymchwil Prys *et al.* (2009) a Watkins (2013) hefyd wedi dangos nad yw'r defnydd o systemau Cof Cyfieithu mor uchel ag y gall fod ar hyn o bryd, a bod cyfraddau defnydd yng Nghymru yn is na chyfraddau defnydd rhyngwladol. Yn wir, mae un frawddeg mewn perthynas â thechnoleg Cof Cyfieithu yn adroddiad pum-mlynedd cyntaf Comisiynydd y Gymraeg yn gwbl eglur, "Ymddengys nad yw defnyddio meddalwedd cof cyfieithu wedi'i fabwysiadu

¹ Mae gwaith Watkins yn canolbwyntio ar y Gymraeg ac mae wedi datblygu metrig gwreiddiol i werthuso systemau TM o safbwynt cyfieithwyr. Nod y metrig yw dadansoddi'r enillion amseryddol y gellid eu gwireddu trwy ddefnyddio'r systemau hyn, ac mae'r amser a gymerir i ddarllen allbwn y systemau a'r IFF hefyd yn gynnwysedig ynddo. Ond fel y noda Watkins ei hun (2016, t. 55), "[...] the process of testing the metric 'in the field' with real life translators has yet to be described", sy'n golygu bod canlyniadau'r metrig eto i ddod. O ganlyniad, nid ystyrir y metrig ymhellach ond mae'r awdur hwn yn edrych ymlaen at weld ffrwyth ymchwil Watkins yn y dyfodol.

ar lefel helaeth fel y norm yn y byd cyfieithu Cymraeg/Saesneg” (Comisiynydd y Gymraeg 2016, t. 268).

O ganlyniad, tri nod sydd i'r traethawd hwn. Y cyntaf, a'r pwysicaf o bosibl, yw cyfrannu at yr ymchwil i'r pwnc hwn am y defnydd o dechnoleg cyfieithu mewn cyddestun proffesiynol oherwydd y polisiâu a amlinellwyd uchod, gan ychwanegu at y ddarpariaeth o dystiolaeth ar gyfer polisiâu diweddar mewn perthynas â chyfieithu, cynllunio ieithyddol a thechnoleg cyfieithu. Rhan o hyn hefyd yw pwysigrwydd cyfieithu i gynllunio ieithyddol yn gyffredinol, trafodaeth yr eir i'r afael â hi yn fwy manwl ym Mhennod 2. Yn ail, nifer cyfyngedig o ieithoedd sydd wedi eu dandansoddi hyd yma, ac mae'r ieithoedd Celtaidd ac ieithoedd lleiafrifol yn gyffredinol eto i ddarparu tystiolaeth sylweddol o'u hieithoedd hwy am ddefnyddioldeb technoleg cyfieithu. Fel y dadleuir yn yr adrannau sy'n dadansoddi'r ymchwil ryngwladol, mae'r rhan fwyaf o astudiaethau academaidd perthnasol wedi dangos bod technoleg cyfieithu o fudd mawr i'r cyfieithydd proffesiynol. Mae'n bryd cyfrannu at y maes o safbwynt y Gymraeg felly. Dyna ail nod yr astudiaeth hon. Yn olaf, er bod y llenyddiaeth hyd yma wedi tueddu i anwybyddu ieithoedd lleiafrifol, mae'r corff hwnnw o lenyddiaeth o hyd yn gymharol fach ac mae angen rhagor o ymchwil. Geilw Christensen a Schjoldager (2010, t. 1) a Christensen (2011, t. 155) am fwy o ymchwil ar yr agwedd hon ar gyfieithu proffesiynol yn gyffredinol, ni waeth ymha iaith y'i gwneir; dywed Christensen (2011, t. 155) "The findings of the analysed studies indicate without any doubt TM [translation memory] tools impact on translators' mental processes. Still, empirically documented knowledge about the nature of the mental processes taking place during TM-assisted translation are scarce". Gwna Daelemans a Hoste (2009, t. 9) bwynt tebyg am bwysigrwydd ymchwil ryngwladol yn y maes hwn, "Commercial translation tools such as translation memories and translation workbenches are widely used and their developers claim usefulness in term of

productivity, consistency or quality. However, these claims are rarely proven using objective comparative studies". Mae dirfawr angen astudiaethau o'r fath ar gyfer y Gymraeg felly, fel bod polisi cyfredol â sylfaen empeiraidd gref ac fel bod faint yr ydym yn ei wybod am yr agwedd hon ar gyfieithu proffesiynol yn cynyddu. Nod y canlyniadau a gyflwynir yn yr astudiaeth gyfredol yw cyfrannu at y corff hwnnw o lenyddiaeth angenrheidiol felly, ac o safbwynt iaith leiafrifol sydd bellach â diwydiant cyfieithu proffesiynol.

1.8 CWESTIYNAU YMCHWIL

Ceir isod y tri phrif gwestiwn ymchwil yr eir i'r afael â hwy er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Dyma eu gosod yn y drefn yr ymdrinnir â hwy yn y testun:

CY1: A yw defnyddio systemau Cof Cyfieithu a Chyfieithu Awtomatig yn gwneud y broses o greu cyfieithiad yn haws i'r cyfieithydd yn wybyddol ac yn haws o ran cynhyrchu testun?

CY2: A all y defnydd o'r technolegau hyn gyflymu cyfieithu i'r fath raddau fel bod cynhyrchedd y cyfieithydd, h.y. faint o eiriau y gall ei gynhyrchu fesul uned benodol o amser, yn cynyddu?

CY3: Pa effaith a gaiff y defnydd o'r technolegau hyn ar ansawdd terfynol y testunau gorffenedig, yn ôl darpar ddarllenwyr y cyfieithiadau a chyfieithwyr profiadol sydd â phrofiad o adolygu cyfieithiadau?

Mae'r tri chwestiwn ymchwil hyn yn mapio ar y broses cyfieithu o'i dechrau tan ei diwedd, proses a ddisgrifir ym Mhennod 4. Mae CY1 yn ystyried y broses o feddwl am gyfieithiad a'i deipio, a'r ymdrech gymharol a geir rhwng defnyddio technoleg cyfieithu i wneud hynny a gwneud hynny hebddi. Mae CY2 yn dadansoddi hyd y broses honno, a hynny gan gymharu cynhyrchedd wrth gyfieithu ag eiddo cyfieithu trwy ddefnyddio allbwn technoleg cyfieithu. Mae CY3 wedyn yn ystyried canlyniad y broses honno, sef y

cyfieithiad ei hun a gyflwynir ar ddiwedd y broses o gynhyrchu cyfieithiad. Atebir y cwestiynau hyn y tu fewn i fframwaith rhagdybiaethol-diddwythol, gan osod rhagdybiaethau rhagfynegol mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil uchod. Mesurir nifer o newidynnau dibynnol gwahanol a chaiff y defnydd o dechnolegau cyfieithu ai peidio ei drin yn newidyn annibynnol mewn arbrofion a ddyluniwyd ymlaen llaw. Gwneir hynny mewn ymgais i wrthod Rhagdybiaeth Nwl, sef y rhagdybiaeth nad yw'r defnydd o dechnolegau cyfieithu'n effeithio ar gyfieithu proffesiynol yn y cyd-destun hwn, yn unol â'r arfer mewn gwyddoniaeth arbrofol. Mae ymchwil ar y broses cyfieithu sy'n mynd i'r afael â'r berthynas rhwng technoleg a chyfieithu fel arfer yn canolbwyntio ar ymdrech, cynhyrchedd ac ansawdd yn ôl Teixeira (2013, t. 282), felly gellir ystyried y cwestiynau ymchwil hyn yn astudiaeth o'r broses cyfieithu ar gyfer y Gymraeg hefyd. Troir yn awr at sylfeini'r traethawd hwn, gan ddechrau ag amlinelliad o'r diwydiant cyfieithu Cymraeg yng Nghymru. Eir ymlaen wedyn ym Mhennod 3 i gynnig disgrifiadau o'r ddwy dechnoleg cyfieithu yr ymdrinnir â hwy yn yr astudiaeth hon, cyn trafod y broses cyfieithu ei hun ym Mhennod 4 er mwyn darparu sylfaen wybyddol ar gyfer y traethawd. Bydd Pennod 5 yn mynd i'r afael â diffiniadau a methodolegau'r arbawf a wnaed ar gyfer gwybyddiaeth ac ymdrech a bydd hefyd yn disgrifio'r arbrawf hwnnw a'i ganlyniadau. Nod Pennod 6 yw disgrifio'r arbrawf a wnaed ar gynhyrchedd, ac yn cyflwyno'i ganlyniadau yntau. Troir at ansawdd cyfieithiadau wedyn ym Mhennod 7, lle trafodir perthynas ansawdd â thechnoleg cyfieithu. Wedyn, cyflwynir canlyniadau'r arbrofion a wnaed i fesur ansawdd y cyfieithiadau y cawsant eu cyfansoddi yn yr arbrawf cynhyrchedd. Yn olaf, bydd Pennod 8 yn clymu'r gwahanol linyddau ynghyd ac yn crynhoi holl ganlyniadau'r ymchwil ac yn trafod y goblygiadau.

2 CYFIEITHU PROFFESIYNOL YNG NGHYMRU FEL CYD-DESTUN I'R ASTUDIAETH

Darperir yn y bennod hon gyflwyniad i gyd-destun cyfieithu proffesiynol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Trafodir pwysigrwydd cyfieithu proffesiynol i gynllunio ieithyddol yn y Gymru gyfoes â'r nod o ddadansoddi potensial technoleg cyfieithu i gynllunio ieithyddol a pholisi iaith. Tynnir sylw o ganlyniad at berthnasedd y canlyniadau ymchwil a gyflwynir yn y traethawd hwn.

2.1 CYD-DESTUN CYFIEITHU YNG NGHYMRU

Er yr arferai Llywodraeth Prydain, a rhai sefydliadau eraill megis cwmnïau rheilffordd, ddarparu cyfieithiadau o rai deddfau, posterï a phamffledi i bobl uniaith Gymraeg o bryd i'w gilydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, yn ail hanner yr ugeinfed ganrif y mae sylfeini tyfiant y proffesiwn cyfieithu i'w gweld. Yn ystod y ganrif honno y datblygodd cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn broffesiwn amlwg yng Nghymru (Andrews 2015, t. 6). Daeth cyfieithu yn y ganrif honno yn yrfa ddeniadol i nifer gynyddol o bobl, yn hytrach na bod yn weithred ymylol a wnaed pan godai'r angen (Andrews 2015, t. 6). Er i ymagwedd Llywodraeth Prydain tuag y Gymraeg mewn addysg dirioni rywffaint erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif (Evans 2000, t. 331), pau gymdeithasol Saesneg ei hiaith oedd addysg yng Nghymru ac nid oedd addysg Gymraeg wladwriaethol ar gael tan i ysgol Gymraeg wladwriaethol gyntaf Cymru agor yn Llanelli yn 1947 (Davies 2007, t. 550). Tyfai nifer yr ysgolion cynradd Cymraeg trwy gydol yr ugeinfed ganrif, ac mewn byr o dro sefydlwyd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg cyntaf Cymru; agorwyd y gyntaf yn Sir y Fflint ym 1956 (Davies 2007, t. 588). Oherwydd defnydd isel o'r Gymraeg ym myd addysg yn draddodiadol, daeth cyfieithu adnoddau i'r Gymraeg a bathu terminoleg yn ystod y cyfnod hwn yn hanfodol, ac mae

cyfieithu ac addasu adnoddau addysgiadol o'r Saesneg yn waith pwysig hyd heddiw. Yn dilyn deiseb a lofnodwyd gan dros 360,000 o bobl, pasiwyd Deddf Llysoedd Cymru ym 1942 a roddodd yr hawl i amddiffynnydd Cymraeg ei iaith ddefnyddio'r Gymraeg os medrai brofi y byddai o dan anfantais yn defnyddio'r Saesneg (Powell 1986, t. 298). Nododd y Ddeddf honno hefyd faint y dylid talu cyfieithwyr ar y pryd, ac na ddylai'r amddiffynnydd orfod talu'r cyfieithydd ei hun. Cyfieithwyd rhai dogfennau cyfreithiol hefyd gan gynnwys llwon a chadarnhadau (Davies 2000, t. 224), a thrwy gyfrwng y Ddeddf honno y gwnaeth y Gymraeg gam bach i mewn i fyd gweinyddu cyfiawnder. Caniatwyd cyfieithu ffurflenni etholiadol hefyd ym 1963 pan basiwyd Bil Etholiadau (Ffurflenni Cymraeg) 1963 (Andrews 2015, t. 7).

Yn dilyn gwrthdystiadau a gweithredoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a ffurfiwyd yn 1962, a llwyddiant etholiadol Plaid Cymru mewn manau yn ystod yr un degawd, dygwyd perswâd ar lywodraeth y dydd i sefydlu pwyllgor i ystyried statws a sefyllfa'r Gymraeg, sef pwyllgor a gadeiriwyd gan David Hughes-Parry. Yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 a ddeilliodd o waith y pwyllgor, deddf na chyflawnodd ryw lawer heblaw am gael gwared ar rai cyfyngiadau ar ddefnydd y Gymraeg yn y llysoedd (er gwaethaf ei harwyddocâd ar y pryd), câi gweinidogion ddarparu bod *cyfieithiad* o ffurflen ar gael yn y Gymraeg hefyd. Serch hynny, nid oedd hynny'n orfodol, roedd rhaid i'r ddogfen y dymunid ei chyfieithu gwmpo o dan ystod y Ddeddf ac yn olaf ni châi ei chyfieithu heb ystyried y gost (Johnes 2012, t. 227).² Dylid cydnabod serch hynny y cyfrannodd y Ddeddf at sefydlu disgwrs newydd dros y degawdau nesaf. Un o arall o argymhellion yr adroddiad fu sefydlu uned gyfieithu broffesiynol gyntaf Cymru yn y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd ym 1966 (Andrews 2015, t. 8). Ei chyfieithwyr cyntaf, er gwaethaf diffyg

² Ond fel y noda Berwyn Prys Jones (2005, t. 5) am y Ddeddf hon, "...fe agorodd hi'r *drws* [pwyslais gan Jones], ac mewn gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth fel ei gilydd, agor y drws sy'n bwysig".

hyfforddiant penodol ym maes cyfieithu, oedd y cyfieithwyr cyntaf yn hanes modern y Gymraeg i ennill bywoliaeth fel cyfieithwyr proffesiynol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Parhâi cyfieithu proffesiynol i dyfu wedi hynny, a sefydlwyd unedau cyfieithu eraill mewn rhai o'r cynghorau sir newydd wedi Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bellach, mae gan o leiaf bymtheg o awdurdodau lleol eraill eu hunedau cyfieithu (Núñez 2016, t. 157). Cyflogid cyfieithwyr unigol hefyd yn gynyddol mewn sefydliadau eraill trwy gydol y cyfnod, a Choleg y Drindod Caerfyrddin oedd un o'r rhai cyntaf.

Yn dilyn argymhellion Pwyllgor Bowen (1972), dechreuodd arwyddion ffyrdd ddwyieithog ymddangos yng Nghymru. Trwy gyfrwng arwyddion ffyrdd y mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn ymgysylltu â chyfieithu, o bosibl, ac yn dilyn yr adroddiad a pholisïau ynghylch y dirwedd ieithyddol ddwyieithog yn gyffredinol, mae gwaith cyfieithwyr i'w weld yn amlwg hyd yn oed yn y manau mwyaf anghysbell a diarffordd yng Nghymru.

Wrth i waith cyfieithu'r proffesiwn newydd gynyddu, ysgwyddid y baich yn aml gan gymuned o gyfieithwyr llawrydd, er bod sicrhau ansawdd yn broblem barhaus oherwydd diffyg hyfforddiant a diffyg fframwaith i reoleiddio cyfieithwyr yn nyddiau cynnar y diwydiant (Andrews 2015, t. 9). Cynyddai nifer y cyfieithwyr llawrydd a'r cwmnïau un person hyn o'r 1970au ymlaen. Gyda chyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a'r Saesneg bellach yn cael eu hymarfer gan fwy o bobl nag erioed o'r blaen, cyfarfu grŵp o gyfieithwyr yn Aberystwyth ym 1976 i drafod problemau cyffredin a materion ieithyddol, a phenderfynwyd yn dilyn hynny i ffurfio Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (Andrews 2015, t. 16). Dros y blynyddoedd, datblygodd y Gymdeithas yn gorff proffesiynol ar gyfer cyfieithwyr y Gymraeg, ac mae bellach yn gyfrifol am arholi cyfieithwyr testun a chyfieithwyr ar y pryd. Mae hefyd yn rheoleiddio cyfieithwyr y

Gymraeg trwy gyfrwng ei gweithdrefn cwynion ac yn darparu hyfforddiant penodol ar gyfer rhai agweddau ar y proffesiwn. Ffurfiwyd ei chyfansoddiad presennol ym 1987 a daeth yn aelod o Fédération Internationale des Traducteurs (*Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfieithwyr*) yn fuan wedi hynny (Andrews 2015, t. 15).

Gwelodd y 1980au a'r 90au fwy o dwf yn yr hyn a ddaeth maes o law yn ddiwydiant cyfieithu Cymraeg. Parhaodd sefydliadau cyhoeddus i gyflogi'u cyfieithwyr eu hunain a sefydlwyd pedwar o gwmnïau cyfieithu mwyaf Cymru yn ystod y cyfnod hwn, sef *Trosol* yn Llandaf ym 1983, *Cymen* yng Nghaernarfon ym 1987, *Prysg* ym 1989 sydd bellach yng Nghaerdydd, a *Testun* ym 1994, hefyd yng Nghaerdydd. Mae'r cwmnïau hyn o hyd yn bod ac erbyn hyn maent yn cyflogi degau o gyfieithwyr proffesiynol a staff gweinyddol yr un.

Sefydlwyd sylfeini'r diwydiant felly yn y 1980au a'r 90au hwyr. Creodd dyfodiad S4C ym 1982 waith is-deitlo a chyfieithu, creodd yr ysgolion Cymraeg niferus yr angen i gyfieithu adnoddau megis gwerslyfrau, ac yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 cynyddodd baich gwaith y diwydiant cyfieithu yn ystod y nawdegau hwyr. Er mwyn i sefydliadau a oedd yn ddarostyngedig i'r Ddeddf hon fedru cydymffurfio â'i gofynion (erbyn 2012 roedd 552 o gynlluniau iaith mewn grym (Comisiynydd y Gymraeg 2013, t. 34)), roedd pob math o destunau bellach yn cael eu cyfieithu. Ond yr hwb mwyaf i gyfieithu yn y cyfnod diweddar fu sefydlu llywodraeth ddatganoledig i Gymru, ar ffurf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi hynny yn sgil hollti'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru erbyn hyn). Daeth datganoli â'i heriau ei hun i ddiwydiant cyfieithu'r Gymraeg; bellach roedd angen gweithlu o gyfieithwyr, cyfieithwyr deddfwriaethol, terminolegwyr a chyfieithwyr ar y pryd i wasanaethu senedd ddwyieithog, ei phwyllgorau a phob adran y Llywodraeth. Crëwyd un uned gyfieithu ar gyfer y sefydliad newydd ym 1999, ond erbyn 2006 roedd

yr uned wedi'i hollti'n ddwy rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays a'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd (pan holltwyd y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth) (Kaufman 2010, t. 174). Mae cyfieithwyr yn gweithio yn swyddfeydd eraill y Llywodraeth hefyd bellach, sef swyddfeydd Aberystwyth, Caerfyrddin a Chyffordd Llandudno.

Mae'r diwydiant cyfieithu wedi tyfu'n gyfochrog â datblygiadau ym maes cynllunio ieithyddol a pholisi iaith yng Nghymru (Jones 2005; Kaufman 2010, 2012; Andrews 2015).³ Mae cyfieithu proffesiynol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wedi newid o fod yn weithred ymylol i ddiwydiant sy'n cyflogi cannoedd o siaradwyr Cymraeg, ac yn rhan bwysig o 'ethos' y Gymru ddwyieithog sydd ohoni (Miguélez-Carballeira *et al.* 2016, t. 125). Nid yw'r swyddogaeth bwysig sydd gan gyfieithu yn y broses o adfer ieithoedd lleiafrifedig yn amddifad o ymchwil academiaidd. Fel y dywed González (2005, tt. 110-111) wrth drafod lle cyfieithu proffesiynol mewn cynllunio ieithyddol ac ieithoedd lleiafrifedig:

In the case of minority languages [...] translation is an activity that has to be fostered and activated, as a mechanism to promote the language itself. In other words, translation is no longer an underlying element of communication, but an essential tool in the process of language recovery or preservation.

Rhy syml o lawer—naif o bosibl—fyddai cysyniadoli cyfieithu proffesiynol felly fel gwasanaeth a ddarperir i alluogi poblogaethau anghyfiaith i ddeall ei gilydd yn unig. Dylid ystyried cyfieithu proffesiynol yn broses sydd â swyddogaethau ehangach o lawer, yn enwedig yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifedig (Fouces 2005). Mae cyfieithu arwyddion ffyrdd, er enghraifft, nid yn unig yn galluogi gyrrwyr Cymraeg eu hiaith i ddarllen yn y Gymraeg neu barchu enwau Cymraeg hanesyddol ar bentrefi, trefi

³ Hawdd cytuno â Meylaerts (2011, t. 744) pan ddywed na all polisïau iaith fod heb bolisïau cyfieithu.

a dinasoedd, mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth am dreftadaeth y Gymraeg ac am statws cyfreithiol yr iaith. Trwy gyfieithu gwefannau a dogfennaeth i'r Gymraeg, fe sicrhewr bod modd defnyddio'r iaith. Mae hefyd yn cyfrannu'n fawr at y gwaith o'i normaleiddio. Mae gan gyfieithu proffesiynol i'r iaith lleiafrifedig felly rym symbolaidd, yn ogystal â swyddogaeth gyfathrebu. Eto, mae González (2005, t. 111) yn geirio'r berthynas hon rhwng cyfieithu proffesiynol i ieithoedd lleiafrifedig â'i swyddogaethau niferus yn ddestlus:

When treating translation as a mere tool to enable understanding between two parties, at least in the context of minority languages, we are clearly forgetting an essential aspect of the activity: its role in language normalisation processes (i.e. in the attempts to cause a language to be *normally* [pwyslais gan González] used in all spheres of a speech community) can be of equal or even more importance for such languages than the communicative function itself.

Nid yw González yn dadlau nad oes gan gyfieithu i ieithoedd lleiafrifedig (neu ohonynt) swyddogaeth gyfathrebu. Yng nghyd-destun y Gymraeg, mae cyfieithu ar y pryd yn amlwg o fudd i'r sawl na all ddeall y Gymraeg. Ond hyd yn oed wedyn, mae'n debygol y byddai'r siaradwr Cymraeg y cyfieithir ei eiriau hefyd yn medru'r Saesneg. Unwaith eto dyma swyddogaeth ehangach cyfieithu a'i symbolaeth yn dod i'r amlwg, gan fod darparu cyfieithydd ar y pryd yn datgan yn bendant fod gan y Gymraeg statws swyddogol a bod gan ei siaradwyr hawliau i'w siarad, er gwaethaf gallu'r siaradwr Cymraeg i gyfathrebu yn y Saesneg.

Mae pwysigrwydd cyfieithu i gynllunio ieithyddol yng Nghymru wedi ei gydnabod. Adlewyrchir hynny gan faint y diwydiant cyfieithu, datblygiadau academiaidd diweddar a chan ddatganiadau polisi hanesyddol a chyfredol. Amcangyfrifir bod cynifer â 500 o

gyfieithwyr yn gweithio rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru (Jones 2015, t. 91), ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Mewn perthynas â datblygiadau academaidd, mae ennill bywoliaeth fel cyfieithydd yn ddewis poblogaidd i raddedigion y Gymraeg, a chynigir modiwlau cyfieithu proffesiynol cyfrwng Cymraeg ym mhrifysgolion Cymru. Mae hefyd yn bosibl dilyn cwrs MA ym maes Astudiaethau Cyfieithu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac astudio technoleg cyfieithu ym Mhrifysgol Abertawe a Bangor (Declercq 2015a, t. 366). Yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gaerfyrddin 2014, llofnododd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol femorandwm cyd-ddealltwriaeth, a'i nod yw "Cadarnhau'r egwyddorion a'r meysydd cydweithio rhwng y Gymdeithas a'r Coleg ar faterion yn ymwneud â chyfieithu" (Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 2016). Wrth ymateb ar wefan newyddion Gymraeg Golwg360 i femorandwm tebyg a lofnodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, datganodd y Comisiynydd, Meri Huws, ei barn ynghylch lle cyfieithu a chynllunio ieithyddol yng Nghymru, "Fel sefydliad rydym yn ymroddedig i hwyluso'r rhwydwaith sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg gan unigolion a sefydliadau, ac mae proffesiynoldeb y maes cyfieithu yn greiddiol i hyn" (Golwg360 2012).

Er bod y Llywodraeth wedi cydnabod nad yw cyfieithu ar ei ben ei hun yn ddigon i normaleiddio'r iaith,⁴ mae wedi cydnabod serch hynny bwysigrwydd cyfieithu yn ei strategaeth iaith flaenorol, sef *Iaith Fyw, Iaith Byw* (Llywodraeth Cymru 2012). Roedd gan y strategaeth honno chwe maes strategol, sef Y Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Y Gymuned, Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg a'r Seilwaith (Llywodraeth Cymru 2012, t. 16). Un o

⁴ Dywed y Llywodraeth mewn perthynas â hyn "Rhaid i ni roi'r gorau i feddwl am y Gymraeg yn nhermau cyfieithu a'i hystyried yn rhan naturiol o fywyd bob dydd yng Nghymru" (Llywodraeth Cymru 2012, t. 4).

bwyntiau gweithredu'r trydydd maes strategol, sef 'Y Gymuned', oedd "Ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau ei bod hi'n haws i grŵpiau cymunedol a chyrrff y trydydd sector fanteisio ar wasanaethau cyfieithu" (Llywodraeth Cymru 2012, t. 36). O dan y maes strategol olaf, sef 'Y Seilwaith', ceid hefyd drafodaeth benodol ar swyddogaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Ar y cyd â nodi pwysigrwydd hyfforddiant cyfieithu, nodar Llywodraeth (2012, t. 50):

Rhaid bodloni'r galw am gyfieithwyr proffesiynol a chyfieithwyr ar y pryd proffesiynol sy'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn diwallu'r angen am ddogfennau dwyieithog a chyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae'r diwydiant wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn cydnabod bod angen parhau â'r gwaith hwn, gan wneud yn siŵr fod yna strwythurau achredu a rheoleiddio cadarn yn eu lle i sicrhau ansawdd.

Nid yw'r adnabyddiaeth hon o bwysigrwydd cyfieithu i lwyddiant polisi iaith wedi newid. Yn y strategaeth iaith ddiweddaraf, *Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg*, dywed y Llywodraeth (2017, t. 73) fod "[...] Llywodraeth Cymru'n awyddus i weld y proffesiwn yn esblygu ac yn addasu ar gyfer y dyfodol er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r strategaeth hon wrth i'r Gymraeg gael ei normaleiddio fwyfwy". Mae'r corff sydd bellach yn gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth â gofynion Mesur y Gymraeg (2011), sef Comisiynydd y Gymraeg, hefyd yn ymwybodol o natur ganolog cyfieithu i gynllunio ieithyddol yng Nghymru a llwyddiant sefydliadau i gydymffurfio ag ef. Mae Comisiynydd y Gymraeg o ganlyniad wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch cyfieithu proffesiynol, sef *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd* (Comisiynydd y Gymraeg 2014).⁵

⁵ Fersiwn wedi ei ddiweddarau o ddogfen *Dogfen Cyngor: Y Gymraeg, cyfieithu a thechnoleg* (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2011) yw hwn.

Noda Folaron (2015, t. 17) a González (2005, t. 114) natur hanfodol polisiau cyfieithu, neu o leiaf bolisiau iaith sy'n barod i gydnabod safle allweddol cyfieithu proffesiynol yn y broses o roi'r polisiau iaith hyn ar waith yn ymarferol. Fel y dywed Folaron (2015, t. 17), ag ychydig o rwystredigaeth yn y dweud, "official language policies do not always confer equal importance or value to the translation policies that naturally would seem to accompany them; they are not always meticulously implemented or may remain invisible". Mae Núñez (2016, t. 35) yn cytuno, "Translation is often overlooked in the debate over language rights". Nid felly y mae yng Nghymru; ymddengys fod cynllunwyr iaith yn barotach na'u cymheiriaid rhyngwladol i gydnabod pwysigrwydd cyfieithwyr proffesiynol, o gofio'r sylw y mae'r diwydiant cyfieithu wedi ei dderbyn mewn gwahanol strategaethau iaith.

Mae datblygiadau diweddar felly yn cadarnhau nad gweithred ddi-bwys yw cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, eithr proffesiwn datblygedig sydd yng nghanol cynllunio ieithyddol a pholisi iaith mewn cymdeithas ddwyieithog gyfoes. Hanfodol yw nodi, serch hynny, nad yw pwysigrwydd cyfieithu wedi'i gyfyngu i gynllunio ieithyddol *statws* a pholisi iaith a'r gwaith o normaleiddio'r Gymraeg yn gyffredinol. Mae cyfieithu yn cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â chynllunio ieithyddol hefyd, gan gynnwys cynllunio ieithyddol *corpws* a *chaffael*, fel y'n hatgoffir gan O'Connell a Walsh (2006) a Ní Ghearáin (2007). Mae cyfieithu i'r iaith leiafrifol yn poblogeiddio terminoleg ac yn creu'r angen i'w datblygu a'i safoni. Mae'r broses o drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf, swyddogaeth a gyflawnir gan ysgolion Cymraeg yn ogysytal â chan rieni, yn dibynnu'n helaeth ar adnoddau cyfrwng Cymraeg, adnoddau sydd yn aml yn gyfieithiadau o adnoddau Saesneg. Mae arlwy S4C i blant, gwasanaeth hollbwysig i gynllunio ieithyddol *statws* a *chaffael*, hefyd yn cynnwys elfen gref o ddybio rhaglenni a wnaed yn Saesneg, ac mae cyfieithu is-deitlau i'r Saesneg a'u creu ar gyfer y Gymraeg yn

waith a wneir gan gyfieithwyr yn ogystal â chan ieithyddion proffesiynol eraill. Mae defnyddioldeb cyfieithu i'r agweddau hyn ar gynllunio ieithyddol yn gwanhau safbwynt y rhai a fyddai'n dadlau y dylai gwaith cyfieithu gael ei flaenoriaethu a'i bod weithiau yn dderbyniol gadael rhai testunau Saesneg yn y Saesneg. Gan ystyried profiad Cymru o gyfieithu a sut y mae cyfieithu proffesiynol wedi datblygu ac aeddfedu yng nghyd-destun sylwadau González (2005) uchod felly, fe welir bod swyddogaethau symbolaidd cyfieithu a'i rôl wrth newid perthnasau grym rhwng ieithoedd lleiafrifedig ac ieithoedd mwyafrifol hefyd ar waith yn y wlad hon. Wrth drafod polisiau iaith yng Ngogledd Iwerddon, dywed Núñez (2013) fod y polisiau cyfieithu a ddeillia ohonynt yn cael eu datblygu gan ystod o wahanol weithredyddion cymdeithasol ar nifer o lefelau gwahanol, a bod y polisiau a gweithredoedd cyfieithu hyn wedyn yn rhyngweithio â nifer o sectorau a meysydd o fewn y gymdeithas. Mae'r polisiau hyn yn creu 'gwe organig' (ibid, t. 486), sy'n effeithio ar ddewisiadau iaith a'r defnydd o ieithoedd gan unigolion a sefydliadau fel ei gilydd. O ran effeithio ar ddewisiadau iaith a llwyddiant polisiau dwyieithog, mae Núñez (2016, t. 129) eto yn llygad ei le wrth ddadlau, gyda golwg ar gyfieithu yng Nghmru, fod gan gyfieithu swyddogaeth hanfodol:

However, when the language being promoted is not the dominant language, translation becomes a tool that helps to create the conditions for learners and speakers of the promoted language to use it in a meaningful way. This is especially true when the policy aim is the creation of a bilingual society.

Pe bai canlyniadau'r ymchwil a gyflwynir yn y traethawd hwn felly yn cefnogi'r safbwynt bod y defnydd o dechnoleg cyfieithu yn cyflymu gwaith cyfieithwyr gan ei gwneud yn bosibl iddynt gynhyrchu mwy, o ystyried y rôl sydd gan gyfieithu proffesiynol wrth adfer a normaleiddio ieithoedd lleiafrifedig, gellid dadlau wedyn y dylai'r defnydd o dechnoleg cyfieithu hefyd gyfrannu'n helaeth at ddyfodol hirdymor yr iaith Gymraeg. Ond

wrth ddadlau hyn, mae angen gwneud dau bwynt yn glir. Yn gyntaf, a chan gytuno'n llwyr â safbwynt Llywodraeth Cymru bod cynllunio ieithyddol yn llawer mwy na chyfieithu, mae'r broses o adfer y Gymraeg yn gorfod cwmpasu llawer mwy na chyfieithu os yw am lwyddo; golyga normaleiddio'r Gymraeg yng Nghymru lawer mwy na sicrhau y gellir darllen cyfieithiadau o ddogfennaeth a gwefannau Saesneg. Yn ail, ni ddymunir honni yma ychwaith fod cyfieithu o reidrwydd yn llesol i'r Gymraeg bob tro, yn enwedig wrth ystyried cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg a'r broses o ddileu gofodau uniaith Gymraeg; naïrwydd deallusol fyddai dadlau fel arall. Dywed Cronin (1998, t. 148) "Translation is never a benign process *per se* and it is misleading to present it as such". Ond fel y dadleuwyd uchod serch hynny, fe fydd y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru yn parhau i fod yn elfen anhepgor o gynllunio ieithyddol, felly tâl inni ddadansoddi y tu fewn i fframwaith empeiraidd pa gymorth y gall technoleg cyfieithu ei gynnig i gyfieithwyr proffesiynol y Gymraeg. Ond beth yn union yw'r technolegau hyn? Disgrifir yn y bennod nesaf y ddwy brif dechnoleg cyfieithu a ddadansoddir yn y traethawd hwn.

3 CYFIEITHU AWTOMATIG A CHOFION CYFIEITHU

Cyflwynir yn y bennod hon amlinelliad o'r ddwy brif dechnoleg iaith yr ymchwilir iddynt yn yr astudiaeth gyfredol, sef Cyfieithu Awtomatig ('*Machine Translation*' [MT o hyn allan])⁶ a Chof Cyfieithu ('*Translation Memory*' [TM o hyn allan]). Bwriad y bennod hon yw diffinio'r technolegau hyn a chynnig bras ddadansoddiad o sut y maent yn gweithio, a hynny er mwyn darparu'r ail gyd-destun i'r traethawd hwn.

3.1 DIFFINIADAU O DECHNOLEG MT A CHYFYNGIADAU ARNI

Yn ôl diffiniad Hutchins a Somers (1992, t. 3) MT, neu'r broses o 'gyfieithu testun X yn awtomatig', yw'r broses o ddefnyddio meddalwedd i gyfieithu testun ysgrifenedig neu iaith lafar o un iaith ddynol i iaith ddynol arall â rhywfaint o gymorth gan fod dynol, neu heb unrhyw gymorth gan fod dynol.⁷ Defnyddir diffiniad tebyg gan y *Dictionary of Translation Studies*, sef "Translation which is performed wholly or partly by computer" (Shuttleworth 1997, t. 87). Cyn trafod y gwahanol fathau o systemau sy'n ceisio gwneud hyn, mae angen nodi safbwynt athronyddol cefndirol yr astudiaeth hon mewn perthynas â MT a chyfieithu:

1. Yn gyntaf, ni ddylid disgwyl i systemau MT fedru cyfieithu iaith ddynol cystal â chyfieithydd dynol yn ddi-ffael, h.y. creu allbwn sy'n ramadegol gywir ac yn ffyddlon i'r gwreiddiol, a hynny yn gyson (Guerra 2000, t. 22);
2. Yn ail, ni fydd systemau cyfieithu byth yn disodli cyfieithwyr dynol proffesiynol, bydd eu hangen o hyd a nod MT yw bod o *gymorth* iddynt mewn cyd-destun cyfieithu a lleoleiddio proffesiynol (Guerra 2000, t. 22). Mae'n debygol y bydd patrymau gwaith

⁶ Os oes angen cyfeirio yn benodol at '*Statistical Machine Translation*' (gweler isod), defnyddir SMT. Fel arall, wrth gyfeirio at Gyfieithu Awtomatig yn gyffredinol, defnyddir MT.

⁷ Byddai'r cymorth hwn yn cynnwys cyn-olygu, sef addasu'r testun cyn ei brosesu gan system MT, h.y. defnyddio iaith reoledig, ac ôl-olygu, sef cywiro'r allbwn ar ôl ei brosesu. Trafodir ôl-olygu isod oherwydd ei safle gwbl ganolog i'r defnydd o MT mewn cyd-destunau cyfieithu proffesiynol, sef ffocws yr astudiaeth hon.

cyfieithwyr yn newid ynghyd â'r tasgau y bydd disgwyl iddynt eu cyflawni mewn rhai achosion, ond bydd gwaith gan gyfieithwyr o hyd;

3. Yn drydydd, nid yw'n bosibl mewnbynnu unrhyw destun ar unrhyw bwnc a'i gyfieithu â chyfrifiadur yn llwyddiannus (Arnold et al. 1994, t. 12; Koby 2001, t. 5); bydd natur neu bwnc y testun ffynhonnell yn pennu addasrwydd y dull hwn o gyfieithu (Newton 1992, t. 7; Quah 2006, t. 89). Noda Quah (2006, t. 89) mai testunau sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol, sydd gan amlaf yn destunau cyfyngedig eu pynciau a'u harddull, yw'r dogfennau mwyaf addas ar gyfer MT. Byddai testunau cyfreithiol, testunau addysgiadol, llawlyfrau, erthyglau technegol ymysg mathau eraill o ddogfennau ffeithiol yn enghreifftiau da. Disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o ddogfennaeth a grëir gan y sector gyhoeddus yn hynny o beth yn addas i gael ei chyfieithu'n rhannol gan system MT cyn iddi gael ei hôl-olygu. Ni ddisgwylir y bydd MT yn addas ar gyfer cyfieithu diwylliannol a chreadigol megis hysbysebu neu gyfieithu llenyddol (Newton 1992, t. 7; Jones et al. 2001, t. 92; Koby 2001, t. 13; Carl et al. 2015, t. 147).

Erys cyfieithu awtomatig llawn ac o ansawdd uchel yn freuddwyd heb ei gwireddu o hyd, ac fe'i hystyrir yn ymgais ofer gan rai oherwydd cymhlethdod ieithoedd dynol gan sawl ysgolhaig (cf. Kay 1997; Wilks 2009). Mae'n debygol bod annealltwriaeth o hynny wrth wraidd nifer fawr o achosion o gamgyfieithiadau yn nhirwedd ieithyddol Cymru, sydd â chanlyniadau digrif (a pheryglus⁸). Yn wir, mae cynifer ohonynt fel bod dwy gyfrol wedi eu cyhoeddi sy'n eu cofnodi (James 2011; James 2013). Mae deall galluoedd a chyfyngiadau'r dechnoleg yn hollbwysig, ac ni ddylid ei defnyddio yn lle cyfieithwyr dynol mewn cyd-destunau lle mae angen cyfieithiad cywir o ansawdd uchel at ddefnydd y cyhoedd yn dilyn deddfwriaeth iaith. Gwnaed y pwynt hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (2006, t. 21), ac mae ei olynnydd, sef Comisiynydd y Gymraeg, hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd defnydd priodol o dechnoleg MT a lle canolog y cyfieithydd proffesiynol (2012, t. 9). Troir unwaith yn rhagor at gysyniad 'defnydd priodol' pan drafodir y broses

⁸ Un enghraifft enwog yw dau arwydd a nododd i ba gyfeiriad y dylai cerddwyr edrych wrth groesi heol. "Look to the right" oedd y Saesneg, ond "Edrychwch i'r chwith" oedd y gorchymyn Cymraeg a ymddangosodd yng Nghaerdydd yn 2009 (BBC 2009), a "Look to the left" oedd y Saesneg ac "Edrychwch i'r dde" oedd y gorchymyn Cymraeg a ymddangosodd yn y gogledd-orllewin yn 2006 (BBC 2006). Ni fyddai cyfieithydd dynol wedi gwneud y gwallau sylfaenol hyn, ac roedd iddo ganlyniadau posibl peryglus iawn.

ôl-olygu yn Adran 3.4 isod. Cyn hynny, trafodir y mathau o systemau MT sydd ar gael heddiw.

3.2 MATHAU O MT

Mae gwahanol fathau o systemau MT; yn draddodiadol, y tri phrif fath yw cyfieithu awtomatig ar sail rheolau (Rules-Based MT [RBMT o hyn allan], cyfieithu awtomatig ar sail ystadegau (Statistical Based MT [SMT o hyn allan], cyfieithu awtomatig ar sail enghreifftiau (Examples-Based MT [EBMT o hyn allan]) a systemau aml-beiriant sy'n gyfuniad o bob un neu o leiaf ddau o'r dulliau uchod (Somers 2004; Ping 2009). Mae RBMT yn draddodiadol wedi gweithio ar sail tri strwythur cyfrifiadurol; RBMT uniongyrchol, RBMT gyda strwythur trosglwyddo ac RBMT gyda strwythur rhyng-ieithyddol (Austermühl 2010, t. 158). RBMT gyda strwythur trosglwyddo yw'r prif fath ar RBMT erbyn hyn (Hartley 2009, t. 122). Gan fod SMT ac EBMT yn seiliedig ar feintiau anferth o ddata a elwir yn 'gorpws cyfochrog', defnyddir y termau ymbarél 'MT ar sail corpws' neu 'MT Empeiraidd' hefyd (Hutchins 2003, t. 504).

3.2.1 MT ar sail rheolau

Fel y mae'r enw yn awgrymu, mae RBMT yn gweithio ar sail rheolau gramadegol, a chynrychiolir y rheolau mewn modd y mae'r cyfrifiadur yn medru ei ddeall. Gall y rheolau hyn fod yn gymhleth a maent fel arfer yn dadansoddi ieithoedd yn forffolegol, cystrawennol a semantaidd (Hutchins 2003, t. 505; Quah 2006, t. 70). Mae nifer fawr o systemau masnachol sydd ar waith heddiw yn seiliedig ar y dull hwn (Bennett a Gerber 2003, t. 176; Somers 2004, t. 9).

Ysgrifennir yr holl reolau hyn gan ieithyddion cyfrifiadurol sydd wedi astudio'r ieithoedd dan sylw ac yn ysgrifennu gramadegau 'cyfrifiadurol' i gyd-fynd â gramadegau 'ieithyddol' yr ieithoedd (Somers 2004, t. 8; Qun a Xiaojun 2015, t. 111). Gwneir hynny â chymorth gwahanol ffurfiolaethau ar gyfer ysgrifennu rheolau o'r fath (Somers 2004, t. 8). Mae ffurfiolaethau yn ddulliau cryno o ddisgrifio gramadeg iaith; rheolau cynhyrchu yw'r ffurfiolaethau hyn sy'n nodi sut y mae creu brawddegau (a elwir yn 'ddilyniannau' neu '*strings*') sy'n gystrawennol gywir (Aitchison 2010, t. 85). Hefyd, defnyddir meddalwedd gysylltiedig a all brofi'r gramadegau ar y cyfrifiadur, ac mewn rhai achosion mae rhai ymchwilyr yn defnyddio meddalwedd gymhleth a soffistigedig a all wirio cysondeb a chywirdeb gramadegau a gwirio am dra-dyblygiad.

Dull gwreiddiol RBMT oedd y dull 'uniongyrchol'; h.y. defnyddid geiriadur cyfrifiadurol a pharswr â rhai rheolau cystrawennol syml i drosi'r Iaith Ffynhonnell (IFf o hynny ymlaen), sef yr iaith y cyfieithir ohoni, i'r Iaith Darged (ID o hynny ymlaen), sef yr iaith y cyfieithir iddi, heb fawr o ddadansoddi gramadegol (Dorr et al. 1998, t. 14). Derbynnir yn gyffredinol nad tasg o drosi air am air o'r naill iaith i'r llall yw cyfieithu, felly nid anodd gweld pam nad yw'r dull hwn yn boblogaidd ymhlith ymarferwyr nac ymchwilyr bellach. Heb unrhyw ystyriaeth, neu ystyriaeth gyfyngedig, o gystrawen wahanol yr ID, ni allai'r dull hwn ymdopi â strwythurau cystrawennol cymhleth, yn enwedig pan fo'r ddwy iaith â chystrawennau gwahanol iawn (Dorr *et al.* 1998, t. 15). Mae'r dull hwn bellach yn anghyffredin, ac ychydig iawn o systemau ar waith heddiw sy'n seiliedig ar y paradeim hwn (Austermühl 2010, t. 160).

Mae'r ail ddull, sy'n seiliedig ar 'systemau trosglwyddo', yn gwbl wahanol i'r dull cyntaf gan ei fod yn dadansoddi'r ddwy iaith mewn proses gyfrifiadurol sydd â thri cham (Quah 2006, t. 73; Austermühl 2010, t. 161). Nod gwreiddiol y dull hwn oedd creu

cyfieithiadau a oedd yn gystrawennol gywir ac o'r herwydd fe'i gelwir yn ddull 'ail genhedlaeth' o MT (Dorr *et al.* 1998 t. 15; Somers 2004, t. 6). Seilir y dull hwn ar ddamcaniaethau ieithyddol cyflawn a chysyniadau ieithyddol megis '*dependency grammar*' neu '*context-free grammar*' sydd wedi'u haddasu ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol trwy'r defnydd o ffurfiolaethau, ac nid ar reolau ieithyddol unigol (Quah 2006, t. 32; Austermlühl 2010, t. 161; Shiwen a Xiaojing 2015, t. 186).⁹ Yn gyntaf, dadansoddir yr IFf yn forffogystrawennol gan ddefnyddio geiriadur IFf a pharswr; canlyniad hynny yw cynrychioliad haniaethol o'r IFf ar ffurf coeden gystrawen (Guerra 2000, t. 60; Somers 2004, t. 8; Austermlühl 2010, t. 161). Yn yr ail gam, trosglwyddir y cynrychioliad haniaethol o'r IFf i gynrychioliad strwythurol o'r ID ac eto mae hwn ar ffurf strwythur coeden fel arfer (Guerra 2000, t. 61; Austermlühl 2010, t. 161). Y cam olaf yw 'cynhyrchu'r' cyfieithiad trwy ddefnyddio gramadeg sy'n seiliedig ar yr ID a generadur (Dorr *et al.* 1998, t. 15; Guerra 2000, t. 61). Mae'r cynrychioliad haniaethol o'r ID yn dod yn destun darllenadwy yn yr ID gan ddefnyddio rheolau 'mapio' (gweler Guerra 2000, t. 61 am enghraifft o hyn).

Y dull olaf a ddefnyddir ym maes RBMT yw dull sy'n seiliedig ar ryng-iaith neu '*interlingua*'. Craidd cysyniadol y dull hwn yw ei bod yn bosibl cynrychioli pob mynegiant semantaid iaith â symbol haniaethol sy'n annibynnol ar yr iaith ei hun, h.y. rhaid i'r cynrychioliadau hyn fod yn ieithyddol niwtral (Guerra 2000, t. 63; Jones *et al.* 2001, t. 95; Quah 2006, t. 71). Mae'r dull yn rhagdybio bod un syniad creiddiol, gwaelodol sy'n perthyn i'r lecsicon neu idiom, ni waeth sut y mae'r iaith yn ei fynegi yn ieithyddol. Mae hefyd yn rhagdybio ei bod yn bosibl cynrychioli hynny â rhyw fath o god neu symbol, ac

⁹ Mae '*context-free grammar*' yn theori ieithyddol a ddefnyddir i ddisgrifio pob cystrawen posibl mewn gramadeg iaith gan ddefnyddio rheolau cynhyrchu. Mae '*dependency grammar*' yn theori gystrawennol a ddadleua mai'r ferf yw prif elfen brawddeg a bod pob gair mewn brawddeg wedi ei gysylltu â'i gilydd gan ddolenni uniongyrchol o'r enw '*dependencies*'.

o'r cod hwn y caiff yr ID ei chreu (Dorr *et al.* 1998, t. 17). Fel y mae Dorr *et al.* (2006, t. 1) yn nodi, "An interlingua is a notation for representing the content of a text that abstracts away from the characteristics of the language itself and focuses on the meaning (semantics) alone". Mae'r symbolau hyn yn cynrychioli cysyniadau megis gwrthrychau, digwyddiadau, gwahanol berthnasau, teimladau neu ansoddau (Dorr *et al.* 2006, t. 3). Mae'r syniad bod ieithoedd ond yn fantell y meddwl a'u bod yn god sy'n cynrychioli syniadau creiddiol, ni waeth sut y mae pobloedd neilltuol yn eu mynegi ar lafar, yn un hynafol ac mae ei wreiddiau yn ddwfn yn hanes athroniaeth ieithyddol y Gorllewin (Bellos 2011, t. 258). Hyd yn hyn ychydig iawn o systemau sydd ar waith sy'n defnyddio'r dull hwn, a dim ond un sydd erioed wedi'i marchnata a'i rhoi ar waith (Dorr *et al.* 2006, t. 1; Wilks 2009, t. 97; Dickinson *et al.* 2013, t. 189).

3.2.2 Cyfieithu awtomatig ar sail ystadegau

Mae ymchwil ym maes SMT wedi cynyddu'n aruthrol yn ddiweddar (Lopez 2008, t. 2) a myn rhai mai llwyddiant cymharol ymchwilwyr i greu cyfieithiadau derbyniol yw'r rheswm dros ei boblogrwydd cyfredol (Tripathi a Sarkhel 2010, t. 390). Bu ymdrechion cychwynnol cyn y 1990au i ddatblygu meddalwedd i gyfieithu ar sail ystadegau yn aflwyddiannus (Quah 2006, t. 77). Ymddangosodd cysyniad MT ar sail ystadegau gynhared â 1949 gyda memorandwm Warren Weaver (Guerra 2000, t. 67; Wilks 2009, t. 101; Tripathi a Sarkhel 2010, t. 390; Yang a Min 2015, t. 201) ac erthygl Gilbert King am natur ragweladwy iaith (Wilks 2009, t. 101). Ni chafwyd unrhyw ganlyniadau cadarnhaol a defnyddiol serch hynny tan 1991 gyda system IBM a'u Model 1 (Brown *et al.* 1990). Defnyddiodd ymchwilwyr IBM theori Bayes am ddsbarthiad tebygolrwyddau ystadegol, sef defnyddio gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y gorffennol (yn yr achos hwn, cyfieithiadau a wnaed eisoes) i ddamcaniaethu am yr hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol

(tebygolrwydd cywirdeb cyfieithiadau newydd o'r IFf yn yr achos hwn) (Quah 2006, t. 77). Y syniad yn y bôn yw bod y cyfrifiadur yn medru cyfrifo'r set fwyaf tebygol o eiriau i gyd-fynd â'r set o eiriau o fewnbynnir, sef y 'model cyfieithu', ac wedyn gall y cyfrifiadur gyfrifo dilyniant y set o eiriau honno, neu'r gystrawen fwyaf tebygol, sef y 'model iaith' (Somers 2004, t. 9). Sail gyffredinol y dull hwn felly yw tebygolrwydd amodol (Guerra 2000, t. 69), a chaiff y tebygolrwyddau ar gyfer y ddau fodel eu cyfrifo ymlaen llaw wrth greu'r corpws cyfochrog (Somers 2004, t. 9). Nid yw'r dull hwn yn defnyddio unrhyw reolau ieithyddol o gwbl; yn hytrach mae'n dibynnu'n llwyr ar debygolrwyddau ystadegol rhwng dau gorpws cyfochrog o gyfieithiadau a wnaed eisoes (Somers 2003a, t. 516; Lopez 2008, t. 2; Yang a Min 2015, t. 201). Gellir cyfrifo'r tebygolrwydd bod ymadrodd yn y IFf yn 'gyfrifol' am ymadrodd yn y ID gan ddefnyddio corpws cyfochrog o ddau destun sydd wedi eu halinio i ddangos pa ymadroddion sy'n gyfieithiadau o'i gilydd (Somers 2003a, t. 517).¹⁰ Wrth wneud hyn, mae modd cyfrifo pa mor debygol ydyw bod ymadrodd ym mrawddeg yr IFf â chyfieithiad yn y corpws cyfochrog, a pha ymadrodd sy'n gyfatebol. Mae'r broses hon yn creu 'bag o ymadroddion' neu 'salad ymadroddion', ac mae trefn gywir yr ymadroddion i ffurfio'r cyfieithiad iawn yn ffurfio ail ran y cyfrifiad sef y 'model iaith' (Somers 2003a, t. 517). Mae'r rhan hon o'r cyfrifiad yn haws gan nad yw'r feddalwedd ond yn gorfod chwilio am ddata yng nghorpws unieithog y model iaith (Somers 2004, t. 10; Quah 2004, t. 80). Mae'n bosibl y gall unrhyw air yn y IFf gyfateb i nifer o eiriau yn y ID, felly hwylusir y dasg o ddod o hyd i'r drefn gywir gan amlaf gan *n*-gramau (Somers 2003a, t. 517; Quah 2006, t. 80). Mae modelau eraill yn bosibl nad ydynt yn defnyddio *n*-gramau ond mae'r defnydd ohonynt yn gyffredin iawn gan fod y dull yn

¹⁰ Mae systemau cyfieithu cyfoes sy'n gweithio ar sail ystadegau bellach yn fodolau sy'n seiliedig ar ymadroddion, ac nid ar eiriau fel yr oedd 5 model cyntaf IBM (Dickinson et al. 2013, t. 204). Golyga hyn fod ymadroddion yn y corpws cyfochrog yn cael eu cysylltu â'i gilydd yn y broses o alinio yn hytrach na geiriau. Ond nid yw'r ymadroddion hyn bob tro yn cyfateb i ymadroddion ieithyddol traddodiadol; yn syml ystyr ymadrodd yn y cyswllt hwn yw unrhyw gyfres o eiriau sy'n fwy nag un gair (Dickinson 2013, t. 204).

gweithio'n effeithiol yn ôl Quah (2006, t. 80). Mae n -gramau yn gyfres o lythrennau, ffonemau neu eiriau cyffyrddol, a defnyddir algorithm mathemategol i ddod o hyd iddynt (Somers 2004, t. 10; Quah 2006, t. 79). Mae hynny'n galluogi'r feddalwedd i gyfrifo dilyniant cywir mwyaf tebygol yr ID (Somers 2004, t. 10).

Nid yw'r dull heb ei gymhlethdodau ac mae sawl problem i'w goresgyn er mwyn i'r dull fod yn gwbl lwyddiannus (Quah 2006, t. 80; Guerra 2000, t. 70). Mae'r prif broblemau'n cynnwys diffyg data (Quah 2006, t. 80), yr angen am gorff cyfochrog enfawr sy'n cynnwys cyfieithiadau cywir (Guerra 2000, t. 69), mae creu'r corpws hwnnw'n waith anferth (Somers 2004, t. 10), nid oes cyfatebiaeth 1:1 bob tro rhwng ymadroddion wrth alinio testunau yn gyfochrog (Somers 2004, t. 10), ac o safbwynt y Gymraeg ceir llawer o homograffau sydd â swyddogaethau gramadegol gwahanol megis 'yn' traethiadol ac 'yn' arddodiadol, neu 'y' sy'n gweithredu fel bannod ac 'y' yn gweithredu fel rhagenw perthynol er enghraifft, felly gall yr ystadegau ar eu cyfer fod yn gamarweiniol (Somers 2004, t. 10).

Ond er gwaethaf ei broblemau, mae'r dull SMT wedi bod yn hynod o lwyddiannus i lawer o barau o ieithoedd ac mae'r dull yn gweithio'n dda (Somers 2004, t. 10; Bellos 2011, t. 263; Dickinson *et al.* 2013, t. 205).¹¹ Mae ymchwilwyr hefyd wedi nodi syndod ymchwilwyr sy'n defnyddio rheolau ieithyddol bod y dull yn medru cynhyrchu allbwn derbyniol er na ddibynnir ar unrhyw wybodaeth ramadegol o gwbl (Somers 2003a, t. 517). Mae'r dull wedi cyfrannu at ymarferoldeb adeiladu systemau megis Google Translate (GTrans o hyn allan) ac o ganlyniad i'w lwyddiant a'i apêl eang ymysg defnyddwyr ac ymchwilwyr fel ei gilydd, mae rhai sylwebyddion yn nodi bod yr ymchwil

¹¹ Mae rhai wedi amau hynny (cf. Guerra 2000, t. 70; Somers 2003a, t. 517; Quah 2006, t. 80; Wilks 2009, t. 4) ond dylid cofio nad oes yna'r un dull sydd heb ei broblemau, ni waeth faint o wybodaeth ieithyddol sydd gan y feddalwedd.

hyd yn hyn wedi gwyrddroi MT ac mai'r paradeim hwn yw'r pwysicaf i ddigwydd yn y maes ers degawdau (Dickinson *et al.* 2013, t. 198).

3.2.3 Cyfieithu awtomatig ar sail enghreifftiau

Mae EBMT yn newydd-ddyfodiad arall ym maes ymchwil ar MT a syniad creiddiol y dull hwn yw aildefnyddio enghreifftiau o gyfieithiadau a wnaed eisoes yn sail ar gyfer cyfieithiadau newydd (Somers 2003a, t. 514; Tak-ming a Webster 2015, t. 137). Mae'r dull yn weddol debyg i SMT a hefyd i TM, gan fod cyfieithiadau a wnaed o'r blaen yn rhan bwysig o'r system.¹² Defnyddir tebygolrwydd ystadegol i gynhyrchu cyfieithiad. Mae tri cham i'r dull hwn ac mae corpws cyfochrog o gyfieithiadau wedi eu halinio, fel yn achos SMT, yn allweddol. Y tri cham yw 1. cydweddu, 2. alinio a 3. ailgyfuno. Er mwyn i'r feddalwedd allu alinio ac wedyn ailgyfuno'r derynnau (sef rhannau o frawddegau), rhaid cysylltu'r derynnau hyn â'i gilydd ar sail pa mor debyg ydynt i'r mewnbwn (Somers 2003a, t. 515). Mae llawer o systemau yn defnyddio '*sequence comparison*' i wneud hynny, sef chwilio am nodau tebyg rhwng y mewnbwn a derynnau yn y corpws ond mae union ddull y cyfrifiadur o gydweddu yn dibynnu ar sut y mae'r enghreifftiau wedi'u storio (Somers 2003a, t. 514). Yn ail, mae'r feddalwedd yn alinio'r derynnau, sef penderfynu pa rai o'r derynnau sy'n cyfateb i'r mewnbwn, ac yn olaf mae'r system yn ailgyfuno'r holl dderynnau sydd ganddo i ffurfio cyfieithiad (Somers 2004, t. 11).

Mae'n hawdd meddwl bod dulliau ar sail corpws yn creu cyfieithiadau heb unrhyw fewnbwn o gwbl gan yr ymarferwr, ac i raddau mae hynny'n wir. Y feddalwedd sy'n cyfieithu. Ond dylid cadw mewn cof y ffaith fod y dulliau hyn yn seiliedig ar *gyfieithiadau*

¹² Maent yn debyg ond mae gwahaniaethau pwysig; ym mharadeim EBMT mae'r peiriant yn chwilio am yr enghreifftiau cyn eu hailgyfuno, ac wedyn mae'n cynhyrchu'r cyfieithiadau yn awtomatig. Yn achos y TM, mae'r cyfieithydd dynol yn gorfod dewis rhwng y cynigion, h.y. y cyfatebiaethau rhannol ('*fuzzy matches*') neu gyfatebiaethau perffaith/llawn ('*perfect/full matches*') yn gwbl annibynnol heb i'r cyfrifiadur eu dewis ar ei ran (Bowker 2002, t. 105; Somers 2003a, t. 515; Quah 2006, t. 83).

a wnaed eisoes. Golyga hyn fod cyfieithwyr proffesiynol, rywle yn y broses, yn rhannol gyfrifol am gynnig y feddalwedd.

3.2.4 Systemau aml-beiriant

O ganlyniad i ddiffyg llwyddiant rhai systemau mewn perthynas â chywirdeb yr ID, dechreuodd ymchwilyr ystyried y syniad o gyfuno systemau gwahanol er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gynhyrchu allbwn derbyniol (Somers 2003a, t. 518; Quah 2006, t. 85). Dylid nodi'r gwahaniaeth rhwng systemau aml-beiriant sy'n cyfuno un neu ddau o'r dulliau traddodiadol, megis system RBMT ag elfen o'r dull enghreifftiau, neu systemau SMT dan arweiniad rheolau (cf. Eisele *et al.* (2007), Espana-Bonet *et al.* (2011), Priyanga ac AzhaguSindhu (2013)), a systemau sy'n cynnwys nifer o wahanol ddulliau lle mae'r IFF yn mynd trwy bob dull. Wrth fynd trwy bob dull yn y system aml-beiriant, rhoddir sgôr i'r cyfieithiad ac wedi cymharu pob un, cynigir y canlyniad â'r sgôr uchaf yn gyfieithiad (cf. Tidhar a Kushner (2000), Callison-Burch a Flournoy (2001) a Nomoto (2004)). Mae rhai arbrofion sy'n seiliedig ar y paradeim hwn hyd yn oed wedi dewis yr elfennau gorau o bob cyfieithiad cyn eu hailgyfuno (cf. Hogan a Frederking (1998); Jayaraman a Lavie (2005)).

3.3 MT CYMRAEG

Gyda'r prif fathau o MT wedi eu dadansoddi uchod, eir ymlaen yn awr i drafod y systemau sydd ar gael i gyfieithwyr proffesiynol y Gymraeg, ac i'r gymuned Gymraeg ei hiaith yn gyffredinol. Mae sawl system ar gael ac mae argymhellion Somers (2004) ynghylch datblygu systemau MT Cymraeg wedi eu gwireddu i raddau helaeth, er bod creu system EBMT ac un aml-beiriant o hyd heb ei gyflawni.

3.3.1 Apertium (2009)

Mae *apertium-cy* yn system RBMT yn seiliedig ar blatfform agored Apertium (cf. Forcada et al. 2011). Yn ôl yr awduron, prif nod y system yw darparu bras gyfieithiadau Saesneg o destun Cymraeg (Tyers a Donnelly 2008, t. 58). Yn dilyn eu gwerthusiad meintiol ac ansoddol eu hunain o'r system yn seiliedig ar dri metrig awtomatig sef WER, PER a BLEU¹³ a'r targed "Sentences of up to 5 words should be translated reasonably well from Welsh to English", daethant i'r casgliad na fyddai'r system yn ddefnyddiol mewn cyd-destun proffesiynol (Tyers a Donnelly 2009, t. 60).

3.3.2 CyfieithuCymru/TranslateWales (2009)

Yn 2009, lansiodd Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor CyfieithuCymru. Yn ôl y datblygwyr:

Rhaglen gyfieithu gyflawn ar gyfer cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yw CyfieithuCymru. Mae'n gweithio "yn y cwmwl", ac felly nid oes angen llwytho meddalwedd i lawr i gyfrifiaduron unigol cyfieithwyr. Caiff ei thrwyddedu'n fasnachol gan Brifysgol Bangor' (Canolfan Bedwyr 2009).

Mae modiwl cyfieithu CyfieithuCymru yn seiliedig ar dechnoleg SMT, a chafodd ei ddatblygu ar sail meddalwedd Moses. Nid yw'r feddalwedd ar gael i gyfieithwyr ei defnyddio yn rhad ac am ddim, ac mae angen cysylltu â'r datblygwyr er mwyn trafod prynu trwydded. Mae'r ganolfan ymchwil hefyd wedi datblygu pedwar peiriant SMT; tri ohonynt yn cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg a'r pedwerydd un o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae dau wedi eu seilio ar gorpws dwyieithog cyfochrog o gofnod Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae un yn seiliedig ar ddata o wefan Legislation.gov.uk ac mae'r llall

¹³ WER – *Word Error Rate*; PER – *Position Independent Word Error Rate*; BLEU – *Bilingual Evaluation Understudy*. Mae pob un yn fetrig yn debyg iawn i TER o ran ei swyddogaeth, a ddisgrifir ym Mhennod 5.

yn seiliedig ar gyfieithiadau o becynnau meddalwedd. Mae'r systemau oll ar gael ac mae modd eu defnyddio yn rhad ac am ddim (Canolfan Bedwyr 2009).

3.3.3 Google Translate (2009)

Lansiwyd GTrans (Google Translate) ar gyfer Cymraeg a Saesneg yn 2009 yn rhan o'r pedwerydd cylch ar ddeg o ieithoedd i gael eu hychwanegu (Google 2009a). Mae GTrans yn system SMT hefyd, ac nid yw'n defnyddio rheolau ieithyddol. Ddwy flynedd ar ôl lansio GTrans ar gyfer y cylch cyntaf o ieithoedd yn 2007, lansiwyd *Google Translator Toolkit* (GTT). Mae GTT yn enghraifft o feddalwedd TM sy'n caniatáu i'r defnyddiwr addasu allbwn MT hefyd.¹⁴ Yn ôl Google (2009b), ei nod yw galluogi'r defnyddiwr i wella'r allbwn, a bydd y gwelliannau hyn wedyn yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i wella'r algorithmau mewn 'cylch rhinweddol', chwedl y cwmni (2009b). Cynnig GTrans wasanaeth MT o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg.

3.3.4 Microsoft Translator (2014)

Lansiwyd *Microsoft Translator* ar gyfer y Gymraeg yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2014. Yn debyg i GTrans, mae'r system hon hefyd yn system SMT, a chyfrannodd nifer o sefydliadau ddata ar gyfer y corpws cyfochrog enfawr angenrheidiol, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, pleidiau gwleidyddol, yr Eisteddfod Genedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg a BBC Cymru Wales ymysg eraill. Mae modd defnyddio'r system mewn nifer o wahanol blatfformau, sef rhaglenni Microsoft Office, Microsoft Bing i gyfieithu gwefannau, a hefyd ffonau clyfar

¹⁴ Mae Google wedi mynd â hyn ymhellach yn ddiweddar trwy lansio ymgyrch '*Translate Community*'. Mae dwy ran i'r ymgyrch sef '*Translate*', lle gofynnir i bobl gyfieithu geiriau ac ymadroddion a '*Validate*', lle gofynnir i bobl werthuso cyfieithiadau yn ôl cywirdeb neu anghywirdeb. Nid yw hynny'n annhebyg i '*Collaborative Translation Framework*' Microsoft. Gweler <https://translate.google.com/community?esrch=CommunityV2::CommunityV2IO> [cyrchwyd 17/06/15].

Windows. Mae hefyd wedi'i integreiddio â nifer o systemau TM, yn debyg i GTrans a systemau Canolfan Bedwyr.

3.3.5 Yandex.Translate (2015)

Lansiwyd Yandex.Translate ar gyfer y Gymraeg, ynghyd â 67 o ieithoedd eraill, ym mis Rhagfyr 2015. Cyhoeddwyd y peiriant cyfieithu hwn yn ei fersiwn beta yn 2011 a hynny ar gyfer Rwsieg, Saesneg ac Wcreineg. Cwmni technoleg o Rwsia yw Yandex sy'n adeiladu eu peiriannau cyfieithu yn seiliedig ar ddeunydd ieithyddol a geir ar y we. Yn debyg i GTrans, mae Yandex yn enghraifft o system SMT gyda'i model iaith a'i model cyfieithu, ond sydd hefyd â'r gallu i ddysgu a gwella wrth iddi gael ei defnyddio (Yandex 2015). Mae hefyd ar gael ar ffônau clyfar ac mae'r cwmni wedi datblygu ategyn fel bod modd ei defnyddio ar wefannau. Eir ymlaen yn nawr i drafod y broses o gywiro allbwn y systemau hyn, sy'n broses hollbwysig wrth eu defnyddio mewn cyd-destun cyfieithu proffesiynol.

3.4 ÔL-OLYGU A CHYFIEITHU PROFFESIYNOL

Trafodir yn yr adran hon agweddau ar ôl-olygu mewn cyd-destun proffesiynol.

3.4.1 Diffinio Ôl-olygu

Nid yw ôl-olygu yn ffenomen newydd; yn wir mae wedi bod yn rhan anhepgor o MT ers i ymchwil a datblygu yn y maes ddechrau yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif (Carl *et al.* 2015, t. 146). Disgrifia TAUS (*Translation Automation Users Society*), sef sefydliad a grëwyd i hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg iaith yn y broses cyfieithu er mwyn hwyluso cyfathrebu rhyngwladol, y broses ôl-olygu fel a ganlyn, "Post-editing is the process of improving a machine-generated translation with a minimum of manual labour" (TAUS 2010, t. 7). Mae i ôl-olygu llwyddiannus felly ddwy elfen greiddiol;

1. Gwella ar allbwn system MT, sef sicrhau cywirdeb gramadegol a ffyddlondeb cynnwys yr allbwn MT i gynnwys yr IFf;
2. Gwneud hynny mewn ffordd sy'n arbed llafur yr unigolyn, trwy ymatal rhag ymrwymo i newidiadau di-angen.

Mae diffiniadau eraill cynharach i'w cael gan Veale a Way (1997), sef "The term used for the correction of Machine Translation output by human linguists/editors" a chan Wagner (1985), sef "Post-editing entails the correction of a pre-translated text rather than translation from scratch". Tasg yr ôl-olygydd felly yw golygu, addasu neu gywiro rhyw destun a broseswyd ymlaen llaw gan system MT (Allen, t. 297). Gwneir y broses ôl-olygu hon yn unol â set o ganllawiau yn aml, er mwyn cynorthwyo'r ôl-olygwyr ac i sicrhau na wneir newidiadau dianghenraid (cf. Allen 2003, tt. 306-313).

3.4.2 Mathau o Ôl-olygu

Mae dau brif ddefnydd ar MT yn y byd cyfoes, sef MT ar gyfer *cymathu* gwybodaeth, ac MT ar gyfer *ledaenu* gwybodaeth. Mae defnyddio MT i gymathu gwybodaeth yn cyfeirio at y defnydd o MT i gynhyrchu bras gyfieithiad o destun sydd mewn iaith na all y darllenydd ei deall. Enghreifftiau o hyn fyddai defnyddio MT i ddeall cynnwys gwefan, neu i ddeall neges e-bost. Mae defnyddio MT i ledaenu gwybodaeth yn cyfeirio at ddefnyddio MT yn llifoedd gwaith cyfieithu proffesiynol, lle bydd yr allbwn yn cael ei ôl-olygu fel mater o anghenraid. Ond gall ôl-olygu fod yn berthnasol wrth ddefnyddio MT i gymathu gwybodaeth hefyd. Yn y cyd-destun hwn, y math o ôl-olygu a wneir yw 'Ôl-olygu Ysgafn', sef cywiro'r gwallau mwyaf difrifol, ond gan adael y gwallau eraill os na chredir eu bod yn amharu'n ormodol ar ddealltwriaeth y darllenydd o'r testun. Nid yw arddull na chywirdeb gramadegol di-ffael yn berthnasol. Bwriad Ôl-olygu Ysgafn yw galluogi unigolyn i gaffael ystyr y testun gwreiddiol, lle nad oes angen cyfieithiad cyhoeddadwy o

ansawdd uchel. Byddai hyn yn berthnasol er enghraifft wrth benderfynu a oes angen cyfieithiad proffesiynol o'r testun dan sylw, neu wrth orfod caffael ystyr dogfen y tu fewn i fframwaith amser tyn lle nad oes amser i aros am gyfieithiad proffesiynol o ansawdd. Afraid dweud, 'Ôl-olygu Llawn' yw'r math o ôl-olygu sy'n berthnasol mewn cyd-destun cyfieithu a lleoleiddio proffesiynol, lle defnyddir MT i ledaenu gwybodaeth (Declercq 2015b, t. 485). Gellid dadlau hefyd bod ansawdd MT ar gyfer bras gyfieithiadau yn llwyddo i gyrraedd safon bellach lle mae modd deall hanfod neges y gwreiddiol, heb fod angen y math hwn o ôl-olygu 'ysgafn'. O ganlyniad, ni thrafodir ôl-olygu ysgafn ymhellach yma.

Mae'r gwahanol fathau o MT wedi eu trafod, a darparwyd diffiniad o ôl-olygu. Dadansoddir yn awr yr ail dechnoleg yr ymchwilir iddi, sef systemau TM.

3.5 BETH YW COF CYFIEITHU (TM)?

Mae'r systemau TM hyn yn debyg iawn i gronfa ddata (Melby a Wright 2015, t. 662), sy'n cynnwys corpws o gyfieithiadau a wnaed ynghynt gan gyfieithydd dynol (Zanettin 2014, t. 188). Prif swyddogaeth TM felly yw galluogi cyfieithydd dynol i ailgylchu deunydd y mae wedi ei weld a'i drin eisoes, naill ai o fewn yr un prosiect cyfieithu neu rhwng prosiectau. Bwriad hyn yw cyflymu cyfieithu a lleihau'r ymdrech sydd ynghlwm wrth gyfieithu, gan fod modd ailddefnyddio cyfieithiadau parod yn hytrach na gorfod cyfieithu'r un segment(au) eto (García 2015, t. 68). Sgil effaith arall defnyddio systemau TM yw gwell cysondeb yn y testun a gwell cysondeb rhwng testunau, gan fod y feddalwedd yn medru 'cofio' sut y mae elfennau ieithyddol tebyg yn yr IFf wedi eu cyfieithu o'r blaen (O'Hagan 2009). Canlyniad hirdymor hyn oll wedyn yw cynnydd yng

nghynhyrchedd cyfieithwyr (Comisiynydd y Gymraeg, t. 6).¹⁵ Mae TM yn atgynhyrchu segmentau, neu rannau o segmentau, y mae wedi eu gweld o'r blaen ar ffurf Cyfatebiaethau. Mae systemau TM yn dod o hyd i'r Cyfatebiaethau hyn gan ddefnyddio algorithm cydweddu, sy'n cymharu'r segmentau ffynhonnell newydd â chyfieithiadau o segmentau ffynhonnell tebyg eraill y mae'r system wedi eu gweld o'r blaen. Er nad yw'r cwmnïau masnachol sy'n datblygu a gwerthu systemau TM yn tueddu i gyhoeddi sut y mae eu halgorithmau cydweddu yn gweithio, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio ar sail algorithm sy'n cymharu tebygrwydd nodau mewn cyfres (Somers 2003b, t. 38). Pellter Levenshtein yw'r enw ar yr algorithm hwn. Mae'r algorithm hwn yn annibynnol ar ieithoedd penodol, sy'n golygu y gall unrhyw bâr o ieithoedd elwa o'r dechnoleg hon gan nad yw'r systemau sydd ar y farchnad ar hyn o bryd yn defnyddio rheolau gramadegol.

Gall y system TM ddod o hyd i dri math o Gyfatebiaeth gan ddefnyddio'r algorithm cydweddu hwn, ac yn y broses o gynhyrchu'r Cyfatebiaethau mae hefyd yn dosrannu sgôr iddynt ar ffurf canran. Cyfatebiaeth Lawn (neu Gyfatebiaeth Berffaith), Cyfatebiaeth Rannol a Dim Cyfatebiaeth yw'r tri math hyn.¹⁶ Mae segmentau ar ffurf Cyfatebiaethau Llawn yn cydweddu'n llwyr i'r segment ffynhonnell newydd (h.y. mae eisoes yn y TM), a

¹⁵ Mae'r syniad bod cynnydd mewn cynhyrchedd yn debygol o gael ei weld yn yr hirdymor, serch hynny, yn un pwysig. Nid yw cynnydd mewn cynhyrchedd yn bosibl os nad yw'r gronfa ddata (h.y. y TM) yn cynnwys cyfieithiadau o ansawdd uchel yn y lle cyntaf. Mae datblygu'r TM hwnnw yn digwydd dros gyfnod o amser, oni ddefnyddir adnodd alinio i greu corpws cyfocrog i greu TM newydd (sef '*Post-Translation Alignment*', yn hytrach nag '*Interactive Translation*') neu onid ychwanegir TM arall o system wahanol (cf. Bowker 2002, tt. 107-111).


¹⁶ Mae Cyfatebiaeth Lawn, Cyfatebiaeth Rannol o ryw ganran penodol a Dim Cyfatebiaeth yn cynrychioli'r tri phrif fath o '*match*' a gynhyrchir gan systemau TM. Mae fersiynau diweddar o SDL Trados serch hynny yn cynhyrchu tri math o Gyfatebiaeth Lawn, sef Cyfatebiaethau Llawn, Perffaith ('*Perfect Matches*') a Chyd-destun ('*Context Matches*'). Datblygwyd y cyfatebiaethau hyn er mwyn ymateb i bryderon bod systemau TM, wrth segmenteiddio'r testunau ffynhonnell wrth iddynt gael eu cyn-brosesu, yn cael gwared â chyd-destun segment unigol. Mae datblygwyr eraill wedi cadw'r tri math gwreiddiol o gyfatebiaeth ond wedi datblygu eu datrysiadau eu hunain i'r broblem hon. Mae Déjà Vu X3 yn darparu blwch yng ngwaelod y sgrin er enghraifft sy'n arddangos y segmentau y mae'r gyfatebiaeth rannol wedi dod ohonynt fel bodd modd i'r cyfieithydd weld cyd-destun y gyfatebiaeth a gynigir.

chyfeiria 'Dim Cyfatebiaeth' at achosion lle nad oes modd i'r system adnabod segment tebyg oherwydd bod y trothwy ar gyfer dod o hyd i'r Cyfatebiaethau yn rhy uchel, neu oherwydd na ddaethpwyd o hyd i ddeunydd yn y TM sy'n cyfateb i'r segment ffynhonnell newydd.¹⁷ Mae Cyfatebiaethau Rhannol yn fwy cymhleth na'r ddau fath arall ac yn cyfuno elfennau o'r ddau; mae Cyfatebiaethau Rhannol yn *eithaf tebyg* i segmentau ffynhonnell newydd ond mae gwahaniaethau penodol rhwng hen segmentau a segmentau ffynhonnell newydd. Ond er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, gallant fod yn ddefnyddiol i'r cyfieithydd o hyd (Bowker 2002, t. 99). Caiff lefel y gyfatebiaeth rhwng hen gyfieithiadau a segmentau ffynhonnell newydd ei chyfleu ar ffurf canran a gall y canran hwn amrywio rhwng 1% i 99% (Bowker 2002, t. 99). Mae modd ffurfweddu systemau TM i rwydo cyfatebiaethau, neu *rannau* o hen segmentau sy'n cyfateb i *rannau* o segmentau newydd, trwy osod y trothwy i wahanol ganrannau. Bydd gosod y trothwy ar 70-95%¹⁸, er enghraifft, yn debygol o rwydo hen segmentau y mae rhannau ohonynt yn ddigon defnyddiol i gynorthwyo'r cyfieithydd i greu cyfieithiad llwyddiannus, ac o ganlyniad mae defnyddio trothwy o 70-95% yn gyffredin. I'r gwrthwyneb, byddai gosod y trothwy yn rhy isel, rhwng 1-60% er enghraifft, yn annhebygol iawn o fod yn

¹⁷ Yn yr achosion hyn, gellir llenwi'r segment targed gwag ag allbwn o un o nifer o systemau MT a gysylltir â'r TM trwy ategyn. Gweler Adran 3.6 ar gyfer trafodaeth am integreiddio MT â TM mewn un rhaglen.

¹⁸ Ystyr 'rwydo' yma yw atgynhyrchu'r cyfatebiaethau ar ryngwyneb y cyfieithydd fel bod modd iddo addasu'r cyfieithiad. Mae modd gweld canlyniad y broses 'rwydo' yn Ffigur 1 isod.

ddefnyddiol gan y byddai gormod o wahaniaeth rhwng cynnig y TM a segment ffynhonnell newydd. Ceir isod sgrin-lun o system TM poblogaidd, sef SDL Trados 2015:



Figur 1: Rhyngwyneb system Cof Cyfieithu boblogaidd

Mae modd gweld 6 chyfatebiaeth o wahanol lefelau yn y sgrin-lun uchod. Defnyddia SDL Trados ganrannau gwahanol i ddynodi lefel y gyfatebiaeth. Mewn perthynas â'r broses cyfieithu a'r defnydd ymarferol o'r systemau TM hyn, mae TM yn galluogi'r cyfieithydd i lenwi'r segmentau ID â chyfatebiaethau cyn dechrau ar y prosiect. Yr enw ar hwn fel arfer yw 'Pretranslate', ac wrth ryngweithio â systemau TM yn y modd hwn bydd cyfieithwyr yn gweithio ar ryw fath o destun electronig hybrid. Gall y testun electronig hwn gynnwys cyfatebiaethau rhannol y bydd angen eu golygu, cyfatebiaethau llawn (y bydd angen darllen drostynt er gwaethaf y tebygolrwydd uchel eu bod yn

gyfieithiadau derbyniol) a segmentau gwag y bydd angen eu llenwi â chyfieithiadau gwreiddiol heb gymorth gan y TM (oni ddefnyddir MT). Wrth weithio ei ffordd i lawr trwy'r segmentau testun targed felly (gweler Ffigur 1 am enghraifft o sut y mae'r testun sydd wedi ei segmenteiddio yn ymddangos ar sgrin y cyfieithydd), bydd y system TM wedi llenwi'r segmentau eisoes cyn i'r cyfieithydd ddechrau ar y prosiect ar ôl pwyso 'Pretranslate'. Gall systemau TM ddarparu ystadegau prosiect hefyd, sy'n caniatáu i reolwyr swyddfa/prosiect a chyfieithwyr weld faint o gyfatebiaethau rhannol/llawn sydd yn y TM ar gyfer rhyw destun. Mae hyn yn cynorthwyo'r cleient a'r cyfieithydd/cwmni cyfieithu i gytuno ar bris teg cyn cytuno i dderbyn gwaith.

Dengys Tabl 1 enghreifftiau o un gyfatebiaeth lawn a dwy gyfatebiaeth rannol; mae'r gwahaniaethau rhwng yr hyn a fewnbynwyd ar ffurf testun ffynhonnell a'r hyn a oedd eisoes yn y TM wedi ei amlygu'n felyn:

Tabl 1: Enghraifft o Gyfatebiaethau TM¹⁹

Segment Ffynhonnell	Lefel y Gyfatebiaeth	Cynnig y TM
Ni fydd yr adroddiad ar gael ar y we tan y flwyddyn newydd	100% (Cyfatebiaeth Lawn)	The report will not be available online until the New Year
This issue is not explored here as it is a web2.0 issue and organisations will have to decide where this boundary lies.	77% (Cyfatebiaeth Rannol)	Ni chaiff y mater hwn ei drafod yma gan ei fod yn fater ehangach i we2.0 a bydd angen i sefydliadau benderfynu drostynt eu hunain ble mae'r ffiniau i fod.
Therefore there is more of an opportunity to take these through a translation process or produce a bilingual version	95% (Cyfatebiaeth Rannol)	Felly mae mwy o gyfle i dwys y rhain drwy broses cyfieithu neu ddarparu fersiwn gyfochrog mewn iaith arall

¹⁹ O system TM Déjà Vu X3 Professional y daeth canrannau'r cyfatebiaethau hyn.

Mae systemau TM hefyd yn cyflawni swyddogaethau defnyddiol eraill, ar wahân i'r gallu i storio ac atgynhyrchu deunydd a gyfieithwyd eisoes. Gall y rhan fwyaf o systemau TM storio cronfeydd terminoleg, creu ystadegau prosiect fel modd gwybod faint sydd mewn TM cyn dechrau ar brosiect cyfieithu,²⁰ ynghyd â chynnwys cymhorthion eraill megis gwiryddion sillafu, awduro rhagfynegol a rhaglenni i alinio dogfennau i greu TM newydd (ar ffurf ffeil TMX)²¹. Gallant hefyd ddarparu allbwn MT i'r cyfieithydd ei ôl-olygu, ac at hyn y troir nesaf.

3.6 INTEGREIDDIO MT A TM

Un datblygiad diweddar yw cyfuno technoleg MT â TM er mwyn gwneud y defnydd gorau o ddwy dechnoleg cyfieithu ar yr un pryd (Zetsche 2007; Zaretskaya *et al.* 2015). Yn draddodiadol, defnyddid y ddwy dechnoleg hyn ar wahân, ac os defnyddid MT mewn cyd-destun proffesiynol byddai'r cyfieithydd wedi gorfod ôl-olygu mewn rhaglen trydydd parti megis prosesydd geiriau (Allen 2001 t. 7). Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried bod y syniad gwreiddiol ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol i gyfieithwyr (a ddaeth yn systemau TM maes o law) hefyd wedi cynnwys MT a TM yn cydweithio o fewn yr un rhaglen (Hutchins 1998, t. 15). Wrth i MT wella, mae nifer o fasnachwyr systemau TM wedi cynnwys ategyn MT yn eu systemau sy'n cysylltu'r system TM â darparwr MT. Er gwaethaf diffyg diddordeb ymarferwyr yn yr ategion cyfieithu hyn ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, mae nifer fawr o systemau TM wedi cadw'r ategion cyfieithu hyn sy'n cysylltu â nifer o beiriannau MT gwahanol (García 2009, t. 217). Mae hynny'n wir am y

²⁰ Mae'r ystadegau prosiect hyn yn allweddol wrth ddod i gytundeb ynghylch cost y prosiect cyfieithu os yw'r cleient yn ymwybodol bod y cyfieithydd yn defnyddio TM ac yn deall y buddion a ddaw o'r systemau hyn. Os bydd yr ystadegau'n nodi bod hanner y prosiect yn cynnwys Cyfatebiaethau Llawn er enghraifft, gallai'r prosiect hwn gostio hyd at 50% yn llai o ganlyniad, yn dibynnu ar faint y mae'r cyfieithydd/cwmni yn ei godi am wahanol fathau o gyfatebiaeth.

²¹ TMX yw'r ffeil a ddefnyddir ar gyfer cofion cyfieithu. Mae iaith manyleb XML sy'n sail iddi yn caniatáu i fwy nag un system TM o ba wneuthuriad bynnag rannu a defnyddio cofion cyfieithu rhwng cyfieithwyr.

pedair prif system sydd ar y farchnad, sef fersiynau diweddar MemSource, SDL Trados Studio, Déjà Vu a WordFast Pro, sydd oll yn caniatáu i'r defnyddiwr fanteisio ar systemau GTrans, Microsoft a nifer o systemau eraill, ynghyd â systemau a grëwyd gan y defnyddiwr ar sail cronfeydd data penodol (h.y. '*customized MT*' a grëwyd â meddalwedd Moses er enghraifft, gan ddefnyddio ffeiliau TMX mawr cwmni cyfieithu hirsefydledig). Yn hytrach na chyn-brosesu testun i'w gyfieithu yn ei gyfanrwydd gan ddefnyddio MT, mae'r prif systemau MT sydd ar y farchnad heddiw yn galluogi'r cyfieithydd i lenwi segmentau gwag, sef brawddegau yn y testunau targed nad oes deunydd cyfatebol yn y TM ar ei gyfer, gyda deunydd o system MT o ddewis y cyfieithydd. Os nad oes dim yn y TM o dan ganran penodol (sef 70% er enghraifft; o dan y trothwy hwn nid yw'r system yn debygol o rwydo data ieithyddol defnyddiol), gellid ôl-olygu allbwn MT a roddir yn awtomatig yn y segment nad oes dim allbwn TM ar ei gyfer. Golyga hyn y gall y cyfieithydd elwa o destun awtomatig wrth ffurfio cyfieithiad hyd yn oed os nad yw'r TM yn medru'i gynorthwyo. Bydd yr hyn a ôl-olygwyd i ffurfio cyfieithiad llwyddiannus ar gael yn y TM wedyn i gael ei aildefnyddio yn y dyfodol. Ond os nad yw'r cyfieithydd yn fodlon â'r allbwn a gynigir, gall bob tro ddileu'r testun a chyfieithu heb yr allbwn hwnnw.

Yn ogystal ag ategion MT trwy ategyn sy'n gweithio y tu fewn i systemau TM poblogaidd, mae Google hefyd wedi datblygu *Google Translator Toolkit* (GTT). Prif nod y system MT integredig hon yw cynaeafu data ieithyddol i wella perfformiad y system SMT; ond yn ôl Zetzsche (2009) a van der Meer (2009), nid yw'n TM ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol oherwydd absenoldeb nifer o swyddogaethau pwysig sydd i'w cael mewn systemau TM masnachol (gweler isod). Mae GTT hefyd yn wahanol i systemau TM traddodiadol oherwydd mai allbwn SMT Google sy'n arwain y cyfieithu bob tro, yn

hytrach na'r TM neu'r cyfieithydd dynol yn ôl García (2011, t. 8).^{22 23} Nid yw GTT yn perfformio nifer o swyddogaethau y byddai systemau a fwriadwyd ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol yn eu perfformio, sef chwiliadau cydgoriad, addasu trothwy cyfatebiaethau rhannol (a gwybod sut y mae'r system yn dod o hyd i'r cyfatebiaethau hyn), nid yw'n cynnwys teclynnau rheoli ansawdd o unrhyw fath, mae nifer y ffurfiau ffeil y gall ymdrin â hwy yn isel iawn, dim ond ar un ffeil ar y tro y gellir gweithio arni ac nid oes modd uwchlwytho ffeiliau ar ffurf TBX ar gyfer terminoleg (Zetsche 2009).²⁴ Am y rhesymau hyn, anodd anghytuno â Zetsche (2009) a van der Meer (2009) pan amheuant ddefnyddioldeb GTT i'r cyfieithydd proffesiynol.

Ond os yw'r cyfieithydd yn defnyddio TM go iawn, gall bellach fanteisio ar MT hefyd os nad oes dim yn y TM. Mae cyfuno ôl-olygu ag addasu allbwn systemau TM â'r potensial i gynyddu cynhyrchedd cyfieithwyr, gan y bydd y broses cyfieithu yn haws yn ôl nifer o newidynnau dibynnol (sef gwaith cynhyrchu testun, y broses wybyddol o ffurfio cyfieithiad ac amser).²⁵ Mae canlyniadau Kanavos a Kartsaklis (2010) yn cefnogi'r haerriad hwn; yn eu harbrosion a oedd yn seiliedig ar brosiectau cyfieithu go iawn lle cyfieithwyd cynnwys dau lyfr, roedd cynhyrchedd y cyfieithwyr wrth addasu'r TM ac ôl-

²² Mae modd ffurfweddu GTT i rwydo deunydd o'r TM a uwchlwythwyd yn hytrach na dibynnu ar SMT Google, ond nid yw Google yn argymhell hynny, ac yn dweud na ddylid newid y gosodiadau diofyn.

²³ Mae system arall ar gael ar y we sydd hefyd am ddim, ac sy'n dibynnu ar Google am ei allbwn awtomatig. Enw'r system yw MateCat, ac mae'n rhad ac am ddim i gyfieithwyr a chwmnïau cyfieithu. Mae'r feddalwedd hefyd yn galluogi'r defnyddiwr i gyfrifo faint o newidiadau a wnaed i'r allbwn MT fesul segment ac yn amseru faint o amser a fuddsoddwyd yn y broses ôl-olygu fesul segment. Byddai hynny'n berthnasol i gyfieithwyr wrth iddynt hawlio tâl teg am eu gwaith. Mae hefyd yn gwneud nifer o bethau eraill y byddir yn disgwyl i systemau TM traddodiadol eu gwneud, sef cyfrifo faint o segmentau ailadroddus sydd yn y ddogfen i'w chyfieithu ac yn cyfrifo faint o segmentau unigryw y bydd angen talu amdanynt ar sail hynny, ynghyd â nifer o ystadegau prosiect gwahanol. Gall gysylltu â TM ar ffurf TMX a gellir creu un personol hefyd. Gellir gweld MateCat yn <https://www.matecat.com/>. Mae MateCat yn enghraifft arall o system MT integredig ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr fanteisio ar MT, ond gan ddarparu hefyd ryngwyneb hawdd ei ddefnyddio i ôl-olygu'r allbwn hwnnw [Cyrchwyd 08/12/2015].

²⁴ Gellid uwchlwytho rhestr termau ddwyieithog i GTT, ond nid ar ffurf TBX. Estyniad ffeil XML ar gyfer rhestrau terminoleg yw TBX, ac yn debyg i ffeiliau TMX ei nod yw safoni sut y caiff ffeiliau terminoleg eu cadw er mwyn gwneud y broses o'u rhannu'n haws (Quah 2006, t. 123).

²⁵ Gweler Adran 5.24 am drafodaeth fwy manwl ar newidynnau dibynnol perthnasol.

olygu yn uwch na chynhyrchedd y cyfieithwyr a addasodd allbwn y TM yn unig. Daeth astudiaeth empeiraidd gan Federico *et al.* (2012) i'r un casgliad â Kanavos a Kartsaklis (2010), a gwelwyd enillion sylweddol wrth gyfuno'r ddwy dechnoleg.²⁶ Gan fod MT a TM wedi eu hasio bellach, a chan fod MT o fewn gafael pob cyfieithydd sy'n defnyddio TM, mae'r astudiaeth hon yn ymchwilio i'r broses o olygu'r ddau fath o allbwn.

3.7 DIWEDDGLO

Mae'r ddwy dechnoleg yr ymchwilir iddynt yn y traethawd ymchwil hwn wedi eu dadansoddi, a thrafodwyd hefyd yr hyn sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg mewn perthynas â MT. Nodwyd uchod mai prif nod systemau TM yw cyflymu cyfieithu gan alluogi cyfieithwyr i aildefnyddio cyfieithiadau a wnaethant eisoes o fewn yr un prosiect ailadroddus a rhwng prosiectau gwahanol. Cyfeiriwyd hefyd at y posibiliad bod y systemau hyn yn gwella cysondeb testunau (gweler Pennod 7 am drafodaeth ynghylch effaith technoleg cyfieithu ar ansawdd cyfieithiadau, gan gynnwys cysondeb). Gall ôl-olygu allbwn systemau MT gyflymu cyfieithu hefyd, a myn rhai mai unig ffon fesur llwyddiant system MT yw ei gallu i wneud y broses cyfieithu yn fwy effeithlon, yn hytrach na'i gallu i efelychu cyfieithwyr dynol (Newton 1992, t. 4). Mae pob system TM fasnachol bellach yn cynnwys ategion sy'n galluogi cyfieithwyr i ddefnyddio allbwn MT o nifer o wahanol beiriannau MT os nad oes dim yn y TM, o dan ganran cyfatebiaeth penodol. Bwriad yr ymchwil a gyflwynir yn y traethawd hwn felly yw ymchwilio i fuddion posibl TM a MT mewn modd gwrthrychol, gan ddylunio arbrofion empeiraidd i fesur nifer o newidynnau dibynnol sy'n gysylltiedig â'r haeriadau ynghylch ymdrech, cynhyrchedd ac ansawdd.

²⁶ Am drafodaeth helaethach ar effaith TM a MT ar gyflymder y broses cyfieithu, cf. Adran 7.2.

Translating processes, i.e. those series of operations whereby actual translations are derived from actual source texts [...] are only indirectly available for study, as they are a kind of 'black box' whose internal structure can only be guessed at, or tentatively reconstructed.

Toury (1985, t. 18)

4.1 CYFLWYNIAD

Cyfeiria dyfyniad Toury uchod at natur gymharol anhryloyw y meddwl dynol, ac mae fel petai'n anobeithio am gymhlethdod 'gweld' cynnwys ein systemau gwybyddol a sut yn union y maent yn gweithio. Er mai yng nghyd-destun cyfieithu llenyddol a 'normau cyfieithu' y gwnaeth Toury ei sylw fel ysgolhaig amlwg yn y '*Manipulation School*',²⁷ mae ei sylwadau yr un mor berthnasol i agweddau gwybyddol ar gyfieithu proffesiynol. Nid tasg seml mo ymchwilio i'r ymennydd a'i swyddogaethau, ond mae datblygiadau technegol mewn nifer o feysydd bellach wedi ceisio agor y blwch du hwnnw er mwyn deall sut yr ydym fel dynolryw yn gweithredu'n wybyddol (García *et al.* 2016). Mae ymchwilwyr ym maes cyfieithu wedi defnyddio nifer o wahanol dulliau hefyd i ddeall sut y mae cyfieithwyr yn cymryd ystyr mewn un iaith a'i rhoi mewn brawddeg ramadegol gywir mewn iaith arall cyn ei chynhyrchu ar sgrin cyfrifiadur (gweler Pennod 5 am ymdriniaeth â dulliau ymchwil gwahanol perthnasol o faes Astudiaethau Cyfieithu). Mae dyfodiad y dulliau hyn i faes Astudiaethau Cyfieithu yn y 1980au yn cyd-fynd â diddordeb cynyddol y maes hwnnw yn yr agweddau *gwybyddol* ar gyfieithu, gan fynd y tu hwnt i

²⁷ Blagurodd diddordeb ysgolheigion mewn 'normau cyfieithu' allan o '*Polysystem Theory*' Itamar Even-Zohar a Gideon Toury yn Isreal, a ganolbwyntiodd ar astudio'r rhyngweithio rhwng diwylliant, cymdeithas a grym fel systemau sy'n effeithio ar yr hyn a gyfieithir, sut y'i cyfieithir a phwy sy'n ei hyrwyddo a'i ddarllen (Shuttleworth 2011). Ystyr 'normau cyfieithu' yw'r gwahanol ffactorau a chyfyngiadau sy'n effeithio ar sut y caiff cyfieithu ei ymarfer mewn gwahanol ddiwylliannau, ac ar sut y caiff cyfieithiadau llenyddol eu derbyn neu eu gwrthod (Shuttleworth 2011. tt. 200-201).

ddiddordebau ieithyddol pur mewn perthynas â'r testun targed ac Ieithyddiaeth Gymharol. Mae'r fframweithiau cysyniadol y mae ysgolheigion cyfieithu wedi eu defnyddio yn gefndir i'r dulliau ymchwil newydd hyn yn dod o amryw feysydd, gan gynnwys seicoieithyddiaeth, seicoleg wybyddol, seicoleg arbrofol a modelau o ymchwil ysgrifennu (Jensen 2011a, t. 10). Gwelir bod y rhagddodiad seico- i'w weld yn enw tri o'r meysydd uchod; mae ymchwilwyr Astudiaethau Cyfieithu sy'n mynd i'r afael ag agweddau gwybyddol ar eu maes wedi troi at Seicoleg am y fframweithiau cysyniadol hyn yn aml (Shreve a Danks 1997, t. viii).

Gellir deall cyfieithu fel proses wybyddol yn anad dim felly;²⁸ mae i'r broses honno ganlyniadau diwylliannol a chymdeithasol pellgyrhaeddol a dyfnion, ond cyn i'r canlyniadau hyn gael eu gwireddu mae'r cyfieithydd yn gorfod *creu'r* cyfieithiad hwnnw trwy broses sydd yn ei hanfod yn un wybyddol. Yn y bennod hon, trafodir gwahanol fframweithiau a theorïau ar gyfer cyfieithu a golygu; gan mai ymchwilio i effaith allbwn technoleg cyfieithu ar agweddau penodol ar y broses cyfieithu sydd dan sylw, ynghyd â'r ymdrech *wybyddol* sydd ynghlwm wrthi, mae gosod y cefndir damcaniaethol i'r prosesau hyn yn angenrheidiol. Dechreuir trwy fynd i'r afael â chraidd y system wybyddol. Wedyn, eir i'r afael â pherthynas y Cof Dynol, sydd yn ei hanfod yn system brosesu gwybodaeth yn hytrach na system storio seml yn unig, â chyfieithu a rhyngweithio â thechnoleg cyfieithu.

²⁸ Yn eu rhagarweiniad i un o'r cyfrolau cyntaf i fynd i'r afael ag agweddau gwybyddol ar gyfieithu, dywed Shreve a Danks (1997, t. viii), "...today, there is general agreement in the discipline that translation is a complex information-processing activity that can be only partially explained by the models of theoretical linguistics". Ar gyfer '*information-processing task*' darllener 'gweithred sy'n dibynnu ar swyddogaeth wybyddol yr ymennydd i brosesu gwybodaeth'. Ni ellir gwadu pwysigrwydd cyd-destun cymdeithasol cyfieithu, nac ychwaith bwysigrwydd gwybodaeth ddiwylliannol gefndirol i'r cyfieithydd, ond daw hynny i gyd at ei gilydd yn ymennydd y cyfieithydd trwy gyfrwng y system wybyddol; o'r system wybyddol hon y daw unrhyw gyfieithiad. Gweler Tymoczko a Gentzler (2002) am gasgliad o erthyglau sy'n ymdrin â chyfieithu fel grym a all newid cymdeithas a diwylliant er enghraifft.

4.2 Y COF GWEITHREDOL

Mae'r ansoddair 'gweithredol' yn y term o Seicoleg Wybyddol 'Cof Gweithredol' yn awgrymog; o ddarllen y term, yr hyn a ddaw i feddwl y darllenydd yw syniad o ryw fath o gof sy'n *gwneud* rhywbeth, neu sy'n *gyfrifol am wneud* rhywbeth. Wrth ddarllen y gair 'Cof' fel enw unigol serch hynny, tueddir i feddwl am strwythur haniaethol y tu fewn i 'flwch du' yr ymennydd sy'n gyfrifol am *storio* gwybodaeth yn oddefol, heb swyddogaeth bwysig i'w chyflawni mewn perthynas â gwneud tasgau, ar wahân i gofio gwneud y tasgau hyn. Mewn gwirionedd, mae'r Cof Gweithredol yn cyfuno'r ddwy swyddogaeth hyn ac yn gyfrifol nid yn unig am storio gwybodaeth am brofiadau a'i hadalw ar adegau priodol, ond hefyd am ein gallu i berfformio tasgau penodol. Crynhoa Baddeley (2007, t. 1) brif swyddogaeth y Cof Gweithredol fel a ganlyn, "Working Memory is assumed to be a temporary storage system under attentional control that underpins our capacity for complex thought". Mae pwysigrwydd y cof hwn ar gyfer '*complex thought*' yn bwynt pwysig; o dderbyn bod cyfieithu proffesiynol yn dasg ieithyddol gymhleth, dylai'r Cof Gweithredol chwarae rhan bwysig yn y broses honno hefyd.²⁹ Yng ngeiriau Jensen (2011a, t. 40):

WM (Working Memory) [...] is considered central to the activity of translating as it controls the co-ordination of several tasks including language comprehension and language production. Drawing on information held within LTM (Long Term Memory), incoming visual input in the form of ST (Source Text) words is manipulated with the purpose of recreating the SL (Source Language) message in the TL (Target Language).

²⁹ Profodd Rothe-Neves (2003) fod y Cof Gweithredol a'i gynhwysedd cyfyngedig (Saes. limited capacity)(gweler Adran 5.5) yn chwarae rhan allweddol yn y broses cyfieithu broffesiynol, a darganfu Vieira (2014) yr un peth am ôl-olygu. Dywedir 'cyfieithu proffesiynol' oherwydd na fu modd i Rothe-Neves (2003) ddod o hyd i unrhyw gydberthyniad ystadegol rhwng canlyniadau tasgau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â swyddogaethau'r Cof Gweithredol a phrosesau cyfieithu *myfyrwyr* cyfieithu.

Eir i'r afael isod â gwahanol rannau'r Cof Dynol a'u swyddogaethau felly mewn ymgais i ddarparu cefndir gwybyddol y prosesau yr ymchwiler iddynt, sef cyfieithu a rhyngweithio â thechnoleg cyfieithu.

4.3 Y COF TYMOR BYR

Mae 1968 yn ddyddiad pwysig ym maes Seicoleg Wybyddol; yn y flwyddyn honno y cyflwynodd Atkinson a Shrifin (1968) eu theori ynghylch y Cof Tymor Byr. Gweddnewidiodd y theori hon sut yr oedd ymchwilyr yn meddwl am y Cof Dynol a'i swyddogaeth wrth brosesu gwybodaeth a pherfformio tasgau, ac arhosodd yn boblogaidd am o leiaf ddau ddegawd. Craidd y theori hon oedd bod gan y Cof Dynol dair rhan wahanol (Baddeley 2007, t. 3); byddai ysgogiadau gweledol a chlywedol yn cyrraedd y 'Cof Synhwyrdd' yn gyntaf cyn cael eu trosglwyddo ymlaen i'r Cof Tymor Byr. Byddai'n rhaid i'r wybodaeth newydd hon wedyn gael ei hymarfer yn gyntaf cyn cael ei hanfon i'r Cof Tymor Hir. Byddai'r Cof Tymor Byr yn ôl theori Anderson a Shrifin (1968) yn trin gwybodaeth ac yn gweithredu arni, yn ogystal â rhyngweithio â'r Cof Tymor Hir. Y Cof Tymor Hir hwn wedyn oedd y rhan olaf yn eu model, a'i unig swyddogaeth oedd storio gwybodaeth am gyfnod parhaol. Diorseddwyd theori Anderson a Shrifin (1968) yn raddol oherwydd dwy broblem na fu modd iddi eu goresgyn. Fe gymerwyd yn ganiataol gan y theori deiran hon fod dysgu yn fater seml o ymarfer gwybodaeth er mwyn iddi gael ei throsglwyddo i'r Cof Tymor Hir. Er mwyn cofio, felly, y cyfan yr oedd angen ei wneud yn ôl theori Anderson a Shrifin (1968) oedd ymarfer yr hyn y bwriedid ei gofio. Gwrthbrofwyd y dybiaeth hon gan Craik a Lockhart (1972); dangosasant nad ymarfer gwybodaeth oedd yr elfen bwysicaf, eithr dyfnder y prosesu. Galwyd hyn y '*Levels of Processing Hypothesis*'. Yr ail broblem a arweiniodd at gwmp y theori yn ôl Baddeley (2007) oedd y dystiolaeth niwrowyddonol o bobl â namau seicolegol neu anafiadau i'w

hymenyddau. Dangosodd ymchwilyr nad oedd pobl a chanddynt anawsterau â'u Cof Tymor Byr o reidrwydd yn profi problemau wrth gyflawni tasgau a ddibynnodd ar gynnwys eu Cof Tymor Hir. Darganfuwyd bod yr un peth yn wir am bobl ag anawsterau â'u Cof Tymor Hir; roeddent yn dal i fedru cyflawni tasgau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â'r Cof Tymor Byr (Baddeley 2007, t. 3). Daeth yn gynyddol amlwg o ganlyniad nad un system ar gyfer cofio ac adalw gwybodaeth oedd y Cof Dynol. Oherwydd y problemau hyn, troes ymchwilyr at y gwaith o ymchwilio i theorïau posibl eraill. Dau o'r ymchwilyr hyn oedd Graham Hitch ac Alan Baddeley, ac mae eu gwaith ar y Cof Gweithredol wedi bod yn hynod o ddylanwadol.³⁰ Hyd heddiw saif eu hymchwil yn gadarn fel theori ddefnyddiol ar gyfer ymchwilio i sail wybyddol ein meddyliau a'n gweithredodd. Yr enw a roesant ar eu cynnig cyntaf oedd y 'Cof Gweithredol', ac arddelir yr enw hwnnw o hyd.

4.4 GWAHANOL GYDRANNAU'R COF GWEITHREDOL HWN

Yn dilyn cyfres o arbrofion a ddyluniwyd i lwytho gallu prosesu'r ymennydd gan ddefnyddio paradeim y 'Dasg Ddeuol', sef gofyn i gyfranogwr gyflawni tasg brimaidd wrth geisio gwneud un arall (tasg eilaidd) ar yr un pryd, daeth Baddeley a Hitch (1974) i'r casgliad bod Cof Tymor Byr Atkinson a Schiffrin (1968) yn gof 'gweithredol'. Darganfuwyd bod y cof hwn nid yn unig yn gyfrifol am drosglwyddo gwybodaeth i'r Cof Tymor Hir ar ôl ei chadw am gyfnod byr dros dro, ond daethpwyd i'r casgliad bod y cof hwn hefyd yn gyfrifol am drin gwybodaeth a gweithredu arni, a bod ei allu i wneud hynny'n gyfyngedig.³¹ Damcaniaethasant yn ogystal fod i'r Cof Gweithredol hwn dair

³⁰ Nododd Baddeley yn 2007 fod 800 o bapurau y flwyddyn yn cynnwys y geiriau '*Working Memory*' yn ymddangos, yn ogystal â 3,700 o bapurau gyda'r un geiriau mewn crynodebau erthyglau, yn eu teitlau neu yn y geiriau allweddol (Baddeley 2007, rhagymadrodd).

³¹ Â Pennod 5 i'r afael â hyn wrth drafod yr ymdrech wybyddol.

rhan, felly daethpwyd i alw eu model yn '*Multicomponent Model*' (Eysenck a Keane 2010, t. 205). Cydrannau'r cof hwn felly yn ôl y model gwreiddiol oedd y Cylch Ffonolegol, y Pad Gweledol-Gofodol a'r Gweithredydd Canolog (Baddeley 2007, tt. 7-13). Yn 2000 wedyn ychwanegwyd cydran arall, sef y Byffer Cyfnodol (Baddeley 2000). Gellid ychwanegu at hyn strwythur a elwir yn Gof Synhwyrdd hefyd; er nad yw'n rhan benodol o fodel Baddeley, mae tystiolaeth bod rhyw fath gof cychwynol yn bodoli sy'n hidlo gwybodaeth cyn iddi gyrraedd yr ymennydd (Eysenck a Keane 2010, t. 206). Manylir ar y cydrannau hyn isod.

4.5 Y COF SYNHWYRAIDD

System ar gyfer derbyn a chyn-brosesu gwybodaeth weledol a chlywedol yw'r Cof Synhwyrdd; mae'n gyfrifol felly nid yn unig am *dderbyn* gwybodaeth ar ffurf ysgogiadau o'r amgylchfyd o'n cwmpas, ond hefyd am *ddewis a dethol* pa ysgogiadau a drosglwyddir i'r Cof Gweithredol. Mae dwy ran i'r Cof Synhwyrdd; y Cof Eiconig sy'n ymwneud ag ysgogiadau gweledol a'r Cof Adleisiol sy'n ymwneud ag ysgogiadau clywedol (Eysenck a Keane 2010, t. 206). Byddai'r ddwy ffurf ar y cof cychwynol hwn yn berthnasol i gyfieithu; y Cof Eiconig i gyfieithu testun oherwydd pwysigrwydd darllen, a'r Cof Adleisiol i gyfieithu ar y pryd oherwydd yr angen i wrando ar yr hyn a ddywedwyd ar lafar. Erys gwybodaeth weledol yn y Cof Synhwyrdd am hyd at 500 milieiliad (Eysenck a Keane 2010, t. 206), a thrwy'r cof hwn y mae'n rhaid i destun yr IFf deithio cyn y gellir bwrw ati i'w gyfieithu.

4.6 Y CYLCH FFONOLEGOL

Mae'r Cylch Ffonolegol yn system sy'n ymwneud yn bennaf â phrosesu gwybodaeth glywedol (Baddeley 2007, t. 8). Caiff gwybodaeth glywedol, megis iaith lafar, ei chadw yn

y cof hwn a'i hymarfer er mwyn cael ei phrosesu. Mae'r Cylch Ffonolegol yn fath ar lais mewanol hefyd sy'n ganolog i'n dull o resymu a meddwl yn gyffredinol. Mae'r cof hwn yn allweddol i brosesau ieithyddol yn ogystal, ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth *ddeall* iaith (Baddeley 2003), yn enwedig pan fo angen defnyddio neu weithredu ar yr ystyr a gaffaelwyd (megis ei chyfieithu) (Gathercole 2007), ac wrth *gynhyrchu* iaith, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig (Kellog *et al.* 2007). Dangosodd cyfres o arbrofion a wnaed gan Kellog *et al.* (2007) fod gwneud tasg eilaidd sy'n dibynnu ar y Cylch Ffonolegol yn amharu ar effeithlonrwydd cynhyrchu testun cyfranogwyr (sef y dasg brimaidd), gan awgrymu'n gryf fod yr hyn y caiff ei ysgrifennu yn cael ei storio yn gyntaf yn ystod y broses cynllunio gan y Cylch Ffonolegol. Mae tystiolaeth niwrowyddonol wedi cysylltu gweithrediad y Cylch Ffonolegol â rhannau o'r ymennydd y gwyddys eu bod yn bwysig i gynhyrchu iaith glywadwy ac ysgrifenedig hefyd, e.e. rhan iaith Broca sydd i'w chael yn llabed flaen yr ymennydd (Anderson 2009, t. 153).

4.7 Y PAD GWELEDOL-GOFODOL

Mae'r gydran hon yn gyfrifol am storio a gweithredu ar ysgogiadau yn ymwneud â gwybodaeth weledol a gwybodaeth yn ymwneud â gofod a chyfeiriad. Mae'n debygol bod y Pad Gweledol-Gofodol yn allweddol i brosesu gwybodaeth ynghylch cyfeiriadau, symud trwy ofodau a chynllunio llwybrau, yn ogystal â chwarae rhan yn y broses o gynllunio a threfnu meddyliau a syniadau wrth ysgrifennu (Kellog *et al.* 2007). Dangosodd arbrofion Kellog *et al.* (2007) fod rhai elfennau o'r broses ysgrifennu yn cael eu 'dychmygu'n fewnol' neu eu 'gweld' hefyd mewn rhai achosion. Cred Hayes (1996) fod i'r Pad Gweledol-Gofodol ran weithredol wrth gynllunio testunau hwy neu ddarnau estynedig o destun hefyd, gan fod angen cynllunio ymlaen llaw strwythur a siâp y testunau. Mae hyn yn berthnasol i gyfieithu hefyd o ystyried bod angen cynllunio'r testun targed. Yn wahanol

i'r Cylch Ffonolegol, mae astudiaethau niwroddelweddu wedi dangos mai ochr dde yr ymennydd dynol, sef hemisffer dde'r ymennydd, sy'n weithredol wrth gyflawni tasgau sy'n dibynnu ar y gydran hon yn y model (Baddeley 2007, t. 10).

4.8 Y GWEITHREDYDD CANOLOG

Yn ôl Baddeley (2007, t. 117), y Gweithredydd Canolog yw rhan bwysicaf oll y Cof Dynol. Swyddogaeth y Gweithredydd Canolog yw rheoli a chydlynu prosesau gwybyddol (Baddeley 2007, t. 117), ac mae'n cyflawni hyn trwy wneud pedair tasg allweddol, sef:

1. Ffocysu a chanolbwyntio sylw ar dasg benodol,
2. Rhannu adnoddau gwybyddol rhwng tasgau,
3. Symud sylw oddi ar un dasg i un wahanol,
4. Rhyngweithio â'r Cof Tymor Hir trwy gyfrwng strwythur a alwyd y 'Byffer Cyfnodol' (gweler isod).

Yr enw a rydd Baddeley (2007, t. 122) ar y pedair tasg hyn yw 'Prosesau Gweithredol'. Y Gweithredydd Canolog felly sydd wrth wraidd ein gweithredoedd a'n meddyliau gan mai'r rhan hon o'r Cof Dynol sy'n gyfrifol am ffocysu sylw ac adnoddau gwybyddol, ynghyd ag adalw gwybodaeth berthnasol o'r Cof Tymor Hir sy'n angenrheidiol i wneud y rhan fwyaf o dasgau yn llwyddiannus. Mae swyddogaeth y Gweithredydd Canolog mewn perthynas â *ffocysu* a *chyfnewid* sylw yn debygol iawn o fod yn hanfodol wrth gyfieithu; mae cyfieithu yn dasg ac iddi nifer o wahanol gamau, hyd yn oed os yw'r camau hyn weithiau'n digwydd yn gydamserol (gweler isod). Mae disgwyl i'r cyfieithydd ddarllen yr IFf cyn trosglwyddo ei gwahanol ystyron i'r ID; bydd cyfieithu felly, oherwydd ei natur ddeuol gynhenid, yn arwain at adegau lle bydd angen *ffocysu* sylw ar un dasg oherwydd ei chymhlethdod (y gall ei amlygu ei hun fel seibiant yn y broses cyfieithu, gweler Adran 5.20), ar y cyd â chyfnodau o *gyfnewid* sylw rhwng ei gwahanol dasgau (e.e. symud o ddarllen yr IFf i'r broses cynhyrchu testun yn yr ID). Mae cyfnewid sylw rhwng tasgau yn

arwain at gost wybyddol ac mae gallu'r system wybyddol i ffocysu sylw hefyd yn gyfyngedig, nodwedd yr eir i'r afael â hi ym Adran 5.5 wrth drafod yr ymdrech wybyddol. Mae cymhlethdod y dasg hefyd yn effeithio ar natur gyfyngedig y Gweithredydd Canolog, a gall tasgau cymhleth arwain at fwy o adnoddau gwybyddol yn cael eu treulio ar y dasg, gan y bydd yr ymennydd yn gorfod ffocysu ar y dasg honno yn unig er mwyn ei chyflawni yn llwyddiannus (Baddeley 2007, tt. 124-125). Bydd swyddogaethau'r Cylch Ffonolegol a'r Pad Gweledol-Gofodol hefyd yn rhyngweithio â'r Prosesau Gweithredol hyn; o ganlyniad damcaniaethodd Baddeley (2000) fod rhyw fath o is-system yn bodoli sy'n cysylltu ysgogiadau a gwybodaeth ar eu hamryfal ffurfiau o'r Cylch Ffonolegol, y Pad Gweledol-Gofodol a'r Cof Tymor Hir. Yr enw a dadogwyd ar y strwythur hwn oedd y Byffer Cyfnodol.

4.9 Y BYFFER CYFNODOL

Methodd model gwreiddiol Baddeley a Hitch (1974) ag esbonio sut y mae gwybodaeth o'r Cof Tymor Hir yn effeithio ar dasgau a brosesir gan y Cof Gweithredol, ac nid oedd yn ddigon cryf ychwaith i fedru esbonio cynhwysedd uwch honedig y Cylch Ffonolegol wrth wneud rhai tasgau penodol (Hitch 2012, t. 283). O ganlyniad, ysbrydolwyd Baddeley (2000) i ddamcaniaethu ynghylch is-system arall a fedrai gysylltu gwybodaeth o wahanol rannau'r Cof Gweithredol, adalw gwybodaeth o'r Cof Tymor Hir, a chreu cyfuniadau gwybyddol a elwir yn '*chunks*' (Baddeley 2007, t. 148). Prif swyddogaeth y Byffer Cyfnodol felly yw cyfuno a chysylltu gwybodaeth o wahanol ysgogiadau, gan gynnwys gweithredu'n rhyngwyneb rhwng y Cof Tymor Hir a'r Cof Gweithredol. Disgrifia Baddeley (2007, t. 148) y Byffer Cyfnodol mewn cyhoeddiad diweddarach fel a ganlyn:

The Episodic Buffer is assumed to be a temporary storage system that is able to combine information from the loop, the sketchpad, long-term memory, or indeed from perceptual input, into a coherent episode. This process may be attentionally demanding, whereas direct retrieval from LTM [Long Term Memory] is assumed to be relatively undemanding.

Cred Jensen (2011a, t. 42) fod y Byffer Cyfnodol yn debygol o chwarae rhan yn y broses cyfieithu hefyd. Bydd y Byffer Cyfnodol yn gyfrifol yn gyntaf oll am rwydo gwybodaeth ieithyddol gyffredinol megis gramadeg neu gyweiriau priodol o'r Cof Tymor Hir, ond bydd hefyd yn rhyngweithio â'r Cof Tymor Hir er mwyn galluogi'r cyfieithydd i adalw gwybodaeth o strategaethau cyfieithu a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Mae gallu'r Cof Gweithredol i ryngweithio â'r Cof Tymor Hir a'i gynnwys mewn perthynas â chyfieithu yn allweddol felly. Wrth ddiffinio arbenigedd cyfieithu ar gyfer ei hastudiaeth ar y duedd i egluro elfennau o'r testun ffynhonnell yn y testun targed,³² rhydd Englund-Dimitrova (2005) bwyslais ar allu cyfieithwyr profiadol iawn i ddibynnu ar eu gwybodaeth o gyfieithiadau y maent wedi eu gwneud eisoes (h.y. profiad cyfieithu) a sut y medrant 'awtomeiddio' llawer o'u prosesau cyfieithu o ganlyniad. Dywed Englund-Dimitrova (2005, t. 17) yn ei geiriau ei hun, "More importantly, through their experience, experts have restructured their knowledge and can therefore access relevant information in the LTM (Long Term Memory) in the process of performing a task in a more efficient way than non-experts". Ni fydd hynny'n gymwys yn achos pob cyfieithydd, gan y caiff arbenigedd cyfieithu ei ddatblygu dros gyfnod o flynyddoedd, ond tanlinella hynny bwysigrwydd y Byffer Cyfnodol i gyfieithwyr proffesiynol.³³ Bydd y Byffer Cyfnodol, yn ôl Jensen (2011a, t.

³² Y term Saesneg ar gyfer y strategaeth cyfieithu hon yw '*Explication*'. Enghraifft o hyn fyddai esbonio beth yw 'Eisteddfod' mewn testun targed Saesneg wrth gyfieithu o'r Gymraeg.

³³ Sylwer hefyd mai am *arbenigedd* cyfieithu y mae Englund-Dimitrova (2005) yn sôn yma, nid *cymhwysedd* cyfieithu. Yn naturiol ddigon, gall rhywun â dwy flynedd o brofiad gyfieithu testun i safon uchel. Ond y gwahaniaeth yw y bydd *arbenigwyr* cyfieithu yn gwneud gwaith o safon hefyd a hynny yn gyson ac yn ddi-

42), hefyd yn storio gwybodaeth am gyfieithiadau dan sylw ar y cyd ag integreiddio gwybodaeth o'r IFF â gwybodaeth am yr ID wrth ffurfio cyfieithiad, a hynny mewn rhyw fath o 'gyfuniad gwybyddol' neu '*episode*'.

4.10 Y COF TYMOR HIR

Cadarnhawyd strwythur deuol y Cof Dynol cyn gynhared â 1974 felly, pan lwyddodd Baddeley a Hitch (1974) i ddatgysylltu'r ddau fath o gof a'u swyddogaethau. Aeth ymchwilwyr eraill ati wedyn i ddarganfod a ellid rhannu swyddogaethau'r Cof Tymor Hir, i ddarganfod ei swyddogaeth, ac i ddod o hyd i dystiolaeth niwrowyddonol am ei fodolaeth. Gwahaniaethir rhwng dau fath o Gof Tymor Hir, sef y Cof Datganiadol a'r Cof Annatganiadol (Eysenck a Keane 2010, t. 253). Y prif wahaniaeth rhwng y ddau fath hyn o gof yw ymwybyddiaeth; mae'r Cof Datganiadol yn ymwneud â datgan ffeithiau am yr hyn yr ydym yn ei wybod am y byd o'n cwmpas, ac wrth ddibynnu ar y Cof hwn yr ydym yn ymwybodol ohono. Enghraifft o hyn yw gwybod mai ansoddair yw 'Cymreig' a bod 'Cymraeg' yn enw priod ar iaith. Enghraifft arall yw cofio digwyddiadau a phrofiadau fel y digwyddasant, megis cofio sut beth ydyw i wyllo gêm rygbi ryngwladol yng nghanol Caerdydd. Gwahaniaethir ymhellach rhwng y Cof Cyfnodol, sy'n gyfrifol am gofio digwyddiadau a phrofiadau fel hyn, a'r Cof Semantaidd,³⁴ sy'n gyfrifol am storio ffeithiau, megis ffeithiau ieithyddol neu wybod sut i ymddwyn yn briodol yn unol â normau cymdeithasol (Eysenck a Keane 2010, t. 255). Mae'r Cof Annatganiadol wedyn yn llawer


ffael yn amlach o lawer, a bydd llawer o'r broses wedi ei hawtomeiddio i ryw raddau oherwydd cynnwys y Cof Tymor Hir. Ystyr 'awtomeiddio' yw gallu cyfieithydd â phrofiad helaeth i gyfieithu gan ddibynnu ar ei stôr fewnol o gyfieithiadau a wnaed eisoes ryw bryd yn y gorffennol, heb orfod o reidrwydd gyfieithu o'r newydd a dibynnu ar gymhorthion allanol megis geiriaduron a chydweithwyr. Gweler Englund-Dimitrova (2005, tt. 10-19) am drafodaeth ar sut y mae gallu, cymhwysedd ac arbenigedd wrth gyfieithu mewn cyddestun proffesiynol yn rhyngweithio.

³⁴ Er gwaethaf ei enw, ymwneud â llawer mwy nag iaith y mae'r cof hwn.

llai amlwg a chuddiedig fel petai; prif nodwedd y cof hwn yw nad yw'n dibynnu ar gofio ymwybodol a bydd yn ei amlygu ei hun trwy ymddygiadau sydd wedi eu dysgu'n drylwyr (Eysenck a Keane 2010, t. 156). Eto, mae i'r Cof Annatganiadol ddwy is-system hefyd, sef y Cof Gweithdrefnol, ynghyd â'r gallu i ddysgu am ysgogiadau penodol sydd wedi eu gweld neu eu profi o'r blaen fel bod modd eu prosesu'n gyflymach yn y dyfodol, a elwir yn System Cynrychioli Canfyddiadau (Saes. Perceptual Representation System).

Y Cof Tymor Hir sy'n storio gwybodaeth ieithyddol y cyfieithydd fel y nodwyd uchod, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth cyfieithu, sef gwybodaeth o'r broses cyfieithu a sut i gyfieithu elfennau penodol o ieithoedd gwaith y cyfieithydd unigol. Ond mae'r Cof Tymor Hir a'i ddau brif fath, sef y Cof Datganiadol a'r Cof Annatganiadol, hefyd yn bwysig i ddwy broses arall ar wahân i hynny. Wrth i'r cyfieithydd ffurfio deunydd yn yr ID wrth gaffael ystyr yr IFf ac ar ôl gwneud hynny, bydd y Cof Semantaidd yn y Cof Datganiadol yn chwarae rôl flaenllaw oherwydd ei fod yn cynnwys gwybodaeth ieithyddol am yr ieithoedd dan sylw. Bydd y Cof Gweithdrefnol yn y Cof Annatganiadol hefyd yn chwarae rhan weithredol, gan mai'r cof hwn sy'n gyrru sgiliau echddygol megis teipio a llywio'r llygoden (Jensen 2011a, t. 44). Mae tystiolaeth o astudiaethau niwroddelweddu bod gwahanol rannau'r ymennydd yn weithredol pan wneir tasgau sy'n dibynnu naill ai swyddogaeth y Cof Datganiadol neu'r Cof Annatganiadol (Eysenck a Keane 2010, tt. 281-286). Mae'r Hypocampws yn allweddol yn y broses o gofio a phrosesu atgofion 'cyfnodol' (Eysenck a Keane t. 286). Noda Eysenck a Keane hefyd (2010, t. 286) mai'r Cortecs Cyndalcennol sy'n weithredol yng nghamau cynnar dysgu sgiliau echddygol, megis teipio sy'n dibynnu ar y Cof Gweithdrefnol, ond bod y striatwm, sydd i'w gael yn y ganglia gwaelodol, yn weithredol yn hwyrach ymlaen. Is-rannau o'r Llabed Flaen wedyn sy'n weithredol ar gyfer nifer o wahanol swyddogaethau eraill mewn perthynas â chofio, sef y Cortecs Cyndalcennol Cefnystlysol (Saes. Dorsolateral Prefrontal

Cortex) a'r Cortecs Cyndalcennol Torochrol (Saes. Ventrolateral Prefontal Cortext). Noda Diamond a Shreve (2010, t. 298) fod y Cortecs Cyndalcennol Cefnystlysol wedi ei gysylltu â phrosesau'n ymwneud â newid rhwng ieithoedd, ac o ganlyniad mae cysylltiad amlwg rhwng y rhan hon o'r ymennydd â chyfieithu. Gwyddys hefyd fod y Llabed Barwydol yn bwysig i ffocysu sylw wrth ddysgu (Eysenck a Keane 2010, t. 286). Yn Ffigur 2 isod, ceir diagram o'r ymennydd dynol yn dangos ei brif rannau:



Ffigur 2: Prif rannau'r Ymennydd Dynol. Wedi'i addasu o Clare (1997)

Mae'r Cof Dynol felly yn cynnwys gwahanol gydrannau, ac mae'r gwahanol gydrannau hyn:

1. yn gyfrifol am wahanol swyddogaethau;
2. yn cynnwys Cof Gweithredol a chof mwy parhaol o'r enw'r Cof Tymor Hir;
3. yn dibynnu ar wahanol rannau biolegol o'r ymennydd;
4. yn chwarae rhannau blaenllaw ac allweddol mewn nifer o agweddau ar gyfieithu.

Ond beth yn union yw'r broses cyfieithu, a sut y mae wedi cael ei dadelfennu? Y cwestiynau hyn fydd pwnc yr adran nesaf.

4.11 CAMAU CYNHYRCHU CYFIEITHU

Gellir ystyried cyfieithu yn broses amlweddol; wrth gyfieithu, bydd y system wybyddol yr aed i'r afael â hi uchod yn cyflawni nifer o swyddogaethau gwahanol o ddechrau'r broses cyfieithu tan i'r testun gorffenedig ymddangos. Yn ôl Shreve a Koby (1997, t. xi), mae'r prosesau gwybyddol hyn yn cynnwys:

1. Dod o hyd i ddealltwriaeth arwynebol o gynnwys yr IFf;
2. Dehongli ystyron yr IFf;
3. Ffurio cyfatebiaeth feddyliol yn yr ID i gynnwys yr IFf;
4. Cynhyrchu'r ID, h.y. ei hysgrifennu.

Ar y cyd â'r prosesau gwybyddol hyn, mae i gyfieithu sawl cam cynhyrchu yn ogystal, sydd mewn gwirionedd hefyd yn cynnwys y prosesau gwybyddol y cyfeirir atynt uchod, ac mae'r camau cynhyrchu hyn yn cynnwys darllen yr IFf, cynhyrchu deunydd ID meddyliol a'i ysgrifennu, cyn adolygu'r cyfieithiad wrth fynd. Gan gynnig dehongliad llawer mwy cynhwysfawr o'r broses cyfieithu felly, rhydd Hansen (2003, t. 26) y diffiniad canlynol:

The *translation process* [pwyslais gan Hansen] is defined as everything that happens from the moment the translator starts working on the source text until he finishes the target text. It is all encompassing, from every pencil movement and keystroke, to dictionary use, the use of the internet and the entire thought process that is involved in solving a problem or making a correction — in short everything a translator must do to transform the source text to the target text.

Mae'r diffiniad hwn yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau gwybyddol yn unig, gan wrthod eithrio'r broses cynhyrchu testun a'r broses adolygu, ac yn cynnwys o'i fewn bob cam. Er gwaethaf diffiniad Hansen (2003, t. 26), mae ymchwil ar y broses cyfieithu (Saes. Translation Process Research, TPR o hyn allan) naill ai wedi dadansoddi cyfieithu fel

proses wybyddol,³⁵ neu wedi dadansoddi cyfieithu fel proses *cynhyrchu testun*. Mae dealltwriaeth drylwyr o'r broses cyfieithu serch hynny yn golygu bod angen derbyn diffiniad Hansen ac adnabod cyfieithu fel proses sy'n cynnwys yr agweddau gwybyddol ar gyfieithu, neu'r broses fewnol, a hefyd y broses cynhyrchu testun, neu'r broses allanol. Trwy wneud hynny, nid oes perygl o eithrio prosesau a thasgau sy'n ganolog i gyfieithu proffesiynol. Gan fod y traethawd cyfredol hefyd yn ystyried yr ymdrech gymharol rhwng rhyngweithio â thechnolegau cyfieithu o gymharu â chyfieithu hebddynt, byddai eithrio'r broses cynhyrchu testun yn gyfyngiad difrifol ac yn eithrio nifer o newidynnau dibynnol hanfodol, megis newidynnau yn ymwneud â chynhyrchu testun (gweler Pennod 5). Mae gweddill y bennod hon felly yn amlinellu'r broses cyfieithu a'i champau cynhyrchu, cyn mynd ymlaen wedyn i amlinellu modelau diweddar o brosesau gwybyddol cyfieithu.

4.12 PROSES AU ALLANOL A CHAMAU CYNHYRCHU CYFIEITHU

Mae ymchwil empeiraidd ym maes TPR sydd wedi dadansoddi'r broses cyfieithu wedi adnabod tair prif broses neu is-broses, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r 'proses cyfieithu' gyfan. Mae'r tair rhan hyn yn wahanol o ran eu swyddogaethau, a hefyd yn wahanol o ran yr ymdrech wybyddol sy'n waelodol iddynt. Y tair is-broses hyn yw:

1. Ymglyfarwyddo â'r IFf,
2. Ffurio deunydd ID a'i gynhyrchu trwy brosesau cynhyrchu testun,
3. Adolygu'r cyfieithiad, a hynny wrth fynd neu ar ôl gorffen y testun yn ei gyfanrwydd.

Mae'r termau yn y llenyddiaeth sydd wedi eu defnyddio i ddynodi'r tair proses hyn yn amrywio o astudiaeth i astudiaeth. Cyflwynna Tabl 2 isod y gwahanol dermau ar gyfer y

³⁵ Mae term arall hefyd wedi ei ddefnyddio ar gyfer y broses wybyddol hon, sef y '*Moment of Translation*'; h.y., y cyfnod bach o amser y ffurfia'r cyfieithydd y deunydd ID ynddo, ar ôl caffael ystyr yr IFf (Englund-Dimitrova 2005, t. 21).

tair proses, ynghyd â nodi'r wybodaeth lyfryddiaethol berthnasol a'r dull ymchwil a ddefnyddiwyd. Cyfeiria 'BYS' at y defnydd o Gofnodi Trawiadau Bysell fel dull ymchwil a 'LLYG' at dracio llygaid (gweler Adrannau 5.12 a 9). Cyfeiria 'BYS+LLYG' at ymchwil a gyfunodd y ddau ddull ymchwil.

Tabl 2: Gwahanol enwau ar rannau penodol o'r broses cyfieithu

Rhif	Proses	Cyfatebiaethau i dermau TPR	Dull Ymchwil	Term Cymraeg Posibl
(1)	Ymglyfarwyddo â'r IFF	'Orientation Time' (Jakobsen 2002; 2005) 'Orientation Time' (Koehn 2009) 'Gisting' (Carl <i>et al.</i> 2010) 'Translation Onset Time' (Vandepitte <i>et al.</i> 2015). 'Problem Recognition' (Angelone 2010)	BYS+LLYG BYS BYS+LLYG BYS	Y Cam Ymglyfarwyddo
(2)	Ffurio deunydd ID a'i gynhyrchu	'Drafting Phase' (Jakobsen 2002) 'Drafting' (Koehn 2009) 'Drafting' (Carl <i>et al.</i> 2010) 'Solution Proposal' (Angelone 2010)	BYS BYS BYS+LLYG	Y Cam Cynhyrchu
(3)	Adolygu'r hyn a gynhyrchwyd ar y sgrin ar ôl gorffen teipio, neu ar ôl gorffen y testun targed yn ei gyfarwydd	'Online/End Revision' (Jakobsen (2003) 'End Pauses' (Koehn 2009) 'Monotoring Pauses' Dragsted (2010) 'Solution Evaluation' (Angelone 2010) 'Post-editing' (Carl <i>et al.</i> 2010) ³⁶	BYS BYS BYS BYS+LLYG	Y Cam Hunan- adolygu

4.12.1 Cam Ymglyfarwyddo

Nod cyfieithu ysgrifenedig yw creu testun targed yn Iaith₂ o ryw destun sydd eisoes yn bodoli yn Iaith₁. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ysgrifennu unieithog, bydd y cyfieithydd yn seilio'i destun ar destun arall, ac yn hynny o beth bydd perthynas gref rhwng y testun targed (sef y cyfieithiad) a'r testun ffynhonnell y mae'n seiliedig arno. Er mwyn creu'r testun targed hwnnw sy'n gwbl ddbynnol ar y testun ffynhonnell, mae angen caffael ystyr

³⁶ Ni ddylid drysu rhwng defnydd Carl *et al.* (2010) o'r term hwn i ddisgrifio prosesau adolygu, lle caiff y cyfieithiad ei wirio yn derfynol gan y cyfieithydd ar ôl cwblhau drafft, ac ystyr arferol y term ym maes TPR, sef y gwaith o gywiro allbwn system MT (ôl-olygu yn Gymraeg).

y testun ffynhonnell. Ni ellir gwneud hyn onid ymrwymir yn gyntaf i gyfnod dechreuol, ac hollol hanfodol, a fydd yn cynnwys ymgyfarwyddo â'r testun ffynhonnell (Padilla et al. 1999, t. 62). Mae'r strategaethau y bydd cyfieithwyr yn eu defnyddio i wneud hynny yn amrywio; bydd rhai yn darllen y testun yn ei gyfanrwydd cyn dechrau ar y broses cyfieithu, a bydd eraill yn penderfynu darllen wrth fynd, fesul segment (Englund-Dimitrova 2005, t. 24). Ond ni waeth pa ddull sy'n well gan y cyfieithydd, mae'r broses hon o ddarllen yr IFf, y bydd angen trosi ei gwahanol ystyron yn ffyddlon i iaith arall, bob tro yn gorfod digwydd. Mae'r gofyniad hwn i ddarllen er mwyn medru cyfieithu yn golygu bod darllen-er-cyfieithu yn wahanol i ddarllen arferol; wrth ddarllen bydd cyfieithwyr yn tynnu allan '*translation relevant information*' ar y cyd â gwybodaeth ieithyddol arferol (Englund-Dimitrova 2005, t. 24). Byddai cyfieithu, felly, yn amhosibl heb y broses gychwynnol hon. Wrth ddarllen yr IFf felly neu rannau ohoni, bydd y cyfieithydd yn cynllunio'r hyn y bydd yn ei gynhyrchu fel cyfieithiad wrth fynd; bydd cyfieithwyr yn adnabod rhannau o'r segmentau a allai fod yn heriol a byddant yn *dechrau* ffurfio cyfieithiadau posibl i dermau neu i is-rannau o'r segment wrth ddarllen (Ruiz et al. 2008). Wrth gaffael ystyr yr IFf y bydd y cyfieithydd yn ffurfio cyfieithiad, a chan amlaf ar lefel lai na'r frawddeg neu'r segment y bydd hynny. Bydd y cyfieithydd yn gorfod segmenteiddio'r rhan o'r IFf sydd dan sylw a chaiff y cyfieithiad ei gynhyrchu wedyn mewn rhannau mewn 'Cam Cynhyrchu' (gweler Adran 4.11).

4.12.2 Cam Cynhyrchu

Gan ganolbwyntio ar gyfieithu testunau mewn cyd-destun proffesiynol, ni all cyfieithiad fodoli oni chaiff ei ffurfio yn feddyliol yn gyntaf, cyn iddo gael ei gynhyrchu wedyn ar sgrin trwy broses o gynhyrchu testun. Mae i'r broses hon ddwy brif nodwedd gan ddibynnu ar gymhlethdod y dasg cyfieithu. Yn gyntaf, gall y cyfieithydd ffurfio

cyfieithiad meddyliol a'i deipio trwy broses o gynhyrchu testun sy'n gwbl ddi-rwystr a di-drafferth; bydd y cyfieithydd yn caffael ystyr rhan neilltuol o'r testun ffynhonnell ac yn ei throsglwyddo i'r ID heb unrhyw broblemau, cyn ei chynhyrchu ar y sgrin. Yr enw ar y math hwn o brosesu gwybyddol wrth gyfieithu yw '*Automatic Processing*' (Englund-Dimitrova 2005, t. 24), ac wrth i brofiad a gallu cyfieithydd gynyddu, gellir disgwyl hefyd i'w allu i brosesu segmentau bron yn awtomatig gynyddu hefyd. Bydd gwybodaeth y cyfieithydd am ei bâr o ieithoedd yn gwella a bydd ei stôr fewnol o gyfieithiadau y mae wedi eu gwneud o'r blaen yn cynyddu, ac o ganlyniad bydd ei brosesau cyfieithu yn dibynnu i raddau mwy ar gynnwys ei Gof Tymor Hir.³⁷ Golyga hyn y gall oddiweddyd cyfyngiadau cynhwysedd y Cof Gweithredol sydd yn ei dro yn hwyluso prosesau cynhyrchu testun a nodweddir gan absenoldeb cyfnodau o ddiffyg teipio. Mewn arbrawf empeiraidd a ddyluniwyd gan Kellog (2001a) i ymchwilio i'r effaith y mae gwybodaeth gefndirol am bwnc neilltuol yn ei chael ar amseroedd ymateb i sain (tasg eilaidd) wrth ysgrifennu am bwnc cyfarwydd (tasg brimaidd), darganfu fod cyfranogwyr na fedasant ddibynnu ar wybodaeth gefndirol helaeth yn y Cof Tymor Hir ag amseroedd ymateb hwy. O hyn casglodd Kellog fod cynnwys y Cof Tymor Hir nid yn unig yn effeithio ar lwyddiant ac effeithlonrwydd gwneud tasg, ond bod cynnwys y Cof Tymor Hir hefyd yn lleihau'r baich ar y Cof Gweithredol. Mae hynny yn ei dro yn rhyddhau adnoddau yn y Cof Gweithredol ac yn galluogi'r unigolyn i greu testunau gwell a'u cwblhau'n gyflymach.

Cefnoga data Kellog theori gynharach Ericsson a Kintsch (1995) mewn perthynas ag effaith leddfdu cynnwys y Cof Tymor Hir ar faich gwybyddol y Cof Gweithredol; dadleuant fod modd tynnu ar gynnwys y Cof Tymor Hir mewn rhai sefyllfaoedd yn hytrach na threulio adnoddau'r Cof Gweithredol. Mae'r astudiaethau hyn felly yn darparu

³⁷ Yn ei ddisgrifiad o'r broses cyfieithu, yr enw a rydd Gile (1995) ar hwn yw 'Cronfa Ddata'r Cyfieithydd', yn hytrach na'r Cof Tymor Hir.

tystiolaeth empeiraidd gref sy'n cefnogi safbwynt Englund-Dimitrova ynghylch pwysigrwydd y Cof Tymor Hir a phrofiad i arbenigedd cyfieithu, ac yn esbonio pam mae testunau cyfieithwyr profiadol yn medru bod yn well na chyfieithiadau cyfieithwyr llai profiadol, a sut y medr cyfieithwyr profiadol gyfieithu'n gyflymach.

Yn ail, ac yn amlach na heb, nodweddir prosesau cyfieithu cyfieithwyr gan nifer o seibiannau a phatrymau cynhyrchu testun 'herciog', lle bydd y cyfieithydd yn gorfod atal ei brosesau cynhyrchu testun cyn ailddechrau eto, ac felly ymlaen, hyd yn oed ar ôl darllen yr IFf (gweler Pennod 5). Hynny yw, caiff y frawddeg dan sylw ei 'segmenteiddio' yn wybyddol; bydd y cyfieithydd yn cynhyrchu cyfieithiad mewn darnau gwybyddol, a chyfetyb y cyfnodau 'tawel' hyn o brosesu gwybyddol i seibiannau yn y broses cynhyrchu testun (gweler Pennod 5). Mae'r segmenteiddio gwybyddol hwn yn anorfod; gorfodir cyfieithwyr gan gynhwysedd eu Cof Gweithredol i brosesu brawddegau i'w cyfieithu mewn darnau (Englund-Dimitrova, t. 27). Wrth gyflawni tasg, bydd yr ymennydd yn dibynnu ar swyddogaeth y Cof Gweithredol a'i wahanol rannau i gofio elfennau o'r dasg honno, adalw gwybodaeth ieithyddol o'r Cof Tymor Hir trwy gyfrwng y Byffer Cyfnodol a phrosesu'r wybodaeth angenrheidiol (Anderson 2009). Mae'n ddigon posibl bod y Cylch Ffonolegol yn gyfrifol am storio'r deunydd ID hwn cyn iddo gael ei ysgrifennu hefyd; gwyddys bod y Cylch Ffonolegol yn bwysig i gynhyrchu testun unieithog fel y nodwyd uchod. Ffurfio cyfieithiad meddyliol a chynhyrchu testun yw ail ran y broses cyfieithu felly, ac yn ystod y broses hon y mae'r rhan fwyaf o ymdrech sydd ynghlwm wrth gyfieithu i'w chael.

4.12.3 Cam Hunan-adolygu

Nid darllen cyn cynhyrchu testun bob yn ail yw'r unig broses wrth gyfieithu; yn aml caiff y testun neu segment gorffenedig ei ddarllen yn ei gyfanrwydd mewn ymgais i wirio'r hyn a gynhyrchwyd. Wrth wneud hyn, bydd y cyfieithydd yn sicrhau bod y cyfieithiad yn ramadegol gywir, ond bydd hefyd yn gwirio bod cywerthedd rhwng y testun ffynhonnell a'r testun targed.³⁸ Yn ôl Mossop (2014: tt. 183-6), ceir dau fath o 'Hunan-adolygu' mewn cyd-destun proffesiynol; bydd y cyfieithydd yn adolygu ei waith ei hun wrth ddrافتio cyfieithiad, ond gall ddigwydd hefyd yn syth ar ôl gwneud drafft cyntaf o'r testun yn ei gyfanrwydd. Yn ogystal â hyn, gellir cynnwys trydydd math o adolygu, sef gwirio wrth gynhyrchu (h.y. ar ôl pob segment) *ac* adolygu ar ôl cwblhau drafft cyntaf.

Ymgyfarwyddo â'r IFf, ffurfio deunydd ID a'i gynhyrchu cyn hunan-adolygu felly yw'r tair is-broses sy'n ffurfio 'camau cynhyrchu' cyfieithu proffesiynol.

4.13 PROSES AU MEWNOL A GWYBYDDIAETH CYFIEITHU

Fel y nodir uchod serch hynny, yr hyn sydd wedi bod o ddiddordeb i nifer o ymchwilwyr ym maes TPR yw'r agweddau gwybyddol pur ar gyfieithu, gan eithrio ystyriaethau mewn perthynas â chynhyrchu testun. Mae cyfraniadau cynnar i'r perwyl hwn yn cynnwys Dechert *et al.* (1986), Jääskäilen (1993), Lörsher (1991), Seguinot (1989) a Shreve *et al.* (1993). Lle mae'r ymchwil a amlinellwyd uchod yn dadansoddi pob

³⁸ Cywerthedd yw'r berthynas theoretig rhwng y cyfieithiad a'r testun gwreiddiol y mae'n gyfieithiad ohono, a mesurir ansawdd y berthynas honno fel arfer yn ôl ffyddlondeb, sef llwyddiant y cyfieithydd i gyfleu ystyr y testun gwreiddiol (beth bynnag y bo honno gan fod cyd-destun yn hollbwysig) yn y cyfieithiad (Kenny 2009, tt. 96-97). Trafodir cywerthedd eto ym mhennod 7 wrth fynd i'r afael ag ansawdd.

agwedd ar greu cyfieithiad, nid yw rhai ymchwilyr ond wedi dadansoddi'r broses o ddarllen yr IFf a ffurfio cyfieithiad meddyliol mewn modd manylach na'r ymchwil uchod, a sut y mae'r ddwy broses hyn yn rhyngweithio â'i gilydd. Byddai'r broses wybyddol bur hon felly yn mapio'n dwt ar gam cyntaf y 'camau cynhyrchu' a ddisgrifir uchod, a byddai hefyd yn gydran amlwg o ran gyntaf yr ail gam, gan eithrio'r broses cynhyrchu testun. Nod gweddill yr adran hon yw amlinellu modelau diweddar sydd wedi rhoi cynnig ar ddisgrifio sut y mae'r cyfieithydd yn dod o hyd i'r 'deunydd ID' y sonnir amdano uchod. Mae'r modelau hyn i'w cael mewn dau baradeim (Halverson 2014, t. 125): y Paradeim Prosesu Cydamserol, sy'n damcaniaethu bod deall yr IFf a chynhyrchu deunydd ID yn digwydd ar yr un pryd, a'r Paradeim Prosesu Dilyniannol, sy'n damcaniaethu bod y broses o ddeall yr IFf yn digwydd *cyn* y broses o ffurfio deunydd ID cyfatebol.³⁹

4.14 PROESU DILYNIANNOL

Mae modelau sy'n mynd i'r afael â gwybyddiaeth cyfieithu y tu fewn i'r paradeim dilyniannol yn pwysleisio bodolaeth bylchau amseryddol rhwng darllen yr IFf, boed hynny'n air neu frawddeg, a'r broses o ffurfio deunydd ID cyfatebol yn seiliedig ar ryw gynrychioliad meddyliol o ystyr yr IFf honno. Mae ffurfio'r deunydd cyfatebol yn Iaith₂ bob tro yn gorfod *dilyn* y broses o gaffael ystyr Iaith₁ yn gyntaf felly. Cefnogwyd y safbwynt hwn gan Craciunescu *et al.* (2004) ac Angelone (2010), a chynigiwyd model disgrifiadol o'r broses cyfieithu yn seiliedig ar y safbwynt hwn gan Gile (1995). Cynrychiola ymchwil yn y paramdeim hwn ymgais cynnar gan Astudiaethau Cyfieithu i fynd i'r afael â gwybyddiaeth cyfieithu, ac roedd ymchwil Danica Seleskovitch a Marianne

³⁹ Defnyddia De Groot (1997, tt. 30-32) dermau gwahanol ar gyfer yr un hollt gysyniadol, sef '*Vertical Translation*' ar gyfer prosesu dilyniannol a '*Horizontal Translation*' ar gyfer prosesu cydamserol.

Lederer ym Mharis o'r 1960au ymlaen yn ddylanwadol iawn.⁴⁰ Canolbwyntiodd eu gwaith ar theori a fynnai fod y cyfieithydd yn creu deunydd ID yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn a di-iaith o'r testun ffynhonnell, cyn i'r ddealltwriaeth honno gael ei throsglwyddo i ddeunydd ID trwy broses o '*re-expression*'. Yr enw ar y theori hon oedd y '*Deverbalization Theory*', ac mae modd gweld ei dylanwad i ryw raddau hyd yn oed ar waith hwyrach, gan gynnwys model poblogaidd Gile (1995). Er mai o ymchwil ar gyfieithu ar y pryd y daeth ysbrydoliaeth Selskovitch a Lederer, mae modd gweld tebygrwydd amlwg eu model (darllen → anllafareiddio → ailffurfio) i waith Nida (1964) a'i '*Science of Translating*' (Munday 2012, t. 98); pwysleisiai Nida yntau y gellid disgrifio'r broses cyfieithu yn broses ddilyniannol a gynhwysai dri cham, sef Dadansoddi'r testun ffynhonnell, Trosglwyddo'r ystyrion i ddeunydd testun targed ac Ailstrwythuro. Disgrifir isod fodel Gile a'i gyfraniad i'r paradeim prosesu dilyniannol, cyn troi at y paradeim prosesu cydamserol ac astudiaethau sydd wedi herio'n ddifrifol theorïau a ysbrydolwyd gan waith Seleskovitch a Lederer.

4.15 MODEL GILE (2009)


Mae model Gile (2009) yn cynnwys pedair prif ran y tu fewn i ddau gam trosfwaol, gyda Chronfa Gwybodaeth Ieithyddol ac Allieithyddol y Cyfieithydd, ynghyd â'i sgiliau Caffael Gwybodaeth, yn gweithredu yn y cefndir (Gile 2009, t. 102). Mae'r cyfieithydd hefyd yn cyfieithu fesul 'Uned Gyfieithu' neu 'Uned Brosesu' (ibid, t. 101) yn ôl y model, gan gwblhau cyfieithiad mewn darnau. Yr enw a roddir ar y cam cyntaf yw 'Deall' ac yn cynnwys Rhan I, sef ffurfio 'Hypothesis Ystyr', a Rhan II, sef gwneud prawf meddyliol er mwyn sicrhau bod y cyfieithydd wedi deall yr IFf yn ddigonol. Yr enw a ddefnyddir i

⁴⁰ Gweler Lederer (2003) am gyfieithiad Saesneg o waith y ddau gan y cyfieithydd Ninon Larché.

ddisgrifio'r ail gam yw 'Ailffurfio'; ac yn cynnwys Rhan III, sef Ffurio'r deunydd ID, a Rhan IV, sef gweithredu profion meddyliol er mwyn gwirio bod y cyfieithiad yn dderbyniol yn ôl paramedrau gramadegol, arddulliol, diwylliannol a ffyddlondeb. Os bydd y cyfieithydd yn penderfynu bod Rhan I a Rhan III wedi methu'r profion meddyliol, sef Rhannau II a IV, yna gwneir y rhannau hyn eto tan i'r cyfieithydd gredu ei fod wedi llwyddo (Gile 1995, tt. 101-106).

Darlunnir hynny yn Ffigur 3 isod. Bydd y cyfieithydd yn ôl y model yn dechrau yng Ngham 1, Rhan I a pharhau gam ar ôl cam tan ddiwedd y broses yng Ngham 2, Rhan IV. Wrth weithio trwy'r camau hyn, bydd y cyfieithydd bob tro yn dibynnu ar y Gronfa Gwybodaeth, ac wedyn ar ei Sgiliau Caffael Gwybodaeth os na fydd y Gronfa Gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i fedru parhau â'r broses cyfieithu.⁴¹

⁴¹ Er enghraifft, pe codai problem ynghylch ffurfiau berfol nad yw'r cyfieithydd yn gyfarwydd â hwy, byddai'n rhaid defnyddio'r Sgiliau Caffael Gwybodaeth er mwyn dysgu. Hefyd, pe na bai'r Gronfa Gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth angenrheidiol am bwnc neilltuol, byddai disgwyl i'r cyfieithydd ymchwilio i'r pwnc.



Figur 3: Model Gile (1995)


Mae'r model hwn wedi ennyn cryn feirniadaeth yn ddiweddar. Amlinellir hyn isod. Er hynny yn ôl Gile (2009), mae'r model yn ddefnyddiol iawn yng nghyd-destun hyfforddi darpar gyfieithwyr; gallai'r model gyrraedd ei lawn botensial felly fel model esboniadol i sicrhau bod myfyrwyr cyfieithu yn talu digon o sylw i'r broses darllen ac i'r broses ailffurfio, gan eu cymell i wirio wrth fynd ymlaen. Mae deall cyfieithu fel hyn, gan bwysleisio hefyd bwysigrwydd Sgiliau Caffael Gwybodaeth a'r Gronfa Gwybodaeth, megis dysgu digon am ddiwylliant yr ieithoedd a gyfieithir a'r defnydd effeithlon o eiriaduron, â manteision amlwg i'r dosbarth cyfieithu.

4.16 PROESU CYDAMSEROL

Mae ymchwil ddiweddar wrthi'n gwyrddroi theorïau sy'n damcaniaethu bod y broses cyfieithu yn un gwbl ddilyniannol (Padilla *et al.* 1999; Carl a Dragsted 2012), lle mae 'deall' yn *gorfod* digwydd cyn 'cynhyrchu'. Nid yw ymchwil yn y paradeim cyfieithu cydamserol o reidrwydd yn gwadu bodolaeth prosesu dilyniannol, ond yn hytrach credir bod prosesu cydamserol yn fwy cyffredin a bod prosesu dilyniannol yn debygol o ddigwydd o dan amgylchiadau penodol, yn hytrach na damcaniaethu mai trwy brosesu dilyniannol *yn unig* y caiff cyfieithiad ei greu. Amlinellir isod fodel Danks a Griffin (1997) o'r paradeim prosesu cydamserol, cyn adolygu ymchwil ddiweddar sydd wedi darparu tystiolaeth empeiraidd ar gyfer y paradeim hwnnw.

4.17 MODEL DANKS A GRIFFIN (1997)

Mae model Danks a Griffin (1997) yn fanylach na model Gile a gyflwynwyd uchod. Mae model Danks a Griffin yn ystyried y broses cyfieithu yn un amlweddog ac yn broses ac arni nifer o agweddau gwahanol. Mae un tebygrwydd i Gile serch hynny, sef cred Danks a Griffin ym mhowsigrwydd Gwybodaeth Gefndirol i gyfieithu. Er nad yw Danks a Griffin yn egluro'r hyn y mae Gwybodaeth Gefndirol yn ei olygu, o edrych ar y model (Ffigur 4 isod), mae'n debygol iawn ei fod yn cyfeirio at wybodaeth ieithyddol a diwylliannol y cyfieithydd, ynghyd â stôr o wybodaeth gyfieithu; h.y., cynnwys y Cof Tymor Hir fel y mae'n berthnasol i gyfieithu.



Ffigur 4: Model Danks a Griffin (1997)

Yn ôl y model hwn, bydd y cyfieithydd yn dechrau drwy ddadansoddi gwybodaeth orthograffig, sef adnabod siâp llythrennau, cyn caffael ystyr y geiriau hyn gan ddibynnu ar eu Gwybodaeth Gefndirol. Gosodir ystyron y geiriau hyn wedyn yng nghyd-destun y frawddeg gyfan, ynghyd ag ystyried cyd-destun ehangach y testun. Ar ôl llwyddo i adeiladu deunydd ID yn seiliedig ar ystyr yr IFf, bydd y cyfieithydd yn gwerthuso'r casgliadau y bydd wedi dod iddynt, gan ddod i gasgliadau gwahanol os bydd angen. Pwysleisia Danks a Griffin (1997) natur gydamserol eu model yn eu hysgrif; mewn perthynas â'r model, dywedant:

[...] we also suspect that the translator does not first comprehend the source text fully and only then begin the process of translation. Rather, we think that the translator is working on various possibilities for translation at the same time that he or she is comprehending the source text (ibid, t. 174).

Mae ymchwil empeiraidd ddiweddar yn sicr yn cefnogi'r safbwynt hwn. Darganfu Macizo a Bajo (2004), Ruiz *et al.* (2008), Jakobsen a Jensen (2008) a Dragsted (2010) fod cyfieithwyr sy'n darllen testun â'r disgwyliad i'w gyfieithu wedyn yn

darllen am gyfnodau hwy na darllenwyr sydd ond yn darllen yr un testun er mwyn ei ddeall yn unig. Mewn perthynas â'u darganfyddiadau, dywed Jakobsen a Jensen (2008, t. 116), "The increase in reading time from Task 1 to Task 2 [...] suggests that a fair amount of pre-translation probably enters into the reading of a text as soon as it is taken to be a source text for translation".⁴² Daeth Carl a Dragsted (2012) i'r un casgliadau hefyd, a darganfuant fod cyfieithwyr nid yn unig yn tueddu i fuddsoddi rhagor o amser yn y broses darllen os oes disgwyl iddynt ei gyfieithu wedyn, ond bod cyfieithwyr profiadol iawn hefyd yn medru cyfuno prosesau darllen â phrosesau cynhyrchu testun. Mae tystiolaeth ddibynadwy felly fod sail empeiraidd gref i'r Paradeim Prosesu Cydamserol a bod cyfieithwyr yn tueddu i gyfuno darllen ac ailffurfio, a chyfuno darllen a theipio. Mae'r broses cyfieithu yn un gymhleth, ac mae ei gwahanol rannau yn debygol iawn o fod yn gwbl gysylltiedig ac yn ddibynnol ar ei gilydd. Hawdd cytuno â Halverson (2014, t. 125) felly pan ddywed, wrth gyfeirio at yr astudiaethau a drafodir uchod, "These studies suggest that comprehension and production processes in some translation processes are tightly intertwined". Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oes sail i fodolaeth y Camau Cynhyrchu a amlinellwyd uchod serch hynny; nid darllen yr IFf yn ei chyfanrwydd yw swyddogaeth y 'Cam Ymglyfarwyddo' fel arfer, ond *ymglyfarwyddo* â'i chynnwys cyn darllen yn ddyfnach wrth ffurfio deunydd ID.

⁴² Yn Nhasg 1, gofynnwyd i grŵp o gyfranogwyr ddarllen testun, ac yn Nhasg 2 gofynnwyd iddynt ddarllen y testun gan gofio y byddai disgwyl iddynt ei gyfieithu yn hwyrach ymlaen.

4.18 Y BROSES CYFIEITHU Â CHYMORTH SYSTEMAU TM AC MT

Ond beth am y broses o gyfieithu trwy gywiro neu addasu allbwn systemau TM ac MT? Er nad oes fawr o ymchwil academiaidd ar hyn o bryd sydd wedi mynd i'r afael â'r broses hon (ar wahân i Koehn (2009), a recriwtiodd bobl ddwyieithog nad oeddent yn gyfieithwyr proffesiynol), mae Mellinger a Shreve (2016) wedi taflu goleuni ar y broses honno trwy ddadansoddi ffenomen 'gorolygu'. Gorolygu, yn ôl yr awduron, yw "[...] making revisions to a proffered segment when the candidate segment is ostensibly "good enough". Yn ôl eu hastudiaeth, digwydd gorolygu oherwydd bod cyfieithwyr yn gyntaf oll yn darllen y segment IFf ac yn dadbacio ystyr y segment hwnnw. Wedyn, bydd y cyfieithydd yn dod o hyd i gyfystyron ID ac yn ffurfio cyfieithiad meddyliol. Ond yn hytrach nag ysgrifennu'r cyfieithiad wedyn, fel y digwydd wrth gyfieithu *heb* allbwn systemau TM ac MT, bydd y cyfieithydd yn cymharu ei gyfieithiad meddyliol â chynnig y system ac yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol iddo. Bydd y broses o 'wneud yr addasiadau angenrheidiol' nid yn unig yn cynnwys newid yr hyn sy'n anghywir o safbwynt cyfieithu ac iaith, ond hefyd yn cynnwys newid elfennau cystrawennol a geiriol nad yw'r cyfieithydd yn hoff ohonynt neu sy'n wahanol i gyfieithiad meddyliol y cyfieithydd hwnnw. Gellir ystyried y broses cyfieithu trwy gydweithio â systemau MT a TM felly yn broses cyfieithu, fel y disgrifiwyd uchod, ond bod *gweddill* y broses yn ymwneud wedyn â chymharu ac addasu, yn hytrach na theipio testun arferol cyn adolygu. Y cwestiwn y mae angen ei ofyn felly yw i ba raddau mae hyn yn haws ac yn gyflymach na chyfieithu heb dechnoleg cyfieithu?

4.19 DIWEDDGLO

Bwriad y bennod hon oedd amlinellu fframweithiau gwybyddol cyfieithu er mwyn darparu'r ail sylfaen ddamcaniaethol ar gyfer y traethawd hwn, ar y cyd â darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer dewis y newidynnau dibynnol priodol a'r rhagdybiaethau rhagfynegol perthnasol. Cynigiwyd fframweithiau gwybyddol posibl, a chysylltwyd y fframwaith a ddisgrifiwyd â'r system wybyddol ddynol. Pa effaith felly a gaiff y defnydd o dechnoleg cyfieithu, a'r prosesau golygu cysylltiedig, ar gyfieithu, ac a all technoleg cyfieithu gyflymu'r broses honno? Ac os yw hyn yn wir, a oes effaith i'w gweld wedyn ar y cyfieithiad gorffenedig ei hun? Bydd y tri arbrawf yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn.

5 YMDRECH: DIFFINIADAU A METHODOLEGAU YMCHWIL

The question of post-editing effort is the key issue in the evaluation of the practicality of machine translation systems.

Krings (2001, t. 178)

5.1 CYFLWYNIAD

Bydd y bennod hon yn sefydlu'r cefndir angenrheidiol ar gyfer ymchwilio i ddefnyddioldeb technoleg cyfieithu yng nghyd-destun y Gymraeg o safbwynt Ymdrech Gymharol. Ystyr 'ymdrech gymharol' yw'r arbedion gwybyddol ac ymarferol y gellid o bosibl eu gwireddu pe penderfynid ôl-olygu allbwn MT a defnyddio cyfatebiaethau o systemau TM yn hytrach na chyfieithu hebddynt. Cyflwynir diffiniad Krings (2001) o ymdrech a chaiff y rhesymau dros ddadansoddi cyfieithu proffesiynol o'r safbwynt hwn eu hesbonio. Wedyn, eir ymlaen i werthuso'r gwahanol ddulliau ymchwil a gynigir gan Astudiaethau Cyfieithu ar gyfer ymchwilio i'r pwnc hwn cyn manylu ar Gofnodi Trawiadau Bysell. Wedi braenaru'r tir hwn, eir ymlaen wedyn i ddisgrifio dyluniad yr arbrawf yn seiliedig ar hynny.

5.2 YSTYR YMDRECH

Cyfeiria ymdrech at y gwaith gwybyddol ac ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer naill ai berfformio cyfieithu ysgrifenedig neu olygu allbwn technoleg cyfieithu er mwyn ei wneud yn gyfieithiad derbyniol. Nodwyd wrth ddiffinio ôl-olygu a golygu allbwn systemau TM a chyfieithu ym Mhennod 3 nad yr un prosesau yw cyfieithu, ôl-olygu MT a golygu allbwn systemau TM, er eu bod rhannu'r un nod, sef hwyluso cyfathrebu rhyng-ieithyddol. Er y gellir deall y prosesau fel prosesau sy'n ceisio datrys problemau ieithyddol â'r bwriad o alluogi darllenwyr iaith₁ i ddeall testun a ysgrifennwyd eisoes yn

iaith₂ trwy gyfrwng nifer o wahanol strategaethau, mae gwahaniaethau rhyngddynt o ran y strategaethau cyfieithu hyn a'r math o broblemau ieithyddol a wynebdir. Serch hynny, gan fod y prosesau yn rhannu'r un swyddogaeth, maent yn addas ar gyfer astudiaeth gymharol; hynny yw, a yw ôl-olygu MT a golygu allbwn system TM, sef prosesau lled-awtomatig o gyfieithu iaith₁ i iaith₂, yn fwy effeithlon na chyfieithu heb dechnoleg cyfieithu? Nod awtomeiddio unrhyw broses yw ei gwneud yn haws, felly os nad yw ôl-olygu a'r defnydd o TM yn fwy effeithlon na chyfieithu, ni fyddai'n economaidd gall nac yn synhwyrol mabwysiadu MT na TM yn rhan o lifoedd gwaith cyfieithu. Mewn perthynas ag ôl-olygu yn benodol, hon yw unig ffon fesur defnyddioldeb MT yn ôl Newton (1992, t. 4). Sut yn union y gellid problemeiddio'r cysyniad o ymdrech fel bod modd ei ddadansoddi a'i gymhwyso at astudiaeth gymharol? Mae Krings (2001, tt. 178-182) wedi cynnig model ar gyfer hynny, a'r model hwn a ddilynir wrth ddadansoddi ymdrech. Cymhwysir y model hwn fel arfer at werthuso ymdrech wrth gydweithio ag allbwn MT, ond mae'r astudiaeth hon yn mynd gam ymhellach ac yn ei ddefnyddio yng nghyd-destun cydweithio ag allbwn TM hefyd. Gwahaniaetha Krings (2001, tt. 178-182) rhwng tri math cysylltiedig o ymdrech, sef yr Ymdrech Amseryddol, yr Ymdrech Wybyddol, a'r Ymdrech Dechnegol.

5.3 YR YMDRECH AMSERYDDOL

Yr Ymdrech Amseryddol yw'r ffurf amlycaf, a'r un bwysicaf yn economaidd, ar yr ymdrech sydd ynghlwm wrth greu cyfieithiad yn ôl Krings (2001, t. 178). Cyfeiria'r Ymdrech Amseryddol at yr amser a gymerir wrth gyfieithu testun, boed trwy gyfieithu neu olygu allbwn MT a TM. Defnyddir dau ddull i'w fesur gan amlaf, sef Cyfanswm Amser Prosesu a Chyflymder Prosesu (gweler Pennod 6), ar lefel y testun cyfan ac ar lefel y frawddeg unigol. Mae Cyfanswm Amser Prosesu yn mesur cyfanswm yr amser a gymerir

i gwblhau'r dasg cyfieithu, a'i bwrpas yw cofnodi'r amser y caiff y cyfieithiad ei ddechrau hyd yr amser y penderfyna'r cyfieithydd ei fod wedi cwblhau'r gwaith. I gyfieithwyr a delir fesul awr, gall hyn fod yn ystyriaeth bwysig. Cyflymder Prosesu (a elwir hefyd yn Eiriau Fesul Munud) yw'r dull arall, sy'n cofnodi faint o eiriau a gynhrychir fesul munud. Nodir yr amser a gymerir i gwblhau'r dasg cyfieithu cyn ychwanegu nifer y geiriau yn y segment neu destun ffynhonnell cyfan at ei gilydd. Wedyn, rhennir yr amser a gymerir i gwblhau'r dasg gan faint o eiriau a gynhrychir. Nid yw cyn symled ag y gallai ymddangos ar yr olwg gyntaf serch hynny oherwydd bod gan amser yn y cyswllt hwn ddau benderfynydd, sef yr Ymdrech Wybyddol a'r Ymdrech Dechnegol.

5.4 YR YMDRECH WYBYDDOL

Mae'r Ymdrech Wybyddol yn adnabyddus am fod yn anodd ei diffinio yn ôl Vieira (2014, t. 189), a dengys y ffaith mai prin yw'r diffiniadau o union ystyr yr Ymdrech Wybyddol yn y llenyddiaeth ôl-olygu yn benodol gymhlethdod y cysyniad, er bod erthygl gan Lacruz a Shreve (2014) yn eithriad lle cynigiant ddiffiniad yn seiliedig ar erthygl Tyler (1979) a'r Cof Gweithredol. Ni roddodd O'Brien (2007b) gynnig ar ddiffinio ystyr yr Ymdrech Wybyddol ychwaith, mewn erthygl a gyflwynodd ddull newydd i Astudiaethau Cyfieithu ar gyfer mesur yr Ymdrech honno. Mae dealltwriaeth o'r Ymdrech Wybyddol yn dibynnu ar ddealltwriaeth o'r Cof Gweithredol. Manylir ar y Cof Dynol a'i berthynas ag ymdrech isod. Er mwyn gwneud hyn, mae angen mynd i'r afael â sail wybyddol yr ymdrech honno, sef cynhwysedd y Cof Gweithredol.

5.5 CYNHWYSEDD Y COF GWEITHREDOL

Yn dilyn y drafodaeth gyffredinol am y Cof Gweithredol ym Mhennod 4, a chan gofio bod y Cof Gweithredol hwnnw yn storio gwybodaeth dros dro ac yn ymwneud â dosbarthu adnoddau gwybyddol cyfyngedig, y pwynt pwysicaf oll wrth drafod yr Ymdrech Wybyddol yw bod ei allu i ddelio ag allbwn allanol hefyd yn gyfyngedig. Mae'r cysyniad bod gan y Cof Gweithredol hwn gynhwysedd cyfyngedig yn egluro sut y gall gwneud rhai tasgau arwain at 'Ymdrech Wybyddol' a sut y gall yr ymdrech honno amrywio rhwng gwahanol dasgau. Yn unol â hynny, mae Tyler et al. (1979, t. 608) yn diffinio'r Ymdrech Wybyddol felly fel "The amount of available processing capacity of the limited-capacity central processor [h.y. Gweithredydd Canolog y Cof Gweithredol] utilized in performing an information-processing task". Gall tasg brosesu gwybodaeth gyfeirio at unrhyw dasg y bydd unigolyn yn ei gwneud, boed honno'n gyfieithu, awduro, darllen neu wneud rhifydddeg pen. Nid system i gofio elfennau o dasgau cyfredol yn unig yw'r Cof Gweithredol felly, eithr system prosesu gwybodaeth y mae popeth yr ydym yn ei wneud yn cael ei reoli a'i fonitro ganddi. Mae Carpenter (1994, t. 1075) wedi pwysleisio lle canolog y Cof Gweithredol mewn prosesau ieithyddol hefyd, oherwydd bod deall a chynhyrchu iaith yn dibynnu ar brosesu cyfres o symbolau dros amser. Ychwanegir at ddiffiniad Tyler uchod ystyriaeth o'r Byffer Cyfnodol hefyd. Fel y nodwyd yn y bennod ddiwethaf, un o'i swyddogaethau yw cysylltu cynnwys y Cof Tymor Hir â gwybodaeth o'r Cylch Ffonolegol a'r Pad Gweledol-Gofodol. Mae'r Cof Tymor hir yn bwysig iawn i'r broses o gyfieithu oherwydd bod y cof hwn yn cynnwys Cronfa Gwybodaeth y Cyfieithydd (cf. Pennod 4).

Wrth gyflawni tasg, bydd yr ymennydd yn dibynnu ar swyddogaeth y Cof Gweithredol a'i wahanol rannau i gofio elfennau o'r dasg honno, adalw gwybodaeth

ieithyddol o'r Cof Tymor Hir a phrosesu'r wybodaeth angenrheidiol (Anderson 2009). Gan fod y graddau y bydd y Cof Gweithredol yn gallu gwneud hyn yn gyfyngedig, ac wrth i'r wybodaeth y bydd angen ei phrosesu gynyddu neu wrth i gymhlethdod y ysgogiad gynyddu, cynyddu hefyd y bydd yr Ymdrech Wybyddol gan y bydd y gwahanol brosesau hyn yn cystadlu am adnoddau gwybyddol y Cof Dynol. Pennir yr Ymdrech Wybyddol felly gan faint o adnoddau'r Cof Gweithredol a ddefnyddir wrth berfformio tasg (Russo a Doshier 1983 y cyfeiriwyd ato gan Cooper Martin (1994)).⁴³ Mae hynny'n debyg i'r trosiad a ddefnyddia Krings (2001, t. 179) wrth ddiffinio'r Ymdrech Wybyddol, sef "The extent of cognitive processes that must be activated in order to remedy a given deficiency in a machine translation". Byddai'r trosiad hwn yr un mor berthnasol yng nghyd-destun cywiro allbwn TM. Yng nghyd-destun cyfieithu proffesiynol, pe bai'r cyfieithydd yn dod o hyd i ran heriol o segment er enghraifft, byddai rhaid dyrannu adnoddau cyfyngedig i'r rhan hon o'r segment yn unig, gan benderfynu gadael elfennau eraill o'r segment tan i'r broblem ieithyddol dan sylw gael ei datrys. Mae hynny'n anochel; gan fod adnoddau'r Cof Dynol, sy'n ganolog i unrhyw weithred a wneir, yn gyfyngedig, dim ond ar un rhan benodol o broblem y gall ganolbwyntio ar un adeg. Pe bai'r cyfieithydd yn gorfod segmenteiddio fel hyn fwy nag unwaith yn ystod yr *un* segment, dadleuir bod y segment hwnnw wedi bod yn un heriol. Gwneir y pwynt hwn gan Newell a Simon (1972, t. 89) pan ddywedant na all yr ymennydd ddatrys problem yn llwyddiannus *wrth* wneud tasgau eraill sydd hefyd yn gofyn am sylw'r Cof Gweithredol.

⁴³ Oherwydd hynny, mae paradeim y 'dasg ddeuol' wedi'i defnyddio'n aml i fesur a chymharu'r Ymdrech Wybyddol ym maes Ffactorau Dynol (Lacruz a Shreve 2014, t.247), er nad yw'r dull hwn wedi'i gymhwyso at Astudiaethau Cyfieithu ac ymdrech o'r blaen yn ôl yr adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan yr awdur.

5.6 YR YMDRECH DECHNEGOL

Wedi i'r cyfieithydd benderfynu ar strategaeth cyfieithu neu gynllun ar gyfer cywiro'r allbwn MT neu TM yn dilyn y prosesau gwybyddol angenrheidiol, mae angen gweithredu ar hynny ac ysgrifennu'r cyfieithiad neu addasu'r allbwn trwy ddefnyddio meddalwedd y prosesydd geiriau a chaledwedd y cyfrifiadur.⁴⁴ Y gweithrediadau technegol ar fysellfwrdd a chyda'r llygoden a wneir wrth gynhyrchu testun yw'r Ymdrech Dechnegol felly. Disgwylir y bydd natur y gweithrediadau technegol hyn yn amrywio rhwng ôl-olygu, golygu allbwn TM a chyfieithu, oherwydd y bydd y cyfieithydd yn gweithio gyda dau destun wrth ddefnyddio allbwn technoleg cyfieithu yn hytrach nag un testun, sef yr IFf ac allbwn y dechnoleg cyfieithu. Daw hynny i'r amlwg yn y prosesau cynhyrchu testun. Bydd y gwaith o gofnodi'r strategaeth cyfieithu heb MT neu TM yn cynnwys prosesau ysgrifennu *llinellol* at ei gilydd. Yn ôl Eklundh (1994, t. 203), mae prosesau cynhyrchu testun llinellol yn cyfeirio at ysgrifennu gair ar ôl gair tan ddiwedd y dasg ysgrifennu. Eto yn ôl Eklundh (1994), bydd rhyw fath o adolygu yn y broses ysgrifennu hefyd yn sicr o ddigwydd, ac felly nid oes yr un broses ysgrifennu ar gyfrifiadur sy'n hollol linellol. Ond at ei gilydd, wrth awduro, proses o deipio llinellol fydd hi gydag ambell adolygiad neu gywiriad yn cael ei wneud. Mae hynny'n debyg i ddisgrifiad Eysenck a Keane (2010, t. 442) o'r broses ysgrifennu unieithog a'i thair rhan, sef cynllunio, cynhyrchu brawddegau ac adolygu.⁴⁵ Mae ôl-olygu allbwn MT ac ymdrin â chyfatebiaethau o system TM yn wahanol. Bydd gweithredu ar y cynllun cywiro wedi penderfynu ar yr hyn sy'n wallus mewn allbwn MT neu TM yn debygol o gynnwys prosesau ysgrifennu *anllinellol*, sef dileu geiriau, copi a gludo, symud ac addasu testun, ar y cyd â theipio. Hynny yw, bydd llai o deipio llinellol a dirwystr yn digwydd a mwy o

⁴⁴ Ar gyfer trafodaeth fanylach ar y broses cyfieithu a'i gwahanol elfennau a chamau, gweler Adran 4.11.

⁴⁵ Hynny yw, ysgrifennu mewn un iaith heb gyfieithu neu drawsieithu.

addasu, a fydd yn cynnwys symud yn ôl ac ymlaen trwy'r testun, gan gywiro ac adolygu. Er bod y gwahaniaeth rhwng ysgrifennu llinellol ac anllinellol yn perthyn i ymchwil ar brosesau ysgrifennu unieithog, cyfiawnheir cymhwyso'r gwahaniaethau hyn at ymchwil ar yr Ymdrech Dechnegol oherwydd y tebygrwydd rhwng y broses ysgrifennu a chyfieithu, er bod iddynt swyddogaethau cyfathrebu gwahanol. Parodd y tebygrwydd hwn i Englund-Dimitrova (2005) gymhwysu disgrifiadau o'r broses ysgrifennu unieithog, yn benodol ddisgrifiad Hayes (1996), at ddadansoddiadau o'r broses cyfieithu hefyd, fel y nodwyd ym Mhennod 4. Dengys hynny nad anghyffredin y duedd i ymchwil ar awduro unieithog ddylanwadu ar ymchwil gymwysedig ym maes Astudiaethau Cyfieithu.

Cyfeiria'r Ymdrech Dechnegol felly at y gwaith o gynhyrchu ac addasu testun wrth gyfieithu neu addasu allbwn MT a TM, pa brosesau cynhyrchu testun bynnag a ddefnyddir. Er gwaethaf y mân wahaniaethau y disgwylir eu gweld yn amllder y math o weithrediadau technegol sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfieithu ac golygu allbwn MT a TM, diffinnir yr Ymdrech Dechnegol gan y gweithrediadau cynhyrchu ac addasu testun wrth gyfieithu a chydweithio â MT neu TM, a gall y gweithrediadau hyn gynnwys teipio ar y cyd â dileu, copi a gludo a chliciaidau llygoden wrth gyrchu testun. Wrth berfformio'r tasgau cynhyrchu testun hyn, defnyddir caledwedd cyfrifiadur a meddalwedd prosesydd geiriau, megis system TM neu Microsoft Word.

5.7 PERTHYNAS Y TRI MATH Â'I GILYDD

Nodwyd eisoes fod gan yr Ymdrech Amseryddol ddau benderfynydd, sef y ddau fath arall o ymdrech. Awgryma hyn fod yr Ymdrech Dechnegol a'r Ymdrech Wybyddol yn pennu'r Ymdrech Amseryddol i ryw raddau. Nodwyd hefyd fod gweithredu ar y strategaeth cyfieithu neu'r cynllun addasu yn cyfateb i'r Ymdrech Dechnegol, felly daw'r

Ymdrech Wybyddol yn gyntaf gan amlaf,⁴⁶ wrth i'r cyfieithydd ddatrys y broblem ieithyddol o'i flaen, cyn mynd ymlaen i gofnodi'r cyfieithiad neu wneud y cywiriad. Mae'r tri math o ymdrech hwn felly yn gysylltiedig ac yn effeithio ar ei gilydd. Cyfetyb dod o hyd i gyfieithiad ar ôl chwilio am gywerthedd i agweddau ar yr Ymdrech Wybyddol, a chyfeiria'r Ymdrech Dechnegol at y gwaith o gynhyrchu'r cyfieithiad a gwneud newidiadau iddo, neu addasu'r allbwn MT/TM. Digwydd hyn oll dros gyfnod o amser, a ddaw i ben pan fydd y cyfieithydd wedi creu testun targed.

Gall ymddangos felly, er mwyn mesur yr Ymdrech Wybyddol a Thechnegol, mai cofnodi amser y dasg yw'r cyfan y mae angen ei wneud, h.y. mesur Cyfanswm yr Amser Prosesu. Gall ymddangos fod perthynas linellol rhwng y broses cyfieithu wybyddol, ei gwedd ymarferol, ac Amser. Gan fod amser yn dibynnu ar yr Ymdrech Wybyddol a'r Ymdrech Dechnegol, gall mesur amser a defnyddio'r canlyniad i ddod i gasgliadau damcaniaethol ynghylch y ddau fath arall ymddangos yn synhwyrol. Gwnaed hynny gan de Sousa et al. (2011) wrth gyfrifo'r Ymdrech Gymharol rhwng cyfieithu testun is-deitlau ac ôl-olygu testun is-deitlau a broseswyd gan system SMT. Ond derbynnir yma gyngor Krings (2001, t. 179) a Vieira (2014, t. 189) pan ddywedant ei bod o gryn bwys mesur y tri math *ar wahân* wrth ystyried cyfieithu ac ôl-olygu er gwaethaf eu natur gysylltiedig a'u tuedd i effeithio ar ei gilydd, a hynny am ddau brif reswm yn ôl Krings (2001, t. 179):

1. Nid yw pob newid yn hafal yn wybyddol; gall strategaeth cyfieithu neu ddatrysiad i wall fod yn hawdd yn wybyddol, ond yn dechnegol gymhleth o ran defnydd y bysellfwrdd a llygoden;
2. Nid yw pob strategaeth ar gyfer cyfieithu neu ddatrysiad i wall yn hafal yn dechnegol; gall strategaeth cyfieithu neu ddatrysiad i wall fod yn hawdd yn dechnegol, ond yn wybyddol gymhleth.

⁴⁶ Sef canlyniad y broses wybyddol o benderfynu sut y dylid bwrw ati i addasu allbwn y TM neu ôl-olygu, cyn y gwneir hynny yn ymarferol gan ddefnyddio'r bysellfwrdd a chaledwedd y cyfrifiadur.

Mae astudiaethau diweddar wedi amlygu pwysigrwydd trionglu'r cysyniad o ymdrech, sy'n cadarnhau safbwynt Krings (2001) a Vieira (2014), yn enwedig wrth ystyried y broses ôl-olygu. Dangosodd Koponen (2012) nad yw'r Ymdrech Dechnegol wirioneddol y mae cyfieithwyr yn ei buddsoddi bob tro yn cyfateb i farn y cyfieithwyr am lefel yr ymdrech maent yn credu eu bod wedi'i buddsoddi; nid oedd rhai segmentau a gafodd sgôr ymdrech uchel yn ôl y cyfieithwyr yn yr astudiaeth wedi cael eu golygu i'r un graddau ag eraill, sy'n awgrymu bod rhai gwallau yn yr allbwn MT yn haws eu cywiro yn dechnegol er eu bod yn wybyddol gymhleth. Amlygodd astudiaeth gan Koponen et al. (2012) y gall gwahaniaethau fod rhwng yr amser a gymerwyd i ôl-olygu segment a'r Ymdrech Dechnegol wirioneddol a fuddsoddwyd; amrywiodd yr Ymdrech Amseryddol rhwng segmentau, er bod yr Ymdrech Dechnegol angenrheidiol ar gyfer yr un grŵp o segmentau yn gyfartal. Daeth Zaretskaya et al. (2016) i'r un casgliad yn union. O ran defnyddio amser yn annibynnol i fesur ymdrech yn gyffredinol, dywed De Almeida (2013, t. 199) yn ei hastudiaeth o'r berthynas rhwng perfformiad ôl-olygwyr â phrofiad fel cyfieithwyr na ellir defnyddio amser fel metrig annibynnol am fod yr ymdrech wrth ôl-olygu yn rhy gymhleth i ymchwilwyr allu dod i gasgliadau amdani yn seiliedig ar ddata amseryddol yn unig.

Pwynt arall yn y cyswllt hwn yw cyflymder naturiol y cyfieithydd; bydd teipwyr araf wrth reswm yn cymryd mwy o amser i gynhyrchu testun na chyfieithwyr cyflymach, er na fyddant o reidrwydd yn profi Ymdrech Wybyddol uwch yn y broses cyfieithu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos teipwyr cyffwrdd. Ni ddywed amser dim wrthym felly os ystyrir amser cymharol rhwng dwy dasg ar ei ben ei hun, yn annibynnol ar y ffactorau allweddol eraill. Mae tystiolaeth o'r astudiaethau hyn ynghyd â'r pwynt a wneir uchod yn cyfiawnhau ystyried ymdrech o dri safbwynt gwreiddiol Krings (2001, tt. 178-182), sef yr Ymdrech Wybyddol, yr Ymdrech Dechnegol a'r Ymdrech Amseryddol.

Llinell aneglur arall y mae angen ei throedio yw'r berthynas rhwng gwybyddiaeth, Ymdrech Wybyddol a phrosesau gwybyddol echddygol er mwyn cyfiawnhau ystyried yr Ymdrech Wybyddol a Thechnegol yn brosesau annibynnol sy'n dilyn ei gilydd. Mae hyn yn bwysig oherwydd gellid dadlau nad yw datgysylltu prosesau cynhyrchu testun oddi wrth brosesau gwybyddol ymdrechgar yn ddilys, yn enwedig yn achos teipwyr amhrofiadol. Derbynnir y bydd gan wybyddiaeth swyddogaeth amlwg i'w chwarae yn y gwaith o ddefnyddio caledwedd y cyfrifiadur er mwyn cynhyrchu testun. Y cortecs echddygol, sydd i'w gael yn y rhaniad rhwng y llabedi blaen a pharwydol, sy'n gorchymyn y corff i daro'r bysellau a symud y llygoden, gan anfon neges gemegol trwy gyfres o niwronau o'r enw acsonau a gysylltir â ffibrau yn y cyhyrau. Y cerebelwm sy'n gyfrifol am gydlynu'r gweithrediadau echddygol hyn, gan ei fod yn storio'r wybodaeth angenrheidiol ac â pherthynas â'r ganglia gwaelodol a'r cortecs echddygol (Al-Chalabi *et al.* 2006, t. 152). Mae gan ysgrifennu ryw berthynas â'r Ymdrech Wybyddol (Torrance a Galbraith 2005), a gall hefyd gystadlu am adnoddau gwybyddol ar draul rhannau eraill o'r broses cyfansoddi testun (Kellog 2001b). Ond yng nghyd-destun cyfieithu yn benodol, darganfu Sharmin *et al.* (2008) mewn astudiaeth ddiweddar y cafodd sgiliau teipio'r cyfieithwyr effaith fach iawn ar wahanol agweddau ar y broses cyfieithu. Mae angen ystyried canlyniadau ymchwil Sharmin *et al.* (2008) ar y cyd ag ystyriaeth o brosesu gwybyddol awtomatig hefyd, a'r rhan gymharol gyfyngedig y mae'r Cof Gweithredol yn ei chwarae wrth i gyfieithydd *gynhyrchu* testun, yn hytrach na'r rôl y mae'n ei chwarae wrth i'r cyfieithydd feddwl am *ba* eiriau y caiff eu teipio mewn perthynas â chynnwys yr IFf. Mae Jensen (2011a, t. 57) yn crynhoi'r safbwynt hwn yn ddestlus, "During programming, the translator instructs the motor systems to execute typing events, and these typing events are then performed more or less automatically without much involvement of [Working

Memory] as typing relies on fixed schemata”.⁴⁷ Mae ymarfer tasg megis teipio felly yn galluogi’r ymennydd dros gyfnod o amser i wneud y dasg gyfarwydd honno heb orfod dosrannu adnoddau gwybyddol iddi; yng ngeiriau Smallwood a Schooler (2006, t. 949), “Put simply, practice decreases the need for executive control in performing a task”. Cefnogir hynny oll gan sylfaenydd model y Cof Gweithredol, Alan Baddeley; fe ddywed yntau fod digon o ymarfer yn lleihau’r Ymdrech Wybyddol sydd ynghlwm wrth dasg (Baddeley 2007, t. 126). Gan fod yr astudiaeth gyfredol yn gweithredu cysyniad yr Ymdrech Wybyddol ar sail cynhwysedd cyfyngedig y Cof [Dynol] Gweithredol, mae’n dilyn na ellir ystyried y broses cynhyrchu testun yn rhan wybyddol ddwys o’r broses ehangach o greu cyfieithiad. Caiff cynhyrchu testun ei ystyried yn broses ar wahân a gaiff ei fesur trwy gyfrwng newidynnau dibynnol yr Ymdrech Dechnegol, yn hytrach na phroses sy’n cyfrannu at yr Ymdrech Wybyddol neu sy’n rhan ohoni.⁴⁸ Mae hynny hefyd yn cyd-fynd â thuedd y rhan fwyaf o astudiaethau ym maes TPR, sef ystyried prosesu awtomatig yn dilyn prosesau mwy echddygol ar y naill law a phrosesu cydwybodol ar y llaw arall ar wahân (Hutado ac Alves 2009, t. 63).

⁴⁷ Gwahaniaetha ymchwilwyr ym maes Gwybyddiaeth rhwng ‘Prosesu Awtomatig’ a ‘Phrosesu Rheoledig’. Mae ‘*schemata*’ yn rhan o brosesu awtomatig, sef gweithrediadau a gweithdrefnau y mae’r unigolyn wedi eu dysgu’n drylwyr ac yn gallu eu gwneud heb fod angen buddsoddi adnoddau gwybyddol prin i’w cwblhau yn llwyddiannus. I’r cyfieithydd proffesiynol sy’n cynhyrchu testun ar fysellfwrdd bob dydd, byddai teipio yn enghraifft o ‘*schemata*’ gan fod ganddo sgiliau teipio datblygedig o ganlyniad i ofynion ei swydd.

⁴⁸ Wrth reswm, bydd amgylchiadau prin lle bydd y cyfieithydd yn *gorfod* dosrannu adnoddau gwybyddol i’r broses cynhyrchu testun. Byddai hynny’n debygol o ddigwydd os oes angen perfformio newid cymhleth wrth ôl-olygu, megis ad-drefnu cystrawen segment cyfan er enghraifft. Ond at ei gilydd, gan fod teipio yn weithred echddygol ac yn un y mae’r cyfieithydd wedi ei hymarfer droeon o’r blaen, ni ddylai gynyddu na lleihau’r Ymdrech Wybyddol sydd ynghlwm wrth rannau eraill o’r broses cyfieithu.

5.8 PAM YMDRECH?

Nid yw ystyried yr Ymdrech Gymharol rhwng cyfieithu a golygu allbwn MT a TM ond yn un o'r dulliau niferus o ddadansoddi defnyddioldeb technoleg cyfieithu ar gyfer pâr o ieithoedd.⁴⁹ Ond mae cwestiwn cyffredinol yr ymchwil, sef defnyddioldeb technoleg cyfieithu ar gyfer cyfieithu proffesiynol, yn ein *gorfodi* i ystyried ymdrech, yn hytrach na bod ymdrech yn fetrig dewisol defnyddiol ar gyfer ateb y cwestiwn ymchwil cyntaf a osodwyd ar ddechrau'r traethawd. Hynny yw, mae proffesiynoldeb y diwydiant cyfieithu Cymraeg yn golygu bod rhaid mynd i'r afael â thair ystyriaeth y mae ymdrech yn ganolog iddynt oll, sef:

1. Ystyriaethau Economaidd;
2. Rhwystredigaeth broffesiynol a'r cyfiawnhad dros newid arferion gwaith gweithwyr proffesiynol;
3. Yr angen i ôl-olygu o ganlyniad i'r angen am gyfieithiadau o safon uchel.

Mae'r rhesymau dros ddadansoddi ymdrech felly yn *economaidd*, *dyneiddiol* ac *ieithyddol*.

5.9 YSTYRIAETHAU ECONOMAIDD

Mae cyfieithwyr yng Nghymru sy'n defnyddio systemau TM yn eu gwaith eisoes yn gyfarwydd ag addasu segmentau er mwyn eu gwneud yn gyfieithiadau derbyniol, ond

⁴⁹ Noda Daelemans a Hoste (2009, t. 9) nad oes un dull penodol o werthuso technoleg cyfieithu a mynega White (2003, t. 220) yr un farn. Rhestra Daelemans a Hoste (2009, t. 9) ddulliau awtomatig o fesur ansawdd systemau MT er enghraifft, ar y cyd â gwerthusiadau cyd-destunol lle ystyrir defnyddioldeb y dechnoleg mewn perthynas ag ôl-olygu'r allbwn a rhwyddineb diweddarar geiriaduron a gramadeg. Ond dywedant hefyd fod gwerthuso technoleg cyfieithu trwy ei chymharu â chyfieithu heb y dechnoleg yn bwysig iawn, "Finally, evaluation involves contrasting the costs and benefits of translation technology with those of human translation performance". Os gwerthusir technolegau cyfieithu penodol gyda golwg ar eu cyflwyno i lifoedd gwaith cyfieithwyr proffesiynol, oni ellid dadlau'n rhesymol fod cymharu perfformiad cyfieithwyr dynol wrth ddefnyddio systemau TM ac MT â pherfformiad cyfieithwyr dynol heb y technolegau hyn yn bwysicach nag unrhyw fath arall o werthusiad?

bod y gwallau mewn cyfatebiaethau o'r fath yn tueddu i fod yn wallau ffyddlondeb yn hytrach na gwallau cywirdeb.⁵⁰ Mae talu llai ar gyfer gwaith sydd â chanran uchel o gyfatebiaethau llawn a rhannol o wahanol ganrannau wedi ennill ei blwyf yn y diwydiant cyfieithu yn rhyngwladol hefyd (Bowker 2002, tt. 121-122; DePalma a Stewart 2012), tuedd sy'n bwnc llosg yn y diwydiant o hyd (cf. McKay 2013, tt. 107-108). Mae Comisiynydd y Gymraeg (2012, t. 8) hefyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r duedd i dalu llai am gyfatebiaethau o'r fath. Yn ei *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu, a Chyfieithu ar y pryd*, datgenir y canlynol, "Wrth gomisiynu gwaith cyfieithu, gellid talu cyfraddau gwahanol gan ddibynnu ar ganran y gyfatebiaeth rhwng y ddogfen a chynnwys y cof" (2012, t. 8). Mae model prisio ac iddo dair haen wahanol yn y diwydiant cyfieithu ar hyn o bryd felly sydd i fod i gynrychioli'r gwahanol lefelau o *ymdrech* y mae pob cyfatebiaeth yn gofyn amdani.⁵¹ Mae cwmnïau technoleg iaith rhyngwladol yn pwysleisio'r cynnydd mewn cynhyrchedd a'r arbedion ariannol y gellir eu gwneud pe defnyddid eu technoleg, ond ni chyfeiriant at y cyfaddawd a all ddatblygu rhwng addasu'r TM a'r *ymdrech* angenrheidiol i wneud hynny.⁵² Fel y dywed DePalma, Stewart a Wittaker (2010):

[...] it can be tedious to sort through a list of sentence candidates, select the most appropriate one, and then edit it to be consistent and correct in the current context. If the translator is not well trained, or if the TM tools or database is not managed properly, this step may actually slow the translator

⁵⁰ Gan fod y TM yn adalw segmentau a gyfieithwyd gan gyfieithydd eisoes, bydd yr iaith yn ramadegol gywir gan amlaf, er na fydd y segment honno yn cyfateb 100% i'r segment newydd o ran ystyr, gan ddibynnu ar lefel y gyfatebiaeth. Wrth ôl-olygu, gwyddys na fydd allbwn system yn gywir yn ieithyddol bob tro nac ychwaith bob tro yn gyfieithiad cywir. Hwn yw'r prif wahaniaeth rhwng ôl-olygu ac addasu cyfatebiaethau o system TM.

⁵¹ Tueddir i dalu'r pris llawn am destunau neu segmentau heb unrhyw gyfatebiaethau yn y TM, telir pris llai wedyn ar gyfer cyfatebiaethau rhannol, a llai fyth ar gyfer cyfatebiaethau llawn oherwydd y gred nad oes rhaid eu trin o gwbl.

⁵²Cf. Memsource <https://www.memsource.com/en/features>; SDL Trados; <http://www.translationzone.com/products/sdl-trados-studio/>; WordFast Pro http://www.wordfast.com/products/products_wordfast_pro; Déjà VU <http://www.atril.com/content/translators> [Cyrchwyd 16/07/15].

down and compromise productivity—not to mention job satisfaction for the poor translator endlessly diddling through lists of very fuzzy matches.

Mae O’ Brien (2007b) wedi cwestiynu tegwch talu llai ar gyfer cyfatebiaethau rhannol o ganlyniad i bryderon o’r fath, gan ymchwilio i’r Ymdrech Wybyddol sy’n angenrheidiol wrth brosesu’r cyfryw segmentau o gymharu â chyfieithu heb gymorth cynigion gan TM ac MT; aeth i’r afael â sail talu llai ar gyfer gwahanol fathau o gyfatebiaethau TM ac allbwn MT, gan fframio hynny o safbwynt y gost *ddynol* gymharol rhwng trin y gwahanol fathau felly. Gan fod MT yn cael ei fabwysiadu fwyfwy wrth i’r llif rhyngwladol o wybodaeth gynyddu yn sgil globaleiddio, disgwylir talu cyfieithwyr yn llai ar gyfer cyfieithiadau sy’n cael eu hól-olygu hefyd. Nid yw’n afresymol disgwyl i gomisiynwyr cyfieithu ofyn am ostyngiad yn y pris yng Nghymru ychwaith wrth i faich gwaith y diwydiant cyfieithu Cymraeg gynyddu yn sgil deddfwriaeth ieithyddol ddiweddar ac os caiff ôl-olygu ei fabwysiadu fwyfwy. O ganlyniad, penderfynwyd ystyried ymdrech yn gyntaf gan ymchwilio i’r ymdrech gymharol rhwng cyfieithu, ôl-olygu a thrin cyfatebiaethau rhannol mewn ymgais i ddarganfod a fyddai’r broses ôl-olygu ac addasu allbwn TM yn ‘fwy effeithlon’ na chyfieithu. O ran yr Ymdrech Amseryddol ac ystyriaethau ariannol, cwyd y defnydd o MT a TM a’u harbedion gwybyddol ac amseryddol posibl ddau gwestiwn pwysig:

1. A ddylai cyfieithwyr a chwmnïau cyfieithu sy’n codi ffi fesul gair godi ffi is ar gyfer eu cyfieithiadau sydd wedi eu hól-olygu, o ganlyniad i’r ffaith mai meddalwedd sydd wedi cynhyrchu’r rhan fwyaf o’r cyfieithiad, a hynny mewn llai o amser?
2. Gan fod comisiynwyr a phrynwyr cyfieithiadau eisoes yn talu’n llai ar gyfer cyfatebiaethau rhannol a llawn, ai teg hynny?

Mewn cyd-destun economaidd felly mae ymdrech, ac yn enwedig ar ei ffurf fwyaf gweladwy, sef yr Ymdrech Amseryddol, yn berthnasol iawn. Gobeithir felly y bydd yr astudiaeth hon yn cyfrannu rywffaint at unrhyw benderfyniad gwybodus i fabwysiadu

technoleg cyfieithu yn rhan o'r broses cyfieithu ac at y disgwrs ynghylch faint y dylai cyfieithwyr Cymraeg gael eu talu am gyfatebiaethau rhannol a llawn a gwaith ôl-olygu.

5.10 RHWYSTREDIGAETH BROFFESIYNOL AC YMCHWIL DDYNEIDDIOL

Yn ei draethawd *Some Social Implications of Modern Technology*, mae'r athronydd Herbert Marcuse (1982) yn gosod datblygiad a lledaeniad technoleg yn eu cyd-destun cymdeithasol trwy eu hystyried yn brosesau sydd wrthi'n newid perthnasau cymdeithasol ac arferion gwaith. Mae'n collfarnu'r modd y gall technoleg orfodi newid yn enw effeithlonrwydd, ac o ganlyniad gwêl dechnoleg yn arf ar gyfer rheoli a dominyddu yn y byd modern, proses nad oes gan y rhan fwyaf o'r boblogaeth unrhyw ddylanwad drosti. Beirniada hefyd y bwlch rhwng dylunwyr technoleg a'r boblogaeth y mae'r dechnoleg honno wedi'i chreu ar ei chyfer. Trafodir y thema hon gan Way (2009) hefyd yng nghyd-destun SMT a Mihalacha (2009) yng nghyd-destun systemau TM, ac maent yn dadlau nad yw'r gymuned dechnegol yn ystyried barn cyfieithwyr proffesiynol yn y broses o greu'r feddalwedd ddiweddaraf. Er na feirniadwyd MT a TM yn uniongyrchol gan Marcuse, gellir ystyried technoleg cyfieithu yn fath o dechnoleg sydd â'r potensial i newid arferion gwaith a phrosesau cyfieithu. Amcangyfrifir bod y farchnad ryngwladol ar gyfer technoleg MT yn werth \$250 miliwn yn ôl yr ymchwil ddiweddaraf (TAUS 2014)), a disgwylir i werth rhyngwladol y diwydiant technoleg cyfieithu yn gyffredinol gyrraedd dros £20 biliwn erbyn 2015 (L-T Innovate 2012).

Mae'r ffigurau hyn yn dyst i'r ffaith bod technoleg cyfieithu wedi newid sut y mae'r byd yn cyfieithu eisoes, ac o ganlyniad sut y mae cyfieithwyr yn gweithio o ddydd i ddydd hefyd. Etyb y rhan hon o'r ymchwil bryder tebyg gan Pym (2011), pan sonia am sut y mae datblygiad technegol systemau cyfieithu wedi anwybyddu cyd-destun cymdeithasol a phroffesiynol defnydd o'r systemau hyn, ac am absenoldeb rhan weithredol i gyfieithwyr

yn y prosesau datblygu a gwerthuso.⁵³ Cred Pym fod gan Ymchwil Ddyneiddiol rôl bendant i'w chwarae yn y cyswllt hwn. Priodol yw ystyried yr effaith ddynol a gaiff y defnydd o MT a TM ar y cyfieithydd o gymharu â chyfieithu hefyd felly, y tu fewn i strwythur cysyniadol 'ymdrech'. Gellir deall hynny fel ymgais i rymuso cyfieithwyr yn y broses gwerthuso, gan ystyried yr effaith arnynt hwy a'u teimladau personol wrth ddefnyddio technoleg newydd. Mae ymdrech yn bwysig o safbwynt cyfiawnhau newid arferion gwaith gweithwyr proffesiynol sydd â sgiliau ieithyddol uchel felly; ni waeth faint yn llai y telir am gyfieithiad a ôl-olygwyd neu gyfatebiaeth TM, ai teg gofyn i gyfieithydd fabwysiadu dulliau newydd o gyfieithu, ac yntau wedi bod yn datblygu ei sgiliau cyfieithu trwy gydol ei yrfa? Daw hynny'n bwysicach fyth wrth gofio nad yw pob cyfieithydd yn gweithio ar ei liwt ei hun (sef 41% o holl aelodau Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn ôl yr ymchwil ddiweddaraf (Prys *et al.* 2009, t. 15)); os yw cyfieithydd yn gweithio i gwmni preifat neu ar gyfer y sector gyhoeddus, nid yw ystyriaethau ariannol o reidrwydd yn mynd i fod mor uchel ar yr agenda ag y maent i benaethiaid y cwmni neu arweinwyr yr uned gyfieithu, pwynt pwysig a wnaed gan Krings cyn gynhared â 1986 (Krings 2001).⁵⁴ Ystyriaeth gysylltiedig felly o ran ymdrech yw'r effaith a gaiff y defnydd o dechnoleg cyfieithu ar waith y cyfieithydd ei hun. Mae angen ystyried unrhyw feichiau ymarferol a seicoieithyddol posibl, yn enwedig cyn argymhell mabwysiadu technoleg MT yn neilltuol. Y cwestiwn a ofynnir yma felly yw i ba raddau y gallai ôl-olygu a thrin allbwn TM gyflwyno elfen o rwystredigaeth i'r broses cyfieithu, o ystyried y ffaith y gall rhywfaint o'r allbwn gynnwys llawer o wallau? Gan mai gwaith proffesiynol a wneir gan bobl

⁵³ Mae'r duedd hon bellach wedi newid i raddau; daeth prosiect CASMACAT i ben yn 2014, a'i nod oedd datblygu system gyfieithu ar gyfer cyfieithwyr yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd ynghylch sut y mae cyfieithwyr proffesiynol yn rhyngweithio â thechnoleg cyfieithu, gan ddefnyddio technolegau tracio llygaid i gasglu data am brosesau gwybyddol ac ymarferol cyfieithu proffesiynol (CASMACAT 2014).

⁵⁴ Cyfeirir yma at gyfieithiad Saesneg ei draethawd doethurol, a gyfieithwyd gan Gregory Shreve ac a gyhoeddwyd yn 2001. Ni fu'n bosibl dod o hyd i'r fersiwn Almaeneg.

broffesiynol yw cyfieithu, mae angen cyfiawnhau unrhyw newid i'w prosesau gwaith ar y lefel ddynol, yn ogystal ag ystyried yr effaith economaidd bosibl, mewn ymgais i roi rôl amlwg i gyfieithwyr mewn ymchwil ar dechnoleg cyfieithu. Mae'r astudiaeth gyfredol yn gydnaws â thuedd newydd ym maes Astudiaethau Cyfieithu felly i roi llawer mwy o bwyslais ar gyfieithwyr a'u prosesau gwybyddol yn eu cyd-destun proffesiynol *go iawn*, yn hytrach nag ar eu gwaith ysgrifenedig mewn amgylchedd arbrolfol (Halverson 2014, t. 133).⁵⁵

5.11 YMCHWIL ERGONOME GOL

Fe'i derbynnir bellach fod cyfieithu, fel cynifer o dasgau proffesiynol eraill yn y gweithle, yn digwydd trwy ddefnyddio cyfrifiadur, ar y cyd â defnyddio mathau penodol o feddalwedd arno megis systemau TM, prosesyddion geiriau, systemau rheoli gwaith, corpora a geiriaduron electronig, yn ogystal â systemau cyfathrebu megis e-byst, ffonau a'r rhyngwrwyd. Fel y dadleua O'Brien (2012a), gellir deall cyfieithu bellach fel enghraifft amlwg o ryngweithio rhwng bod dynol a chyfrifiadur (Saes. Human-Computer Interaction), gan fod cymaint o gyfieithu yn digwydd erbyn hyn ar systemau cyfrifiadurol (Sin-wai 2015, t. 44). Maentumir y safbwynt hwn gan Ehrensberger-Dow a Massey (2014, t. 60) pan nodant fod cyfieithwyr proffesiynol erbyn hyn yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn y gwaith wrth eu desgiau o flaen cyfrifiadur. Mae cyfieithu yn yr 21fed ganrif felly yn '*situated cognitive task*' a defnyddio disgrifiad Halverson (2014, t. 131), sef tasg

⁵⁵ Wrth sôn am y synergedd newydd rhwng Astudiaethau Cyfieithu ar y naill law a Gwyddoniaeth Wybyddol ac Athroniaeth ar y llaw arall mewn perthynas â Gwybyddiaeth Ymgorfforedig (Saes. Embodied Cognition), dywed Halverson (2014, t.133) "If the social world is dependent on cognitive processes, and if cognition is situated in a social world, then it follows that the place where it all comes together is the cognising individual" [h.y. y cyfieithydd]. Dyma grynhoi tarddiad y 'tro gwybyddol' mewn Astudiaethau Cyfieithu a pham mae nifer o astudiaethau a phrosiectau bellach yn ystyried y broses cyfieithu wirioneddol mewn perthynas â gwybyddiaeth yn eu cyd-destunau cymdeithasol a phroffesiynol go iawn neu mewn arbrofion ecolegol ddilys. Hyn a wneir gan y prosiect ymchwil hwn gyda'r Ymdrech Wybyddol, gan ymchwilio i'r broses a'i hymdrech gysylltiedig o dan amgylchiadau gwaith cyfarwydd.

wybyddol a thechnegol sy'n digwydd mewn un man penodol dros gyfnod o amser. O ganlyniad, mae ymchwil gyfieithu, gan aros yn driw i'w thuedd i fenthyg o feysydd gwahanol ac i gael ei dylanwadu ganddynt (Halverson 2011, t. 211; O'Brien 2013; Angelelli a Baer 2016, t. 5), bellach wedi troi at faes Ergonomeg (a elwir hefyd yn Ffactorau Dynol). Golyga'r defnydd cynyddol o dechnoleg a natur wybyddol-ddwys cyfieithu fod astudio'r broses cyfieithu o'r safbwynt hwn bellach yn angenrheidiol yn ôl O'Brien ac Ehrensberger-Dow (2013, t. 6). Mae ymchwil ym maes cyfieithu o safbwynt ergonomegol yn ymchwilio i effaith wybyddol gwaith ieithyddol ar y cyfieithydd sy'n dibynnu'n gynyddol ar dechnoleg, megis yr Ymdrech Wybyddol, blinder a straen, ar y cyd ag ystyried ffactorau corfforol a threfniadol (megis defnydd effeithlon o'r bysellfwrdd, cynllun swyddfeydd, maint sgriniau). Gwneir hyn yn unol â rhaniad triphlyg Ergonomeg rhwng Ergonomeg Wybyddol, Gorfforol a Threfniadol (cf. IEA 2015). Yn ôl hynny, nod ymchwil ergonomegol yw darparu dadansoddiadau holistaidd a chyflawn o'r *holl* ffactorau yn y gweithle a all effeithio ar y cyfieithydd. Er bod dadansoddiad ergonomegol llawn y tu hwnt i faes gorchwyl yr astudiaeth gyfredol, mae tebygrwydd clir rhwng bwriad yr astudiaeth hon i ymchwilio i'r Ymdrech Wybyddol a Thechnegol ar y naill law ac *elfennau dethol* o waith ergonomegol ym maes Astudiaethau Cyfieithu ar y llaw arall. Er na ellid synied am y prosiect hwn fel ymgais i ymchwilio i fuddion ergonomegol defnyddio technoleg cyfieithu mewn cyd-destun cyfieithu proffesiynol yn hytrach na chyfieithu hebddi, mae tebygrwydd amlwg rhwng bwriad y rhan hon o'r astudiaeth a rhai o brif nodau'r synergedd newydd rhwng maes Ergonomeg ac Astudiaethau Cyfieithu.

5.12 GWERTHUSO'R DULLIAU YMCHWIL

Mae cyflawni astudiaeth gymharol o'r math hwn yn golygu bod angen dewis a dethol dulliau ymchwil, cyn cyfiawnhau'r dewis a wneir yn ôl nodweddion y dulliau eu

hunain a'u manteision ac anfanteision i'r ymchwilydd. Pa ddulliau ymchwil sydd ar gael felly sy'n galluogi ymchwilwyr i ateb y cwestiynau uchod mewn modd dibynadwy a dilys? Mae sawl un bellach; lleolwyd y traethawd cyfredol ym maes Astudiaethau Cyfieithu oherwydd cyfoeth y dulliau ymchwil defnyddiol ac arloesol sydd ar gael yn y maes hwn. Mae'r dulliau y manylir arnynt isod wedi eu benthg o wahanol feysydd gan gynnwys Seicoieithyddiaeth, Gwyddoniaeth Wybyddol a maes Astudiaethau Cyfieithu ei hun. Serch hynny, er bod sawl dull bellach ar gyfer ymchwilio i'r broses cyfieithu, nid yw pob un ohonynt yn addas ar gyfer mesur y newidynnau dibynnol a ddewiswyd. Manylir isod ar nifer o ddulliau ymchwil ar gyfer ymchwilio i ymdrech yn ei thair rhan, cyn canolbwyntio ar Gofnodi Trawiadau Bysell. Ystyrir dulliau i fesur yr Ymdrech Wybyddol cyn troi at yr Ymdrech Dechnegol ac Amseryddol.

5.13 DULLIAU I FESUR YR YMDRECH WYBYDDOL GYM HAROL

Manylir isod ar wahanol ddulliau ymchwil i fynd i'r afael â'r Ymdrech Wybyddol wrth gyfieithu, gan dalu sylw yn benodol i fanteision ac anfanteision pob dull. Mae'grid isod i'w weld ar draws dwy dudalen.

Gwerthuso'r dulliau ymchwil ar gyfer mynd i'r afael ag ymdrech gymharol

Enw'r dull	Newidynnau Dibynnol	Astudiaethau Allweddol
Protocolau Meddwl yn Uchel	Y protocol ysgrifenedig, sef cofnod ysgrifenedig o farn y cyfranogwr am gynnwys ei gof dynol ar adeg benodol.	Ericsson a Simon (1984), Bernadini (2001), Krings (2001), Jakobsen (2003), Jääskeläinen (2011)
Sylfaen Theoretig	Yn perthyn i'r Ysgol Würzburg a'r Strwythurwyr ym maes Seicoleg, sylfaen ddamcaniaethol y dull yw bod modd i gyfranogwr ddweud wrth yr ymchwilydd beth mae'n ei feddwl a beth mae'n ei wneud (ar y cyd ag esboniad a chyfiawnhad), ynghyd â datgelu cynnwys ei Gof Gweithredol, a bod y data llafar hyn yn cynrychioli prosesau gwybyddol gwirioneddol. Gelwir y trawsgrifiad canlynol yn 'Brotocol Meddwl yn Uchel' (Jääskeläinen 2009, t. 290).	
Rhesymau pam na ddefnyddiwyd y dull hwn	Mae amheuan ynghylch dilysrwydd gwyddonol, a hynny ar gyfer tair paramedr, sef cywirdeb yr hyn a leferir, cywirdeb ac ymyrraeth. Wrth ddarparu data PMU, ni wyddys a yw pob peth a ddywed y cyfranogwr yn perthyn i'r hyn mae'n ei feddwl ar y pryd, ac a yw'r data'n disgrifio pob rhan o'r broses feddyliol honno. Mae'r cwestiwn ynghylch a gaiff prosesau sy'n awtomatig ac 'ail natur' i'r cyfieithydd profiadol eu llafareiddio ai peidio yn rhan o'r broblem hon yn ogystal. Mae personoliaeth a lefelau hyfforddiant hefyd yn ystyriaethau pwysig; bydd rhai cyfranogwyr yn barotach i gynnig data PMU nag eraill, a byddai angen hyfforddiant arbenigol ar bob cyfranogwr ynghylch sut i lafareiddio prosesau gwybyddol. Hefyd, ni wyddys i ba raddau mae'r set data yn wir gynrychioliad o'r prosesau gwybyddol y mae i fod i'w disgrifio. Noda Krings (2001, t. 279) yn ei astudiaeth o ôl-olygu a chyfieithu fod defnyddio PMU wedi effeithio ar hyd y broses cyfieithu ac ôl-olygu, ac wedi ymyrryd â phrosesau cynhyrchu testun. Mynega O'Brien (2006a, t. 100) bryder am effaith 'arafu' defnyddio PMU a'i effaith ar brosesau cynhyrchu testun hefyd cyn penderfynu cefnu ar y dull. Yn dilyn pryderon o'r fath, profodd astudiaeth gan Jakobsen (2003) fod PMU yn ymyrryd â phob un o'r newidynnau dibynnol a restrir uchod a bod ymchwilwyr yn iawn i amau addasrwydd a dilysrwydd y dull. Dangosodd astudiaeth Jakobsen fod PMU yn beichio Cof Gweithredol y cyfieithydd, gan fod disgwyl iddo gyfieithu rhwng dwy iaith a siarad ar yr un pryd; golyga hyn fod PMU yn cynyddu'r Ymdrech Wybyddol fel y mae wedi ei diffinio yn yr astudiaeth gyfredol. Dangosodd hefyd fod defnyddio PMU yn effeithio ar hyd y broses cyfieithu; roedd Cyfanswm Amser Prosesu'r cyfranogwyr na ddisgwyliwyd iddynt ddarparu data ar gyfer PMU yn llai o gymharu ag amser y cyfieithwyr a ddarparodd ddata ar gyfer PMU. Hefyd, roedd yr amser a gymerodd y cyfieithwyr i gynhyrchu testun ac a ddarparodd ddata PMU yn hwy o lawer nag amser y cyfieithwyr na ddarparant ddata PMU, felly cafodd PMU effaith sylweddol ar yr agwedd hon ar gyfansoddi'r cyfieithiad hefyd.	
Tracio Llygaid	Sylliadau, Newidiadau ffisiolegol i gannwyll y llygaid a symudiadau'r llygaid.	Marshall <i>et al.</i> (2003); Iqbal <i>et al.</i> (2005), O'Brien (2007, 2009), Doherty <i>et al.</i> (2010), Sjørup (2011), Jensen (2014), Carl <i>et al.</i> (2015), Koglin (2015)

Sylfaen Theoretig	Cyfeiria ‘tracio llygaid’ at y broses o gofnodi ymddygiad y llygaid wrth i gyfranogwr gyflawni tasg benodol sy’n cynnwys darllen, edrych neu wyllo (Saldanha ac O’Brien 2013, t. 136). Bydd y traciwr llygaid yn recordio ‘sylliadau’ cyfranogwr, sef y man ar y sgrin y bydd cyfranogwr wedi syllu arno a bydd gan y pwynt hefyd ‘stamp amser’ sy’n nodi hyd y broses syllu mewn milieiliadau. Gall yr offer tracio gofnodi symudiadau’r llygaid wrth i’r cyfranogwr symud ei lygaid o amgylch y sgrin wrth ddarllen. Gall offer tracio llygaid fod yn ddefnyddiol wrth fesur yr Ymdrech Wybyddol sydd ynghlwm wrth gyfieithu (O’Brien 2011a, t. 4). Sail ddamcaniaethol y defnydd o dracio llygaid wrth ymchwilio’r Ymdrech Wybyddol yw rhagdybiaeth Just a Carpenter (1980), sef bod y llygad yn tueddu i syllu ar y gwrthrych y mae’r ymennydd yn ei brosesu, ac nad oes unrhyw oedi amsereddol rhwng yr hyn y bydd unigolyn yn syllu arno a’r hyn y bydd yr ymennydd yn ei brosesu. Po fwyaf o amser y bydd y cyfranogwr yn syllu ar y gwrthrych hwn (sef y man ar y sgrin a’i gynnwys), uchaf yr Ymdrech Wybyddol i’w brosesu (Jensen 2014, t. 211). Dull amgen o ymchwilio i’r Ymdrech Wybyddol yn seiliedig ar ymddygiad y llygaid yw dadansoddi newidiadau ffisiolegol yng nghannwyll y llygaid. Wrth i’r Ymdrech Wybyddol gynyddu, credir y bydd newidiadau ffisiolegol yng nghannwyll y llygaid yn adlewyrchu hynny, ac yn benodol eu maint (Rayner 1998), sef ymlediad a thynhad yng nghannwyll y llygaid (cf. Marshall <i>et al.</i> 2003; Iqbal <i>et al.</i> 2005).	
Rhesymau pam na ddefnyddiwyd y dull hwn	Bu dod o hyd i gyfranogwyr yn anodd yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, felly milwriodd y broblem hon yn erbyn defnyddio tracio llygaid oherwydd bod angen poblogaeth sampl fawr er mwyn defnyddio’r dull ymchwil. Ni fyddai hyn yn broblem yn achos rhannau eraill o’r astudiaeth hon, lle nad yw sgiliau prin cyfieithu Cymraeg yn angenrheidiol. Yn ogystal, ni fu’n bosibl ar yr adeg y casglwyd y data ymdrech i fanteisio ar dechnoleg tracio llygaid. Daeth hyn yn bosibl serch hynny erbyn Rhan 3 (cf. Pennod 7).	
Dadansoddi Rhwydwaith Dewisiadau	Nifer y datrysiadau cyfieithu i’r un segment ffynhonnell	Campbell (2000), Hale a Campbell (2002), O’Brien (2006a)
Sylfaen Theoretig	Nod y dull hwn yw cymharu set o gyfieithiadau o’r un testun ffynhonnell gan grŵp o gyfieithwyr sydd mor debyg â phosibl o ran profiad, cymhwysedd a sgiliau, er mwyn damcaniaethu ynghylch rhyw nodwedd o’r broses a greodd y set o gyfieithiadau honno, gan gynnwys y broses wybyddol wrth gyfieithu (Campbell 2000, t. 29). Deur i gasgliadau ynghylch cymhlethdod testunau ffynhonnell yn seiliedig ar nifer y gwahanol strategaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfieithu’r un segment. Po fwyaf o ddatrysiadau sydd i’r un segment, y mwyaf cymhleth y bernir y testun ffynhonnell i fod (cf. Hale a Campbell 2002). Er enghraifft, pe ceid wyth cyfieithiad hollol wahanol i Segment A allan o grŵp o ddeg cyfieithydd, ond un cyfieithiad ar gyfer Segment B (h.y., penderfynodd pob cyfieithydd gyfieithu Segment B gan ddefnyddio’r un strategaeth, neu strategaeth debyg iawn), yna yn ôl Theori Dadansoddi Rhwydwaith Dewisiadau byddai Segment A yn fwy cymhleth na Segment B. Gellid mynd ymhellach, fel y mae O’Brien (2006a) a Hale a Campbell (2002) wedi gwneud, ac awgrymu bod segment â nifer fawr o strategaethau gwahanol wedi gofyn am fwy o Ymdrech Wybyddol na segment nad arweiniodd at fwy nag un strategaeth cyfieithu.	
Rhesymau pam na ddefnyddiwyd y dull hwn	Mae denu digon o gyfranogwyr yn allweddol; byddai’n rhaid cynnal arbrawf gyda nifer uchel iawn o gyfieithwyr er mwyn medru datgan bod pob strategaeth bosibl wedi’i sylweddoli. Fel y dangosir gan Gile (1995, t. 52), un o nodweddion amlycaf cyfieithu yw’r amrywiaeth a geir rhwng cyfieithiadau o’r un testun gan yr un grŵp o gyfieithwyr; gellid dadlau bod amrywiaeth yn y strategaethau yn ganlyniad i greadigedd cynhenid y broses cyfieithu, yn hytrach nag Ymdrech Wybyddol uwch, a bod amrywiaeth i’w disgwyl. Nid yw’n glir ychwaith, o ddarllen erthygl Campbell (2000) a defnydd O’Brien (2006a) o’i theori, beth yn union yw perthynas y dull ymchwil hwn â’r Cof Gweithredol, sef craidd unrhyw astudiaeth o’r Ymdrech Wybyddol. Ni wnânt unrhyw gysylltiad amlwg rhwng adnoddau cyfyngedig y Cof Gweithredol a nifer uchel o strategaethau cyfieithu gwahanol ar gyfer yr un segment. Byddai’n anodd dadlau bod y dull ymchwil hwn yn perthyn i astudiaethau gwybyddol ym maes Astudiaethau Cyfieithu, gan fod astudiaethau o’r fath bellach yn tueddu i ddiwynnu ar theorïau sy’n ‘wybyddol ddilys’ yn ôl Halverson (2014, t. 126), h.y. theorïau cydnabyddedig o Wyddoniaeth Wybyddol. Hefyd, mae’n anodd cyplysu’r dull ymchwil hwn â thuedd ddiweddar Astudiaethau Cyfieithu i ganolbwyntio lawer mwy ar y <i>cyfieithydd</i> , gan dalu llai o sylw i’r hyn y’i cynhyrchwyd ganddo.	

5.14 DULLIAU I FESUR YR YMDRECH DECHNEGOL GYM HAROL

Cyfeiria'r Ymdrech Dechnegol at y gweithrediadau technegol y bydd y cyfieithydd yn eu cwblhau wrth gynhyrchu testun. Gall gynnwys prosesau ysgrifennu llinellol ar y cyd â dileu, ad-drefnu brawddegau, mewnosod testun a chopïo a gludo ymysg pethau eraill, sef 'prosesau ysgrifennu anllinellol'. Cofnodi a dadansoddi'r gweithrediadau technegol hyn yw'r unig ddull o ymchwilio i'r Ymdrech Dechnegol — yn wahanol i'r Ymdrech Wybyddol, lle mae lliaws o ddulliau yn seiliedig ar wahanol theorïau, cofnodi'r gweithrediadau hyn yw'r cyfan y mae angen ei wneud. Y cwestiwn felly yw *sut* y mae mynd ati i gofnodi'r Ymdrech Dechnegol a'i newidynnau, yn hytrach na *pha* newidynnau sy'n cael eu cofnodi ac yn ôl pa theori gefndirol. Nodir isod ddau ddull posibl o fynd i'r afael â'r cysyniad, cyn esbonio pam na chawsant eu defnyddio.

5.15 MESUR 'INEFF'

Un dull o fynd i'r afael â'r Ymdrech Dechnegol Gymharol yw'r Metrig Aneffeithlonrwydd (a dalfyrrir yn y Saesneg i 'InEff Metric'). Ei nod yw cymharu faint o newidiadau a wneir fesul gair wrth gyfieithu neu ôl-olygu a chymharu'r sgoriau cyfartalog er mwyn darganfod pa broses oedd y fwyaf effeithlon (cf. Carl et al. 2015, tt. 165-168), lle cyfeiria 'effeithlonrwydd' at nifer y dileadau a mewnosodiadau a geir. Mynegir y metrig fel hafaliad isod:

$$\text{Metrig InEff} = \frac{\text{mewnosodiadau} + \text{dileadau}}{\text{nifer y geiriau yn y cyfieithiad terfynol}}$$

Ffigur 5: Metrig InEff yn dilyn Carl et al. (2015)

Po leiaf o newidiadau a wneir, y mwyaf effeithlon y bernir y naill broses neu'r llall i fod. Disgwylir i'r broses cyfieithu fod â'r nifer mwyaf o 'olygiadau', o ystyried y ffaith bod angen creu'r cyfieithiad yn absenoldeb unrhyw destun arall. Cafodd y metrig hwn ei ddefnyddio gan Carl et al. (2015) i ymchwilio i'r Ymdrech Dechnegol Gymharol rhwng cyfieithu ac ôl-olygu. Ond mewn gwirionedd, gall nifer o ffactorau gymhlethu'r darlun; os yw'r allbwn MT (neu TM) yn wallus ac o safon annerbyniol, yna yn ddamcaniaethol byddai mwy o olygiadau o gymharu â chyfieithu. Mae'n ddull defnyddiol felly o ymchwilio i ansawdd system MT (neu TM), ac yn ddull defnyddiol ar gyfer cyfiawnhau mabwysiadu MT (neu TM) ar sail 'effeithlonrwydd'. Penderfynwyd peidio â defnyddio'r Metrig InEff serch hynny, gan nad yw'n ystyried elfennau eraill o'r Ymdrech Dechnegol megis ychwanegiadau a phrosesau ad-drefnu testun, yr aed i'r afael â hwy yn Adran 5.6.

5.16 TER

Dull tebyg o fesur yr Ymdrech Dechnegol rhwng cyfieithu a defnyddio MT a TM fyddai addasu metrig golygu ar gyfer gwerthuso ansawdd cyfieithiadau awtomatig. Pwrpas '*Translation Edit Rate (TER)*' yw cyfrifo faint o newidiadau, neu olygiadau, yr oedd eu hangen i wneud yr allbwn MT yn gyfieithiad derbyniol, h.y. i sicrhau bod cywerthedd o ryw fath rhwng yr IFf a'r allbwn awtomatig trwy'r broses olygu (Chunyu a Wong 2015, t. 229). Po leiaf o newidiadau a wneir, y mwyaf tebygol ydyw bod yr allbwn yn ddefnyddiol oherwydd nid oes rhaid newid cymaint ar yr allbwn (Depraetere et al. 2014, t. 89). Datblygwyd TER gan Snover (2006). Gallai hynny fod yn ddefnyddiol felly wrth ymchwilio i ymdrech gymharol rhwng cyfieithu a golygu allbwn systemau MT a TM o safbwynt cynhyrchu testun; yn naturiol byddai'r Ymdrech Dechnegol ar gyfer cyfieithu heb MT a TM yn 100% oherwydd byddai rhaid teipio pob gair ac ychwanegu unrhyw atalnodi. Wrth olygu allbwn MT a TM, os gellir lleihau'r Ymdrech Dechnegol yn seiliedig

ar TER o 100% i ganran is, yna mae'n dilyn bod yr Ymdrech Dechnegol yn llai ar gyfer y dull hwn o gyfieithu oherwydd, yn ddamcaniaethol, nad oes rhaid cynhyrchu cymaint o destun. Serch hynny, nid yw Translog yn cyfrifo'r sgôr TER, sef y dull ymchwil y penderfynwyd ei ddefnyddio ac a ddisgrifir isod, a byddai cyfrifo'r sgoriau hyn â llaw ar gyfer 208 o frawddegau (8 cyfranogwr x 15 brawddeg yn yr arbrawf cyntaf, 8 cyfranogwr x 11 o frawddegau yn yr ail arbrawf) yn llafurus dros ben, ac yn rhwym o arwain at wallau. Troir o ganlyniad at ddulliau eraill.

5.17 DULLIAU I FESUR YR YMDRECH AMSERYDDOL GYM HAROL

Yn debyg i'r Ymdrech Dechnegol, yr unig ddull o fynd i'r afael â'r ymdrech hon yw cofnodi amser y dasg ar y cyd â chyfrif faint o eiriau a gynhyrchwyd fesul uned benodol o amser. Eto, nid *pa* newidynnau a gaiff eu mesur, ond *sut* y cânt eu mesur yw'r broblem i'w datrys. Yn amlwg ddigon, defnyddio rhyw fath o declyn cofnodi amser wrth i'r cyfieithwyr wneud y tasgau o dan amgylchiadau arbrofol yw'r datrysiad sy'n cyflwyno ei hun gyntaf. Er y gall y feddalwedd y penderfynwyd ei defnyddio ar gyfer y rhan hon o'r ymchwil gofnodi'r tasgau cyfieithu mewn milieiliadau yn y cefndir, ni all wneud hynny *fesul segment*. O ganlyniad, penderfynwyd gadael ystyriaeth o amser tan ail ran y traethawd hwn lle bydd modd dadansoddi cynhyrchedd yn llawer mwy manwl.

5.18 DIFFINIAD O GOFNODI TRAWIADAU BYSELL

Mae mynd i'r afael ag ymdrech wrth gyfieithu gan ddefnyddio'r newidynnau a ddewiswyd yn golygu bod angen defnyddio dull ymchwil arbennig, sef Cofnodi Trawiadau Byssell, a meddalwedd arbenigol o'r enw Cofnodwr Trawiadau Byssell i wneud hynny. Diffinnir Cofnodi Trawiadau Byssell fel y broses o gofnodi ar gyfrifiadur, trwy

feddalwedd arbenigol, brosesau cyfansoddi testun unigolyn, lle caiff gweithrediadau cynhyrchu testun megis teipio nodau alffaniwmerig, dileu a mewnosod testun ar y cyd â'r amser y digwyddodd y gweithrediadau hyn, eu cofnodi (Miller a Sullivan 2006, t. 1; Palumbo 2009). Mewn perthynas â'r dull ymchwil a chwestiynau ynghylch prosesu gwybyddol a chynhyrchu testun, noda Jakobsen (1999, t. 74) bwrpas y dull, "[...] the idea is that the process of writing a translation constitutes behaviour that can be studied quantitatively — across time — and interpreted as a correlate of mental processing". Yn dilyn hyn mae nifer o astudiaethau cyhoeddedig ym maes cyfieithu wedi rhoi'r dull ymchwil hwn ar waith (cf. Dragsted 2005; Buchweitz ac Alves 2006; Immonen 2006, 2011; O'Brien 2006a; Jakobsen 1998, 2003; Koehn 2009; Plitt a Masselot 2010; Lacruz a Shreve 2014; Vandepitte 2015). Gan fod y feddalwedd monitro yn cofnodi gweithrediadau technegol wrth i destun gael ei gyfansoddi, a fydd yn cyfateb i bwysu bysellau ar fysellfwrdd, defnyddir dau derm ar gyfer y weithred o gofnodi prosesau awduro unigolyn, sef Monitro Cynhyrchu Testun a Chofnodi Trawiadau Bysell. Penderfynwyd defnyddio un term yn yr astudiaeth hon er cysondeb, sef Cofnodi Trawiadau Bysell.

5.19 TRANSLOG II

Mae Cofnodi Trawiadau Bysell yn fethodoleg brofedig ym maes ymchwil ar y broses ysgrifennu unieithog hefyd, ac i'r maes ymchwil hwn y perthyn y rhan fwyaf o systemau Cofnodi Trawiadau Bysell, gydag *Inputlog 6.0* (cf. Leitjen a Van Waes 2013) yn eu plith. Ond canolbwyntia'r adran hon ar *Translog II*, sef y system Cofnodi Trawiadau Bysell a grëwyd yn benodol ar gyfer ymchwilwyr ym maes cyfieithu a'r un a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Dewiswyd *Translog* oherwydd mai'r feddalwedd hon a


ddefnyddir amlaf ym maes Astudiaethau Cyfieithu, yn ôl yr adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd, a fe'i defnyddiwyd gan astudiaethau tebyg i'r un hon, sef Dragsted (2005), Buchweitz ac Alves (2006), Immonen (2006, 2011). O'Brien (2006a, 2007), Koehn (2009), Lacruz a Shreve (2014) a Vandepitte (2015).

Ym 1999 y cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o *Translog*; cynrychiolodd y fersiwn gyntaf o'r rhaglen hon newid epistemolegol ym maes Astudiaethau Cyfieithu, yn debyg i'r newid y mae Tracio Llygaid yntau wedi'i greu yn ddiweddar hefyd. Symudodd y maes yn raddol o ymchwil oddrychol yn seiliedig ar Brotocolau Meddwl yn Uchel i gyfuniad o ddulliau, gyda data meintiol *Translog* yn cryfhau data ansoddol y protocolau llafar. Mae *Translog II* yn ddull ymchwil poblogaidd ym maes Astudiaethau Cyfieithu ac ymchwil ym maes defnyddioldeb ac ansawdd allbwn systemau MT hefyd erbyn hyn, ac mae wedi bod trwy sawl fersiwn (cf. Jakobsen 2006, tt. 96-97). Dadansoddir *Translog II* isod. Mae'r disgrifiad yn seiliedig ar erthygl y datblygwr (Jakobsen 2006).⁵⁶

Nod *Translog II* yw cofnodi pa fysellau a bwyswyd ar fysellfwrdd, ar y cyd â'r union amser (mewn milieiliadau) y pwyswyd y bysellau hyn, ac unrhyw seibiannau y ceir rhyngddynt. Ni all *Translog II* gofnodi'r hyn a deipiwyd y tu allan i'r rhaglen, nac ychwaith weithrediadau cyfrifiadurol y cyfranogwr mewn rhaglenni eraill, e.e. porwyr gwe. Nid recordiad o'r sgrin a geir felly, ond recordiad o'r broses cyfansoddi testun fel y digwyddodd yn *Translog II User*. Golyga hyn fod defnyddio *Translog II* yn ddiogel o ran amddiffyn data cyfranogwyr, megis e-byst. Pa fysellau a phryd, felly, yn ogystal â'r amser a dreulir yn seibio, yw'r hyn a gofnodir gan *Translog II*. Mae i *Translog II* ddwy ran annibynnol â'u rhyngwyneb defnyddiwr eu hunain; sef *User* a *Supervisor*, ill dwy â'u


⁵⁶ Mae'r disgrifiad hwn yn ymwneud â *Translog 2006*. Er y defnyddir *Translog-II*, nid oes cymaint â hynny o newid wedi bod rhwng y ddwy fersiwn; y prif wahaniaeth yw bod modd cysylltu Traciwr Llygaid â'r rhaglen a mae modd recordio sain. Mae'r disgrifiad o 2006 o hyd yn ddilys felly gan na recordiwyd sain a chan na ddefnyddiwyd tracio llygaid.

swyddogaethau gwahanol. Mae angen creu ffeil yn y rhan *Supervisor* er mwyn i gyfranogwr fedru creu'r data yn y rhan *User*. Dim ond ar ôl cwblhau'r dasg yn *User* y gellir defnyddio swyddogaethau'r rhan *Supervisor* o ran dadansoddi data. Crëir y prosiect ar gyfer y cyfranogwyr yn y rhan *Supervisor*, a gwneir yr arbrawf ei hun yn y rhan *User*. Bydd *User* yn arddangos y testun ffynhonnell (neu rannau ohono yn dilyn sut y mae wedi'i segmenteiddio, os o gwbl), ac wedi i '*Start Logging*' gael ei bwysu, arddangosir sgrin gyfochrog, â'r testun ffynhonnell naill ar y brig neu ar y chwith (gweler Ffigur 6 isod). Os yw'r testun yn un hir, mae modd i'r defnyddiwr sgrilio. Ar ochr y sgrin nad yw'n cynnwys y testun ffynhonnell (testun nad oes modd i'r cyfranogwr ei newid), bydd sgrin wag yn barod ar gyfer cyfieithiadau'r cyfranogwr, neu allbwn system MT a TM yn barod ar gyfer y broses olygu. Ar ôl gorffen a chlicio '*Stop Logging*', disgwylir i gyfranogwyr gadw'r ffeil. Nid oes modd i'r cyfranogwr weld y ffeil honno wedyn tan i'r ymchwilydd ei dangos iddo.



Ffigur 6: Rhyngwyneb *User*

Wrth i'r cyfranogwr gyflawni'r tasgau y crëwyd ar ei gyfer ymlaen llaw, bydd *Supervisor* yn casglu'r data ac yn eu dadansoddi. Arddangosir y data hyn wedyn naill ai yn y '*Replay Function*' (Swyddogaeth Ailchwarae), y '*Statistics*' (Ystadegau), neu yn y '*Linear Representation*' (Cynrychioliad Llinellol). Yn y Swyddogaeth Ailchwarae, mae modd gwyllo recordiad sgrin mewn amser real o'r holl broses cyfieithu, o ddechrau'r cyfieithiad hyd at y broses adolygu (gweler Ffigur 7 isod). Mae modd gweld popeth a wnaed wrth gynhyrchu testun, ac mae modd stopio'r recordiad ar unrhyw adeg yn ystod y broses cyfansoddi testun a'i aildechrau. Mae'r swyddogaeth hon yn caniatáu i'r ymchwilydd wyllo sgrin y cyfieithydd wrth iddo weithio ar gyfieithiad, sy'n darparu cyfle heb ei ail i ymchwilydd sy'n ymddiddori yn y broses cyfieithu a sut y mae cyfieithu yn digwydd.



Ffigur 7: Sgrin lawn y Swyddogaeth Ailchwarae

Tabl 3: Allwedd i symbolau'r Cynrychioliad Llinellol.

Symbol	Ystyr
[Start]	Mae'r sesiwn wedi dechrau
◀	Backspace (Dileu Nod)
[Delete]	Pwyswyd y botwm 'Delete' ar y bysellfwrdd (yn hytrach na 'Backspace')
[Interface]	Symudwyd ffenest <i>Translog II</i> ar y sgrin gan y cyfranogwr
[▼][▲][▼][▲]	Clicwyd y llygoden unwaith
→	Clicwyd y saeth ar y bysellfwrdd er mwyn symud trwy'r testun
←	Clicwyd y saeth ar y bysellfwrdd er mwyn symud trwy'r testun
•	Seibiant o 1.5 eiliad yn y broses cynhyrchu
•	Seibiant o 1 eiliad, nas defnyddiwyd wrth ddadansoddi'r Ymdrech Wybyddol yma
[NextUnit]	Pwyswyd y fysell angenrheidiol i weld y segment nesaf
yddygiad	Teipiwyd yr union lythrennau hyn
[•14.430]	Cafwyd seibiant estynedig o 14 eiliad a 430 milieiliad
[Return]	Pwyswyd 'Return'
[Stop]	Pwyswyd 'Stop Logging' a daeth y sesiwn i ben

Crea Supervisor 'Ystadegau' hefyd, sef data rhifol o dan ddau bennawd, 'Events' a 'Time'. Cofnoda'r rhaglen sawl gwaith y cafodd y bysellau a restrir yn y tabl isod eu pwysu, ac mae hefyd yn cofnodi data amseryddol am y broses. Er enghraifft, pe bai'r rhif '8' ar ôl '[Delete]', byddai hynny'n golygu bod y cyfranogwr wedi dileu 8 nod 8 o weithiau. Caiff y data hyn eu defnyddio i ddod i gasgliadau ynghylch yr Ymdrech Dechnegol.

Gwerthuso *Translog II*

Mae'r data y mae *Translog II* yn eu darparu yn gyfoethog, ac yn ddefnyddiol ar gyfer nifer o wahanol gwestiynau ymchwil. Mae nodweddion *Translog II* yn golygu bod modd defnyddio'r rhaglen hon i ddod i gasgliadau am bob newidyn dibynnol y mae'r rhan hon o'r astudiaeth yn mynd i'r afael ag ef hefyd, sef y newidynnau yn ymwneud â'r Ymdrech Wybyddol (o ganlyniad i ddata seibiannol y rhaglen), a'r Ymdrech Dechnegol (o ganlyniad i ystadegau'r rhaglen). Mae dwy raglen arbrofol arall ar gael i ymchwilyr Astudiaethau Cyfieithu, sef PET (cf. Aziz a Specia 2012) a ddefnyddiwyd mewn arbrawf tebyg gan de Sousa et al. (2011), a *TransCenter* (cf. Denkowski a Lavie 2012) (a ddefnyddiwyd gan Mellinger (2014) yn ei draethawd doethurol ar yr Ymdrech Wybyddol

wrth ymdrin â chyfatebiaethau o system TM ac sy'n rhaglen a ddefnyddir trwy gysylltiad rhyngrwyd). Mae defnyddioldeb meddalwedd ar-lein ym maes TPR, ynghyd â'i manteision a'i hanfanteision, yn destun trafodaeth gan Mellinger (2015). Un o brif fuddion defnyddio meddalwedd fel *TransCenter* yn ôl Mellinger (2015, t. 64) yw'r posibilrwydd o ddenu rhagor o gyfranogwyr oherwydd nid oes angen teithio i ganolfan ymchwil benodol. Serch hynny, nid yw'r data a gynhyrchir gan y ddwy raglen hyn mor fanwl â data *Translog II* (cf. Vieira (2013) am werthusiad manylach ohonynt). Hefyd, gan fod *Translog II* yn rhedeg o fewn amgylchedd Windows ac yn debyg mewn nifer o ffyrdd i brosesydd geiriau arferol (e.e. o ran lliw, gwerth y bysellau, sef yr hyn a ymddengys ar y sgrin ar ôl ei deipio), a chan fod yr IFf ar y chwith ac wedi'i segmenteiddio, yn debyg i sut y byddai'n edrych mewn system TM, mae gan y feddalwedd ddilysrwydd ecolegol (diffinnir y cysyniad hwn isod). A bwrw y caiff cyfranogwyr gyfle i ymglyfarwyddo â'r rhaglen cyn dechrau'r arbrawf, fel yr argymhellir gan Jakobsen (1999, tt. 15-16), ni ddisgwylir i'r rhaglen beri unrhyw broblemau ymarferol i ddefnyddwyr y rhaglen. Pan gynhaliwyd arbrawf peilot gan yr awdur yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, aeth y cyfranogwyr ati i wneud y tasgau yn weddol ddidrafferth, gydag un yn unig allan o ddosbarth o saith yn gofyn sut i weld y segment nesaf. Disgrifir y peilot hwn yn fanylach wrth ddisgrifio dyluniad yr arbrawf.

Bernir bod *Translog II* yn addas at ddibenion y prosiect hwn felly o ganlyniad i safon a helaethrwydd y data y mae'n eu creu. Nid yw *Translog-II* erioed wedi ei ddefnyddio wrth ymchwilio i gyfieithu proffesiynol Cymraeg ychwaith, yn ôl adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd ar gyfer y traethawd hwn. Ond er trylwyredd, eir i'r afael isod â dwy broblem y bu raid eu goresgyn wrth ddefnyddio'r rhaglen. Noda O'Brien (2006a, t. 103) yn ei defnydd hithau o *Translog*, fersiwn 2006, fod modd rhaglennu geiriadur i'w ddefnyddio ar gyfer yr arbrefion. Yn anffodus nid oes modd gwneud hynny yn achos

Translog II. O ganlyniad, caniatawyd i gyfranogwyr ddefnyddio'r adnoddau geiriadurol electronig arbenigol sydd bellach ar gael ar gyfer y Gymraeg ar y we. Ar y llaw arall, mae'r weithred hon yn nes at yr hyn y byddai cyfieithwyr yn ei wneud o dan amgylchiadau arferol beth bynnag. Yn ail, nid yw cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol, wrth reswm, yn defnyddio *Translog II* yn eu gwaith. Disgwylir na fydd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r rhaglen arbenigol hon o ganlyniad. Serch hynny, fel y dadleuwyd uchod, nid yw'r rhaglen yn anodd ei defnyddio ac mae'n weddol debyg i brosesydd geiriau arferol. Hefyd, mae sut y mae'r IFf yn ymddangos ar y sgrin (ar y chwith mewn sgrin gyfochrog ac mewn segmentau) yn eithaf tebyg i system TM. Ceir isod ddisgrifiad o'r dulliau ymchwil a ddefnyddir i fynd i'r afael ag ymdrech, gan ddechrau gyda sut y caiff *Translog II* ei ddefnyddio i fesur yr Ymdrech Wybyddol a Thechnegol a pha newidynnau a ystyrir, cyn nodi'r chwe rhagdybiaeth sy'n seiliedig arnynt.

5.20 MESUR YR YMDRECH WYBYDDOL

Mae'r Ymdrech Wybyddol yn gysyniad pwysig mewn nifer o feysydd, o Ddwyieithrwydd i Astudiaethau Darllen ac Ysgrifennu, ac mae hefyd yn gysyniad pwysig ym maes Astudiaethau Cyfieithu (Martín 2012, t. 169). Un dull o fesur yr ymdrech honno y tu fewn i'r 'Paradeim Prosesu Gwybodaeth' (y mae'r cysyniad bod gallu'r ymennydd i brosesu gwybodaeth yn gyfyngedig yn sail iddo (Martín 2012, t. 171)), yw dadansoddi ymddygiad seibiannol cyfieithwyr wrth iddynt gwblhau cyfieithiad. Mae seibiannau yn ystod y broses o gynhyrchu lleferydd neu'r iaith ysgrifenedig wedi eu defnyddio'n llwyddiannus felly ar gyfer ymchwilio i brosesu gwybyddol; h.y., wrth ysgrifennu neu siarad, credir y bydd unrhyw gyfnod o dawelwch neu ddiffyg ysgrifennu yn cyd-fynd â phrosesau seicoieithyddol lle bydd y siaradwr neu'r awdur yn prosesu'r hyn y bydd yn ei wneud nesaf mewn perthynas ag ysgogiad penodol (Butterworth 1980; Schilperoord

1996; Cenoz 2000; Warren 2013). Dadleuir bod seibiant hir, neu gyfres o nifer o seibiannau yn y broses o gynhyrchu un segment neu ymadrodd, yn cyfateb i Ymdrech Wybyddol o wahanol lefelau wrth ymateb i'r ysgogiad hwnnw; yng ngeiriau Butterworth (1980, t. 156) "The more the delays [e.g. pause time], the more cognitive operations [e.g. processing effort] are required by the output". Mabwysiadwyd safbwynt tebyg gan Schilperoord (1996, t. 11) sef "[...] longer pauses reflect cognitive processes that are *relatively* [pwyslais gan Schilperoord] more effortful compared to processes reflected by shorter pauses". Nodwyd uchod fod dealltwriaeth o'r Cof Gweithredol a'r cysyniad hollbwysig bod iddo gyfyngiadau yn hanfodol wrth ymchwilio i'r Ymdrech Wybyddol. Ar y cyd â rhesymau ymarferol dros beidio â mabwysiadu'r dulliau ymchwil uchod megis argaeledd caledwedd tracio llygaid ac ymyrraeth y dull Meddwl yn Uchel yn y newidynnau a fesurir, penderfynwyd ymchwilio i seibiannau a'u harwyddocâd gwybyddol oherwydd y cysylltiad amlycach rhwng y theori hon a theori Baddeley a Hitch (1974) am strwythur damcaniaethol y Cof Gweithredol a'i ddiweddariad yn cynnwys y Byffer Cyfnodol (Baddeley 2000). Hon yw'r theori a ddefnyddir amlaf mewn Astudiaethau Cyfieithu (O'Brien 2013, t. 14). Gan fod yr hyn y medr y Cof Gweithredol ei brosesu mewn cyfnod penodol o amser yn gyfyngedig, fel yr esbonnir yn aran 4.2 a 5.4, disgwylir i rai tasgau ieithyddol y bernir eu bod yn symlach gael eu cwblhau heb lawer o gyfnodau o seibio, ond os bernir bod tasg yn gymhleth yna gall hyd y seibiannau fod yn hwy neu eu nifer yn uwch. H.y., gan fod cynhwysedd y Cof Gweithredol yn gyfyngedig, bydd rhai tasgau ieithyddol cymhleth, megis cyfieithu, yn ddarostyngedig i broses o segmenteiddio gwybyddol lle gwneir y dasg fesul cam, gan na all y Cof Gweithredol ddosrannu'r un adnoddau gwybyddol i fwy nag un ysgogiad heriol ar yr un pryd (Dragsted 2005, t. 50). Nid yw hynny'n cyfeirio at natur gynhenid amlweddog cyfieithu a golygu allbwn MT a TM fel y cyfryw, sy'n cynnwys sawl cam gwahanol, o ddarllen yr IFf i

adolygu'r cyfieithiad. Wrth ddadansoddi'r data seibiannol yn eu cyfanrwydd, daeth patrwm teiran i'r amlwg a nodweddodd brosesau cyfieithu pob cyfranogwr, sef Seibiannau Cychwynnol, Mewnol a Therfynol. Fel y dengys Tabl 4 isod, mae'r seibiannau hyn yn cyfateb i dair prif broses 'macro' yr aed i'r afael â hwy ym Mhennod 4, sef Darllen yr IFf, Drafftio ac Adolygu. Maent yn cyd-fynd ag ymchwil debyg ym maes TPR sydd hefyd wedi darganfod tueddiad cyfieithwyr i dorri'r broses gyfan i lawr i dair prif ran felly:

Tabl 4: Y tri math o seibiant a'r prosesau y maent yn eu dynodi

Seibiant	Proses	Cyfatebiaeth i Schilperoord (1996)	Cyfatebiaethau i dermau TPR
Seibiannau Cychwynnol	Darllen yr IFf, ac yn achos MT/TM, allbwn y system MT/TM hefyd	'Macro Planning'	'Orientation Time' (Jakobsen 2002; 2005) 'Orientation Time' (Buchweitz ac Alves 2006) 'Initial Pauses' (Koehn 2009) 'Gisting' (Carl <i>et al.</i> 2010) 'Translation Onset Time' (Vandepitte <i>et al.</i> 2015).
Seibiannau Mewnol	Cyfieithu, Ôl-olygu neu addasu'r TM fesul segment gwybyddol, a bennir gan gapasiti y Cof Gweithredol a chymhlethdod yr ysgogiad	'Micro Planning'	'Drafting Phase' (Jakobsen 2002) 'Writing' ((Buchweitz ac Alves 2006)'Short Pauses/Mid-pauses' (Koehn 2009) 'Drafting' (Carl <i>et al.</i> 2010)
Seibiannau Terfynol	Adolygu'r hyn a gynhyrchwyd ar y sgrin ar ôl gorffen teipio		'Online Revision' (Jakobsen 2003) 'Revision' (Buchweitz ac Alves 2006) 'End pauses' (Koehn 2009) 'Monitoring Pauses' Dragsted (2010) 'Post-editing' (Carl <i>et al.</i> 2010) ⁵⁷

Caiff y cyfnodau o seibio sy'n gysylltiedig â darllen ac adolygu eu cofnodi ar y cyd â'r data seibiannol sy'n cyd-fynd â rhannau mwy heriol o'r broses. Ond cyfeiria

⁵⁷ Ni ddylid drysu rhwng defnydd Carl *et al.* (2010) o'r term 'post-editing' i ddisgrifio prosesau adolygu, lle caiff y cyfieithiad ei wirio yn derfynol gan y cyfieithydd ar ôl cwblhau drafft, ac ystyr arferol y term ym maes TPR, sef y gwaith o gywiro allbwn system MT (ôl-olygu yn Gymraeg).

segmenteiddio yn y cyswllt hwn at y broses seicoieithyddol o seibio wrth ymateb i ysgogiad (h.y. rhan o segment). O ganlyniad, ni chaiff yr amser a dreuliwyd yn darllen yr IFf, nac ychwaith yr amser a dreuliwyd yn darllen allbwn y systemau MT a TM yn achos technoleg cyfieithu, eu hystyried yn seibiannau sy'n gysylltiedig â phrosesu *ymdrechgar* yn dilyn cyrraedd rhan heriol o'r testun. Ni chaiff seibiannau terfynol, nad ydynt yn gysylltiedig o reidrwydd ag ysgrifennu cyfieithiad neu gywiro allbwn MT a TM, eu hystyried yn dystiolaeth o ymdrech wybyddol *uwch* ychwaith. O ganlyniad, ystyrir seibiannau 'mewnol' ar wahân i seibiannau cychwynnol a geir ar ddechrau'r segment, a'r rhai terfynol y ceir ar ei ôl. Mae disgrifiad o sut y mae'r astudiaeth gyfredol yn adnabod y ffiniau rhwng y gwahanol fathau o seibiant hyn i'w weld yn Nhabl 5 ar dudalen 114. Mae gwahaniaethu rhwng seibiannau cychwynnol a mewmol yn gydnaws â theori wreiddiol Schilperoord (1996)(cf. Tabl 4) a'i '*Macro Planning*', sef cynllunio'r hyn a gaiff ei gynhyrchu (a fyddai'n cyfateb i ddarllen yr IFf), a'i '*Micro Planning*', sef seibio lleol y tu fewn i segment (a fyddai'n cyfateb i gyfnodau o brosesu gwybyddol lle mae'r cyfieithydd yn atal ei brosesau cynhyrchu testun er mwyn buddsoddi adnoddau gwybyddol mewn un rhan benodol o'r dasg cyfieithu). Mae Seibiannau Terfynol yn gysylltiedig â'r broses o wirio'r hyn a gafodd ei gynhyrchu eisoes, a chan mai *gwerthuso* yw'r nod yn hytrach na chyfieithu neu gywiro'r allbwn MT/TM, mae'n ddigon posibl na fydd y broses hon mor ymdrechgar a chymhleth â chyfieithu o'r newydd. Mae un astudiaeth wedi awgrymu bod y broses o werthuso ysgogiadau fel hyn yn broses awtomatig hyd yn oed, a'i bod yn "Immediate, unintentional, implicit, stimulus based, and linked directly to approach and avoidance motives" (Duckworth *et al.* 2002, t. 513). Mae'r ffaith bod y seibiannau terfynol a welwyd yn dod *yn syth* ar ôl gorffen drafft cyntaf o'r segment, ac nad oeddent fel arfer wedi arwain at newidiadau i'r testun, hefyd yn awgrymu hyn. Mae gwahaniaethu rhwng y seibiannau hyn a thrin y cyfnodau darllen ac adolygu fel prosesau gwybyddol nad ydynt


arwain at Ymdrech Wybyddol uwch hefyd yn gydnaws â nifer o astudiaethau yn ddiweddar sydd wedi darganfod bod cyfieithwyr yn tueddu i fuddsoddi llawer llai o adnoddau gwybyddol i'r camau hyn (cf. Jakobsen a Jensen (2008); Sharmin et al. (2008); Pavlović a Jensen (2009)). Fel y dywed Jensen (2011a, t. 49), "Assuming that processing effort is identical across all three production stages entails the risk of basing an analysis on data that reflect several tasks". Mae astudiaeth arall yn ddiweddar gan Vieira (2016) hefyd yn dadlau hyn.⁵⁸

Er hynny, mae astudiaeth ddoethurol ddiweddar (Mellinger 2014), ynghyd â nifer o astudiaethau cyhoeddedig (e.e. O'Brien 2006b; Lacruz a Shreve 2014), o hyd yn cyfuno'r holl ddata seibiannol a geir o allbwn *Translog*, gan ddiystyru'r ffaith bod y seibiannau a geir yn cyfateb i brosesau unigryw, a bod y prosesau hyn hefyd yn wahanol o ran yr ymdrech y buddsoddir ynddynt. Mae'r ffaith bod yr *amser* a fuddsoddir i'r Cam Darllen a'r Cam Hunan-adolygu yn llai na'r amser a fuddsoddir yn y Cam Ffurio (cf. Jakobsen 2002; Buchweitz ac Alves 2006; Immonen 2006) hefyd yn ategu'r astudiaethau y cyfeirir atynt uchod. Mae Koehn (2009) yn eithriad nodedig i'r duedd hon.

Darlunnir y theori hon ar waith felly yn Ffigur 9 lle cyfetyb y smotiau du a choch rhwng y llythrennau i seibiant o 1 ac 1.5 eiliad, gyda data gwirioneddol o Gynrychioliad Llinellol *Translog II* a dau segment, wedi eu hanodi i ddangos y segmentau meicro (sef canlyniad y broses o segmenteiddio gwybyddol). Gan ddilyn y ffiniau a nodir gan y seibiannau o 1.5 eiliad (a gynrychiolir gan smotiau coch), gwelir isod fod y cyfieithydd wedi atal ei brosesau cynhyrchu testun unwaith yn ystod y broses cynhyrchu (Seg. A, blwch du) er mwyn mynd i'r afael â rhan benodol o'r cyfieithu a brofodd yn heriol, a

⁵⁸ Dywed Vieira (2016, t. 60), "It was also observed that the length of pauses that do not occur in between editing events, such as the first and last pauses for a sentence and pauses related to leaving the MT output unedited, influences the behaviour of pause ratio. When this measure included such pauses, it had an inverse association with cognitive effort".

hynny ar ôl y seibiannau sy'n gysylltiedig â darllen (blwch gwyrdd) a chyn adolygu'r hyn a gynhyrchwyd (blwch glas). Yn Seg. B (y cafodd ei ôl-olygu) serch hynny, medrodd yr ymennydd gwblhau'r segment ôl-olygu macro yn ei gyfanrwydd. Medrodd wneud hynny gan na lwythwyd y Cof Gweithredol gan nifer o segmentau meicro y gorfodwyd y cyfieithydd i'w prosesu yn annibynnol ar y segment cyfan oherwydd ei gymhlethdod. Darllenwyd y Saesneg a darllenwyd yr allbwn MT (sydd wedi arwain at y cyfnod hwy o seibio cychwynnol (blwch gwyrdd)) a phenderfynwyd nad oedd rhaid ôl-olygu. Pe bai'r segment hwn yn un heriol hefyd, byddid wedi gweld mwy o enghreifftiau o seibio yn ychwanegol at y cyfnod o seibio pan ddarllenwyd yr Iff a'r allbwn MT. Sylwer hefyd nad yw'r segmentau meicro, lle mae'r cyfieithydd yn dadansoddi'r Iff ac yn cynllunio strategaeth cyfieithu lai, o reidrwydd yn cyfateb ag elfennau gramadegol llawn, ond i unedau dadansoddi seicolegol sy'n cynnwys y rhan berthnasol o'r segment macro sydd dan ystyriaeth yn y cyfnod penodol hwnnw o amser.



Ffigur 9: Segmentau Hawdd a Chymhleth. A: Segment Cyfieithu, B: Segment Ôl-olygu⁵⁹

⁵⁹ Nid oes llythrennau i'w cael yn y segment ôl-olygu uchod (Segment B) oherwydd na wnaeth y cyfranogwr dan sylw unrhyw newidiadau i'r allbwn. Wrth edrych ar y testun ôl-olygu a roddwyd i gyfranogwyr, roedd yr allbwn GTrans yn dderbyniol. Mae'r symbolau a welir yn cyfateb i fysellau ar gyfer sgrolio i lawr gan ddefnyddio'r bysellfwrdd. Cyfetyb y seibiannau a gynrychiolir gan y smotiau coch i'r broses o *ddarllen* y Saesneg a'r testun i'w ôl-olygu. Gan na chofnodwyd unrhyw seibiannau mewnol, yn ôl sut y mae cysyniad yr Ymdrech Wybyddol wedi ei weithredu yn yr astudiaeth gyfredol, nid oedd y segment hwn yn ymdrechgar yn wybyddol i'r cyfieithydd. Yr awdur biau'r diagram hwn.

Pe bai nifer y seibiannau mewn segment yn uchel, ac felly cyfanswm eu hyd hefyd yn uchel, bernir i'r Cof Gweithredol orfod segmenteiddio sawl gwaith, sy'n golygu mai Ymdrech Wybyddol uchel a fuddsoddwyd wrth brosesu'r segment. Yng ngeiriau Shreve a Diamond (1997, t. 243), "Frontal systems may employ the central executive to initiate more effortful processing and allocate attentional and other resources when we become aware of what we might loosely call 'information processing problems'".⁶⁰ Bydd hyn yn ei dro yn arwain at gynydd yng nghyfanswm yr amser a dreulir yn seibio yn y segment macro, a llai o amser yn cynhyrchu testun, neu "[...] reductions in the efficiency with which a particular task is performed" chwedl Shreve a Diamond (1997, t. 243). Byddai hyn yr un mor wir pe ceid segment gydag un seibiant hir iawn cyn cyfnod o gynhyrchu testun; pe seibid am 55 eiliad, cyn gorffen y segment wedyn ymhen 10 eiliad, dadleuir bod segmenteiddio wedi digwydd a bod y segment gwybyddol hwnnw wedi bod yn un heriol iawn, neu a'i roi mewn geiriau eraill cymerwyd 55 eiliad i ddod o hyd i strategaeth cyfieithu cyn ei chynhyrchu ar y sgrin.

Yn hynny o beth felly, maentumir bod *cyfanswm* hyd y seibiannau mewnol hyn yn dangos bod proses o segmenteiddio gwybyddol wedi bod, a bydd cyfanswm eu hyd yn awgrymu dwysedd cymharol yr Ymdrech Wybyddol a brofwyd gan y cyfieithydd, gan fod llai o gynhyrchu testun a rhagor o seibiannau wrth geisio datrys problem ieithyddol gymhleth.⁶¹ Mae defnyddio seibiannau i fynd i'r afael â'r Ymdrech Wybyddol yn

⁶⁰ Ystyr '*frontal systems*' yw'r llabed flaen a'i swyddogaethau, sef rhan flaenaf yr ymennydd yn y cortecs cerebrol. Mae'n cynnwys nifer o rannau sy'n bwysig i'r broses cyfieithu ac i brosesau ieithyddol yn gyffredinol, gan gynnwys rhan iaith Broca a'r cortecs echddygol sy'n gyrru gweithrediadau gwirfoddol megis teipio. Mae'r llabed flaen yn ganolog i waith y Cof Gweithredol hefyd, ac mae difrod i'r rhan hon o'r ymennydd yn amharu ar nifer o dasgau gwahanol. Eir i'r afael â hyn yn ddyfnach ar dudalen 52 ym Mhennod 4.

⁶¹ Pe defnyddid Tracio Llygaid i fynd i'r afael â'r Ymdrech Wybyddol, mae'n debygol y byddid wedi defnyddio Nifer y Sylliadau (Saes. Fixation Count) (cf. Pennod 7, lle mae Tracio Llygaid wedi ei ddefnyddio ar gyfer y trydydd cwestiwn ymchwil). Esboniwyd y theori gefndirol ar gyfer y rhain uchod yn Adran 4.4. Gellid dadlau serch hynny fod mesur seibiannau yn debyg i fesur nifer y sylliadau a manau o ddiddordeb yn y broses cyfieithu, gan fod pob metrigr i ryw raddau yn dadansoddi lle mae'r cyfieithydd wedi rhoi'r gorau i'w brosesau cynhyrchu testun er mwyn canolbwyntio ar ran benodol o'r cyfieithu.

gysylltiedig â'r amser a fuddsoddwyd yn y broses o gyfieithu'r segment hefyd, ystyriaeth hollbwysig i gyfieithwyr a rheolwyr unedau cyfieithu fel ei gilydd o safbwynt effeithlonrwydd amseryddol. Cafodd ei defnyddio hefyd gan Buchweitz ac Alves (2006), O'Brien (2006a), Koehn (2009), Plitt a Masselot (2010) a Vandepitte (2015). Darperir cefnogaeth bellach dros ystyried cyfanswm yr amser a dreulir yn seibio gan gymharu'r canlyniad ar draws segmentau gan Kumpulainen (2015) pan ddywed fod seibiannau hir, yn ogystal seibiannau niferus yn yr un uned, yn ddefnyddiol ar gyfer ymchwilio i'r Ymdrech Wybyddol. Fel y mae'n esbonio "[...] several 1-second pauses clustered in a segment can be regarded as an equally clear indication of extra cognitive effort as one long pause in a segment" (Kumpulainen 2015, t. 55). Mae ystyried cyfanswm yr amser a dreuliwyd yn seibio yn ddefnyddiol iawn ac yn ddilys felly, oherwydd ei allu i ddal pob math o ymddygiad seibiannol yn yr un rhwyd. Mae'r dull hwn hefyd yn asio dwy theori debyg Butterworth (1980) a Schilperoord (1996).

Ond a yw'r seibiannau gwybyddol hyn o reidrwydd yn cynrychioli prosesau cyfieithu gwybyddol cyfranogwyr? Gellir deall i ryw raddau deithi meddwl y rhai sy'n gwrthwynebu'r syniad bod yr amser a dreulir yn 'seibio' yn cyfateb yn llwyr i brosesu gwybyddol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r dasg cyfieithu dan sylw. Yn ddamcaniaethol, gall fod lliaws o resymau sy'n peri i brosesau cynhyrchu testun cyfieithydd ddod i ben am gyfnod, ar wahân i'r adeg pan fydd y strategaeth cyfieithu/ôl-olygu dan ystyriaeth neu pan fydd y cyfieithydd yn darllen yr IFf neu'n adolygu. Yn anffodus, fel y cyfeddyf Schilperoord (1996, t. 10), nid yw'n bosibl mesur yn union yr hyn sy'n mynd â sylw gwybyddol y cyfieithydd yn barhaus. Mae'n annhebygol, serch hynny, nad y tasgau ieithyddol oedd flaenaf ym meddyliau'r cyfieithwyr wrth berfformio'r tasgau y rhoddwyd ger eu bron yn yr arbrawf. Gan mai un dasg ar y tro y gofynnwyd i'r cyfranogwyr ei gwneud, ni osodwyd unrhyw dasg arall a allai fod wedi cystadlu am sylw'r cyfieithydd.

Nid yw hynny'n golygu, serch hynny, na allai meddyliau eraill, cwbl anghystylltiedig â'r dasg cyfieithu, fod wedi mynd â sylw'r cyfieithydd o bryd i'w gilydd, gan arwain at gyfnodau o seibio hefyd. Ond dengys y dystiolaeth brimaidd ac eilaidd a gasglwyd gan Smallwood a Schooler (2006) serch hynny fod tasgau sy'n dibynnu ar adnoddau'r Cof Gweithredol, fel cyfieithu proffesiynol (cf. Rothe-Neves 2003), yn lleihau tueddiadau (neu allu) meddyliau bodau dynol i ddrifftio a dargyfeirio oddi wrth y dasg brimaidd dan sylw. Gan fod y tasgau cyfieithu a osodwyd yn yr arbrawf felly yn rhai a ddibynnodd ar brosesu ymwybodol a chryn ganolbwyntio yn y lle cyntaf, gellid dadlau bod y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r seibiannau a gofnodwyd yn ymwneud â'r dasg cyfieithu dan sylw, ac nid ydynt yn debygol o fod yn gysylltiedig â phrosesau gwybyddol eraill, nac ychwaith yn dystiolaeth o '*mind-drifting*' (cf. Smallwood a Schooler (2006)).

Golyga'r defnydd o enghraifft o gyfieithu uchod fod modd cymhwyso'r theori hon at yr Ymdrech Wybyddol mewn cyfieithu a/neu olygu allbwn technoleg cyfieithu felly, a dyna mae nifer o ymchwilwyr wedi'i wneud (Krings 2001; Jakobsen 2002; Dragsted 2005; O'Brien 2006a; O'Brien 2006b; Lacruz a Shreve 2014; Vandepitte *et al.* 2015). Gellir deall cyfieithu fel proses wybyddol, gymhleth sy'n cynnwys cynllunio a datrys problemau ieithyddol [sef yr ysgogiad y cyfeiriwyd ato uchod], gyda phrosesau rhyng-ddiwylliannol a rhyng-ieithyddol yn gefndir i'r perfformiad, a chredir y gall yr Ymdrech Wybyddol sy'n rhan anochel o'r broses arbenigol hon ei hamlygu ei hun fel seibiant yn y broses cynhyrchu (Kumpulainen 2015, t. 48). Mae *Translog II* yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cofnodi'r seibiannau hyn, a chafodd y rhaglen a'i chynrychioliadau llinellol eu datblygu yn seiliedig ar theori Schilperoord (1996), yn ôl Jakobsen (2006, t. 96).

Ystyriwyd defnyddio dau fetrig seibiannol arall yn yr astudiaeth gyfredol, cyn defnyddio'r un y manylwyd arno uchod, sef canolbwyntio ar seibiannau ar ôl darllen am

ystyr a chyn adolygu. Yn ei hastudiaeth o Ddangosyddion Cyfieithiadwyedd Negyddol ym maes Ieithoedd Rheoledig a'r ymdrech angenrheidiol gymharol ar gyfer trin segmentau macro sy'n cynnwys y fath ddangosyddion a rhai nad oeddent yn eu cynnwys,⁶² defnyddiodd O'Brien (2006a) y Gymhareb Seibiannol ar y cyd â Dadansoddiadau o Rwydwaith Dewisiadau. Cyfrifa'r gymhareb hon hyd yr amser a dreuliwyd yn y segment wedi'i rannu gan hyd yr amser a dreuliwyd yn cynhyrchu testun yn yr un segment, a mynegir y Gymhareb wedyn yn ganran. Ni chanfu O'Brien (2006a; 2006b) gydberthyniad ystadegol rhwng yr Ymdrech Wybyddol a fuddsoddwyd wrth drin y ddau fath o segmentau gan ddefnyddio'r gymhareb hon serch hynny. Defnyddiodd Lacruz a Shreve (2014) a Mellinger (2014) y Gymhareb Seibiannol Gyfartalog i fynd i'r afael ag ymdrech wrth ôl-olygu. Nod y gymhareb hon yw cyfrifo hyd yr amser a dreuliwyd yn seibio mewn segment macro wedi'i normaleiddio gan yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn cynhyrchu testun fesul gair. Barnwyd bod y metrig hwn yn fwy sensitif i hyd brawddegau. Ni ddefnyddiwyd y metrig hwn yn yr astudiaeth gyfredol serch hynny gan nad yw wedi cael ei gymhwyso at gyfieithu o'r blaen, eithr i ôl-olygu a chyfatebiaethau rhannol yn unig.⁶³ Nid yw'r astudiaethau hyn yn ystyried arwyddocâd gwybyddol y seibiannau a geir mewn rhannau gwahanol o segment cyfieithu neilltuol ychwaith; cyfeiriwyd at nifer o astudiaethau uchod sydd wedi darganfod bod yr adnoddau gwybyddol o ddosrennir i'r broses gychwynnol o ymgylfarwyddo â segment, a'r adnoddau gwybyddol a dreulir wrth adolygu'r cynnig cyntaf, yn wahanol i'r hyn a ddosrennir i'r broses o ddod o hyd i ddeunydd yn yr ID yn feddyliol. Nid yw dod o hyd i gyfanswm yr amser a dreuliwyd yn

⁶² Ym maes Ieithoedd Rheoledig, ystyr Dangosydd Cyfieithiadwyedd Negyddol (Saes. Negative Translatability Indicator) yw nodwedd ramadegol yn y testun ffynhonnell, megis cystrawen amlgymalog neu ffurf ferfol, y gwyddys ei bod yn peri problemau i'r feddalwedd MT ac felly yn arwain at allbwn gwallus sy'n anodd ei gywiro.

⁶³ Ar gyfer trafodaeth fanylach o'r defnydd o wahanol hydroedd o seibiant ar gyfer nifer o wahanol brosiectau nad ydynt yn berthnasol i'r astudiaeth gyfredol, gweler O'Brien (2006b) a Kumpulainen (2015).

gyffredinol vis-à-vis faint o amser a dreuliwyd yn cynhyrchu testun yn ddigon manwl, a gellid dadlau nad yw'n wybyddol ddilys ychwaith o ystyried yr hyn a ddadleuwyd uchod ynghylch yr ymdrech a dreulir ymhob rhan o'r broses cyfieithu broffesiynol. Mae'r astudiaeth hon felly yn wreiddiol o ran sut y mae'r data seibiannol wedi eu trin.

Erys un broblem heb ei datrys, sef pennu hyd y seibiannau yr ymchwilir iddynt. Yn yr enghraifft uchod, ffurfweddwyd *Translog II* i gofnodi seibiannau rhwng 1 ac 1.5 eiliad er mwyn dod i gasgliadau ynghylch yr Ymdrech Wybyddol a fuddsoddwyd. Fe'n hatgoffir gan Van Waes *et al.* (2012, t. 514) a Kumpulainen (2015, t. 48) fod angen i'r ymchwilydd unigol benderfynu hyd y seibiannau sydd o ddiddordeb iddo yn seiliedig ar nod yr astudiaeth, ac yn achos *Translog II* byddai angen ffurfweddu'r rhaglen i gofnodi seibiannau o'r hyd perthnasol ac i beidio â chofnodi seibiannau eraill hefyd. Er y gall y dewis a wneir ymddangos yn fympwyol (Englund-Dimitrova 2005, tt. 96-97), byddai dewis hyd sy'n rhy isel yn arwain at ddata sy'n dweud dim wrth ymchwilwyr am y broses o ddatrys problemau wrth gyfieithu neu ymdrin ag allbwn technoleg cyfieithu; er enghraifft ni fyddai dewis hyd o 0.5 eiliad yn benderfyniad call o ystyried ei bod yn cymryd tua'r un amser i daro bysell, ac ni fyddai hyd sy'n rhy uchel yn ddigon manwl (Kumpulainen 2015, t. 48). Mae amrywiaeth mawr yn hyd y seibiant a ystyrir i fod yn ddefnyddiol gan ymchwilwyr (cf. Kumpulainen (2015) am drafodaeth fanylach), o ganlyniad i'r ffaith bod hyd y seibiant yn seiliedig ar nod yr astudiaeth. Ystyrir pob seibiant sy'n cyfateb i 1.5 eiliad neu'n hwy i fod yn arwyddocaol [ac yn ddiddorol] yn yr astudiaeth hon, a defnyddir seibiannau o'r hyd hwn yn drothwy. Mae'r defnydd o seibiant rhwng 1 ac 1.5 eiliad hefyd yn cyd-fynd â chynhwysedd damcaniaethol y Cylch Ffonolegol, sef y rhan o'r Cof Gweithredol sy'n gyfrifol am storio gwybodaeth ieithyddol yn y tymor byr (Baddeley 1986 y cyfeiriwyd ato yn Dragsted (2006)), ac yn gysylltiedig â seibiannau a phrosesu gwybyddol wrth gyfieithu yn gyffredinol (Dragsted a Hansen 2008). Mae'r

defnydd o'r seibiant hwn yn ddefnyddiol at ddibenion y prosiect hwn, ac mae hefyd wedi'i wreiddio mewn theori sydd wedi denu cefnogaeth boblogaidd ym maes Astudiaethau Cyfieithu a thu hwnt. Fel y dywed Baddeley (1999, t. 45) ei hun mewn perthynas â'i theori ynghylch y Cof Gweithredol, "Underlying my approach is the assumption that a model or theory is useful if it helps one to come to grips with a problem". Llwyddodd Dragsted (2012) i ddod o hyd i gydb berthnasau ystadegol arwyddocaol hefyd rhwng data sylliadau a data seibiannol ar gyfer segmentau a ystyriwyd i fod yn rhai cymhleth; golyga hyn fod perthynas gref rhwng data tracio llygaid a seibiannau, a bod y defnydd o seibiannau o hyd yn ddefnyddiol iawn er poblogrwydd cynyddol tracwyr llygaid ym maes TPR. Y Newidynnau Dibynnol ar gyfer yr Ymdrech Wybyddol felly yw faint o amser a dreulir yn seibio *ar ôl* darllen yr IFf a *chyn* y trawiad bysell olaf ac adolygu, yn seiliedig ar theorïau gwreiddiol Butterworth (1980) a Schilperoord (1996) ynghylch arwyddocâd gwybyddol seibiannau wrth gynhyrchu iaith.

5.21 MESUR YR YMDRECH DECHNEGOL

Yn dilyn y diffiniad o'r Ymdrech Dechnegol a ddarparwyd uchod, eir i'r afael yn yr adran hon â sut y caiff yr Ymdrech Dechnegol Gymharol rhwng cyfieithu a golygu allbwn MT a TM ei chyfrifo.

Mesurir fel newidynnau dibynnol nifer y bysellau cyrchu testun (sef y saethau, y gwahanydd, cyfuniadau CTRL a'r Bar Gofod), cliciadau llygoden a nifer y nodau alffaniwmerig a gynhyrchir, cyn cymharu'r newidynnau hyn ar draws y ddwy broses cyfieithu, sef cyfieithu a golygu allbwn system MT/TM. Ystyr nod alffaniwmerig yw unrhyw lythyren, rhif neu atalnodi, ac mae'n hynny'n fanylach na'r cysyniad problematig o 'lythyren' nad yw o reidrwydd yn cynnwys atalnodi na rhifau. Caiff adnodd 'Ystadegau'

Translog II ei ddefnyddio i ddod o hyd i'r data angenrheidiol i wneud hyn, ar y cyd â'r Cynrychioliadau Llinellol. Yr hyn a wneir yn yr astudiaeth gyfredol ar gyfer cyfrifo'r Ymdrech Dechnegol Gymharol rhwng cyfieithu a golygu allbwn MT a TM felly yw cynnig dadansoddiad o brosesau cynhyrchu testun cyfranogwyr gan ddefnyddio'r data a ddarperir gan *Translog II*.

5.22 MESUR YR YMDRECH AMSERYDDOL

Mae'r diffiniad a ddarperir uchod o'r Ymdrech Amseryddol yn ddigon eang fel bod modd ystyried nifer o newidynnau amseryddol, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar gymharu'r amser o gymerir i gyfieithu vis-à-vis golygu allbwn systemau MT a TM. Credir yma fod yr Ymdrech Amseryddol yn gysyniad amlweddog ac mae ei bwysigrwydd economaidd yn gorfodi'r ymchwilydd i fabwysiadu sawl newidyn wrth fynd ati i'w mesur. Serch hynny, gan fod amser yn ganolog i gynhyrchedd hefyd, a chan na fedr *Translog-II* gofnodi stampiau amser *fesul segment*, penderfynwyd gadael dadansoddiad manylach o amser tan Bennod 6 lle caiff cynhyrchedd ei drafod a'i ddadansoddi'n ystadegol. Mae'r ffaith y byddid wedi gorfod defnyddio teclyn allanol i recordio'r amser a gymerwyd fesul segment yn hytrach na dibynnu ar y feddalwedd ei hun hefyd yn fygythiad i ddilysrwydd mesurol (gweler Adran 5.27), gan fod sgôp eang am wallau yn y broses casglu data.

5.23 YMCHWIL ANSODDOL AC YMCHWIL DULLIAU CYMYSG WRTH YMCHWILIO I YMDRECH

Wrth gynnal yr arbrawf ar yr ymdrech gymharol, penderfynwyd defnyddio dull ymchwil gwrthrychol, empeiraidd sy'n casglu data 'ar-lein' wrth i gyfranogwyr weithio ar gyfieithiad. Cymerwyd y penderfyniad i ddibynnu ar y paradeim ymchwil hwn yn unig, a phenderfynwyd na fyddai ymchwil ansoddol (grŵpiau ffocws) ac ymchwil oddrychol

(grŵpiau ffocws ac holiaduron) yn addas ar gyfer y cwestiwn ymchwil a ofynnir yn y rhan hon o'r traethawd. Er y defnyddir holiaduron strwythuredig er enghraifft wrth fesur y baich gwybyddol ym maes Ffactorau Dynol (Miller 2001; Cain 2007), mae cyfuno dulliau ymchwil wrth fynd i'r afael ag ymdrech wedi ei ddiystyru yma. Gwnaed hyn yn dilyn darganfyddiadau nifer o astudiaethau bod y canlyniadau a ddaw o ddulliau ymchwil mwy goddrychol yn tueddu i adlewyrchu *barnau'r* cyfieithwyr am yr ymdrech a fuddsoddwyd, yn hytrach nag adlewyrchu'r ymdrech *wirioneddol* a fuddsoddwyd (cf. Koponen 2012; Carl et al. 2015; Gaspari et al. 2014; Teixeira 2014b; Moorkens et al. 2015). Er bod yr hyn y mae cyfieithwyr yn ei feddwl am yr ymdrech hon yn elfen bwysig o'r drafodaeth am y defnydd o dechnoleg cyfieithu wrth gyfieithu'n broffesiynol, nid yw'r barnau hyn (a rhagfarnau hefyd) yn berthnasol i'r cwestiwn ymchwil a osodwyd mewn perthynas ag ymdrech, sy'n ymwneud â'r gwahaniaethau mewn ymdrech wirioneddol y mae ei hangen wrth ryngweithio ag allbwn systemau MT a TM, yn hytrach na'r hyn y mae'r cyfranogwyr ymchwil yn ei gredu am hyn. Gan nad oes perthynas linellol felly rhwng yr ymdrech wirioneddol a fuddsoddir wrth ryngweithio ag allbwn MT a TM a chredoau a theimladau cyfieithwyr am y buddsoddiad gwybyddol ac ymarferol hwn, ni chredwyd bod fawr o ddiben mewn defnyddio holiadur. Nid yw hyn yn gyfysytyr serch hynny â bychanu ac anwybyddu teimladau a hunanganfyddiadau cyfieithwyr am yr ymdrech a fuddsoddir; fel y mae Guerberof (2013, t. 75) yn ein hatgoffa "[...] translators are often invisible in the localisation work-flow, and we feel this invisibility is increasing as process automation increases, and all aspects related to technology seem to acquire more relevance than the act of translating itself". Gwna Karamanis *et al.* (2011) a LeBlanc (2013) sylwadau tebyg hefyd yn eu hastudiaeth ethnograffig o farnau cyfieithwyr am sut y mae'r diwydiant cyfieithu wedi mynd yn gynyddol dechnegol. Mae'r agwedd hon ar ymdrech, er nad yw'n ganolog i'r cwestiwn ymchwil hwn, yn drywydd posibl ar gyfer ymchwil bellach.

5.24 CRYNODEB O'R NEWIDYNNAU DIBYNNOL A CHYFLWYNO'R CHWE RHAGDYBIAETH

Cyflwynna Tabl 5 isod y pedwar Newidyn Dibynnol ar gyfer pob math o ymdrech o dan eu penawdau perthnasol:

Tabl 5: Y Newidynnau Dibynnol

Math o Ymdrech	Newidyn Dibynnol
Ymdrech Wybyddol	Cyfanswm yr amser a dreulir yn seibio wedi taro'r bysell cyntaf ar ôl pwyso 'ESC' (yr oedd angen ei bwyso er mwyn gweld y segment nesaf) a chyn y trawiad bysell olaf
Ymdrech Dechnegol	Nifer y nodau alffaniwmerig a gynhyrchir Nifer y bysellau eraill a drewir wrth gyrchu ac addasu testun (BACKSPACE, DELETE, y saethau, ENTER, cyfuniadau Ctrl, y gwahanydd) Cyfanswm yr <i>holl</i> drawiadau bysell a drewir fesul grŵp

Cyflwynir y deg rhagdybiaeth yn seiliedig ar y Newidynnau Dibynnol ar ffurf tabl isod. Mae pob un o'r rhagdybiaethau yn *rhagfynegol*. Yn ôl Williams a Chesterman (2002, t. 77), ystyr rhagdybiaeth ragfynegol yw rhagdybiaeth sy'n rhagfynegi y bydd ansawdd newidyn dibynnol A yn newid o dan amgylchiadau B, lle cyfetyb y newid i'r amgylchiadau i'r newidyn annibynnol. Y newidyn annibynnol yw'r un y caiff ei addasu mewn ymchwil arbrofol er mwyn darganfod yr effeithiau ar y newidynnau dibynnol (Rasinger 2013, tt. 22-23; Gile 2016, t. 220). Yn dilyn y drafodaeth uchod, dewiswyd newidynnau a ddylai fod o ddiddordeb arbennig i gyfieithwyr proffesiynol a chomisiynwyr cyfieithiadau fel ei gilydd, ac fe'u seiliwyd hefyd ar waith ymchwil debyg a chanlyniadau o astudiaethau eraill a drafodir isod. Eithriwyd trafodaeth o erthygl Koglin (2015) a ddadansoddodd ymdrech wrth gyfieithu ac ôl-olygu trosiadau am iddi ddefnyddio myfyrwyr israddedig, nid cyfieithwyr. Roedd y disgrifiad a geir ym Mhennod 4 o'r broses cyfieithu broffesiynol hefyd yn sylfaen ddefnyddiol i'r gwaith o ddethol newidynnau dibynnol priodol.

Mewn astudiaeth gan Carl *et al.* (2011), dangoswyd bod prosesau cynhyrchu testun wrth gyfieithu yn wahanol i brosesau cynhyrchu testun wrth ôl-olygu. Mewn dyluniad arbrawf rhyng-grŵpiau, cymharwyd prosesau cyfieithu ac ymddygiad syllu wrth cyfieithydd a gyfieithodd a saith cyfieithydd a ôl-olygodd. Cyfieithwyd tri thestun gwahanol, sef erthyglau o bapurau newyddion, o'r Saesneg i'r Ddaneg. Ar draws y tri thestun, casgliad yr awduron yw bod y rhai a ôl-olygodd wedi dileu testun, clicio'r llygodyn a defnyddio trawiadau cyrchu (ENTER, bar gofod a'r saethau) yn amlach, ond eu bod wedi taro llai o nodau alffaniwmerig. Mae astudiaeth hwyrach gan Carl *et al.* (2015) wedi dadansoddi ymddygiad syllu wrth fesur yr Ymdrech Wybyddol ac wedi defnyddio *Translog* i fesur yr Ymdrech Dechnegol. Mae Carl *et al.* (2015) yn ymchwilio i gyfieithu o'r Saesneg i'r Almaeneg. Cymerodd deuddeg cyfieithydd ran yr arbrawf hwn a phrosesasant dri thestun yr un (cyfieithasant ddau destun, cyn ôl-olygu dau arall ac wedyn ôl-olygu dau arall heb fedru gweld yr IFf (sef ôl-olygu unieithog). Dengys yr awduron fod ôl-olygu wedi gofyn am lai o waith ymarferol ar y bysellfwrdd. Dangosant hefyd fod y broses ôl-olygu, yn ôl faint o amser a dreuliwyd yn syllu a nifer y sylliadau unigol, yn wybyddol haws na chyfieithu. Yn ôl y mynegeion darllenadwyedd a ddefnyddiwyd hefyd, roedd Testun 1, 2 a 3 yn amrywio mewn cymhlethdod i'w cyfieithu. Er i'r data syllu newid yn dibynnu ar gymhlethdod y testun, nid effeithiodd y newid hwn mewn cymhlethdod ar y broses ôl-olygu, sy'n golygu y gall defnyddio MT wrth gyfieithu niwtraleiddio cymhlethdod testunau gwahanol.

Darganfu O'Brien (2008) fod modd i'r defnydd o MT a chyfatebiaethau rhannol o systemau TM leihau'r Ymdrech Wybyddol yn y broses cyfieithu proffesiynol hefyd, gan ddefnyddio geiriau fesul munud yn fetrig. Ymchwiliodd hefyd i ddata o gannwyll y llygaid (Saes. pupillometrics) a sut y gallant fod o fudd i'r sawl sydd am fesur yr Ymdrech Wybyddol wrth gyfieithu. Cyfieithodd 5 cyfieithydd proffesiynol nifer o segmentau

gwahanol y tu fewn fersiwn o SDL Trados, gan gyfieithu o'r Saesneg i'r Almaeneg. Dengys ei chanlyniadau fod cyfatebiaeth o ganran isel yn gofyn am fwy o Ymdrech Wybyddol yn y broses cyfieithu yn ôl yr amser a fuddsoddir yn y broses, ond bod yr ymdrech hon yn lleihau wrth i ganran y gyfatebiaeth gynyddu. Nid oedd y data o gannwyll y llygaid mor llinellol â'r data amseryddol serch hynny, gan i gannwyll y llygaid leihau wrth ymdrin â chyfatebiaethau o ganran rhwng 90-99% i'r lefel yr oedd ar gyfer cyfatebiaethau o ganran rhwng 69-79%.

Mewn astudiaeth ddoethurol gan Mellinger (2014), a ymchwiliodd i'r ymdrech wybyddol gymharol wrth ymdrin â chyfatebiaethau o wahanol lefelau o gyfatebiaeth, dangosodd fod modd lleihau'r Ymdrech Wybyddol wrth ddefnyddio cyfatebiaethau rhannol a llawn ac mai cyfieithu heb unrhyw gymorth sy'n gofyn am yr Ymdrech Wybyddol uchaf. Gan fanteisio ar feddalwedd *TransCenter*, mesurodd yr Ymdrech Wybyddol gan ddefnyddio data seibiannol. Dadansoddodd gyfieithu proffesiynol o'r Saesneg i'r Sbaeneg a chymerodd naw cyfieithydd ran yn ei astudiaeth.

Synhwyrol gofyn, felly a yw'r canlyniadau ar gyfer parau eraill o ieithoedd hefyd yn bosibl yng nghyd-destun y Gymraeg? Gall canlyniadau'r astudiaeth gyfredol hefyd gyfrannu at gefnogi safbwynt Prys (2014) bod y "Cyfieithydd felly yn datblygu yn ôl-olygydd, *gan arbed amser ac ymdrech* [pwyslais gan awdur y traethawd], yn dibynnu ar ansawdd y cyfieithu awtomatig a'r parth pwnc penodol".

Tabl 6: Rhagdybiaethau Ymdrech

Rhif	Ymdrech	Rhagdybiaeth	Disgrifiad
R1a	GWYBYDDOL	Bydd tueddiad canolog cyfanswm yr amser a dreulir wrth seibio ar ôl darllen am ystyr a chyn adolygu <i>yn llai</i> wrth ôl-olygu (Grŵp MT) o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).	Yn seiliedig ar waith Butterworth (1982) a Schilperoord (1996), a'r astudiaethau y cyfeirir atynt uchod sydd hefyd wedi dibynnu ar ddadansoddiadau seibiannol, disgwylir y bydd yr Ymdrech Wybyddol a fuddsoddir wrth ôl-olygu segmentau yn llai na'r Ymdrech Wybyddol a fuddsoddir wrth gyfieithu'r un segmentau.
R1b		Bydd tueddiad canolog cyfanswm yr amser a dreulir wrth seibio ar ôl darllen am ystyr a chyn adolygu <i>yn llai</i> wrth addasu allbwn y TM (Grŵp TM) o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).	Yn seiliedig ar waith Schilperoord (1996), a'r astudiaethau ym maes cyfieithu y cyfeirir atynt uchod sydd hefyd wedi dibynnu ar ddadansoddiadau seibiannol, disgwylir y bydd yr Ymdrech Wybyddol a fuddsoddir wrth addasu'r TM yn llai na'r Ymdrech Wybyddol a fuddsoddir wrth gyfieithu'r un segmentau.
R2a	TECHNEGOL	Bydd tueddiad canolog cyfanswm y bysellau cyrchu ac addasu testun ar y cyd â chliciadau llygoden wrth ôl-olygu (Grŵp MT) yn <i>fwy</i> o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).	Oherwydd y prosesau cyfansoddi testun anllinellol a ddisgrifir uchod, a'r gofyniad bod angen ailgylchu cymaint o'r allbwn MT â phosibl, bydd mwy o ddefnydd ar y bysellau rheoli i addasu testun a symud trwyddo.
R2b		Bydd tueddiad canolog cyfanswm y bysellau cyrchu ac addasu testun ar y cyd â chliciadau llygoden wrth addasu allbwn TM (Grŵp TM) yn <i>fwy</i> o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).	Oherwydd y prosesau cyfansoddi testun anllinellol a ddisgrifir uchod, a'r gofyniad bod angen ailgylchu cymaint o'r allbwn TM â phosibl, bydd llai o ddefnydd ar y bysellau rheoli i addasu testun a symud trwyddo.
R2c		Bydd tueddiad canolog cyfanswm y trawiadau bysell alffaniwmerig a gynhyrchir wrth ôl-olygu (Grŵp MT) <i>yn llai</i> o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).	O ganlyniad i'r gofyniad bod angen ailgylchu cymaint o allbwn y system MT â phosibl, bydd hynny'n arwain at lai o destun yn cael ei gynhyrchu, a chaiff hynny ei adlewyrchu gan leihad yn nifer y bysellau alffaniwmerig a drewir. Disgwylir i rywfaint o destun gael ei deipio wrth ôl-olygu, oherwydd yr angen i gywiro gwallau, ond wrth ôl-olygu bydd llawer llai o destun yn cael ei gynhyrchu o gymharu â chyfieithu.
R2d		Bydd tueddiad canolog cyfanswm y trawiadau bysell alffaniwmerig a gynhyrchir wrth addasu allbwn y TM (Grŵp TM) <i>yn llai</i> o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).	O ganlyniad i'r gofyniad bod angen ailgylchu cymaint o allbwn y system TM â phosibl, bydd hynny'n arwain at lai o destun yn cael ei gynhyrchu, a chaiff hynny ei adlewyrchu gan leihad yn nifer y bysellau alffaniwmerig a drewir.

Eir ymlaen yn awr i ddisgrifio'n fanwl ddyluniad yr arbrawf a gynhaliwyd ar ymdrech, gan dalu sylw hefyd i'r gwiriadau a roddwyd yn eu lle er mwyn sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y canlyniadau. Eir ymlaen wedyn i drafod y canlyniadau.

5.25 Y PEILOT

Cynhaliwyd arbrawf peilot yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd gan ddefnyddio *Translog II*. Crëwyd y testun prawf gan yr awdur. Cyfansoddwyd brawddegau gweddol fyr nad oeddent yn cynnwys terminoleg neu eirfa neilltuol o gymhleth. Defnyddiwyd meddalwedd SMT *Microsoft Bing Translator* i greu'r testun i'w ôl-olygu. Roedd y myfyrwyr yn astudio naill ai ar gyfer BA yn y Gymraeg neu radd gydanrhydedd gyda BA yn y Gymraeg, a chynhaliwyd y peilot yn rhan o fodiwl 'Technoleg Iaith mewn Cymdeithas Ddigidol' yr Ysgol. Roedd y myfyrwyr yn ymwybodol o fodolaeth technoleg cyfieithu ar gyfer y Gymraeg, er nad oeddent wedi defnyddio *Translog* o'r blaen. Nod y peilot oedd gwirio bod *Translog* yn ddibynadwy, creu set o ddata ymarfer i'r awdur fel bod modd iddo ennill profiad o drin data o feddalwedd cofnodi trawiadau bysell, ac rhoi *Translog* ar brawf mewn amgylchedd arbrolfol. Ni chododd unrhyw broblemau ymarferol gyda'r feddalwedd, a threuliodd yr awdur gyfnod o amser yn dadansoddi'r data a grëwyd gan y myfyrwyr er mwyn ymgyfarwyddo â data amrywiol *Translog*. Oherwydd llwyddiant y peilot, penderfynwyd defnyddio *Translog* yn yr arbrawf a gynhaliwyd gyda'r cyfieithwyr proffesiynol.

5.26 TROSOLWG

Casglwyd y data ar gyfer y rhan hon o'r astudiaeth rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2015. Cafodd 11 cyfieithydd proffesiynol sy'n aelodau profiadol o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru eu recriwtio ar gyfer yr arbrawf. Manylir ar ddulliau samplo a

materion ynghylch recriwtio ac addasrwydd cyfranogwyr mewn perthynas â Dilysrwydd Ymchwil isod. Yn rhan gyntaf yr arbrawf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y Grŵp Rheoli (sef y grŵp a gyfieithydd heb ddechnoleg cyfieithu, y Grŵp Cyfieithu o hyn ymlaen) gyfieithu darn am fabwysiadu a maethu plant a oedd yn cynnwys 322 o eiriau, ac ôl-olygodd yr Grŵp Arbrofol (sef y Grŵp MT o hyn ymlaen) yr un darn a broseswyd ymlaen llaw gan ei roi trwy *Google Translate (GTrans)*. Yn yr ail ran, gofynnwyd i'r Grŵp Arbrofol (sef y grŵp TM) addasu set o gyfatebiaethau rhannol o system TM a chyfieithodd y Grŵp Rheoli (na ddefnyddiwyd yr un TM, y Grŵp Cyfieithu o hyn ymlaen) yr un testun ond heb gymorth allbwn TM (gweler Atodiadau 2 a 3). Pwnc y testun hwn oedd polisi Gwe2.0 sefydliadau. Wrth iddynt gwblhau'r tasgau, cafodd eu trawiadau bysell a'r amser y digwyddodd y trawiadau hyn eu cofnodi, gan gynnwys y cyfnodau o seibio fesul 1.5 eiliad ar y cyd â chyfanswm yr amser a dreuliwyd yn cynhyrchu testun. Crëwyd recordiad sgrin amser real hefyd o sesiynau'r cyfranogwyr. Ni osodwyd terfyn amser ar gyfer cwblhau'r tasgau.

5.27 DILYSRWYDD

Mae sicrhau bod ymchwil arbrofol yn cydymffurfio ag egwyddorion cydnabyddedig o'r pwys mwyaf os yw'r ymchwilydd am gyffredinoli ynghylch rhyw nodwedd ar gymdeithas neu ran ohoni. Mae gosod yn eu lle nifer o wiriadau felly yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn ddibynadwy, a bod modd cyffredinoli yn eu sgil (Gile 2016, t. 222). Dull arall o feddwl am sicrhau dilysrwydd yw ystyried y broses yn ymgais i *ddileu bygythiadau* i'r arbrawf (gweler Tabl 7 isod). Mae fframwaith defnyddiol ar gael i alluogi ymchwilwyr arbrofol i sicrhau bod eu harbrofion yn rhai dilys a dibynadwy, sef Dilysrwydd Ymchwil. Ceir tair rhan y tu fewn i Ddilysrwydd Ymchwil, sef Dilysrwydd Mewnol, Dilysrwydd Allanol a Dilysrwydd Mesurol (O'Brien a Saldanha

2013, tt. 29-35). Disgrifir y rhannau hyn isod a sut yr aed ati i leihau'r risgiau sydd ynghlwm wrthynt. Nid oedd pob un o'r ystyriaethau a nodir gan O'Brien a Saldanha yn berthnasol i'r astudiaeth gyfredol, felly nid yw'r tabl isod yn rhestr gynhwysfawr o bob bygythiad a all godi ymhob arbrawf. Mae'r tabl isod ond yn crynhoi'r gwahanol ystyriaethau arbrofol a oedd yn berthnasol yng nghyd-destun yr arbrawf hwn.

Tabl 7: Dilysrwydd, yn seiliedig ar O'Brien a Saldanha (2013)

Math	Enw ar y Grŵp o Fygythiadau	Y Bygythiadau
Dilysrwydd Mewnol	Bygythiadau a gyflwynir gan yr ymchwilydd Bygythiadau a gyflwynir gan sut y mae'r ymchwil wedi'i chynnal Bygythiadau a gyflwynir gan gyfranogwyr ymchwil	Effaith Nodweddion Personol yr Ymchwilydd Effaith Datgelu'r Canlyniadau a Ddisgwyllir Effaith y Gôt Wen Aeddfediad Effaith Hawthorne Gogwydd y gellid ei rannu rhwng cyfranogwyr
Dilysrwydd Allanol	Ystyriaethau Ecolegol ⁶⁴	Tebygrwydd yr amgylchiadau arbrofol i waith beunyddiol y cyfieithydd (cf. camau 1,2,3,4,5,6,7 ac 8 isod) Dulliau Samplo Dulliau Dewis Testun Dyblygu
Dilysrwydd Mesurol	Dadansoddi Data	Sut y mae'r data yn cael eu casglu a'u dadansoddi a chywirdeb y dadansoddiad hwnnw

5.28 DILYSRWYDD MEWNOL

Yn ôl Watt a Van den Berg (2002, t. 44), ffon fesur Dilysrwydd Mewnol yw'r "Confidence that we can place in the assertion that the variables we have called causes or independent variables actually produce the effects that we observe". Er mwyn sicrhau y

⁶⁴ Yn yr astudiaeth gyfredol, cysylltir Dilysrwydd Allanol yn uniongyrchol â Dilysrwydd Ecolegol; fel y dywed Saldanha ac O'Brien (2013, t. 33), "External threats can be related to ecological validity or replication". Ni fyddai modd cyffredinol pe na bai'r arbrawf yn ecolegol ddilys yn y lle cyntaf. Nid yw pob cyhoeddiad yn y maes yn synied am y ddau gysyniad fel hanfodion tebyg serch hynny; ar gyfer triniaeth o'r ddwy ystyriaeth hyn fel gofynion gwahanol y mae angen mynd i'r afael â hwy ar wahân, cf. Bryman (2001, tt. 30-31).

mesurir y ffenomen gywir a bod Newidyn Annibynnol A yn achosi'r newid a welir yn Newidyn Dibynnol B, h.y. bod *achosiaeth*, mae angen sicrhau bod bygythiadau i Ddilysrwydd Mewnol yn cael eu dileu.

5.29 BYGYTHIADAU A GYFLWYNIR GAN YR YMCHWILYDD

1. *Effaith Nodweddion Personol yr Ymchwilydd*

Yn ôl O'Brien a Saldanha (2013, t. 31), gall achosion godi lle bydd nodweddion personol yr ymchwilydd megis ideoleg a thuedd bersonol yn dylanwadu ar berfformiad neu ymatebiadau cyfranogwyr. Gall hyn ddigwydd mewn dau gyd-destun; os nad yw'r cyfranogwyr yn deall yr hyn y mae disgwyl iddynt ei wneud oherwydd bod y cyfarwyddiadau neu'r arweiniad yn amwys, byddant yn debygol o orfod dibynnu ar yr ymchwilydd am gyfarwyddyd pellach a gall hynny arwain at ideoleg neu farn yr ymchwilydd yn achosi tuedd ymhlith y boblogaeth sampl. Yr ail gyd-destun yw ymchwil sy'n ymwneud â nodwedd y mae'r ymchwilydd yn ei chynrychioli; byddai'r broblem hon yn arbennig o berthnasol mewn ymchwil ym maes hiliaeth er enghraifft. Un dull o ddileu'r bygythiadau hyn yw cyflogi cynorthwyyr ymchwil sy'n ddall i amcanion yr arbrawf i'w gynnal *ar ran* yr ymchwilydd wedi i'r arbrawf gael ei ddylunio. Byddai hynny'n sicrhau na fyddai modd i'r ymchwilydd ymwneud â'r cyfranogwyr. Nid oedd hynny'n bosibl yn y cyd-destun hwn oherwydd diffyg adnoddau ariannol ac oherwydd nid oedd neb ar gael a allai fod wedi cynnal arbrawf gyda'r feddalwedd cofnodi trawiadau bysell. Penderfynwyd defnyddio strategaeth arall i ddileu'r bygythiad hwn, sef defnyddio set safonol o gyfarwyddiadau yn nodi'n union yr hyn y disgwyliwyd i gyfranogwyr ei wneud, ac y cafodd ei darllen ar goedd a'i hesbonio i unigolion nad oeddent yn deall. Ni chyfathrebwyd i'r cyfranogwyr unrhyw un o'r rhagdybiaethau rhagfynegol ychwaith.

2. *Effaith Datgelu'r Canlyniadau a Ddisgwyllir*

Mae'n bosibl y gall yr ymchwilydd gyfathrebu i'r cyfranogwyr y canlyniadau y mae'n disgwyl eu gweld neu'r canlyniadau y byddai'n hoffi eu gweld a hynny ar ddamwain neu hyd yn oed yn gwbl fwriadol, gan beri i'r cyfranogwyr fabwysiadu'r un safbwynt a chynhyrchu'r canlyniadau cyfatebol. Y datrysiad amlwg i'r perygl hwn yw peidio â thrafod unrhyw farnau neu gredoau personol ynghylch yr ymchwil neu faes gyda chyfranogwyr, a sicrhau na chyfathrebir iddynt unrhyw ragdybiaeth. Dyma'n union yr hyn a wnaed.

5.30 BYGYTHIADAU A GYFLWYNIR GAN SUT Y MAE'R YMCHWIL WEDI'I CHYNNAL

1. *Aeddfediad*

Wrth gwblhau tasgau o dan amgylchiadau arbrefol, mae'n bosibl:

- a. y bydd cyfranogwyr yn newid eu hymddygiad yn raddol wrth wneud y dasg a/neu
- b. y byddant yn newid eu hymddygiad yn dilyn gwneud tasg debyg, h.y. cânt eu *sensiteiddio* i nodweddion ac amcanion yr arbrawf, neu maent yn *aeddfedu* yn y broses o'i wneud.

Mae'r ddwy wedd ar y bygythiad hwn yn berthnasol i'r arbrawf hwn. O ran y bygythiad cyntaf, mae'n bosibl y gallai'r cyfranogwyr fod wedi datblygu agwedd fwy goddefol tuag at yr allbwn i'w olygu wrth wneud yr arbrawf, gan olygu'n *llai a llai llym* wrth fynd ymlaen, gan greu cyfieithiad o safon annerbyniol. Sylwodd Krings (2001, t. 263) fod cyfranogwyr yn tueddu i fabwysiadu agwedd fwy goddefol tuag at allbwn MT heb ei drin yn y broses o'i werthuso er enghraifft, a bu raid i O'Brien (2006) ddiystyru data un cyfranogwr oherwydd i'w ymddygiad ôl-olygu newid yn sylweddol yn ystod hynt yr arbrawf. Penderfynwyd bod gosod set o gyfarwyddiadau pendant a diamwys i

gyfranogwyr ynghylch sut yn union y dylent ôl-olygu yn ddull defnyddiol o atal hynny rhag digwydd. Gellir gweld copi o'r canllawiau ôl-olygu addasedig hyn yn Atodiad 1; cawsant eu cyfansoddi gan sefydliad TAUS (2016).

Yr ail wedd ar y bygythiad hwn yw cyfranogwyr yn newid sut y byddent *wedi* cyfieithu mewn Dyluniad Arbrawf Mewn-Gyfranwyr oherwydd eu bod wedi ôl-olygu'r un testun eisoes, neu *vice versa*. H.y., bydd gwybodaeth a phrofiad o dasg a wnaed eisoes yn cyflwyno Newidyn Dryslyd o'r enw Effeithiau Ymarfer i'r astudiaeth a allai fod wedi effeithio'n sylweddol ar y canlyniadau. Un dull o fynd i'r afael â'r broblem hon fyddai randomeiddio'r drefn y gwnaed y tasgau ynddi, gan gyflwyno cyfres o egwyliau cyn pob tasg fel bod modd i wybodaeth o strategaethau cyfieithu a datrysiadau i wallau ddiflannu'n raddol. Byddai gofyn i bob cyfranogwr gyfieithu *a* golygu allbwn MT a TM yn galluogi'r ymchwilydd i ddadansoddi gwahaniaethau unigol yn y data hefyd, a dyna pam mae'r dyluniad hwn mor ddeniadol. Serch hynny, mae'n debygol y bydd cof dynol cyfieithwyr proffesiynol yn rhy finio i'r strategaeth hon lwyddo; dadleuwyd yn Mhennod 4 fod cyfieithu yn dasg wybyddol, a bydd gallu gwybyddol cyfieithwyr profiadol yn golygu nad ydynt yn debygol o anghofio testun y gwnaethant ei gyfieithu ddeg munud ynghynt. Mae'n bosibl y gallai'r wybodaeth o dasgau eraill fod wedi ei throsglwyddo i'r Cof Tymor Hir a gallai'r cyfieithwyr fod wedi adalw'r wybodaeth hon wrth wneud y tasgau eraill. Byddai Blinder Cyfranogwyr hefyd yn broblem; wrth wneud pob tasg cyfieithu, ôl-olygu ac addasu cyfatebiaethau rhannol, mae'n ddigon posibl y byddai'r cyfranogwyr wedi blino ar y tasgau gan fod cynifer o dasgau ieithyddol sy'n ddwys yn wybyddol. Dyna pam y penderfynwyd defnyddio llai o segmentau yn ail ran yr arbrawf hefyd (sef 11 yn lle 15). O ganlyniad, penderfynwyd defnyddio Grŵpiau Rheoli (na ddefnyddiwyd allbwn technoleg cyfieithu, y Grŵp Cyfieithu o hyn ymlaen) a Grŵpiau Arbrofol (a ddefnyddiodd dechnoleg cyfieithu, Grŵp MT/TM o hyn ymlaen), y tu fewn i Ddyluniad Rhyng-

Gyfranwyr er mwyn dileu'r bygythiad hwn. Yn rhan gyntaf yr arbrawf, hanerwyd y cyfranogwyr yn ddau grŵp ar hap, a gweithredodd un hanner fel Grŵp Cyfieithu (n=4) a'r llall fel Grŵp MT (n=4). Wrth ddadansoddi data'r Grŵp Cyfieithu yn y rhan gyntaf, sylweddolwyd na fu modd defnyddio data Cyfranogwr 2 a 3 o'r Grŵp Cyfieithu a Chyfranogwr 8 o'r Grŵp MT. O ganlyniad bu raid recriwtio dau gyfieithydd arall i wneud y tasgau cyfieithu yn *Translog* eto o dan yr un amodau dair wythnos yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod y Grŵp Cyfieithu yn ddigon mawr. Cyfieithodd y Grŵp Cyfieithu destun o wefan Cyngor Merthyr Tydfil, ac ôl-olygodd y Grŵp MT yr un testun a broseswyd ymlaen llaw gan ddefnyddio GTrans. Yn ail ran yr arbrawf, gweithredodd Grŵp Cyfieithu Rhan I fel y Grŵp TM yn Rhan II (n=4) a defnyddiwyd Grŵp MT Rhan I fel y Grŵp Cyfieithu yn Rhan II (n=4). Yn yr ail ran honno, cyfieithodd y Grŵp Cyfieithu destun am bolisi Gwe2.0 sefydliadau cyhoeddus, ac addasodd y Grŵp TM gyfatebiaethau rhannol o system TM o'r un testun.

5.31 BYGYTHIADAU A GYFLWYNIR GAN GYFRANOGWYR YMCHWIL

Mae cyfranogwyr ymchwil yn cyflwyno lliaws o fygythiadau posibl i ddilysrwydd arbrawf. Nodir isod sut y mae'r bygythiadau hyn wedi eu dileu.

1. *Effaith Hawthorne*

Mae'r bygythiad hwn yn ymwneud â newid mewn ymddygiad; mae'n bosibl y bydd cyfranogwyr yn newid sut y byddant yn perfformio o ganlyniad i amgylchiadau arbrolfol y dasg. Er enghraifft, roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol nad oedd yr awdur yn bwriadu cyhoeddi'r testunau y proseswyd ganddynt, a hefyd fod y testunau yn rhai 'ffug' ac nad oeddent wedi cael eu hanfon gan gleient. Gallai hynny fod wedi peri i'r cyfranogwyr benderfynu nad oeddent am greu testun o'r un safon â'u gwaith arferol, neu ymboeni'n ormodol am safon y gwaith. Mae elfen o ymddiriedaeth yn hanfodol yn hynny o beth; wrth

dderbyn y cyfranogwyr 'iawn' yn rhan o arbrawf, mae'n annhebygol y bydd yr ymchwilydd yn gorfod wynebu difrod bwriadol neu ddata (h.y. cyfieithiadau yn yr achos hwn) nad ydynt yn gynrychioliadol o ddata 'go iawn'. Dull cyffredin o leihau'r risg hon yw gosod tasg 'ffug' neu 'friff cyfieithu' i gyfranogwyr mewn ymgais i ychwanegu elfen o realaeth i'r arbrawf. Ni wnaed hynny yn yr astudiaeth gyfredol, ond o ystyried yr amser a gymerwyd i adolygu'r holl gyfieithiadau wedi i ddrafftiau cyntaf gael eu cwblhau ar y cyd ag ansawdd cyffredinol y testunau targed, nid oes rheswm dros gredu bod y cyfranogwyr wedi penderfynu peidio â chyfieithu i safon uchel a phroffesiynol er gwaethaf yr amgylchiadau arbrofol. Roeddent hefyd yn ymwybodol serch hynny fod posibilid y byddai gwiriad ansawdd yn cael ei wneud ar y testunau targed y cynhyrchwyd ganddynt, fel yr eglurwyd ar y Ffurflen Gydsynio i Ymchwil, felly mae'n debygol bod hyn wedi gwneud i gyfranogwr deimlo bod angen sicrhau ansawdd eu testun targed.

2. *Gogwydd y gellid ei rannu rhwng cyfranogwyr*

Mae'r bygythiad hwn yn ymwneud â chyfranogwyr yn dylanwadu ar gyfranogwyr eraill yn ystod yr arbrawf, pan na fydd rhyngweithio rhwng cyfranogwyr yn rhan annatod o'r broses gasglu data (e.e. fel sy'n arferol mewn grŵpiau ffocws). Mae'r bygythiad ar ei amlycaf wrth i bob cyfranogwr ddod i leoliad lle bydd yr arbrawf yn cael ei gynnal, a lle bydd yr arbrawf yn cael ei gynnal ar yr un pryd gyda phob cyfranogwr. Un dull o ddileu'r bygythiad hwn yw cynnal arbrofion yn unigol gydag un cyfranogwr ar y tro; serch hynny nid oedd hynny'n bosibl o dan yr amgylchiadau oherwydd cyfyngiadau amseryddol. Yr unig strategaeth bosibl oedd gofyn i gyfranogwyr beidio â thrafod yr arbrawf *o gwbl* tan iddynt adael yr adeilad ar ôl yr arbrawf. Ni welwyd unrhyw enghreifftiau o gyd-drafod serch hynny.

5.32 DILYSRWYDD ALLANOL

Ymwneud â'r gallu i ddefnyddio canlyniadau ymchwil i gyffredinoli am y byd neu ryw nodweddd ohono y mae Dilysrwydd Allanol. Trwy sicrhau bod y bygythiadau yn y cyswllt hwn yn cael eu dileu, gall yr ymchwilydd honni ei fod wedi dysgu rhywbeth am bwnc yr arbrawf a bod modd iddo ddatgan yn hyderus fod y canlyniadau a ddeilliodd o'r arbrawf yn debygol o gael eu gweld yn y byd go iawn hefyd, hyd yn oed heb y set o reolaethau a roddwyd yn eu lle yn y cyd-destun arbrolfol (Watt a Van den Berg 2002, t. 44). Mae perthynas uniongyrchol felly rhwng Dilysrwydd Allanol a'r gallu i gyffredinoli, ac mae'r gallu hwn i gyffredinoli yn ychwanegu elfen bwysig o hygredd ac ansawdd i unrhyw brosiect ymchwil (O'Brien a Saldanha 2013, t. 33). Mae sicrhau Dilysrwydd Allanol felly yn gwbl hanfodol i'r astudiaeth gyfredol; gan obeithio y bydd y canlyniadau yn dweud rhywbeth pendant a defnyddiol am le technoleg cyfieithu ym maes cyfieithu proffesiynol Cymraeg, mae sicrhau bod yr arbrawf mor debyg â phosibl i amgylchiadau proffesiynol cyfieithu yng Nghymru yn allweddol. Fel y mae Bryman (2001, tt. 75-76) yn dweud, mae'r gallu hwn i gyffredinoli hefyd yn un o brif amcanion ymchwilwyr meintiol. Mae pob bygythiad y mae angen ei ddileu yn ymwneud â *thebygrwydd* yr arbrawf i ymarferion gweithio dyddiol y cyfieithydd proffesiynol felly. Term arall a ddefnyddir ar gyfer y tebygrwydd hwn yn y llenyddiaeth yw Dilysrwydd Ecolegol (O'Brien a Saldanha 2013, t. 33). Nodir isod sut yr ymdrechwyd i sicrhau bod gan yr arbrawf statws 'ecolegol'.

1. *Yr ystafell*

Cynhaliwyd yr arbrawf yn ystafell ôl-raddedig Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ac mewn ystafell gyfrifiaduron yn yr un sefydliad yn Adeiliad Julian Hodge. Roedd yr ystafelloedd hyn yn dawel ac yn wag at ddefnydd yr awdur. O ran y nodwedddion hyn; h.y. ystafell dawel sy'n cynnwys gweithfannau gyda chyfrifiaduron ar ddesgiau, nid yw'r

ystafell yn wahanol i'r fath o ystafell y byddai cyfieithwyr yn eu defnyddio yn eu gwaith bob dydd. Maentumir at ddibenion yr astudiaeth hon fod prif nodweddion yr ystafell a ddefnyddiwyd o ran sŵn, cynllun yr ystafell a'i phwrpas yn ddigon tebyg i nodweddion swyddfeydd y cyfranogwyr fel bod modd honni Dilysrwydd Ecolegol yn y cyswllt hwn.

2. Y Cyfrifiaduron, caledwedd a meddalwedd

2.1 Y Cyfrifiadur

Defnyddiwyd cyfrifiaduron pen desg, gyda bysellfwrdd a llygoden ar gyfer yr arbrawf. Windows 7 oedd y system weithredu. Gosodwyd Bysellfwrdd Estynedig y DU ar y peirannau hefyd, er mwyn i'r cyfranogwyr allu cynhyrchu nodau diacritig. Er nad oedd y cyfranogwyr wedi defnyddio'r union un cyfrifiadur o'r blaen, nac ychwaith yr un bysellfwrdd ffisegol, roedd y cyfranogwyr yn ddigon cyfarwydd â chyfrifiaduron i fedru eu defnyddio heb unrhyw broblemau, ac roedd y system weithredu'n gyfarwydd i bob un ohonynt. Cyn gwneud yr arbrawf, cafodd y cyfranogwyr gyfle i ddefnyddio'r bysellfwrdd ac i ymgyfarwyddo ag ef hefyd. Gosodwyd tasg ysgrifennu seml i'w chwblhau yn *Translog* cyn dechrau ar yr arbrawf i'r perwyl hwn. Roedd hyn yn bwysig iawn; gan mai prosesau cynhyrchu testun y cyfranogwyr a oedd o dan y chwyddwydr, gellid bod wedi dadlau bod bysellfwrdd anghyfarwydd wedi effeithio ar y prosesau hyn. Serch hynny, mae'r cyfnod ymgyfarwyddo wedi cyfrannu'n sylweddol at leihau'r risg hon.

2.2 Y feddalwedd (Translog II)

Mae *Translog* yn ddarn arbenigol o feddalwedd ar gyfer ymchwilwyr ym maes Astudiaethau Cyfieithu; o ganlyniad, mae'n debygol o fod yn ddieithr iawn i'r rhan fwyaf o bobl y tu allan i'r maes (neu hyd yn oed yn y maes). Er na ellir cyffelybu'r feddalwedd i system TM o ran pwrpas, dyluniad y rhyngwyneb a'i swyddogaeth, mae modd addasu'r rhaglen fel bod nifer o nodweddion yn ddigon tebyg. Segmenteiddiwyd y testun fel bod

segmentau unigol ynddo yn ymddangos yn annibynnol ar ei gilydd, yn union fel y gwelir wrth ddefnyddio system TM gyfoes (gweler Ffigur 1 yn Adran 2.6.1). Mae llwybrau byr yn weithredol yn *Translog* (h.y. bydd CTRL + V ar gyfer gludo neu CTRL + Z i ddileu'r weithred ddiwethaf yn gweithio), ac mae gwerth y bysellau wrth deipio yn *Translog* yn gyfwerth â gwerth arferol y bysellau ar y bysellfwrdd; h.y. wrth deipio <h> wrth ddefnyddio'r feddalwedd, <h> a welir ar y sgrin. Hefyd, wrth gyfieithu a golygu yn *Translog*, dangosir y ddau destun ar sgrin gyfochrog yn debyg i ryngwyneb system TM, gyda'r IFF ar y chwith a'r ID ar y dde. Caniatawyd i'r cyfranogwyr ddefnyddio geiriaduron ac adnoddau terminolegol hefyd. Yn ogystal, ac fel y dywedwyd eisoes, darparwyd cyfle i'r cyfranogwyr ymgysgu â'r feddalwedd yn gyntaf. Nodwyd ym Mhennod 5 fod *Translog* yn ddelfrydol ar gyfer mesur y Newidynnau Dibynnol a ddewiswyd a bod defnyddio Cofnodwr Trawiadau Bysell yn allweddol; golyga hyn fod derbyn bod bygythiad i Ddilysrwydd Ecolegol yn anochel. Serch hynny, gobeithir bod y strategaethau a ddefnyddiwyd a nodweddion y rhaglen ei hun yn cynyddu'r Dilysrwydd Ecolegol hwnnw.

3. *Meini Prawf Recriwtio Cyfranogwyr*

Gan mai ymchwilio i wedd ar y berthynas rhwng technoleg cyfieithu a chyfieithu proffesiynol y mae'r astudiaeth gyfredol, bu dod o hyd i gyfieithwyr proffesiynol y Gymraeg yn hanfodol. Ystyr Cyfieithydd Proffesiynol y Gymraeg yn yr astudiaeth gyfredol yw cyfieithydd Saesneg-Cymraeg sy'n aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sy'n ennill ei fywoliaeth fel cyfieithydd ac fel cyfieithydd yn unig ac sydd ag o leiaf ddwy flynedd o brofiad. Penderfynwyd peidio â gwahaniaethu rhwng aelodau sylfaenol profiadol ac aelodau cyflawn o'r Gymdeithas, gan y byddai hyn wedi eithrio nifer sylweddol o ddarpar gyfranogwyr sydd ond ag aelodaeth sylfaenol (sef 105 o gyfieithwyr Saesneg – Cymraeg yn ôl gwefan y Gymdeithas (Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 2018)).

Dulliau Samplu – Dod o hyd i gyfieithwyr proffesiynol

Anfonwyd e-bost at bob aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arbrawf. Hefyd, cysylltodd yr awdur â dau sefydliad proffesiynol sy'n cynnal unedau cyfieithu canolog. Cytunodd rhai aelodau o staff o'r ddau sefydliad hyn i gymryd rhan. Wrth ddadansoddi'r data, sylweddolwyd nad oedd modd defnyddio data dau gyfranogwr o'r sefydliadau hyn, felly cafodd y tasgau cyfieithu eu gwneud eto gan gyfieithwyr o sefydliad cyffelyb arall dair wythnos yn ddiweddarach. Roedd un cyfieithydd heb orffen y dasg o osodwyd, a methodd y llall â chadw'r data yn gywir cyn gwneud y dasg eto yn hanner yr amser. O ran aelodau'r Gymdeithas, derbyniwyd un ymateb yn unig, a gofynnodd yr aelod hwnnw a fyddai modd newid y dyddiad neu fel arall ni fyddai modd gymryd rhan. Yn dilyn yr arfer mewn astudiaethau eraill ym maes cyfieithu, Samplu Hwylus oedd y dull samplu a ddefnyddiwyd felly. Er gwaethaf symrlwydd y dulliau samplu, cafodd pob aelod gyfle i gymryd rhan, felly yn unol ag astudiaethau eraill nid yw maint bychan y grŵp yn golygu nad oes modd cyffredinoli am gyfieithu proffesiynol. Yn ogystal, mae grŵpiau yn tueddu i fod yn fach mewn Astudiaethau Cyfieithu empeiraidd oherwydd argaeledd cyfieithwyr proffesiynol (Saldanha ac O'Brien, t. 35), ac mae'r broblem gyffredinol hon yn waeth yng nghyd-destun y Gymraeg oherwydd y nifer cymharol isel o gyfieithwyr proffesiynol sy'n gweithio rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

4. Dewis a phrosesu testunau

Mae defnyddio testun addas yn gwbl allweddol; ped arbrofid â thestun anaddas, lle cyfeiria 'testun anaddas' at fath o destun na chyfieithir i'r Gymraeg yn aml, ni fyddai modd cyffredinoli. Bu angen dod o hyd i destun y gellid ei ystyried yn *gynrychioliadol* o'r math o destunau y mae cyfieithwyr proffesiynol y Gymraeg yn eu cyfieithu yn eu gwaith beunyddiol. Penderfynwyd dewis testun o'r sector gyhoeddus, sef y rhan o'r economi sy'n

darparu gwasanaethau statudol ar ran y Llywodraeth, ac mae hefyd yn cynnwys y Llywodraeth ei hun. Mae dwyieithrwydd y sector honno'n dibynnu i raddau helaeth ar gyfieithwyr, felly mae dewis testun o'r sector hon yn addas gan y bydd y rhan fwyaf o gyfieithwyr y Gymraeg yn gwasanaethu'r sector honno yn fwy nag unrhyw sector arall. Gan fod y testunau o'r sector hon yn tueddu i fod yn rhai sy'n cyfleu gwybodaeth i bobl, yn hytrach na bod yn ddarnau o ryddiaith greadigol, daethpwyd i'r casgliad y byddai'r rhan fwyaf o destunau o unrhyw un o'r meysydd yn dderbyniol. Dewiswyd testun o wefan o un o gynghorau sir Cymru ar gyfer yr arbrawf (gellir ei weld yn Atodiad 4 a manylir arno isod). Dim ond crynodeb o Saesneg gwreiddiol y testun a oedd ar gael yn y Gymraeg; golyga hyn ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r cyfranogwyr wedi cyfieithu'r testun yn y gorffennol. Cafodd y testun ei brosesu wedyn gan ei gopïo a'i ludo i mewn i wefan GTrans er mwyn creu'r testun i'w ôl-olygu. Mae'r rhan hon o'r astudiaeth hefyd yn ystyried yr ymdrech gymharol rhwng cyfieithu ac addasu cyfatebiaethau rhannol. Er mwyn gwneud hynny, bu raid dod o hyd i set o gyfatebiaethau o system TM. Yn archif gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae tri TM ar gael i'r cyhoedd ac i'r diwydiant cyfieithu am ddim; un cyffredinol sy'n cynnwys hyd at 30 mil o gyfatebiaethau ac un llai o faes adnoddau dynol, ar y cyd â TM sy'n cynnwys cyfieithiadau o fwydlenni.⁶⁵ Er mwyn creu'r cyfatebiaethau ar gyfer yr arbrawf, cafodd fersiwn o Déjà Vu X3 Professional ei lwytho i lawr gyda thrwydded '*trial*'. Wedyn, mewngludwyd cof TM adnoddau dynol y Bwrdd ar ffurf TMX. Er mwyn creu'r cyfatebiaethau rhannol, cafodd testun o'r TM ei gopïo a'i ludo i ddogfen MS Word ac addaswyd y testun, gan ddileu ac ychwanegu elfennau o'r segmentau. Wedyn, crëwyd prosiect yn Déjà Vu X3 Professional gan ddefnyddio'r

⁶⁵ Maent i'w cael yn

<http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120306053839/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/newyddion/Pages/COFiwcheichcyfieithiadauCymraeg.aspx> [Cyrchwyd 16/06/2015]. Mae modd gweld cynnwys y cofion hyn heb feddalwedd TM trwy agor y TM ar wefan <http://www.wazzo.ca/> [Cyrchwyd 16/06/2015].

ddogfen hon. Roedd y system yn adnabod rhannau o'r brawddegau yn y ddogfen, a chynhyrchwyd 11 o gyfatebiaethau rhannol. Roedd canran y cyfatebiaethau hyn i gyd rhwng 70%-99%.

5. Disgrifiad o'r Testunau Arbrowol

Disgrifir isod nodweddion y testunau ffynhonnell a rhai o nodweddion y testun a broseswyd ar gyfer y dasg ôl-olygu a'r testun ar gyfer y dasg addasu cyfatebiaethau rhannol.

Yr Iaith Ffynhonnell

Cynhwysodd testun ffynhonnell rhan gyntaf yr arbrawf 322 o eiriau (yn cynnwys 1,636 o nodau heb fylchau) ar draws 15 segment. Nod y testun oedd darparu gwybodaeth ynghylch sut i faethu a mabwysiadu plant. Yn ail ran yr arbrawf a ddyluniwyd i ymchwilio i gyfieithu ac allbwn systemau TM, cynhwysodd y testun ffynhonnell 240 o eiriau (1,152 o nodau heb fylchau) ar draws 11 segment. Pwnc yr ail destun hwn oedd polisi Gwe2.0 sefydliadau.

Allbwn Systemau GTrans

Cynhwysodd cyfieithiad awtomatig GTrans 352 o eiriau (yn cynnwys 1,589 o nodau heb fylchau) ar draws 15 segment.

Cynnwys y TM

Cynhwysodd y ddogfen ar gyfer y dasg addasu cyfatebiaethau rhannol 272 o eiriau ar draws 11 o segmentau (yn cynnwys 1,322 o nodau heb flychau), a phwnc y testun oedd polisi Gwe2.0 sefydliadau cyhoeddus. Amrywiodd sgôr y cyfatebiaethau rhannol rhwng 70% hyd at 99%.

6. *Yr ieithoedd a gyfieithwyd*

Nid yw'r astudiaeth gyfredol ond yn dadansoddi cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. O'r herwydd, defnyddiwyd testun Saesneg yn IFf. O brofiad personol proffesiynol yr awdur, a thrafodaeth am y pwnc hwn â Phrif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yng Ngwanwyn 2015, ymddengys mai o'r Saesneg i'r Gymraeg y mae'r rhan fwyaf o gyfieithwyr yng Nghymru yn gweithio. Hynny yw, mae'r llifoedd cyfieithu yng Nghymru yn anghymesur, ac mae'r anghymesuredd hwn yn adlewyrchu statws cymharol y ddwy iaith. Byddai hynny hefyd yn ddealladwy o safbwynt maint y gymuned Gymraeg yng Nghymru o gymharu â maint yr un Saesneg, prif iaith y sector gyhoeddus yn y rhan fwyaf o Gymru (gan eithrio, o bosibl, Cynghorau Gwynedd a Sir Fôn, ysgolion cyfrwng Gymraeg a natur ddwyieithog ambell sefydliad arall) ac, yn ôl y Prif Weithredwr, faint o bobl sy'n sefyll arholiadau aelodaeth y Gymdeithas ar gyfer cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg o gymharu â'r niferoedd sy'n sefyll yr arholiadau Cymraeg i'r Saesneg. Heb fanylu'n ormodol ar y pwnc hwn felly, cyfiawnheir canolbwyntio ar gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn yr astudiaeth hon oherwydd hegemoni ieithyddol y Saesneg ac effaith amlwg hynny ar gyfeiriadedd cyfieithu proffesiynol yn y Gymru gyfoes.

7. *Dilysrwydd Mesurol*

Cyfeiria Dilysrwydd Mesurol at briodoldeb y technegau a ddewiswyd i fesur y newidynnau dibynnol a ddewiswyd (Frey *et al.* 1999, t. 199); mae model Krings (2001) wedi'i ddisgrifio ac mae'r corff o ymchwil sydd wedi dibynnu ar ei waith wedi'i adolygu. Mae perthynas model Krings (2001) â'r broses cyfieithu a golygu wirioneddol hefyd wedi derbyn sylw ac mae *Translog II* wedi cael ei ddisgrifio. Gwelir felly fod y dulliau ymchwil a'r technegau yn rhai dilys a defnyddiol ar gyfer mesur y newidynnau perthnasol. Gwedd arall ar Ddilysrwydd Mesurol yw Dibynadwyedd Mesurol, sef sut y mae'r ymchwilydd

wedi mynd ati i sicrhau bod unrhyw risg o wallau yn y broses casglu data, ac unrhyw wallau yn y broses o ddadansoddi'r data, yn cael eu lleihau. Mae dwy strategaeth wedi eu defnyddio i leihau'r risg hon. Yn gyntaf, cynhaliwyd arbrawf peilot i sicrhau bod *Translog II* yn ddibynadwy, a hefyd yn ddefnyddiol mewn amgylchedd arbrol. Yn ail, defnyddiwyd meddalwedd ar gyfer dadansoddiadau ystadegol (Microsoft Excel 2014 ac IBM SPSS (fersiwn 20)).

8. Dyblygadwyedd

Mae dyblygadwyedd yn gysyniad allweddol i ansawdd ymchwil a dibynadwyedd ei chanlyniadau. Mae'n ymwneud â gallu ymchwilyr eraill i gynhyrchu'r un casgliadau (neu gasgliadau tebyg) wrth ymchwilio i'r un cwestiwn gan ddefnyddio'r un dull(iau) ymchwil a methodoleg ag a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth flaenorol. Fel y dywed Bryman (2001, t. 76), nid y broses *wirioneddol* o ddyblygu sy'n bwysig, h.y. y ffaith bod astudiaeth wedi cael ei dyblygu gan ymchwilydd arall ai peidio, ond caniatáu i'r gymuned ymchwil wneud hynny pe dymunai trwy fod yn gwbl dryloyw ac agored am bob agwedd ar yr astudiaeth. Er mwyn caniatáu am y posibilrwydd o ddyblygu, mae'r broses o ddylunio'r arbrawf, o'r testunau a ddefnyddiwyd i drafodaeth fanwl o'r theorïau cefndirol sy'n sail i'r dadansoddiad, wedi eu disgrifio'n fanwl.

Dadansoddir isod ganlyniadau'r arbrawf a ddyluniwyd i ymchwilio i'r ymdrech gymharol rhwng cyfieithu heb technoleg MT a systemau TM o gymharu â'r ymdrech a fuddsoddir wrth gydweithio â hi. Dechreuir yn gyntaf ag ystyriaeth o gyfieithu ac ôl-olygu allbwn systemau MT.

5.33 CANLYNIADAU'R YMDRECH WYBYDDOL


Ym mhennod 5, gosodwyd rhagdybiaeth mewn perthynas â'r Ymdrech Wybyddol wrth gyfieithu o gymharu ag ôl-olygu, sef Rhagdybiaeth R1a. Union eiriad y rhagdybiaeth honno oedd:

Bydd tueddiad canolog cyfanswm yr amser a dreulir wrth seibio ar ôl darllen am ystyr a chyn adolygu *yn llai* wrth ôl-olygu (Grŵp MT) o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).

Sail y rhagdybiaeth honno oedd theorïau seicoieithyddol Butterworth (1982) a Schilperoord (1996), a seiliwyd ar luniad damcaniaethol cynharach o faes Seicoleg Wybyddol o'r enw'r Cof Gweithredol, sydd wedi ei ddefnyddio'n helaeth ym maes Astudiaethau Cyfieithu. Isod, cyflwynir y data mewn ymgais i brofi neu wrthbrofi'r rhagdybiaeth hon. Er mwyn gwirio dosbarthiad y data a phenderfynu ar brawf priodol ar gyfer arwyddocâd ystadegol cyn cyflwyno'r canlyniadau, gwnaed prawf Kolmogorov-Smirnov ar ddata'r seibiannau mewnol. Nod y prawf hwn yw gwirio dosbarthiad y data er mwyn darganfod a yw'r dosbarthiad yn un normal (parametrig) neu'n annormal (amhamedrig). Mae dosbarthiad y data yn llywio pa brofion ystadegol y gellir eu defnyddio maes o law er mwyn gwirio a oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng setiau o ddata. Canlyniad y prawf hwnnw ar gyfer y Grŵp Cyfieithu oedd $D(205)=45, p=.001$, a'r canlyniad ar gyfer y Grŵp MT oedd $D(228)=60, p=.001$. Oherwydd natur amhamedrig y data, penderfynwyd defnyddio prawf Mann-Whitney er mwyn gwirio arwyddocâd unrhyw wahaniaeth rhwng canlyniadau'r ddau grŵp ar gyfer newidyn dibynnol yr Ymdrech Wybyddol.⁶⁶ Mae profion ystadegol sy'n cymharu dwy set o ddata er mwyn

⁶⁶ Wrth ddefnyddio ystadegaeth gasgliadol i brofi rhagdybiaethau, rhaid gwirio yn gyntaf fod y data a gasglwyd yn meddu ar ddosbarthiad normal (a elwir hefyd yn ddosbarthiad Gaussian). Os mai dosbarthiad normal a geir, dywedir bod y data yn bamedrig. Golyga hyn fod y pwyntiau data unigol yn ffurfio cromlin siâp cloch wedi iddynt gael eu plotio, lle mae'r rhan fwyaf o bwyntiau data yn tueddu i gwmpo o gwmpas

darganfod gwahaniaethau ‘arwyddocaol’ rhyngddynt yn bwysig; maent yn sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng tueddiad canolog y ddwy set o ddata (h.y. y cymedr yn achos data paramedrig ond y canolrif yn achos data amhamedrig) yn ddigon mawr, a’i bod yn annhebygol o fod yn un hap a damwain. Yr enw ar y gwahanol brofion ystadegol hyn yw ‘modelau ystadegol’, a chaiff y modelau ystadegol hyn eu cymhwyso at ddata er mwyn dod i gasgliadau amdanynt. Dengys Ffigur 10 ddsbarthiad y seibiannau dros dair prif ran cyfieithu.



Ffigur 10: Seibiannau a gofnodwyd fesul safle yn y frawddeg a dull cyfieithu (milieliadau)

Gellir gweld yn gyntaf oll y tueddodd yr ôl-olygwyr yn y Grŵp MT (llinell oren) i dreulio mwy o amser yn darllen ac yn paratoi i gyfieithu na’r cyfieithwyr yn y Grŵp Cyfieithu, ac roedd y gwahaniaeth hwnnw yn ystadegol arwyddocaol yn ôl prawf Mann-

tueddiad canolog y data ac lle mae nifer bach iawn o’r pwyntiau data yn wahanol iawn i’w gilydd. Os nad yw’r pwyntiau data hyn i’w gweld yn agos at y tueddiad canolog ac maent i’w gweld heb unrhyw bwynt canolog, dywedir bod y data yn amhamedrig ac mae angen defnyddio profion penodol wrth ddod i gasgliadau pendant amdanynt (Mellinger a Hanson 2017, t. 59). Mae angen gwirio dosbarthiad y data felly cyn gwneud profion ystadegol mewn ymgais i brofi neu wrthbrofi rhagdybiaeth.

Whitney ($U=3,132.5$, $z=7.038$, $p=.001$, *Canolrify Grŵp Cyfieithu* =4.5, *Canolrify Grŵp MT* =12).⁶⁷ Mae un esboniad amlwg am hynny; yn hytrach na'r gofyniad i ddarllen un testun, sef yr IFf, darllenodd yr ôl-olygwyr y testun Saesneg ar y cyd ag allbwn y system MT. Mae'n ddiddorol, o safbwynt newydd-deb y dasg i nifer o gyfranogwyr, eu bod wedi darllen y ddau destun (sef y Saesneg ac allbwn y MT), sef 'Ôl-olygu Dwyieithog'. Nid yw darllen yr allbwn MT o reidrwydd yn gam hanfodol yn y broses gychwynnol o baratoi cyfieithiad wrth ôl-olygu; mae dwy astudiaeth ddiweddar wedi darganfod bod rhai ôl-olygwyr yn defnyddio strategaeth 'Ôl-olygu Unieithog', sef darllen yr allbwn MT yn unig yn annibynnol ar yr IFf, neu ddarllen mwy ar yr allbwn MT o gymharu â'r IFf (cf. Carl et al. 2011; Carl et al. 2015). Afraid dweud, bydd y gallu i wneud hynny yn ddibynnol ar ansawdd y system a ddefnyddir.⁶⁸ Ond mae'n debygol iawn eu bod wedi defnyddio strategaeth Ôl-olygu Dwyieithog; fel arall, gellid dadlau y byddai eu data seibiannol cychwynnol yn debyg i eiddo'r cyfieithwyr. Mewn perthynas ag adolygu'r cyfieithiad a seibiannau terfynol, un esboniad am y cynnydd yn y data seibiannol terfynol yn y Grŵp Arbrolfol yw bod yr ôl-olygwyr wedi amau ansawdd yr allbwn a gallu'r system MT i gynhyrchu cyfieithiad llwyddiannus, felly cafodd pob newid ei wirio, a'i wirio eto ar ôl gorffen. Roedd y gwahaniaeth rhwng y ddwy set o seibiannau hefyd yn ystadegol arwyddocaol yn prawf Mann-Whitney ($U=2,443.5$, $z=3.525$, $p=.001$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu* =0, *Canolrif y Grŵp MT* =4.5).⁶⁹

⁶⁷ Canlyniad y prawf Kolmogorov-Smirnov ar gyfer normalrwydd y data, sef ei ddsbarthiad, oedd $D(342)=60$, $p=.001$ ar gyfer seibiannau cychwynnol y cyfieithwyr, a $D(147)=60$, $p=.003$ ar gyfer seibiannau cychwynnol yr ôl-olygwyr.

⁶⁸ Fel arall, gall y MT o ansawdd gwael arwain at wallau lu yn y testun targed, fel y dangosodd astudiaeth ddiweddar gan Čulo et al. (2014), oherwydd na fedr cyfieithwyr weld y testun ffynhonnell. Mae gweld y testun ffynhonnell yn gwbl hanfodol wrth chwynnu gwallau a sylwi ar yr hyn sydd o'i le. Adalwn i gof yr hyn a drafodwyd ym Mhennod 4, lle diffiniwyd y broses olygu MT a TM fel proses sydd yn ei hanfod yn cynnwys *cymharu a chroeswirio*.

⁶⁹ Canlyniad y prawf Kolmogorov-Smirnov ar gyfer dosbarth y data seibiannau terfynol oedd $D(366)=60$, $p=.001$ ar gyfer seibiannau terfynol cyfieithu a $D(259)=60$, $p=.001$ ar gyfer seibiannau terfynol ôl-olygu. Mae'r data felly yn amhamedrig, felly defnyddiwyd prawf amhamedrig i gyd-fynd â hynny.

Gan droi at yr Ymdrech Wybyddol, mae Ffigur 10 uchod yn cymharu tueddiad canolog yr holl seibiannau mewnol (seibiannau rhwng y trawiad bysell cyntaf a'r un olaf) a gafwyd ymhob segment a gynhyrchwyd yn y Grwpiau MT a Chyfieithu. Dadleuwyd uchod yn Adran 4.6 fod y seibiannau hyn yn gysylltiedig â'r Ymdrech Wybyddol. Er gwaethaf y gwahaniaeth ymddangosiadol sydd i'w weld rhwng data seibiannol y ddau grŵp o gyfieithwyr o dan y ddwy amod, nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol. Cadarnheir hyn gan brawf Mann Whitney ($U=2,114.5$, $z = 1.655$ $p = .098$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu* = 10.5, *Canolrif y Grŵp MT* = 20.25). Darganfyddiad yr un mor bwysig a pherthnasol serch hynny yw na welwyd unrhyw *gynnydd* yn yr ymdrech honno ychwaith. Er bod gwahaniaeth rhwng tueddiad canolog y ddau grŵp, fel y dangosir gan y llinell yn Ffigur 12, mae angen cofio nad oedd y gwahaniaeth hwn yn *ystadegol arwyddocaol*.

Mae angen gwrthod Rhagdybiaeth R1a felly; hynny yw, mae angen derbyn y Rhagdybiaeth Nwl.⁷⁰ Mae angen gwneud hynny gan gadw sawl ystyriaeth mewn cof serch hynny. Yn gyntaf, ni ellir dadlau ar sail y canlyniad hwn fod ôl-olygu testunau a broseswyd ymlaen llaw gan system MT yn cynyddu baich gwybyddol y cyfieithydd yn yr achos hwn, ac ni fyddai'n gywir honni ychwaith nad oes diben mewn defnyddio'r dechnoleg mewn cyd-destun proffesiynol. Mae priodoldeb a chywirdeb dadl o'r fath bellach yn dibynnu ar ganlyniadau'r newidynnau dibynnol eraill, sef rhwyddineb cymharol y prosesau cynhyrchu testun a'r cyfanswm amser prosesu yr eir i'r afael ag ef ym Mhennod 6. Yn ail, ni ellir anwybyddu ychwaith yr arbedion amlwg a welwyd yn achos Cyfranogwr 9, yr oedd canolrif ei seibiannau mewnol yn 107.5 eiliad yn llai na'r canolrif ar gyfer data

⁷⁰ Os nad yw'r prawf ystadegol a gymhwyswyd at y data mewn ymgais i brofi'r Rhagdybiaeth Amgen yn arwyddocaol, mae angen derbyn nad oes effaith i'w chael a dadlau nad yw'r amod a gyflwynwyd ar ffurf y Newidyn Annibynnol wedi dylanwadu ar y canlyniadau yn yr achos hwnnw. Os yw hyn wedi digwydd, dywedir bod y Rhagdybiaeth Nwl wedi ei phrofi (sef bod dim effaith, neu 'nwl'). Mae Rhagdybiaeth Amgen yn debyg iawn i Rhagdybiaeth Ragfynegol a ddisgrifir uchod yn hynny o beth. Yn aml, defnyddir y talfyriad H_0 i ddynodi'r Rhagdybiaeth Nwl a H_1 i ddynodi'r Rhagdybiaeth Amgen (Field 2013, t. 61).

seibiannol y cyfieithwyr yn y Grŵp Cyfieithu. Dengys hynny y *gall* ôl-olygu leihau'r Ymdrech Wybyddol sydd ynghlwm wrth gyfieithu testunau mewn cyd-destun proffesiynol. Dengys Tabl 8 gyfanswm pob seibiant a gofnodwyd gan bob cyfranogwr ymhob segment, fesul safle yn y frawddeg.

Tabl 8: Data Seibiannol: Cyfieithu ac ôl-olygu allbwn MT

Grŵp	Cyfranogwr	Safle yn y frawddeg		
		Cychwynnol	Mewnol	Terfynol
Grŵp Cyfieithu	1	100.5	391.5	147
	2	125	263	9
	3	45	210	13.5
	4	75	100.5	33
	Cymedr	5.758	16	3.375
	Cyfwng Hyder 95% (isaf)	3.546	11.618	0.992
	Cyfwng Hyder 95% (uchaf)	7.971	20.549	5.768
	Canolrif	4.5	10.5	0
	Gwriad Safonol	8.565	17.285	9.264
	Ystod	46.5	65.5	60.5
	Isaf	0	0	0
	Uchaf	465.6	65.5	60.5
	Ystod Ryngchwarterol	1.5	16.1	2.6
	Grŵp MT	5	185.5	604.4
6		284.5	593.5	119.5
7		215.5	509	126.5
9		208	239.5	162
Cymedr		14.892	32.440	8.142
Cyfwng Hyder 95% (isaf)		12.297	21.218	4.895
Cyfwng Hyder 95% (uchaf)		17.487	43.662	11.389
Canolrif		12	20.250	4.5
Gwriad Safonol		10.045	43.439	12.669
Ystod		52.5	231.5	66
Isaf		1.5	0	0
Uchaf		54	231.5	66
Ystod Ryngchwarterol		14.3	34.9	10.1

5.34 CANLYNIADAU'R YMDRECH DECHNEGOL

Gosodwyd dwy ragdybiaeth ym Mhennod 5 mewn perthynas â'r Ymdrech

Dechnegol, sef

Bydd tueddiad canolog gyfanswm y bysellau cyrchu ac addasu testun ar y cyd â chliciadau llygoden wrth ôl-olygu (Grŵp MT) yn *fwy* o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).

Ac yn ail:

Bydd tueddiad canolog cyfanswm y trawiadau bysell alffaniwmerig a gynhyrchir wrth ôl-olygu (Grŵp MT) yn llai o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).


Mae'r ymdrech dechnegol yn cynnwys y broses cynhyrchu testun, sef *teipio'r* cyfieithiad neu *addasu'r* allbwn MT a TM. Bydd yr adran hon yn mynd ati i brofi neu wrthbrofi'r ddwy ragdybiaeth hyn fesul un yn seiliedig ar y data.

5.34.1 Prosesau Cynhyrchu Testun Anllinellol

Yn dilyn y diffiniad a ddarparwyd ym Mhennod 5 o brosesau cynhyrchu testun anllinellol a'u perthynas â'r broses cynhyrchu testun wrth gyfieithu ac wrth ddefnyddio systemau MT a TM, dadansoddir isod amlygiadau o'r fath strategaeth cynhyrchu, sef trawiadau bysell nad ydynt yn ymwneud â theipio, ond yn hytrach yn ymwneud â symud trwy destun a'i drin a'i addasu. Mae'r trawiadau hyn yn cynnwys dileu (ar ffurf 'DELETE' neu 'BACKSPACE'), cliciadau llygoden, taro'r saethau a'r gwahanydd a defnyddio cyfuniadau bysellau 'CTRL'. Dengys prawf Mann-Whitney y bu'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn anarwyddocaol yn ystadegol ($U = 1,210$, $z = 1.6$, $p = .111$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu = 9*, *Canolrif y Grŵp MT = 18*).⁷¹ Golyga hyn fod angen gwrthod Rhagdybiaeth Amgen R2a a derbyn y Rhagdybiaeth Nwl. Damcaniaethwyd y byddai'r gofyniad i symud trwy destun a broseswyd gan system MT a'i ailgylchu a'i gywiro yn golygu y byddai mwy o gyrchu testun yn digwydd ar y cyd â'i drin a'i addasu. Ystyr trin ac addasu testun yn y cyswllt hwn yw dileu ac addasu geiriau yn y testun er mwyn eu gwneud yn elfennau derbyniol o gyfieithiad llwyddiannus. Nid oedd y gwahaniaethau rhwng nifer y dileadau wrth gyfieithu ac ôl-olygu yn ystadegol arwyddocaol ($U = 95.5$, $z = -788$, $p = .431$, *Canolrif*

⁷¹ Defnyddiwyd prawf Mann-Whitney o ganlyniad i natur amharamedrig y data yn ôl prawf Kolmogorov-Smirnov; y canlyniad ar gyfer data y grŵp rheoli oedd $D(249) = 45$, $p = .001$ a'r canlyniad cyfatebol ar gyfer y grŵp arbrofol oedd $D(207) = 45$, $p = .001$.

y Grŵp Cyfieithu =50, Canolranrif y Grŵp MT =38), nac ychwaith rhwng nifer y trawiadau cyrchu testun sef defnydd o gyfuniadau Ctrl, ENTER, y gwahanydd a'r saethau (U =148, z=1.48, p = .148, Canolrif y Grŵp Cyfieithu =4, Canolrif y Grŵp MT =52). Cafwyd hyd serch hynny i wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng nifer y cliciadau llygoden wrth gyfieithu ac ôl-olygu (U=185, z =3.031, p =.002), Canolrif y Grŵp Cyfieithu =4, Canolrif y Grŵp MT =13). Camddamcaniaethwyd felly y byddai amlygiadau o'r gofyniad hwn ar ffurf bysellau rheoli a chlicsiadau yn uwch yn y Grŵp MT.




Ffigur 11: Trawiadau Bysell yn ymwneud ag ysgrifennu anllinellol⁷²

⁷² Mae Ffigur 11 yn Blot Blwch. Mae'r Plot Blwch yn ddull defnyddiol o arddangos data gan ei fod yn llawer manylach na'r histogram neu siart golofnau, er bod cyd-destunau lle mae angen defnyddio'r math hwn o siart. Mae'r Plot Blwch yn gweithio ar sail yr amrediad rhyng-chwarterol. Cyfetyb y llinell ddu drwchus yn y canol i'r Canolrif, a chyfetyb y blwch yn ei gyfanrwydd i 50% o'r holl ddata. Cyfetyb y llinellau gwaelod i 25% o'r data a'r llinellau brig i'r 25% sy'n weddill. Bydd unrhyw gylchoedd y tu hwnt i'r llinellau brig yn dynodi allanolion, sef pwyntiau data sydd y tu hwnt i ddosraniad cyffredinol gweddill y set ddata oherwydd eu maint anarferol. Ystyrir pwynt data i fod y tu hwnt i'r dosraniad cyffredinol os yw'n fwy na'r rhyngchwarterolyn uchaf ac yn 1.5 gwaith yn fwy na'r amrediad rhyngchwarterol. Cynrychioli gwerthoedd eithafol y mae unrhyw sêr (Field 2013, t. 135).

5.34.2 Prosesau Cynhyrchu Testun Llinellol

Gan droi at gynhyrchu testun arferol a theipio, sef prosesau cynhyrchu testun llinellol, mae'r darlun yn un gwahanol iawn. Mae'r prosesau cynhyrchu testun sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu yn dangos bod cyfieithu yn gofyn am lawer mwy o waith teipio nag yw ôl-olygu, fel y dengys Ffigur 12 isod:



Ffigur 12: Nodau Alffaniwmerig a gynhyrchwyd

Cynhyrchodd pob cyfieithydd nifer sylweddol uwch o nodau alffaniwmerig nag a wnaeth yr ôl-olygwyr. Mae'r gwahaniaeth ystadegol rhwng y ddau grŵp hefyd yn arwyddocaol yn ôl prawf Mann-Whitney ($U= 199.5$, $z = -8.404$, $p = .001$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu* =114.5, *Canolrif y Grŵp MT* =12.5).⁷³ Gellir derbyn Rhagdybiaeth R2c felly, a dadlau ar sail y canlyniadau mai *cyfieithu* oedd y broses fwyaf ymdrechgar o safbwynt cynhyrchu testun.


⁷³ Defnyddiwyd prawf amharamedrig i gyd-fynd â natur amharamedrig y data; canlyniadau prawf Kolmogorov-Smirnov ar gyfer y data cyfieithu oedd $D(94) = 60$, $p = .200$, ac ar gyfer ôl-olygu $D(190) = 60$, $p = .001$.

Crynhua Tabl 9 isod yr holl ddata mewn perthynas â chynhyrchu testun ar gyfer y Grŵp Cyfieithu ac MT.

Tabl 9: Cyfanswm Trawiadau Bysell a Chliciadau Llygoden fesul Segment

Seg.	Grŵp Cyfieithu					Grŵp MT				
	Nodau a gynhyrchwyd	Dileadau	Cliciadau	Cyrchu Testun	Cyfanswm Gweithrediadau	Nodau a gynhyrchwyd	Dileadau	Cliciadau	Cyrchu Testun	Cyfanswm Gweithrediadau
1	89	32	6	0	127	10	4	7	0	21
2	421	25	4	0	450	5	4	3	0	12
3	449	56	6	2	513	51	38	18	4	111
4	713	89	10	6	818	128	83	24	46	281
5	332	26	4	29	391	14	9	7	0	30
6	556	50	3	22	631	157	142	43	94	436
7	181	23	3	2	209	94	17	7	52	170
8	409	65	8	149	631	104	69	14	142	332
9	561	100	3	2	666	196	122	26	151	495
10	745	88	9	4	846	52	39	11	72	174
11	484	29	3	22	538	79	94	11	107	291
12	574	98	4	2	678	17	7	13	6	43
13	810	110	11	51	982	120	75	24	238	457
14	67	9	3	1	80	0	0	0	0	0
15	461	35	3	5	504	44	34	17	78	173
<i>Cyfanswm</i>	<i>6852</i>	<i>835</i>	<i>80</i>	<i>297</i>	<i>8064</i>	<i>1071</i>	<i>737</i>	<i>225</i>	<i>990</i>	<i>3026</i>
<i>Cymedr</i>	<i>457</i>	<i>55.7</i>	<i>5.3</i>	<i>19.8</i>	<i>537.6</i>	<i>71</i>	<i>49</i>	<i>15</i>	<i>66</i>	<i>202</i>
<i>Canolrif</i>	<i>461</i>	<i>50</i>	<i>4</i>	<i>4</i>	<i>538</i>	<i>52</i>	<i>38</i>	<i>13</i>	<i>52</i>	<i>173</i>
<i>Gwriad</i>	<i>214.6</i>	<i>32.4</i>	<i>2.7</i>	<i>37.2</i>	<i>250.6</i>	<i>58</i>	<i>44</i>	<i>11</i>	<i>69</i>	<i>166</i>
<i>Safgonol</i>										

Wrth blotio data Tabl 9 ar siart golofn, fe welir bod canolrif yr *holl* drawiadau bysell a wnaed yn sylweddol uwch yn achos y Grŵp Cyfieithu a gyfieithodd o gymharu â'r Grŵp MT (Ffigur 13). Trawyd bysellau a chliciwyd y llygoden am gyfanswm o 8,064 o weithiau wrth gyfieithu, ond wrth ôl-olygu y pwynt data cyfatebol yw 3,026.



Ffigur 13: Canolrif Cyfanswm yr Holl Drawiadau Bysell a gofnodwyd ar gyfer y ddau grŵp

O safbwynt yr Ymdrech Dechnegol felly, mae ôl-olygu yn *lleihau'r* ymdrech sy'n gysylltiedig â'r wedd ymarferol bwysicaf ar y broses trosi, sef cynhyrchu testun, a hynny yn sylweddol. Gall ôl-olygu ddwyn yn ei sgil nifer o arbedion felly, gan gynnwys arbed 'ymdrech ysgrifennu'.

5.35 DIWEDDGLO: PRIF DDARGANFYDDIADAU: CYFIEITHU AC ÔL-OLYGU ALLBWN MT

Eglurwyd ym Mhennod 4 sail wybyddol yr Ymdrech Wybyddol a'r system sy'n sail i brosesu a chynhyrchu iaith. Amlinellwyd ym Mhennod 5 wedyn y rhesymau dros ystyried yr ymdrech ddynol sy'n angenrheidiol i gyfieithu ac ôl-olygu, a dadleuwyd uchod mai lleihau'r ymdrech hon yw pennaf nod unrhyw system MT mewn cyd-destun cyfieithu a lleoleiddio proffesiynol, ar y cyd â chynyddu cynhyrchedd cyfieithwyr. Wedyn, aed ati i werthuso'r gwahanol ddulliau ymchwil sydd ar gael i alluogi ymchwilwyr i fynd i'r afael ag ymdrech ym maes TPR, cyn dewis theori seicoieithyddol a chofnodi trawiadau bysell, a darparu cyfiawnhad dros y dewis hwnnw. Wrth gloriannu canlyniadau niferus yr

arbrawf cofnodi trawiadau bysell a gynhaliwyd, crynhoir isod bum prif ddarganfyddiad yr arbrawf mewn perthynas ag ôl-olygu allbwn systemau MT a chyfieithu. Nid yw'r canlyniadau hyn felly'n cyd-fynd â chasgliadau Lacruz et al. (2012) na Carl et al. (2015), a ddarganfu fod modd i ôl-olygu leihau'r Ymdrech Wybyddol wrth gyfieithu. Maent serch hynny yn cadarnhau casgliadau O'Brien (2007), Koehn (2009), Carl et al. (2011), Carl et al. (2015) a Koglin (2015) mewn perthynas â'r Ymdrech Dechnegol, gan fod ôl-olygu yn yr achos hwn wedi lleihau'r ymdrech deipio yn sylweddol hefyd.

Tabl 10: Crynodeb o Ddarganfyddiadau Arbrawf: Cyfieithu ac Ôl-olygu allbwn MT

Prif Ddarganfyddiadau				
Rhif	Darganfyddiad	Model Ystadegol a Ddefnyddiwyd	Canlyniad y Prawf	Canlyniad
1.	Nid oedd ôl-olygu wedi cynyddu'r ymdrech wybyddol y profodd y cyfieithydd wrth drosi'r testun, ond ni fu modd profi ychwaith fod ôl-olygu wedi lleihau'r ymdrech honno ar gyfer y Grŵp Arbrofol yn ei gyfanrwydd. Serch hynny, ar lefel unigol fe welwyd arbedion gwybyddol sylweddol yn achos Ôl-olygydd 9, sef yr ôl-olygydd mwyaf effeithlon o ran nifer y newidiadau angenrheidiol.	Mann-Whitney (dwy gynffon)	$p = .098$	Gwrthodwyd
2.	Roedd ôl-olygu cyfieithiad awtomatig yn lleihau'n sylweddol faint o nodau alffaniwmerig, ac felly faint o eiriau, y bu angen eu cynhyrchu.	Mann-Whitney (dwy gynffon)	$p = .001$	Derbyniwyd
3.	Darganfuwyd gwahaniaeth ystadegol anarwyddocaol rhwng y Grŵp Cyfieithu ac MT o ran defnyddio'r llygoden a bysellau rheoli er mwyn cyrchu a thrin testun. Ond wrth ystyried cyfanswm yr holl drawiadau bysell gyda'i gilydd ar gyfer y ddau grŵp, roedd yr Ymdrech Dechnegol angenrheidiol, sef y defnydd o galedwedd y cyfrifiadur i gynhyrchu cyfieithiad ysgrifenedig yn gyffredinol, yn sylweddol uwch yn achos cyfieithu.	Mann-Whitney (dwy gynffon)	$p = .111$	Gwrthodwyd


Canolbwyntir isod ar y canlyniadau mewn perthynas â chyfieithu ac addasu allbwn TM. Yn debyg i strwythur y bennod hyd yma, dechreu'r drafodaeth drwy fynd i'r afael â'r Ymdrech Wybyddol cyn gorffen â dadansoddiad o'r Ymdrech Dechnegol.

5.36 CANLYNIADAU'R YMDRECH WYBYDDOL

Y rhagdybiaeth a gyflwynwyd ym Mhennod 5 mewn perthynas â chyfieithu ac addasu allbwn systemau TM, sef Rhagdybiaeth R1b, oedd:

Bydd Bydd tueddiad canolog cyfanswm yr amser a dreulir wrth seibio ar ôl darllen am ystyr a chyn adolygu *yn llai* wrth addasu allbwn y TM (Grŵp TM) o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).

Yn debyg i'r hyn a ragwelwyd ar gyfer cyfieithu ac ôl-olygu felly, damcaniaethwyd y byddai trin allbwn y TM, gyda chyfatebiaethau rhwng 70%-99%, yn lleihau'r Ymdrech Wybyddol angenrheidiol i gynhyrchu cyfieithiad. Wrth ddadansoddi data seibiannau mewnol y ddau grŵp a gynhyrchodd gyfieithiad o dan y ddwy amod wahanol, mae gwahaniaethau clir ac amlwg i'w gweld rhwng y ddwy set o seibiannau mewnol. Treuliwyd llawer llai o amser yn seibio wrth addasu'r TM nag a dreuliwyd wrth gyfieithu. Yn dilyn y drafodaeth am yr Ymdrech Wybyddol yn seiliedig ar y duedd i seibio er mwyn canolbwyntio ar un elfen benodol o'r segment oherwydd cynhwysedd storio cyfyngedig y Cof [dynol] Gweithredol, gellir dadlau ar sail hynny fod cyfieithu heb allbwn TM yn dasg wybyddol anos. Hynny yw, gall addasu allbwn TM, yn ôl canlyniadau'r arbrawf hwn, leihau'n sylweddol yr Ymdrech Wybyddol sydd ynghlwm wrth gyfieithu:



Ffigur 14: Seibiannau a gofnodwyd fesul safle yn y frawddeg a dull cyfieithu (milieliadau)

Darganfuwyd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddwy set o seibiannau a gofnodwyd o dan y ddwy amod hefyd; canlyniad y prawf Mann-Whitney oedd $U = 450.500$, $z = 4.32$, $p = .001$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu* = 28.5, *Canolrif y Grŵp TM* = 11.25.⁷⁴ Golyga hyn fod modd derbyn Rhagdybiaeth R1b gan wrthod y Rhagdybiaeth Nwl, a dadlau ar sail hynny y gall addasu allbwn systemau TM ar ffurf eu cyfatebiaethau rhwng 70-99% fod yn wybyddol haws i'r cyfieithydd proffesiynol.

Mewn perthynas â'r broses o ddarllen yr IFf (ac allbwn y TM) a hunan-adolygu ar ôl cynhyrchu cynnig cyntaf, mae'r darlun ychydig yn wahanol. Treuliwyd rhagor o amser yn y broses gychwynnol o gynhyrchu cyfieithiad wrth addasu'r TM ($U = 1,508.5$, $z = 4.53$, $p = .001$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu* = 3.75, *Canolrif y Grŵp TM* = 10.5),⁷⁵ a thueddodd y

⁷⁴ Defnyddiwyd prawf amhamedrig i gyd-fynd â natur amhamedrig y data; canlyniad prawf Shapiro-Wilk (prawf i wirio a yw'r data â dosbarthiad normal ai peidio) ar gyfer data seibiannol y Grŵp Cyfieithu oedd $D(814) = 44$, $p = .001$, a'r canlyniad cyfatebol ar gyfer y Grŵp TM oedd $D(823) = 44$, $p = .001$.

Defnyddiwyd prawf Shapiro-Wilk oherwydd maint y setiau data, a gynhwysodd fwy na 50 sampl.

⁷⁵ Canlyniad prawf Shapiro-Wilk oedd $D(853) = 44$, $p = .001$ ar gyfer data'r Grŵp Cyfieithu a $D(859) = 44$, $p = .001$ ar gyfer data'r Grŵp TM.

cyfieithwyr a addasodd allbwn y TM i dreulio rhagor o amser yn hunan-adolygu ar ôl gorffen cynhyrchu cyfieithiad, o gymharu â'r cyfieithwyr a gyfieithodd heb y TM ($U = 1,275$, $z = 2.62$, $p = .001$, Canolrif y Grŵp Cyfieithu = 1.5, Canolrif y Grŵp TM = 3):⁷⁶

Er na ellir cysylltu'r cynnydd hwn yn hyd y seibiannau cychwynnol a therfynol ar gyfartaledd â'r Ymdrech Wybyddol fel y mae wedi ei diffinio a'i gweithredu yn yr astudiaeth gyfredol, mae'r cynnydd yn yr amser a gymerwyd yn y broses o baratoi cyfieithiad yn feddyliol a'r amser a dreuliwyd yn adolygu yn ddarganfyddiadau diddorol. Gellir esbonio'r gwahaniaeth amseryddol ar ffurf seibiannau cychwynnol rhwng addasu'r TM a chyfieithu; mae'n debygol iawn y penderfynodd y cyfieithwyr yn y Grŵp Arbrofol i ddarllen yr IFf ar y cyd ag allbwn y TM, ac yn ystod y broses mae'n debygol yr oeddent yn cymharu cynnwys y TM â'u cynrychioliad meddyliol o gyfieithiad fel y byddai Mellinger a Shreve (2016) yn dadlau. Ond mae'r duedd i ymrwymo i ragor o hunan-adolygu serch hynny yn arwyddocaol; gwnaed yr un darganfyddiad wrth ddadansoddi'r data ôl-olygu hefyd. Mae'n debygol iawn felly fod defnyddio MT a TM yn effeithio ar brosesau adolygu hefyd, gan fod amseroedd adolygu'r cyfieithwyr a ôl-olygodd wedi cynyddu o gymharu â'r cyfieithwyr a gyfieithodd heb gymorth gan systemau MT a TM. Ond o ganlyniad i sgôp yr astudiaeth gyfredol, ni ellir mynd i'r afael â'r cwestiwn diddorol a phwysig hwn mewn manylder. Byddai'n drywydd ymchwil pwysig, a gwreiddiol, ar gyfer y dyfodol serch hynny.

⁷⁶ Canlyniad prawf Shapiro-Wilk ar gyfer dosbarthiad y data oedd $D(433) = 44$, $p = .001$ ar gyfer data'r Grŵp Cyfieithu a $D(798) = 44$, $p = .001$ ar gyfer y Grŵp TM.

Tabl 11: Data Seibiannol: Cyfieithu ac addasu'r TM

Grŵp	Cyfranogwr	Safle yn y frawddeg		
		Cychwynnol	Mewnol	Terfynol
Grp Cyfieithu	5	52.5	528	105
	7	82	462	4.5
	8	49.5	224.5	33
	9	66.5	615.5	15
	Cymedr	5.693	41.591	3.579
	Cyfwng Hyder 95% (isaf)	4.211	29.785	1.013
	Cyfwng Hyder 95% (uchaf)	7.175	53.397	6.146
	Canolrif	3.75	28.5	1.5
	Gwriad Safonol	4.874	38.831	8.441
	Ystod	19	171.5	52
	Isaf	0	4.5	0
	Uchaf	19	176	52
	Ystod Ryngchwarterol	7.13	47.3	4.13
Grŵp TM	1	231.5	207	94
	2	129	161.5	45
	3	114.5	197.5	61.5
	4	134	112	27
	Cymedr	13.84	14.943	5.170
	Cyfwng Hyder 95% (isaf)	10.63	9.973	3.399
	Cyfwng Hyder 95% (uchaf)	17.04	19.913	6.941
	Canolrif	10.5	11.250	3
	Gwriad Safonol	10.528	16.346	5.825
	Ystod	46	76.5	28
	Isaf	0	0	0
	Uchaf	46	76.5	28
	Ystod Ryngchwarterol	12	20.6	7.13

5.37 CANLYNIADAU'R YMDRECH DECHNEGOL

Eir i'r afael isod â'r Ymdrech Dechnegol ar ei gwahanol agweddau, gan ddechrau â chynhyrchu testun.


5.37.1 Prosesau Cynhyrchu Testun Anllinellol

Mewn perthynas â phrosesau cynhyrchu testun anllinellol, sef trin, addasu a chyrchu testun, h.y. trawiadau bysell nad ydynt yn ymwneud â theipio, ond yn hytrach yn ymwneud â symud trwy destun a'i drin a'i addasu, damcaniaethwyd y byddai amlygiadau o'r fath strategaeth cynhyrchu testun ar ffurf bysellau nad ydynt yn ymwneud â theipio

nodau alffaniwmerig yn uwch wrth addasu'r TM o gymharu â chyfieithu. Geiriad y rhagdybiaeth hon, sef Rhagdybiaeth R2b, oedd:

Bydd tueddiad canolog cyfanswm y bysellau cyrchu ac addasu testun ar y cyd â chliciadau llygoden wrth addasu allbwn TM (Grŵp TM) yn llai o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).

Y rheswm a roddwyd dros y rhagdybiaeth hon oedd y byddai'r angen i addasu ac ailgylchu testun, yn hytrach na'i deipio o'r newydd heb rwystrau ar 'sgrin wag', yn arwain at ddefnydd uwch o fysellau sy'n ymwneud â newid ac addasu testun megis bysellau dileu a chyfuniadau CTRL, ar y cyd â bysellau i symud trwy destun megis y saethau a'r gwahanydd, yn ogystal â'r defnydd o'r llygoden. Dengys Ffigur 15 isod ganolrif yr holl drawiadau bysell a gofnodwyd sy'n gysylltiedig â phrosesau cynhyrchu testun anllinellol (sef addasu, dileu neu symud drwy destun) ar gyfer y ddau grŵp o dan y ddwy amod:



Ffigur 15: Trawiadau Bysell Prosesau Cynhyrchu Testun Anllinellol

Mae nifer uchel yr allanolion yn awgrymu bod cryn amrywiaeth rhwng y gwahanol gyfranogwyr yn y ddau grŵp mewn perthynas â'u tuedd i ddefnyddio bysellau ar wahân i nodau alffaniwmerig. Mae canolrif y ddau grŵp (gweler Ffigur 15 uchod) yn awgrymu

nad oes fawr o wahaniaeth rhwng y defnydd o fysellau sy'n gysylltiedig â phrosesau cynhyrchu testun anllinellol o dan ddwy amod ar gyfartaledd, ac mae prawf Mann-Whitney yn cadarnhau hynny ($U = 9,568$, $z = 1.403$, $p = .161$).⁷⁷ Wrth dyrchu o dan yr wyneb serch hynny, cwyd problem mewn perthynas â'r casgliad hwn; mae gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol i'w darganfod rhwng cyfanswm y gwahanol fysellau cyrchu a thrin testun *ar wahân*. Gan ddechrau â nifer y cliciadau llygoden, canlyniad y prawf Mann Whitney oedd ($U = 1,228$, $z = 2.23$, $p = .025$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu* =1, *Canolrif y Grŵp TM* =1.5) ac ar gyfer nifer y trawiadau cyrchu testun sef bysellau saeth, y gwahanydd a chyfuniadau CTRL y canlyniad cyfatebol yw ($U = 1,245$, $z = 2.46$, $p = .014$, *Canolrif y Grŵp Cyfieithu* =0, *Canolrif y Grŵp TM* =6.5). O ran dileu testun serch hynny (defnydd o 'BACKSPACE' a 'DELETE'), tueddodd y cyfieithwyr yn y Grŵp Cyfieithu i ddileu testun yn amlach na chyfieithwyr yn y Grŵp Arbrolfol, gan roedd y gwahaniaeth hwnnw yn ystadegol arwyddocaol ($U = 685$, $z = -2.36$, $p = .018$, *Canolrif Grŵp Cyfieithu* =9.5, *Canolrif y Grŵp TM* =4).

O hyn gellir dod i ddau gasgliad; yn fethodolegol, byddai gosod nifer o ragdybiaethau unigol ar gyfer y newidynnau dibynnol hyn ar wahân wedi bod yn ddefnyddiol, ac yn ail mae addasu allbwn systemau TM yn cynnwys mwy o brosesau cynhyrchu testun anllinellol. Golyga hyn fod angen derbyn Rhagdybiaeth R2b a gwrthod y Rhagdybiaeth Nwl.

5.37.2 Prosesau Cynhyrchu Testun Llinellol


Wrth addasu'r TM, damcaniaethwyd y câi llai o nodau alffaniwmerig eu cynhyrchu o gymharu â chyfieithu. Penderfynwyd canolbwyntio ar nodau alffaniwmerig oherwydd

⁷⁷ Canlyniad y prawf am ddosbarthiad y data (Shapiro-Wilk) ar gyfer data cynhyrchu testun anllinellol y Grŵp Cyfieithu oedd $D(563) = 135$, $p = .001$, ac ar gyfer data'r Grŵp TM $D(558) = 180$, $p = .001$.

mai nodau ac nid geiriau sy'n cael eu cofnodi gan y feddalwedd cofnodi trawiadau bysell a ddewiswyd. Wrth reswm, os caiff llai o nodau alffaniwmerig eu cynhyrchu, yna bydd nifer y geiriau a gynhyrchir hefyd yn llai. Y rhagdybiaeth yn ei chyfanrwydd a gyflwynwyd gyntaf ym Mhennod 5 felly, sef Rhagdybiaeth R2d, oedd:

Bydd tueddiad canolog cyfanswm y trawiadau bysell alffaniwmerig a gynhyrchir wrth addasu allbwn y TM (Grŵp TM) yn llai o gymharu â chyfieithu (Grŵp Cyfieithu).


Mae dadansoddiad o'r data cynhyrchu testun yn cefnogi'r rhagdybiaeth ragfynegol hon, ac mae gwahaniaeth amlwg, ac yn bwysicach mae gwahaniaeth ystadegol, rhwng nifer y nodau alffaniwmerig a gynhyrchwyd gan y cyfieithwyr yn y Grŵp Cyfieithu (Ffigur 19) o gymharu â'r cyfieithwyr a addasodd y TM. Canlyniad y prawf Mann-Whitney oedd $U=1.000$, $z = -8.02$, $p = .001$.⁷⁸ Dengys Ffigur 16 isod y gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp:



Ffigur 16: Nodau Alffaniwmerig a gynhyrchwyd wrth gyfieithu ac wrth addasu'r TM

⁷⁸ Canlyniad prawf Shapiro-Wilk ar gyfer dosbarthiad y data oedd $D(813)=44$, $p = .001$ ar gyfer data'r Grŵp Cyfieithu a $D(812)=43$, $p = .001$ ar gyfer y Grŵp TM.

O ganlyniad, mae modd derbyn Rhagdybiaeth R2d ar sail y data hyn. Gellir dadlau felly, er gwaethaf amlygrwydd y cysyniad i'r sawl sy'n gyfarwydd â'r dechnoleg hon, bod addasu allbwn systemau TM yn lleihau'n sylweddol nifer y nodau alffaniwmerig, ac felly nifer y geiriau, a gynhrychir yn y broses o ysgrifennu cyfieithiad. Gan droi at newidyn dibynnol olaf yr Ymdrech Dechnegol, sef cyfanswm yr *holl* drawiadau bysell a gofnodwyd, mae'r duedd yn un amlwg. Trawyd gwahanol fysellau'r fysellfwrdd a chliciwyd y llygoden am gyfanswm o 6,665 o weithiau wrth gyfieithu, ond wrth addasu'r TM yr ystadegyn cyfatebol yw 1,999 o weithiau. Mae addasu'r TM, felly, yn llawer haws o ran prosesau cynhyrchu testun a defnyddio caledwedd y cyfrifiadur i gynhyrchu cyfieithiad ysgrifenedig nag yw cyfieithu heb gymorth TM:



Ffigur 17: Canolrif yr Holl Drawiadau Byzell a gofnodwyd ar gyfer y ddau grŵp

Crynhua Tabl 12 isod gyfanswm y trawiadau bysell a gofnodwyd fesul segment. Ystyr trawiadau cyrchu yw'r defnydd o'r gwahanydd, cyfuniadau CRTL, a'r saethau:

Tabl 12: Cyfanswm Trawiadau Bysell fesul Segment wrth gyfieithu ac addasu TM

Seg.	Grŵp Cyfieithu					Grŵp TM				
	Nodau a gynhyrchwyd	Dileadau	Cliciadau	Cyrchu Testun	Cyfanswm Gweithrediadau	Nodau a gynhyrchwyd	Dileadau	Cliciadau	Cyrchu Testun	Cyfanswm Gweithrediadau
1	536	62	12	206	816	19	35	5	114	173
2	386	70	10	5	471	6	19	5	61	91
3	516	41	5	2	564	35	23	8	17	83
4	1017	67	8	77	1169	101	127	17	148	393
5	331	12	4	0	347	50	35	3	22	110
6	373	73	9	87	542	62	34	3	49	148
7	510	77	1	40	628	91	43	6	125	265
8	363	16	3	0	382	48	38	8	8	102
9	482	53	8	119	662	68	38	8	156	270
10	306	22	2	0	330	46	46	13	48	153
11	551	101	5	97	754	50	60	13	88	211
<i>Cyfanswm</i>	<i>5371</i>	<i>594</i>	<i>67</i>	<i>633</i>	<i>6665</i>	<i>576</i>	<i>498</i>	<i>89</i>	<i>836</i>	<i>1999</i>
<i>Cymedr</i>	<i>488</i>	<i>54</i>	<i>6</i>	<i>58</i>	<i>606</i>	<i>52</i>	<i>45</i>	<i>8</i>	<i>76</i>	<i>182</i>
<i>Canolrif</i>	<i>482</i>	<i>62</i>	<i>5</i>	<i>40</i>	<i>564</i>	<i>50</i>	<i>38</i>	<i>8</i>	<i>61</i>	<i>153</i>
<i>Gwriad</i>	<i>187</i>	<i>27</i>	<i>3</i>	<i>64</i>	<i>234</i>	<i>27</i>	<i>28</i>	<i>4</i>	<i>51</i>	<i>91</i>
<i>Safonol</i>										

5.38 DIWEDDGLO: PRIF DDARGANFYDDIADAU: CYFIEITHU AC ADDASU ALLBWN SYSTEMAU TM

Crynhua Tabl 13 isod brif ddarganfyddiadau'r astudiaeth hon mewn perthynas â chyfieithu heb system TM o gymharu â chydweithio â system TM ac addasu cyfatebiaethau rhannol yn y trothwy 70-99%. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma felly'n cyd-fynd ag ymchwil O'Brien (2007b) mewn perthynas â chyfatebiaethau rhannol a llawn a'u gallu i leihau'r Ymdrech Wybyddol wrth gyfieithu.

Tabl 13: Prif Ddarganfyddiadau Arbrawf 1 Rhan II

Prif Ddarganfyddiadau				
Rhif	Darganfyddiad	Model Ystadegol a Ddefnyddiwyd	Canlyniad y Prawf	Canlyniad
1.	Gall addasu allbwn y system TM leihau'n sylweddol yr ymdrech wybyddol a fu ynghlwm wrth y broses cyfieithu broffesiynol.	Mann-Whitney (Dwy Gynffon)	$p = .001$	Derbyniwyd
2.	Mae addasu allbwn system y TM yn broses ysgrifennu fwy anllinellol mewn perthynas â phrosesau cynhyrchu testun.	Mann-Whitney (Dwy Gynffon)	<i>Clicadau</i> $p = .025$ <i>Trawiadau Cyrchu</i> $p = .014$	Derbyniwyd
3.	Wrth ddefnyddio allbwn y system TM, gwelwyd lleihad yn nifer y nodau alffaniwmerig, ac o ganlyniad yn nifer y geiriau, y bu angen eu cynhyrchu.	Mann-Whitney (Dwy Gynffon)	$p = .001$	Derbyniwyd

Gall defnyddio technoleg cyfieithu i gyfieithu felly leihau'r ymdrech wybyddol a lleddfu'r prosesau cynhyrchu testun, fel y rhagdybiwyd. Ond a all yr arbedion ymdrech hyn *gyflymu* cyfieithu hefyd? Eir ymlaen yn awr i ystyried hyn yn y rhan nesaf wrth ddadansoddi cynhyrchedd cyfieithwyr.

6 YR ARBRAWF AR GYNHYRCHEDD

Direct comparisons between a system's raw output and human translation are therefore pointless; as MT is a production tool, its capacity to increase or speed up production, within acceptable cost parameters, is the only valid measure of its effectiveness.

Newton (1992, t. 4)

The issue is whether the rough draft GT [GTrans] creates for you is good enough that editing it is not more time-consuming than creating that rough draft yourself.

Robinson (2013, t. 39)

Trafodir yn y bennod hon pam y penderfynwyd ymchwilio'n ddyfnach i gynhyrchedd a pha ragdybiaethau rhagfynegol perthnasol a osodwyd i'w profi. Wedyn, eir i'r afael â sut y dyluniwyd yr arbrawf i fesur cynhyrchedd cyfieithwyr proffesiynol, ynghyd â thrafod y gwiriadau a roddwyd yn eu lle i sicrhau bod y canlyniadau yn ddilys a bod modd cyffredinoli yn eu sgil. Yn olaf, trafodir canlyniadau'r ail arbrawf hwn.

6.1 PAM CYNHYRCHEDD?

Mae faint o eiriau y gall cyfieithydd ei gynhyrchu fesul uned benodol o amser (e.e. fesul munud, fesul awr, fesul diwrnod gwaith, yn ystod hynt prosiect cyfieithu) yn bwysig i gyfieithwyr. Ffon fesur cyfieithydd defnyddiol mewn cyd-destun proffesiynol, yn gam neu'n gymwys, yw ei *gynhyrchedd*. Mae hynny yr un mor berthnasol i gyfieithwyr a gyflogir gan unedau cyfieithu mewnol a chwmnïau cyfieithu ag ydyw i gyfieithwyr llawrydd. Er bod ansawdd eu cyfieithiadau yn hollbwysig, hawdd cytuno â Robinson (2012, t. 32) "There can be no doubt, however, that in most areas of professional translation, speed is a major virtue". Gall cynhyrchedd cyfieithydd fod yn un o'i

ddangosyddion perfformiad allweddol felly, ac yn ôl y ffon fesur hon y mae defnyddioldeb MT a TM yn debygol o gael eu gwerthuso gan eu darpar ddefnyddwyr.⁷⁹ Gan adael ansawdd tan ran olaf y traethawd ymchwil hwn, mae dadansoddi gallu technoleg cyfieithu i gynyddu cynhyrchedd cyfieithwyr o'r pwys mwyaf wrth werthuso lle'r dechnoleg honno ym mhrosesau cyfieithu proffesiynol cyfieithwyr y Gymraeg. Ond ar wahân i bwysigrwydd cynhyrchedd i'r cyfieithydd proffesiynol ei hun, mae ymchwilio i gynhyrchedd yn allweddol am dri rheswm ychwanegol. Yn gyntaf oll, mae faint o eiriau y mae modd i gyfieithydd unigol ei gynhyrchu o ddiddordeb i gomisiynwyr cyfieithiadau, sef y grŵp amrywiol o bobl yng Nghymru sy'n archebu cyfieithiadau ac yn talu amdanynt. Dadleuwyd ym Mhennod 2 fod cyfieithu i'r Gymraeg yn ddiwydiant sydd wedi tyfu ers ei ddechreuadau yn y 1960au; mae cynllunwyr iaith bellach yn dibynnu i raddau ar gyfieithwyr i sicrhau lle teilwng i'r iaith yn y dirwedd ieithyddol ac wrth sicrhau bod modd i'w sefydliadau gydymffurfio â safonau iaith Mesur y Gymraeg (2011). Gellid disgwyl felly i'r rhai sydd mewn cyswllt parhaus â chyfieithwyr ac sy'n gyfrifol am gynllunio bod cyfieithiadau ar gael fod â diddordeb mewn technoleg cyfieithu, a sut y gall gynorthwyo cyfieithwyr i gynhyrchu rhagor. Yn ail, amlygwyd y berthynas rhwng cyfieithu a chynllunio ieithyddol eisoes a sut y mae cyfieithu yn hanfodol i'r broses o normaleiddio ieithyddol yng Nghymru. Mae cynhyrchedd yn berthnasol iawn yma; pe gellid *cyfieithu rhagor*, gellid *rhoi rhagor* o Gymraeg yn nhirwedd ieithyddol Cymru. Yn olaf, mae'r honiad y gall MT a systemau TM arwain at gynnydd yng nghynhyrchedd cyfieithwyr yn ddigon cyffredin erbyn hyn. Fel y dywed Daelemans a Hoste (2009, t. 9), bron yn ddiamynedd, "commercial translation tools such as translation memories and

⁷⁹ Mae Newton (1992, t. 4) yn datgan yn hyderus "if its use [MT] can be shown to increase productivity and/or reduce costs, it is clearly advantageous; if it fails to do either, it is a white elephant". Enghraifft yw hon o bwysigrwydd cynhyrchedd fel metrig wrth werthuso MT mewn cyd-destun proffesiynol, a byddai hyn yr un mor wir yng nghyd-destun systemau TM hefyd.

translation workbenches are widely used and their developers claim usefulness in terms of productivity, consistency or quality. However, these claims are rarely proven using objective comparative studies". Mae cynnal astudiaeth gymharol, wrthrychol felly yn hanfodol er mwyn honni bod technoleg cyfieithu yn ddefnyddiol. Gwneir hynny yn y traethawd hwn, gan roi gallu allbwn MT a systemau TM i wella cynhyrchedd mewn cyddestun proffesiynol ar brawf.

6.2 NEWIDYNNAU DIBYNNOL A RHAGDYBIAETHAU

Yn dilyn yr hyn a wnaed ar gyfer yr arbrawf a gynhaliwyd ar ymdrech wrth gyfieithu a defnyddio technoleg cyfieithu mewn penodau blaenorol, disgrifir isod y newidynnau dibynnol a ddefnyddiwyd a'r rhagdybiaethau rhagfynegol cysylltiedig. Y newidyn annibynnol, unwaith yn rhagor, yw'r defnydd o allbwn systemau TM a MT ai peidio. Yn wahanol i wybyddiaeth cyfieithu ac agweddau ar gynhyrchu testun, nid yw disgrifio'n fanwl y theori gefndirol yn angenrheidiol. Nodwyd eisoes fod lleihad yn y newidynnau sy'n gysylltiedig ag ymdrech yn plethu â'i gilydd gan alluogi cynnydd mewn cynhyrchedd, ond mae ymdrech wedi derbyn sylw eisoes. Mewn perthynas â chynhyrchedd a'r metrig Geiriau fesul Munud, defnyddir y byrfodd cyffredin 'WPM', o'r Saesneg '*Words per Minute*'. Dengys Tabl 14 pa newidynnau a fesurwyd.

Tabl 14: Newidynnau Dibynnol Cynhyrchedd

Newidynnau Dibynnol Cynhyrchedd	
Newidyn Dibynnol	Disgrifiad
<i>Amser</i>	
Cyflymder Prosesu Cyffredinol yn ôl categori cyfatebiaeth	Yr amser a gymerwyd gan bob cyfranogwr ar gyfartaledd i orffen pob cyfatebiaeth, segment MT a chyfieithiad dynol
Cyflymder Prosesu pob cyfranogwr yn ôl categori cyfatebiaeth	Yr amser a gymerwyd gan bob cyfranogwr <i>yn unigol</i> ar gyfartaledd i orffen pob cyfatebiaeth, segment MT a chyfieithiad dynol
<i>Geiriau fesul Munud (WPM)</i>	
WPM Cyffredinol yn ôl categori cyfatebiaeth	Metrig wedi ei safoni i fesur faint o eiriau a gynhyrchwyd fesul math o segment gan bob cyfranogwr
WPM pob cyfranogwr yn ôl categori cyfatebiaeth	Metrig wedi ei safoni i fesur faint o eiriau a gynhyrchwyd fesul math o segment gan bob cyfranogwr <i>yn unigol</i>

Amlinellir isod y set o ragdybiaethau a osodwyd mewn perthynas â chyfieithu proffesiynol, cynhyrchedd a thechnoleg cyfieithu. Yn ogystal ag ymchwilio i gynhyrchedd cyfieithwyr yn gyffredinol, penderfynwyd y byddai'n fuddiol dadansoddi hefyd unrhyw berthynas rhwng allbwn systemau TM a systemau MT. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 5, penderfynwyd mai gwell er lles dilysrwydd mesurol fyddai gadael ystyriaeth o amser tan yr arbrawf ar gynhyrchedd. Gan fod y teclyn ymchwil a ddefnyddiwyd i gasglu data cynhyrchedd yn medru cynaeafu data fesul segment mewn eiliadau, bydd yr Ymdrech Amseryddol, sydd mewn gwirionedd yn gyfuniad o'r ddwy ymdrech arall sydd wedi derbyn sylw eisoes,⁸⁰ bellach yn cael ei hystyried ar y cyd â WPM. Manylir isod ar sail y rhagdybiaethau rhagfynegol hyn. Wrth gynnal yr adolygiad o'r llenyddiaeth, penderfynwyd eithrio trafodaeth o astudiaethau lle mae myfyrwyr cyfieithu neu

⁸⁰ Er y pennir yr Ymdrech Amseryddol gan yr Ymdrech Wybyddol a Thechnegol, ni olyga hyn fod yr Ymdrech Wybyddol a Thechnegol o reidrwydd yn gyfartal. Eto felly, mae eu mesur ar wahân yn hanfodol oherwydd hyn.

unigolion di-brofiad eraill wedi cymryd rhan, sef Koehn (2009), Daems *et al.* (2013), De Sousa *et al.* (2011), Lee a Liao (2011), Yamada (2012), Vázquez *et al.* (2013) a Depraetere *et al.* (2014). Cytunir yma â Saldanha ac O'Brien (2013, t. 33), "What should be avoided are claims regarding professionals or their behaviour when the study has not been carried out in an ecologically valid way", h.y. trwy recriwtio pobl ddwyieithog nad ydynt yn gyfieithwyr. Nodir serch hynny fod y defnydd o systemau TM a MT hefyd wedi cyflymu cyfieithu yn yr astudiaethau hyn. Seiliwyd rhagdybiaethau'r rhan hon o'r ymchwil serch hynny ar yr astudiaethau canlynol: Lange a Bennett (2000), O'Brien (2006, 2007a), Offersgard *et al.* (2008), Brkić *et al.* (2009), Groves a Schmidtke (2009), Guerberof (2009, 2012, 2014a), Flourney a Duran (2009), Kanavos a Kartsaklis (2010), Plitt a Masselot (2010), Skadiņš *et al.* (2011), Federico *et al.* (2012), Green *et al.* (2013), Läubli *et al.* (2013), Aranberri *et al.* (2014), Elming *et al.* (2014), Moran *et al.* (2014), Silva (2014), Zhechev (2014), Uswak (2014) a Carl *et al.* (2015). Trafodir y rhain isod.

Mewn astudiaeth achos o brosiect peilot yng Nghwmni Baan yn yr Almaen, mae Lange a Bennett (2000) yn disgrifio sut y cynyddwyd cynhyrchedd uned gyfieithu'r cwmni trwy integreiddio system MT ar sail rheolau (Logos) â'r llif gwaith a'r system TM (Star Transit). Cyfieithu rhwng yr Almaeneg a'r Saesneg sydd dan sylw yn erthygl Lange a Bennett, ond ni nodwyd faint o gyfieithwyr a gyfrannodd ddata ar gyfer eu canlyniadau. Gan nodi pwysigrwydd hyfforddi staff i ddefnyddio'r dechnoleg yn gyntaf, noda Langa a Bennett (2000, t. 208) fod y defnydd o MT a TM wedi gwella cynhyrchedd cyfieithwyr y cwmni yn sylweddol, a'u bod yn disgwyl i dros ddwy filiwn o eiriau MT gael eu cyhoeddi yn y blynyddoedd i ddod.

Mewn arbrawf rheoledig a gynhaliwyd ar gyfer ei doethuriaeth, defnyddiodd O'Brien (2006, 2007a) ddyluniad ymchwil rhyng-grŵpiau i ymchwilio i'r arbedion

technegol ac amseryddol a geir wrth ôl-olygu o gymharu â chyfieithu, gan ddefnyddio Translog i gasglu data.⁸¹ Cyfieithu o'r Saesneg i'r Almaeneg sydd dan sylw gan O'Brien, a chymerodd 12 cyfieithydd proffesiynol ran yn yr arbrawf (tri a gyfieithodd a naw a ôl-olygodd). Canllaw i ddefnyddwyr meddalwedd oedd y deunydd i'w gyfieithu a system MT IBM Websphere a ddefnyddiwyd yn yr arbrawf. Gosododd O'Brien derfyn amser o ddwy awr i bob cyfieithydd i gwblhau'r testun, ond ni chaniatawyd iddynt adolygu'r gwaith wedi gorffen. Gorffennodd bron pob ôl-olygydd y gwaith o fewn yr amser a ganiatawyd (heblaw am un a oedd yn brin o 16 gair), ond ni chwblhawyd y gwaith mewn pryd gan yr un o'r cyfieithwyr. Mewn perthynas â geiriau fesul munud, canolrif geiriau fesul munud y cyfieithwyr yn y grŵp rheoli oedd 13.63, ond 17.59 oedd pwynt data cyfatebol y rhai a ôl-olygydd yn y grŵp arbrol. Yn yr achos hwn felly, cyflymwyd cyfieithu gan y broses ôl-olygu, er y dylid cofio na chaniatawyd i'r cyfieithwyr adolygu eu gwaith ar ôl gorffen ac nad yw O'Brien wedi cynnwys asesiad ansawdd o'r testunau cyfieithiedig fel bod modd dilysu'r canlyniadau.⁸²

Edrydd Offersgaard *et al.* (2008) ar waith ymchwil a gynhaliwyd mewn cwmni iaith yn Nenmarc. Gan gyfieithu o'r Saesneg i'r Ddaneg ddeunydd am ffonau symudol (250 o frawddegau), cyfrifodd Offersgaard *et al.* (2008, t. 156) y cynyddodd cynhyrchedd y cyfieithwyr gan 67% wrth ôl-olygu o gymharu â chyfieithu gan ddefnyddio system TM yn unig.

Dadansoddodd Brkić *et al.* (2009) gyfieithu o'r Saesneg i Groateg, ac ymchwiliasant i system TM Déjà Vu a'i gallu i gyflymu cyfieithu. Yn seiliedig ar ddau

⁸¹ Ar gyfer trafodaeth o ganlyniadau'r cyhoeddiad hwn ar gyfer yr Ymdrech Dechnegol, gweler Adran 4.10 y traethawd hwn.

⁸² Dywed serch hynny "...the general impression is that the post-edited products are of a relatively high and acceptable quality", cyn nodi "the reader can make a judgement for him/herself regarding the quality of the output" (O'Brien 2007a, t. 90).

gyfieithydd proffesiynol yn cyfieithu tri thestun am gamerâu yn y system (ni ddatganwyd faint o eiriau), arbedwyd cyfanswm o 7 munud wrth ddefnyddio TM o gymharu â chyfieithu hebdo.

Mae Groves a Schmidtke (2009) yn trafod sut y mae Microsoft yn manteisio ar system MT yn eu llifoedd gwaith gan ddefnyddio system Microsoft Treelet. Mae'r system hon yn gweithio ar sail ystadegau ond mae hefyd yn manteisio ar wybodaeth gystrawennol. Wrth fesur unrhyw gynnydd mewn cynhyrchedd, defnyddia Microsoft fetrig sydd ychydig yn llai technegol nag y byddir o bosibl yn ei ddisgwyl, lle mae gofyn i gyfieithwyr proffesiynol gofnodi'r amser a gymerwyd i gyfieithu dogfen, ar ôl cyfieithu neu ôl-olygu. Mae hyn yn ei wneud yn bosibl mesur gwaelodlin cyflymder y cyfieithwyr, y gellir ei ddefnyddio wedyn i gymharu eu cyflymder ôl-olygu ag ef. Yn ogystal â hyn, mesurir cynhyrchedd cyfieithwyr sydd â chynhyrchedd canolig, cyfieithwyr â chynhyrchedd uchel (oherwydd profiad helaeth) a chyfieithwyr â chynhyrchedd isel (pobl sy'n newydd i ryw brosiect). Gwneir hyn i sicrhau bod y canlyniadau terfynol mor gynrychioliadol â phosibl. Trwy ddefnyddio'r dull hwn, mae Microsoft wedi cyfrifo'r cynnydd canlynol mewn cynhyrchedd fesul iaith ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys deunydd ar gyfer 'Help' ac 'Office Online': Ffrangeg – 14.5%, Portiwgaleg Brasil – 20%, Swedeg – 8%, Daneg – 28.6%, Tsieceg – 6.1% ac Iseldireg – 14.7%. Ar gyfer deunydd 'Microsoft Developer Network' a 'TechNet', a chan ddefnyddio'r un fethodoleg, cyfrifwyd cynnydd mewn cynhyrchedd o 6.6% ar gyfer Ffrangeg, 5.9% ar gyfer Tsieinëeg (wedi'i symleiddio) ac 16% ar gyfer Almaeneg. Gan mai cwmni o'r UDA yw Microsoft, fe gymerir yn ganiataol mai o'r Saesneg i'r ieithoedd hyn y cyfieithid, er na nodir hyn yn yr erthygl.

Mae Ana Guerberof o Brifysgol Rovira i Virgili, Catalwnia, wedi cyfrannu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o gynhyrchedd a'i berthynas â thechnoleg cyfieithu. Yn ei

hastudiaeth o 2009, prosesodd 8 cyfieithydd 265 o eiriau heb unrhyw allbwn o systemau MT a TM, 264 o eiriau o gyfatebiaethau rhannol (defnyddiwyd SDL Trados i greu'r cyfatebiaethau) a 262 o eiriau a gyfieithwyd yn awtomatig (gan system ystadegol a grëwyd ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio Language Weaver).⁸³ Dadansoddwyd cyfieithu o'r Saesneg i'r Sbaeneg a deunydd am feddalwedd a ffurfiodd y testunau ffynhonnell. Gwnaed y gwaith mewn teclyn ar-lein a fedr gofnodi'r amser a gymerwyd i brosesu segment mewn milieiliadau. Gan ddefnyddio'r amser a gofnodwyd gan y teclyn, cyfrifodd Guerberof eiriau fesul munud yr wyth cyfieithydd proffesiynol a gyfieithodd o dan bob amod (defnyddiwyd deunydd gwahanol ar gyfer pob segment, fel y gwneir yn yr arbrawf cynhyrchedd cyfredol). Dengys ei chanlyniadau fod pedwar allan o'r wyth cyfieithydd yn gyflymach wrth ddefnyddio MT, bod dau yn gyflymach wrth gyfieithu heb dechnoleg cyfieithu a bod dau yn gyflymach wrth ddefnyddio'r cyfatebiaethau rhannol. Ar lefel gyffredinol, cynhyrchodd pob cyfieithydd 13 gair fesul munud wrth ôl-olygu, 12 wrth ddefnyddio'r cyfatebiaethau rhannol ac 11 wrth gyfieithu heb unrhyw allbwn. Wrth gymharu'r cynnydd mewn cynhyrchedd wedi ei fynegi ar ffurf canran, cynyddwyd cynhyrchedd y cyfieithwyr o 25% wrth ôl-olygu o gymharu â chyfieithu, ac o 11% wrth ddefnyddio'r cyfatebiaethau rhannol. Ar gyfer ei doethuriaeth, cynhaliodd Guerberof (2012) arbrawf rheoledig tebyg, eto gan ddadansoddi cyfieithu o'r Saesneg i'r Sbaeneg. Cyhoeddwyd y canlyniadau hyn wedyn yn *Machine Translation* (2014b). Recriwtiwyd 24 cyfieithydd proffesiynol ar gyfer yr astudiaeth, ac fe'u talwyd am eu hamser. Gwnaed y gwaith mewn teclyn ar-lein sy'n mesur data amseryddol wrth gyfieithu, sef teclyn a ddatblygwyd gan CrossLang. Seiliwyd arbrawf Guerberof (2012) ar 21,600 o frawddegau. Er na fedrodd ddod o hyd i debygrwydd ystadegol rhwng yr amser a fuddsoddwyd yn

⁸³ Mae Language Weaver yn system sy'n creu peiriannau cyfieithu SMT ar sail testunau a gyfieithwyd yn y ddwy iaith.

cywiro'r cyfieithiadau awtomatig a'r amser a fuddsoddwyd yn cywiro'r cyfatebiaethau rhannol (yn yr amrediad 85-94%), darganfu wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y segmentau na ddarparwyd unrhyw allbwn ar eu cyfer a'r segmentau lle bu angen cywiro'r allbwn o'r systemau TM a MT (Guerberof 2012, t. 123). Golyga hyn fod cynhyrchedd y cyfieithwyr (wedi ei fesur yn ôl yr amser a dreuliwyd yn cyfieithu mewn milieiliadau) wedi cynyddu'n sylweddol wrth ddefnyddio technoleg cyfieithu. Mewn cyhoeddiad diweddarach, mae Guerberof (2014) hefyd yn mynd i'r afael â pherthynas profiad cyfieithu â thechnoleg a chynhyrchedd, gan ddadlau nad yw profiad yn effeithio ar gynhyrchedd cyfieithwyr wrth ddefnyddio technoleg cyfieithu.

Mae Flourney a Duran (2009) yn disgrifio gwaith a wnaed yng nghwmni Adobe Systems, sy'n lleoleiddio eu cynnwys i dros 30 o ieithoedd. Mewn dau brawf peilot, ymchwiliodd Flourney a Duran o'r cwmni i'r cynnydd mewn cynhyrchedd y gellid ei weld pe defnyddid MT ac ôl-olygu o gymharu â chyfieithu traddodiadol. Yn eu harbrawf cyntaf, canolbwyntiwyd ar Ffrangeg, Sbaeneg a Rwsieg. Defnyddiwyd system PROMT, sy'n system RBMT, ar gyfer Rwsieg a chrëwyd system SBMT ar gyfer Sbaeneg a Rwsieg gan ddefnyddio meddalwedd Language Weaver. Cyfieithwyd deunydd am gynnyrch Flash Adobe, a mesurwyd yr amser a gymerwyd i gyfieithu'r deunydd hwn o gymharu â'i ôl-olygu. Mae Flourney a Duran (2009, t. 2) yn nodi bod y systemau hyn ac ôl-olygu eu hallbwn wedi cyflymu cyfieithu. Gan gyfeirio at faint y mae disgwyl i gyfieithydd ei gynhyrchu bob dydd, sef rhyw 2,500 o eiriau yn ôl yr awduron, ac o nodi bod y cyfieithwyr wedi cymryd 70 munud i gyfieithu 2,500 o eiriau wrth ddefnyddio system PROMT a 115 munud wrth ddefnyddio'r system a grëwyd trwy Language Weaver, honna'r awduron (t. 2) fod cynhyrchedd y cyfranogwyr wedi cynyddu seithplyg gan ddefnyddio PROMT a phedwarplyg gan ddefnyddio system Language Weaver. Yn yr ail arbrawf peilot, cyfieithwyd deunydd a gyhoeddwyd wedyn yn rhan o prosiect lleoleiddio go iawn. Gan

seilio’u canlyniadau ar gyfieithu o’r Saesneg i’r Rwsieg a’r Ffrangeg, ac ar brosiect a gynhwysodd 1.5 miliwn o eiriau, honna’r awduron (t.2) fod ôl-olygu wedi cynyddu cynhyrchedd y cyfieithwyr o 40-45%.

Mae Kanavos a Kartsaklis (2010) yn cyflwyno canlyniadau sy’n seiliedig ar arbrawfychydig yn wahanol i’r rhai uchod, lle cymharwyd cyflymder cyfieithwyr (wedi’i fynegi fel nifer y geiriau a gynhyrchwyd fesul awr) wrth ddefnyddio systemau TM a systemau TM ac MT yn yr un llif gwaith. Eu nod felly oedd darganfod a fedr integreiddio systemau MT mewn teclynnau TM fod o fudd ymarferol i’r cyfieithydd a chynyddu cynhyrchedd. Cyfieithu o’r Saesneg i Roeg sydd dan sylw yn eu papur, recriwtiwyd cyfieithwyr proffesiynol (ni ddatganwyd faint) ac mae eu canlyniadau’n seiliedig ar brosiect go iawn lle cyfieithwyd dau lyfr a gyhoeddwyd wedyn. Defnyddiwyd systemau TM Swordfish-II a Wordfast Pro yn eu harbrefion, ynghyd â systemau SMT a grëwyd trwy feddalwedd Moses a fersiwn RBMT o Systran. Wrth ddod i’w casgliadau, dywed Kanavos a Kartsaklis (2010), “All workflows presented in this work lead to the conclusion that machine translation, either statistical or rule-based, has already matured and can increase substantially the productivity of professional translators”.

Ymchwiliodd Plitt a Masselot (2010) i allu MT i gynyddu cynhyrchedd, gan ddefnyddio cynhyrchedd wrth gyfieithu yn waelodlin. Gan gyfieithu o’r Saesneg, yr ieithoedd dan sylw yn yr astudiaeth hon gan gwmni Autodesk oedd Ffrangeg, Eidaleg, Almaeneg a Sbaeneg. Recriwtiwyd dau gyfieithydd proffesiynol i bob iaith. Casglwyd y data dros gyfnod o ddau ddiwrnod, lle casglwyd y data cyfieithu ar y diwrnod cyntaf er mwyn cyfrif y gwaelodlin a’r data ôl-olygu ar yr ail ddiwrnod. Proseswyd 144,648 o eiriau, a chasglwyd y data amseryddol mewn teclyn a ddyluniwyd yn arbennig ar gyfer yr arbrefion. Mae’r teclyn hwn yn debyg iawn i’r un a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth

gyfredol gan TAUS. Defnyddiwyd meddalwedd Moses i greu system SMT, gan hyfforddi'r system ar ddata'r cwmni o'r flwyddyn flaenorol (felly 2009). Hyfforddwyd y system felly ar ddata perthnasol. Dengys eu canlyniadau y cafodd cynhyrchedd pob cyfieithydd ei gynyddu ar gyfer pob iaith, er bod cryn amrywiaeth rhwng y data ar gyfer cyfieithwyr unigol, sef amrediad rhwng 20% i 131%. Maent hefyd yn dadlau mai'r cyfieithwyr arafaf a gafodd y budd mwyaf o'r MT ac ôl-olygu.

Mae Skadiņš *et al.* (2011) yn gwerthuso eu system MT a ddatblygwyd ar gyfer cyfieithu o'r Saesneg i'r Latfieg, a hynny yng nghyd-destun prosiect lleoleiddio go iawn a gynhwysodd 46 tasg. Gan integreiddio eu system â system TM SDL Trados 2009, darganfu Skadiņš *et al.* y cynyddodd cynhyrchedd cyfieithwyr y cwmni o 32.9%, o 550 gair fesul munud (y gwaelodlin heb MT) i 731 gair fesul munud.

Mae Federico *et al.* (2012), fel Kanavos a Kartsaklis (2010) hwythau, yn dadansoddi'r cynnydd mewn cynhyrchedd y gellir ei wireddu ped ychwanegid MT at y llif gwaith gyda TM. Yn debyg i'r fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth gyfredol, defnyddia Federico *et al.* (2012) GTrans fel system MT ac SDL Trados i greu'r cyfatebiaethau rhannol. Cymerodd 12 cyfieithydd ran yn eu hastudiaeth, a chyfieithodd 6 o'r Saesneg i'r Almaeneg a 6 o'r Saesneg i'r Eidaleg. Proseswyd deunydd o ddwy bau, sef deunydd o'r sector gyfreithiol a deunydd o'r sector dechnoleg *gwybodaeth*. Yn rhan gyntaf yr arbrawf, cyfieithwyd dwy ddogfen (un o bob pau) gan ddefnyddio'r cyfatebiaethau rhannol a gynigiwyd. Yn yr ail ran, lle proseswyd dwy ddogfen wahanol, ychwanegwyd hefyd y system MT (GTrans). Seiliwyd yr arbrawf ar 92,658 o eiriau. Cynyddodd cynhyrchedd pob cyfieithydd ymhob pau ac ar gyfer y ddwy iaith (Saesneg i Eidaleg ac Almaeneg), gyda'r cynhyrchedd hwnnw yn amrywio rhwng 10-50% (Federico *et al.* 2012, t. 6).

Gan gyd-fynd â darganfyddiadau'r astudiaethau uchod, mae Läubli *et al.* (2013) yn cyflwyno canlyniadau o'u harbrawf hwythau, a ddadansoddodd gyfieithu o'r Almaeneg i'r Ffrangeg, gan ddefnyddio deunydd o'r diwydiant ceir. Nod eu harbrawf oedd darganfod a allai ychwanegu allbwn MT i segmentau nad oes dim deunydd yn y TM ar eu cyfer gyflymu cyfieithu. Er mwyn gwneud hyn, cyfieithodd 6 chyfieithydd gan ddefnyddio'r TM ond heb unrhyw MT yn y rhan gyntaf. Cynhwysodd y TM a ddefnyddiwyd gyfatebiaethau llawn a rhannol. Yn yr ail ran, cyfieithodd y chyfieithwyr gan ddefnyddio'r cyfatebiaethau llawn a deunydd MT yn lle'r cyfatebiaethau rhannol. Ar y cyfan, gwelwyd cynnydd o 15-20% wrth ddefnyddio MT i ôl-olygu *yn ogystal* â'r TM (Läubli *et al.* 2013, t. 90).

Mae Green *et al.* (2013) hefyd yn cymharu cyfieithu ag ôl-olygu mewn arbrawf rheoledig. Cymerodd 16 chyfieithydd ran yn eu hastudiaeth rhyng-grŵpiau, ac ymchwiliwyd i gyfieithu o'r Saesneg i'r Arabeg, Ffrangeg a'r Almaeneg. Deunydd o Wicipedia a gyfieithwyd. Darganfu Green *et al.* (2013, t. 7) wahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl yr ANOVA dwyffordd a ddefnyddiwyd rhwng yr amser a gymerwyd i gyfieithu a'r amser a gymerwyd i ôl-olygu, sef $p = 0.01$ ar gyfer Arabeg, $p = 0.01$ ar gyfer Ffrangeg a $p = 0.001$ ar gyfer Almaeneg.

Mae Aranberri *et al.* (2014) yn cyflwyno canlyniadau o safbwynt cyfieithu o'r Sbaeneg i'r Fasgeg, ac yn cymharu'r arbedion amseryddol posibl a geir wrth ôl-olygu o gymharu â chyfieithu a hynny ar gyfer defnyddwyr lleyg a chyfieithwyr proffesiynol. Cymerodd 6 chyfieithydd a 6 defnyddiwr lleyg (darlithwyr cyfrwng Basgeg sy'n cyfieithu deunydd dysgu o'r Sbaeneg) ran yn yr arbrawf. Gwnaed y tasgau yn y '*Bologna Translation Service*' (BTS), sef rhyngwyneb cyfieithu a grëwyd yn rhan o brosiect gan yr Undeb Ewropeaidd. Defnyddiwyd system SMT Saesneg i Fasgeg a grëwyd gan awduron y

papur. Cyfieithwyd dau destun a gynhwysodd tua 1,200 o eiriau yr un. Pwnc y testun cyntaf oedd gwybodaeth am gwrs cyfrifiadureg a chynnwys yr ail destun oedd cyfres o erthyglau gwyddonol byrion. Defnyddiwyd dyluniad rhyng-grŵpiau yn yr arbrawf hwn, fel y gwnaed yn Green *et al.* (2013) uchod. Medr y BTS gofnodi faint o amser a gymerwyd yn prosesu segmentau unigol, felly defnyddiwyd y data amseryddol hyn i fesur cynhyrchedd y cyfranogwyr yn y ddwy amod. Llwyddodd y cyfieithwyr i wella eu cynhyrchedd wrth ôl-olygu Testun A o gymharu â'r rhai a'i cyfieithodd a hynny gan 28.8%, a chan 6.06% yn achos Testun B.

Fel rhan o brosiect a gyllidwyd gan yr Undeb Ewropeaidd i ymchwilio i brosesau gwybyddol cyfieithwyr wrth gyfieithu ac i ddylunio meddalwedd cyfieithu ddeallus ar sail hyn, crëwyd meddalwedd CASMACAT (Elming 2014 *et al.*). Gan ddefnyddio'r feddalwedd hon, edrydd Elming *et al.* (2014) ar ganlyniadau sawl arbrawf a gynhaliwyd, gan gynnwys mesur cyflymder cynhyrchu cyfieithwyr wrth gyfieithu ac ôl-olygu MT. Gan ddadansoddi amser prosesu 5 cyfieithydd wrth ôl-olygu a chyfieithu set o 145 o frawddegau mewn CASMACAT o'r Saesneg i'r Sbaeneg, gwelwyd bod pob cyfieithydd a gymerodd ran wedi gwella'i gynhyrchedd wrth ôl-olygu, ac mai 25% oedd yr arbediad amseryddol ar gyfartaledd.

Mewn ymgais i werthuso'u teclyn a fedr amseru'r broses cyfieithu fesul segment, sef iOmegaT, mae Moran *et al.* (2014) yn manylu ar brosiect a wnaed ag ef i fesur cynhyrchedd cyfieithwyr. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod, cyfieithodd dau gyfieithydd ddeunydd Saesneg i 11 o ieithoedd gwahanol, felly cymerodd cyfanaswn o 22 cyfieithydd ran yn yr arbrawf. Deunydd o'r sector gyfrifiadureg a ddefnyddiwyd. Gan ystyried hefyd amser a dreuliwyd yn mynd trwy'r testunau eto wrth adolygu, ar gyfartaledd cynyddodd cynhyrchedd y cyfieithwyr o 54%.

Yn wahanol i nifer o'r cyhoeddiadau a drafodir uchod, edrydd Silva (2014) ar ganlyniadau o astudiaeth hydredol a wnaed yn ei gwmi masnachol dros gyfnod o ddegawd. Cwmni cyfieithu o Sbaen sydd dan sylw, sy'n arbenigo mewn cyfieithu rhwng y Sbaeneg a'r Saesneg. Oherwydd cymhlethdod mesur cynhyrchedd cyfieithwyr unigol dros gyfnod hir iawn, ac oherwydd mai cyfieithwyr llawrydd oedd y rhan fwyaf o gyflogeion y cwmni dan sylw, dewiswyd dau ddangosydd perfformiad allweddol gwahanol i'r arfer,⁸⁴ sef hynt amseryddol cyfartalog prosiectau⁸⁵ (nifer y diwrnodau y mae prosiect yn fyw), a chynhyrchedd o gymharu â hynt amseryddol prosiectau.⁸⁶ Mae Silva (2014, tt. 42-47) yn esbonio sut y gostyngai hynt amseryddol prosiectau dros gyfnod o ddeg mlynedd wrth i'r defnydd o MT yn y cwmni gynyddu, ac mae hefyd yn taflu goleuni ar y cynnydd cyffredinol mewn cynhyrchedd a gafwyd yn raddol hefyd dros yr un cyfnod. Wrth gymharu nifer y geiriau a gynhyrchwyd ar gyfartaledd mewn prosiectau lle na ddefnyddiwyd MT o gymharu â phrosiectau a fanteisiodd ar MT, nodi Silva (2014, t. 44) y gwelodd gynnydd o 86.90% mewn cynhyrchedd wrth ddefnyddio MT.

Mae Zhechev (2014) yn cyflwyno canlyniadau o arbrawf cynhyrchedd arall a wnaed yng nghwmni Autodesk. Ymchwiliodd Zhechev i 12 iaith, sef Almaeneg, Sbaeneg, Ffrangeg, Eidaleg, Siapaneg, Coreëg, Pwyleg, Portiwgaleg Brasil a Tsieinëeg (wedi'i symleiddio), a recriwtiwyd pedwar cyfieithydd ar gyfer pob iaith. Cynhaliwyd yr arbrawf dros gyfnod o ddau ddiwrnod, a chyfieithu o'r Saesneg i'r ieithoedd hyn sydd dan sylw gan Zhechev. Mewn perthynas â'r gwaelodlin cyfartalog, cynyddodd cynhyrchedd fesul iaith gan y canrannau a ganlyn wrth ôl-olygu: Ffrangeg — 92.33%, Coreëg — 81.93%,

⁸⁴ Key performance indicators.

⁸⁵ Average lead time of projects.

⁸⁶ Productivity versus lead time of projects.

Eidaleg — 63.60%, Portiwgaleg-Brasil — 63.23%, Sbaeneg — 59.43%, Siapaneg — 59.07%, Tsieinëeg — 58.02%, Almaeneg — 44.94% a Phwyleg — 37.13%.

Mae Uswak (2014) yn darparu tystiolaeth o ddefnydd MT mewn diwydiant, ac yn disgrifio arbrawf a gynhaliwyd yng nghwmni Volkswagen yn yr Almaen. Cymerodd 20 cyfieithydd proffesiynol Saesneg i Almaeneg ran, a chyfieithasant 50 brawddeg heb unrhyw gymorth gan system MT, ac ôl-olygwyd 50 arall. Canllaw trwsio ceir oedd y testun a system cwmni Volkswagen (Lucy) oedd y system MT. Gwnaed y dasg cyfieithu y tu fewn i system SDL Trados Studio 2011. Dengys ei chanlyniadau bod ôl-olygu wedi cynyddu cynhyrchedd y cyfieithwthy (a fesurwyd mewn WPM), ac mai 6.60 oedd WPM y cyfieithwyr ar gyfartaledd wrth gyfieithu, ond 9.86 wrth ôl-olygu.

Mae Carl *et al.* (2015) yn ymchwilio i gyfieithu o'r Saesneg i'r Almaeneg hefyd. Cymerodd deuddeg cyfieithydd ran yr arbrawf hwn a phroseswyd sawl testun yr un (cyfieithwyd dau destun, ôl-olygwyd un arall ac wedyn ôl-olygwyd un arall heb fedru gweld yr IFf (sef ôl-olygu unieithog). Allan o'r deuddeg cyfieithydd a ddarparodd ddata yn yr arbrawf, ar gyfartaledd roedd pob cyfieithydd bron yn gyflymach wrth ôl-olygu nag oeddent yn cyfieithu, heblaw am ddau gyfranogwr.

Yn seiliedig ar yr astudiaethau hyn felly, mae Tabl 15 isod yn manylu ar y rhagdybiaethau rhagfynegol a osodwyd.

Tabl 15: Rhagdybiaethau'r Arbrawf ar Gynhyrchedd

Rhif	Rhagdybiaeth	Disgrifiad
R3a	Bydd y Cyflymder Prosesu Cyffredinol yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau rhannol rhwng 70-99% nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Disgwylir y bydd y defnydd o gyfatebiaethau rhannol yn cynyddu cynhyrchedd yn gyffredinol
R3b	Bydd y Cyflymder Prosesu Cyffredinol yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau llawn nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Disgwylir y bydd y defnydd o gyfatebiaethau llawn yn cynyddu cynhyrchedd yn gyffredinol
R3c	Bydd y Cyflymder Prosesu Cyffredinol yn uwch wrth brosesu cyfieithiadau awtomatig o system MT nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Disgwylir y bydd y defnydd o allbwn o GTrans yn cynyddu cynhyrchedd yn gyffredinol
R4a	Bydd Cyflymder Prosesu unigol <i>pob</i> cyfieithydd yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau rhannol rhwng 70-99% nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Disgwylir y bydd y defnydd o gyfatebiaethau rhannol yn cynyddu cynhyrchedd cyffredinol <i>pob</i> cyfieithydd. Hynny yw, ni fydd unrhyw gyfieithydd yn gweld gostyngiad yn ei gynhyrchedd ac ni fydd ei gynhyrchedd yn ystadegol debyg i'r hyn ydyw wrth gyfieithu heb dechnoleg cyfieithu
R4b	Bydd Cyflymder Prosesu unigol <i>pob</i> cyfieithydd yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau llawn nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Disgwylir y bydd y defnydd o gyfatebiaethau llawn yn cynyddu cynhyrchedd cyffredinol <i>pob</i> cyfieithydd.
R4c	Bydd Cyflymder Prosesu unigol <i>pob</i> cyfieithydd yn uwch wrth brosesu cyfieithiadau awtomatig o system MT nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Disgwylir y bydd y defnydd o allbwn GTrans yn cynyddu cynhyrchedd cyffredinol <i>pob</i> cyfieithydd.
R5a	Bydd WPM Cyffredinol y cyfranogwyr yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau rhannol rhwng 70-99% nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Bydd modd i'r cyfieithwyr gynhyrchu mwy wrth ddefnyddio technoleg cyfieithu nag y cynhyrchant wrth gyfieithu hebddi
R6a	Bydd cydberthyniad ystadegol rhwng Cyflymder Prosesu <i>pob</i> cyfieithydd wrth drin cyfatebiaethau rhannol yn y trothwy 70-99%, a'i Gyflymder Brosesu wrth drin yr allbwn MT	Disgwylir y bydd yr enillion mewn effeithlonrwydd a geir wrth ddefnyddio'r TM yn debyg i'r enillion a geir wrth ôl-olygu allbwn MT

Mae modd mynd ymlaen bellach a disgrifio'n fanwl fethodoleg y rhan hon o'r prosiect a thrafod sut y cynhaliwyd yr arbrawf.

6.3 DYLUNIAD ARBRAWF

Wrth ddadansoddi ymdrech, defnyddiwyd dyluniad 'rhyng-grŵpiau', lle dewiswyd grŵp rheoli a grŵp arbrofol ar hap cyn cymharu'r canlyniadau rhyngddynt. Penderfynwyd mai gwell ar gyfer yr arbrawf hwn fyddai newid dyluniad yr arbrawf a defnyddio dyluniad 'rhyng-gyfranogwyr', a elwir hefyd yn ddyluniad 'ailadrodd mesurau'. Nod dyluniadau ymchwil rhyng-grŵpiau yw cymharu dau grŵp (neu nifer o grŵpiau) â'i gilydd; mae un grŵp o gyfranogwyr yn perfformio tasg heb ymyrraeth (sef y grŵp rheoli, a'r grŵp na chaniatawyd iddo ddefnyddio allbwn o dechnolegau cyfieithu yng nghydestun y traethawd hwn), ac mae un grŵp (neu ragor) sy'n cynnwys *cyfranogwyr gwahanol* wedyn yn derbyn rhyw driniaeth neilltuol. Enw arall ar y driniaeth hon yw'r newidyn annibynnol. Un broblem a gwyd wrth ddefnyddio'r dyluniad ymchwil hwn yw ei bod yn anodd dadansoddi unrhyw wahaniaethau *unigol*; gwahaniaethau ar ffurf canlyniadau'r newidynnau dibynnol ar gyfer pob grŵp yw'r unig wahaniaethau y mae modd eu dadansoddi. Wrth ddadansoddi'r canlyniadau ar ymdrech, daeth i'r amlwg bod amrywiaeth i'w gael y tu fewn i'r grŵp a dderbyniodd y driniaeth. Ysgogodd hyn gwestiwn penodol; a yw pob cyfieithydd yn cael yr un budd o dechnoleg cyfieithu? Mae'n ddigon posibl y bydd cyfieithwyr araf yn gweithio'n well wrth ddefnyddio allbwn TM ac SMT, ond bod cyfieithwyr cyflym, sydd â WPM uchel *beth bynnag*, yn cael llai o fudd o gymharu er enghraifft. O ganlyniad i hyn, penderfynwyd mai defnyddiol fyddai cymharu cyfieithwyr *â'u hunain* o dan bob un o'r amodau. Mae'n bosibl beirniadu'r dyluniad arbrawf hwn a dadlau y byddai'r cyfieithwyr yn cofio'r hyn y cyfieithwyd ganddynt eisoes pe baent yn cyfieithu o dan bob un o'r amgylchiadau. Hynny yw, byddai bygythiad o'r enw 'Effeithiau Ymarfer' yn dod yn berthnasol. Er mwyn datrys y broblem hon, defnyddiwyd segmentau ffynhonnell gwahanol ar gyfer cyfieithu dynol, y cyfatebiaethau rhannol a

llawn a'r allbwn MT. Mae gwneud hyn hefyd yn golygu bod yr hyn a gyfieithwyd yn debycach i brosiect cyfieithu go iawn, gyda chymysgedd o'r TM, allbwn MT a chyfieithu dynol ar gyfer gwahanol segmentau. Sicrhawyd serch hynny fod yr holl segmentau mor debyg i'w gilydd â phosibl o ran pwnc.

6.4 TROSOLWG O'R ARBRAWF AR GYNHYRCHEDD

Cafodd 8 o gyfieithwyr proffesiynol eu recriwtio ar gyfer yr arbrawf ar gynhyrchedd. Roedd pob cyfranogwr yn aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac yn gweithio fel cyfieithydd proffesiynol. Cynhaliwyd peilot gydag un cyfieithydd er mwyn gwirio addasrwydd y canllawiau i gyfranogwyr a dibynadwyedd y feddalwedd a ddefnyddiwyd. Ni chodwyd unrhyw broblemau yn ystod yr arbrawf peilot, felly penderfynwyd peidio â newid y canllawiau i gyfranogwyr nac ychwaith y dyluniad ymchwil gwreiddiol. Yn hytrach na gofyn i gyfranogwyr ddod i ganolfan benodol, defnyddiwyd un o '*DQF Tools*' sefydliad TAUS sy'n mesur cynhyrchedd fesul segment gan ddarparu stamp amser unigol ar ei gyfer (gweler isod). Ar ôl i'r cyfranogwr gytuno i gymryd rhan, anfonwyd ato trwy e-bost ddolen at y feddalwedd. Roedd modd wedyn i'r cyfranogwr gael mynediad at y feddalwedd a dechrau cyfieithu ynddi. Crëwyd un ffeil, a phob un yn cynnwys 100 segment; mae Tabl 16 isod yn crynhoi manylion meintiol y corpws a ddefnyddiwyd. Ar ôl gorffen pob ffeil, crëwyd ffeil .xlsx yn cynnwys cyfieithiadau terfynol y cyfieithwyr a data amseryddol ar gyfer pob segment. Derbyniai'r ymchwilydd e-bost bob tro y gorffennai cyfieithydd ei ffeil unigol.

6.5 DULLIAU SAMPLO

Anfonwyd e-bost gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar ran yr ymchwilydd, a gofynnodd i bob aelod a oedd yn awyddus i gymryd rhan gysylltu trwy e-bost. Cysylltwyd hefyd â saith cwmni cyfieithu masnachol, ac o'r cwmnïau hynny a atebodd, dywedodd pob un nad oedd yn bosibl cymryd rhan ar yr adeg y derbyniwyd yr e-bost. Anfonwyd e-bost ar ran yr ymchwilydd hefyd trwy gyfrwng rhestr e-bost swyddogion iaith ledled Cymru, ac o hyn cafodd negeseuon yn mynegi diddordeb. Arweiniodd hyn at un cyfranogwr ychwanegol. Cytunodd dau i gymryd rhan cyn tynnu'r cynnig yn ôl, gan gyfeirio at brinder amser i wneud y gwaith. Mewn perthynas â meini prawf y broses samplu, yn ddelfrydfol roedd angen bod yn aelod o'r gymdeithas broffesiynol, ac roedd gweithio fel cyfieithydd yn hanfodol. Yn debyg i'r hyn a wnaed ar gyfer yr arbrawf cyntaf, bu raid defnyddio 'samplu hwylus' yn hytrach na samplu ystadegol, oherwydd argaeledd cyfieithwyr a phwysigrwydd cael grŵp o gyfieithwyr mor fawr â phosibl. Eto, ni wahaniaethwyd rhwng aelodau sylfaenol (ag o leiaf ddwy flynedd o brofiad) ac aelodau cyflawn. Mewn perthynas â nifer y cyfranogwyr, dylid nodi bod pedair astudiaeth gyhoeddedig (sef gwaith a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion academiaidd ac fel papur mewn cynhadledd a arferir gan gymheiriaid) wedi defnyddio wyth neu lai o gyfranogwyr hefyd, sef Guerberof (2008), Federico *et al.* (2012), Läubli *et al.* (2013) ac Aranberri *et al.* (2014), a bod Plitt a Masselot (2010) a Moran *et al.* (2014) wedi defnyddio cynlleied â dau gyfieithydd fesul iaith yn eu gwaith hwy.

6.6 CREU'R CORPWS A'R TESTUNAU A DDEFNYDDIWD

Penderfynwyd mai hanfodol fyddai defnyddio testunau go iawn, ac yn achos y cyfatebiaethau rhannol penderfynwyd mai angenrheidiol fyddai sicrhau eu bod yn dod o

TM go iawn yn cynnwys deunydd a gyfieithwyd gan gyfieithydd dynol cymwys. Yn debyg i'r hyn a wnaed yn yr arbrawf cyntaf, lawrlwythwyd ffeil TMX Adnoddau Dynol Bwrdd yr Iaith Gymraeg i SDL Trados 2015. System TM yw SDL Trados 2015. Penderfynwyd bod angen cynrychiolaeth o bob canran y tu fewn i'r trothwy 70-99%, felly crëwyd 10 segment rhwng 70-79%, 10 rhwng 80-89% a 5 rhwng 90-99%. Er mwyn creu'r cyfatebiaethau hyn, cafodd 35 o segmentau Saesneg o'r ffeil TMX eu copïo a'u gludo i ddogfen MS Word. Cafodd pob segment ei newid a'i addasu i wahanol raddau. Wedyn, crëwyd prosiect newydd yn SDL Trados 2015 gyda'r segmentau diwygiedig. Ar ôl cymhwyso TMX Adnoddau Dynol y Bwrdd at y prosiect ac yn dilyn y broses o 'rag-gyfieithu' (Saes. Pre-translate), crëwyd set o segmentau o wahanol ganrannau o gyfatebiaeth. Dewiswyd y nifer angenrheidiol o segmentau ar gyfer pob canran, gan geisio sicrhau bod y segmentau yn dilyn ei gilydd yn rhesymegol o ran pwnc. Pwnc y testun oedd gwyliau blynyddol a pholisïau ynghylch amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch neu anafiadau. Cafodd y segmentau hyn eu copïo a'u gludo i daenlen MS Excel. Cafwyd gwared ar y 10 segment a oedd yn weddill. Yn y daenlen Excel, nodwyd ar ddiwedd pob segment ganran cyfatebiaeth y segment targed i'r segment Saesneg gwreiddiol, fel bod gan y cyfieithydd ryw syniad o debygrwydd y segment i'r Saesneg. Gwnaed hynny er mwyn sicrhau bod y dasg mor debyg â phosibl i arferion gweithio dyddiol cyfieithwyr.⁸⁷ Defnyddiwyd dull gwahanol o ddod o hyd i'r segmentau y gofynnwyd i'r cyfranogwyr eu cyfieithu heb dechnoleg cyfieithu. O wefan sefydliad addysg uwch, cafodd testun am ei

⁸⁷ Mae Teixeira (2011) wedi dangos bod gwybodaeth o darddiad y segment TM a'i debygrwydd i'r IFf yn effeithio ar brosesau cyfieithu cyfieithwyr. Roedd cyfieithwyr nad oeddent yn gwybod beth oedd canran cyfatebiaeth y segment ag amser prosesu hwy na'r cyfieithwyr a gafodd wybod y canran hwnnw yn ei arbrawf. Hynny yw, mae'r gallu i weld tarddiad y segment TM a'i debygrwydd i'r gwreiddiol wedi ei fynegi fel canran yn helpu cyfieithwyr i weithio'n fwy effeithlon, gan nad ydynt yn gorfod buddsoddi amser i'r broses o benderfynu pa mor debyg neu ddefnyddiol mae'r segment targed yn debygol o fod. Oherwydd hyn, nodwyd canran y gyfatebiaeth mewn cromfachau ar ddiwedd pob segment. Gellid dadlau bod hynny hefyd wedi cynyddu dilysrwydd eicolegol yr arbrawf gan fod cyfieithwyr sy'n defnyddio systemau TM yn medru gweld y canrannau hyn. Am drafodaeth o 'feta-wybodaeth' systemau TM, gan gynnwys y math yma o wybodaeth, gweler Teixeira (2014a).

bolisi cydraddoldeb ei gopïo a'i ludo i daenlen Excel. Defnyddiwyd y 25 segment hyn ar gyfer y corpws i'w gyfieithu heb dechnoleg cyfieithu. Sicrhawyd bod y segmentau hyn i gyd yn debyg o ran pwnc. O ganlyniad, ffurfiodd y 25 segment destun rhesymegol ynddynt eu hunain er gwaethaf y segmenteiddio. Mae TMX Adnoddau Dynol y Bwrdd yn TMX llawn sy'n cynnwys cyfatebiaethau llawn; h.y. mae gan bob segment Saesneg gyfieithiad Cymraeg. Cyfieithwyr dynol a greodd bob un o'r segmentau targed hyn. Gan fod y TMX yn cynnwys cyfatebiaethau llawn, cafodd 25 o'r cyfatebiaethau hyn eu copïo a'u gludo i daenlen MS Excel, ynghyd â'r segmentau Saesneg cyfatebol. Pwnc y segmentau hyn oedd polisi goramser a chyrsgiau hyfforddiant o faes Adnoddau Dynol. Yn olaf, defnyddiwyd 25 segment Saesneg o'r un TMX yn destun ffynhonnell, a defnyddiwyd system SMT GTrans i greu 25 segment o MT i'w hôl-olygu, a phwnc y rhain oedd gweithdrefnau cwyno am gydweithwyr a derbyn rhoddion, eto o faes Adnoddau Dynol. Mae corpws yn cynnwys pob un o'r segmentau ffynhonnell a'r allbwn cysylltiedig i'w weld yn Atodiad 10. Mae Tabl 16 yn cynnwys manylion meintiol am y corpws a ddefnyddiwyd. Prosesodd pob cyfranogwr 2,180 o eiriau Saesneg ar draws 100 o segmentau. Proseswyd felly gyfanswm o 800 o frawddegau a 17,440 o eiriau ffynhonnell, ynghyd â 13,977 o eiriau o allbwn TM/MT ar gyfer y rhan hon o'r prosiect ymchwil.

Tabl 16: Manylion meintiol am y corpws a ddefnyddiwyd

Categori'r Gyfatebiaeth	Nifer y Segmentau	Nifer y Geiriau yn y Testun Ffynhonnell	Nifer y Geiriau yn yr allbwn i'w olygu
Dim Cyfatebiaeth	25	481	0
Cyfatebiaethau Llawn	25	329	338
Cyfatebiaethau Rhannol	25	501	511
90-99%	(5)	(114)	(108)
80-89%	(10)	(215)	(214)
70-79%	(10)	(172)	(190)
MT	25	378	393
Cyfanswm	100	2,180	1,754


6.7 CYFEIRIADEDD

Unwaith eto, dadansoddwyd cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, am y rhesymau a amlinellwyd eisoes ym Mhennod 5. Mae ymchwilio i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg yn drywydd pwysig ar gyfer ymchwil bellach serch hynny.

6.8 Y FEDDALWEDD A DDEFNYDDIWDYD

Fel y nodwyd uchod, defnyddiwyd un o declynnau ymchwil sefydliad TAUS o'r enw '*DQF Tools*'. Er mwyn defnyddio'r rhaglen hon, mae gofyn i'r ymchwilydd uwchlwytho'r daenlen Excel a grëwyd sy'n cynnwys y corpws a ddisgrifiwyd uchod. Gall y teclyn hwn fesur faint o amser o dreuliwyd yn cyfieithu segment penodol, a gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo WPM pob cyfranogwr hefyd. Ar ôl anfon y ffeiliau at bob cyfranogwr, maent wedyn yn derbyn e-bost sy'n eu hysbysu bod tasg cynhyrchedd wedi ei dyrannu iddynt. Mae nifer o fanteision i'r dyluniad ymchwil hwn; yn debyg i'r manteision a geir o ddefnyddio'r rhynggrwyd i wneud ymchwil yn gyffredinol (cf. Mellinger (2014) am drafodaeth o gasglu data TPR ym maes Astudiaethau Cyfieithu dros

y we), nid oes disgwyl i'r cyfranogwr ddod i ganolfan, gallant wneud y gwaith unrhyw le yng Nghymru, a hynny mewn amgylchiadau cyffyrddus a chyfarwydd. Mae hyn yn debyg unwaith eto i arferion gweithio nifer fawr o gyfieithwyr y Gymraeg nad ydynt yn gweithio i gwmni mwy neu sefydliad cyhoeddus. Dangosir y segment ffynhonnell ar y cyd â'r segment targed ar yr un pryd. Yn ogystal, dangosir y segment a gyfieithwyd o'r blaen a'r un sydd i'w gyfieithu nesaf, fel bod modd i'r cyfieithydd gyfieithu gan barchu cyd-destun y segment dan sylw. Ar ôl pwyso 'NEXT', mae modd mynd ymlaen i weld y segmentau nesaf. Yn achos addasu'r TM a'r MT, roedd allbwn y TM a'r allbwn MT i'w weld yn y segment targed, ond ar gyfer y cyfieithu dynol roedd y segmentau targed yn wag. Hefyd, roedd modd i'r cyfieithydd gael saib a dychwelyd at y gwaith fel y mynnai trwy bwysu 'PAUSE'. Dengys Ffigur 18 isod ryngwyneb y teclyn a ddefnyddiwyd:



Ffigur 18: Rhyngwyneb Teclyn DQF sefydliad TAUS

Gan fod y teclyn hwn yn medru cofnodi hyd y broses cyfieithu, sgoriau TER a thrawiadau bysell y cyfranogwyr, mae hefyd yn fath o gofnodwr trawiadau bysell, yn debyg i Translog a ddefnyddiwyd eisoes.

6.9 CYFARWYDDIADAU I GYFRANOGWYR

Anfonwyd at bob cyfranogwr un set o gyfarwyddiadau trwy e-bost. Nod y cyfarwyddiadau oedd darparu set o ganllawiau i'r cyfranogwyr ynghylch sut y dylid perfformio'r tasgau, sut i ddefnyddio'r rhaglen a'r ansawdd y disgwyliwyd i'r cyfieithwyr ei gynhyrchu. Roedd y cyfarwyddiadau hefyd yn cynnwys canllawiau ôl-olygu; nod y rhain oedd tywys y cyfieithwyr trwy'r broses ôl-olygu, gan fod y broses ieithyddol hon yn debygol o fod yn ddieithr i nifer o gyfieithwyr y Gymraeg. Defnyddiwyd yr un canllawiau ôl-olygu ag a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arbrofion ar ymdrech (gweler Atodiad 1). Nodwyd ynddynt na ddylid newid allbwn GTrans oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol er sicrhau ffyddlondeb yr allbwn i'r gwreiddiol ac er lles cywirdeb gramadegol. Derbyniodd pob cyfranogwr yr un set o gyfarwyddiadau safonol a gofynnwyd iddynt ei darllen yn drylwyr cyn cychwyn arni. Mae Tabl 17 isod yn manylu ar ystyriaethau penodol mewn perthynas â dilysrwydd ymchwil. Ni chaiff dilysrwydd mesurol na dyblygadwyedd eu diffinio yma; fe'u diffiniwyd eisoes ym Mhennod 5.

6.10 DILYSRWYDD MEWNOL, ALLANOL A MESUROL

Manylir isod ar ystyriaethau sy'n berthnasol i ddilysrwydd ymchwil. Nid yw Tabl 17 yn rhestr gynhwysfawr o bob bygythiad i ddilysrwydd ymchwil a all godi ymhob arbrawf, eithr rhestr o'r bygythiadau y tybiwyd eu bod yn berthnasol yng nghyd-destun yr arbrawf hwn. Am restr gynhwysfawr o'r rhain o safbwynt ymchwil empeiraidd ym maes Astudiaethau Cyfieithu, gweler O'Brien a Saldanha (2013, tt. 29-35).

Tabl 17: Dilysrwydd Ymchwil

Math o Ddilysrwydd	Bygythiad	Datrysiad
Dilysrwydd Mewnol	Effaith Nodweddion Personol yr Ymchwilydd	Anfonwyd set safonol o gyfarwyddiadau at bob cyfranogwr. Gwnaed y tasgau yng nghartref y cyfranogwyr. Ni chyfarfu'r ymchwilydd â'r cyfranogwr cyn yr arbrawf i'w drafod ac nid oedd yn bresennol pan wnaed y tasgau
	Effaith Datgelu'r Canlyniadau a Ddisgwyllir	Gwnaed y tasgau yng nghartref y cyfranogwyr. Ni chyfarfu'r ymchwilydd â'r cyfranogwr cyn yr arbrawf i'w drafod ac nid oedd yn bresennol pan wnaed y tasgau. Ni hysbyswyd y cyfranogwyr o ragdybiaethau penodol yr astudiaeth
	Aeddfediad	Er mwyn rheoli am effeithiau ymarfer a chyfranogwyr yn newid eu hymddygiad wrth fynd ymlaen, caniatwyd i gyfranogwr fynnu egwyl fer wrth gwblhau'r tasgau
	Effaith Hawthorne	Er y gwyddai pob cyfranogwr nad prosiect cyfieithu go iawn mo'r ffeiliau yr anfonwyd atynt, fe'u hysbyswyd y câi sampl o'u holl gyfieithiadau eu defnyddio wrth ddadansoddi ansawdd terfynol testunau (gweler Pennod 7). Diben hynny oedd sicrhau bod y cyfranogwyr yn talu sylw i ansawdd eu gwaith, yn hytrach na chynhyrchu cyfieithiadau o ansawdd afrealistig o wael o ganlyniad i'r amgylchiadau arbrolfol
Dilysrwydd Allanol	Y rhaglen a ddewiswyd	Ni ddefnyddir teclynnau DQF sefydliad TAUS gan gyfieithwyr proffesiynol yn eu gwaith bob dydd. Rhaglen ar gyfer ymchwil TPR ydyw, felly gellid dadlau ei bod yn anghyfarwydd i'r rhan fwyaf o gyfieithwyr. Serch hynny, bu defnyddio rhaglen o'r fath yn anochel oherwydd natur y cwestiynau ymchwil. Er gwaethaf ei newydddeb i rai cyfieithwyr, nid yw'n anodd ei defnyddio, a gellid gweld y segment ffynhonnell a tharged, ar y cyd â'r rhai blaenorol a'r rhai nesaf, fel y mae modd gwneud wrth ddefnyddio rhaglenni TM cyffredin.
	Dyluniad y tasgau cyfieithu	Mae prosiectau cyfieithu go iawn yn aml yn cynnwys cymysgedd o ddeunydd TM a deunydd newydd y mae angen ei gyfieithu
	Maint y sampl	Yn ôl sefydliad ymchwil TAUS, y nifer delfrydol o gyfranogwyr ar gyfer arbrawf cynhyrchedd yw 3, gydag o leiaf 250 o segmentau'n cael eu prosesu. Llwyddwyd i recriwtio 7 o gyfieithwyr a chyfieithwyd cyfanswm o 700 o segmentau. Dadleuir bod maint y data a gasglwyd felly yn addas i ateb y cwestiynau ymchwil yn drylwyr, er bod y sampl 50 segment yn brin
	Tarddiad y testunau	Defnyddiwyd testunau ffynhonnell a gyfieithwyd eisoes gan gyfieithydd proffesiynol wrth ei waith, ac roedd y cyfatebiaethau rhannol a ddefnyddiwyd hefyd yn ddeunydd a grëwyd gan gyfieithydd cymwys. Proseswyd corpws o 2,180 o eiriau gan bob cyfranogwr; dadleuir o ganlyniad bod modd cyffredinoli ar sail y data hyn
Dilysrwydd Mesurol	Dadansoddi Data	Defnyddiwyd IBM SPSS (Fersiwn 20) i ddadansoddi'r data, gan ddefnyddio profion ystadegol cydnabyddedig

6.11 DYBLYGADWYEDD

Esboniwyd ystyr dyblygadwyedd ym Mhennod 5. Er mwyn cynyddu'r posibilrwydd y bydd ymchwilyr eraill am geisio dyblygu'r astudiaeth a chynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn dod i'r un casgliadau, mae dyluniad yr arbrawf o ran methodoleg a dilysrwydd wedi eu disgrifio. Cyflwynir canlyniadau'r arbrawf ynghyd â thrafodaeth amdanynt nesaf.

6.12 GWAHANIAETHAU CYFFREDINOL: CANLYNIADAU ANOVA O RAN AMSER

Amcan y bennod hon yw disgrifio'n fanwl ganlyniadau'r arbrawf a gynhaliwyd ar gynhyrchedd cyfieithwyr proffesiynol a'i berthynas â thechnoleg cyfieithu. Mae iddi bedair prif ran, pob un yn mynd i'r afael ag agwedd wahanol ar wrthrych y rhan hon o'r astudiaeth. Troir yn gyntaf at ddadansoddiad manwl o amser, cyn talu sylw wedyn i'r ail newidyn dibynnol, sef geiriau fesul munud (WPM). Nod y drydedd rhan wedi hynny yw trafod nifer y newidiadau a wnaed i'r testunau awtomatig a'i berthynas â chynhyrchedd. Yn olaf, telir sylw i enillion canrannol wrth ddefnyddio systemau TM ac MT o gymharu â chyfieithu heb y technolegau hyn, ynghyd â'r posibilrwydd o allosod yr enillion hyn i gynhyrchedd fesul diwrnod gwaith a chynhyrchedd wythnosol a blynyddol.

Yn gyntaf oll, a chan gofio mai Dull Ailadrodd Mesurau oedd y dyluniad arbrawf y manteisiwyd arno, a oedd unrhyw effeithiau ystadegol i'w cael rhwng y pedwar math o gyfatebiaeth?⁸⁸ Mae angen ateb y cwestiwn hwn cyn dadansoddi'r gwahaniaethau unigol rhwng gwahanol fathau o gyfatebiaeth a chyfieithu dynol; ni fyddai fawr o ddiben mewn dadansoddi'r gwahaniaethau *unigol* pe na bai effaith ystadegol *gyffredinol* rhyngddynt. Er

⁸⁸ Wrth adrodd y canlyniadau, defnyddir y pedwar term hyn: Dim Cyfatebiaeth = Cyfieithu Dynol heb dechnoleg cyfieithu; Cyfatebiaethau Rhanno 1 = Cyfatebiaethau Rhannol rhwng 70-99%; Cyfatebiaethau Llawn = Cyfatebiaethau 100%; MT = Cyfieithu Awtomatig. Defnyddir 'Dim Cyfatebiaeth' ar gyfer cyfieithu dynol mewn ymgais i gysylltu'r canlyniadau â sut y byddai prosiect go iawn mewn system TM yn edrych, lle byddai angen cyfieithu heb allbwn technoleg cyfieithu, sef cyfieithu dynol, oni cheir deunydd o'r TM/MT i gynorthwyo'r cyfieithydd.

mwyn ei ateb, mae angen defnyddio dull ystadegol o'r enw 'ANOVA', sef '*Analysis of Variance*'. Mae'r prawf hwn yn o 'fodelau llinellol cyffredinol' ystadegaeth gasgliadol, ac mae'r fersiwn hwn o'r ANOVA, sef 'GLM 4' (*General Linear Model 4*), a elwir hefyd yn '*Repeated Measures ANOVA*' yn ddefnyddiol wrth ddod i gasgliadau pendant pan fo'r un cyfranogwyr wedi gweithredu o dan bob amod arbrefol. Un o swyddogaethau'r prawf hwn yw gwirio am wahaniaethau ystadegol arwyddocaol (a elwir yn 'effeithiau' o'r Saes. '*Effects*') rhwng tueddiadau canolog yr un cyfranogwr felly (Field 2013, tt. 542-590). Gan nad oedd prawf Mauchly yn arwyddocaol ($\chi^2 = 10.117$, $df = 5$, $p = .074$), nid adroddir cywiriadau Greenhouse-Geisser na Huynh-Feldt.⁸⁹ Dengys y GLM fod y math o gyfatebiaeth a ddefnyddir yn effeithio'n sylweddol ar yr amser a fuddsoddir yn y broses o'i phrosesu ($F = 29.876$, $p = .001$). Mae'r canlyniad hwn felly yn golygu bod angen gwrthod y Rhagdybiaeth Nwl a derbyn bod y defnydd o allbwn o systemau TM ac MT wedi peri newid mawr i gynhyrchedd arferol y cyfieithydd, o gymharu â'i gyflymder wrth gyfieithu heb allbwn TM ac MT. Hyd yma gwyddys fod effaith i'w gweld, ond ni wyddys i ba gyfeiriad y teithiodd y newid. Er mwyn darganfod pa fath o effaith a barwyd, mae angen defnyddio techneg ystadegol arall o'r enw Cymariaethau rhwng Parau. Yn dilyn yr ANOVA cyffredinol, mae'r canlyniadau hyn, a ddaw yn uniongyrchol o ganlyniadau'r GLM 4, yn tyrchu o dan yr wyneb â'r nod o ddod o hyd i wahaniaethau rhwng yr amodau (sef Dim Cyfatebiaeth, Cyfatebiaethau Rhannol, MT a Chyfatebiaethau Llawn). Darperir isod ganlyniadau'r cymariaethau hyn ar ffurf tabl. Nodir bod 1 yn cyfateb i 'Dim Cyfatebiaeth',

⁸⁹ Prawf sy'n profi am sfferiaeth yw prawf Mauchly. Mae sfferiaeth yn un o ragdybiaethau ystadegol yr ANOVA hwn, hynny yw un o'r nodweddion rhifol y mae angen i'r data ei arddangos fel bod y canlyniadau yn gywir. Golyga sfferiaeth mai'r un yw'r amrywiant ar gyfer pob cyfranogwr o dan bob amod. Os nad oes sfferiaeth yn yr amrywiant, mae modd defnyddio cywiriadau ystadegol o'r enw cywiriadau Greenhouse-Geisser neu Huynh-Feldt, sy'n addasu'r ystadegyn *F* ac yn cywiro am y diffyg sfferiaeth hon.

2 i 'Cyfatebiaethau Rhannol', 3 i 'MT' a 4 i 'Cyfatebiaethau Llawn'. Eiliadau yw'r raddfa fesur.

Tabl 18: Cymariaethau Rhwng Parau o'r ANOVA: Amser


(I) Math	(J) Math	Gwahaniaeth Cymedrol (I-J)	Gwall Safonol	Arwyddocâd	95% Cyfwng Hyder ar gyfer y Gwahaniaeth	
					Isaf	Uchaf
1	2	21108.500	6356.047	.076	-2000.864	44217.864
	3	41501.125*	5469.433	.001	21615.320	61386.930
	4	44084.375*	7332.126	.003	17426.175	70742.575
2	1	-21108.500	6356.047	.076	-44217.864	2000.864
	3	20392.625*	4672.389	.020	3404.720	37380.530
	4	22975.875*	3700.738	.003	9520.703	36431.047
3	1	-41501.125*	5469.433	.001	-61386.930	-21615.320
	2	-20392.625*	4672.389	.020	-37380.530	-3404.720
	4	2583.250	3134.737	1.000	-8814.049	13980.549
4	1	-44084.375*	7332.126	.003	-70742.575	-17426.175
	2	-22975.875*	3700.738	.003	-36431.047	-9520.703
	3	-2583.250	3134.737	1.000	-13980.549	8814.049

O hyn gellir casglu bod gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol i'w cael rhwng Dim Cyfatebiaeth ac MT ($p = .003$), Dim Cyfatebiaeth a Chyfatebiaethau Llawn ($p = .001$), a Chyfatebiaethau Rhannol ac MT ($p = .003$). Serch hynny, dengys y cymariaethau fod y berthynas rhwng Cyfatebiaethau Llawn ac MT ($p = 1.000$) a Dim Cyfatebiaethau a Chyfatebiaethau Rhannol ($p = 0.76$) yn fwy cymhleth gan fod diffyg gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhyngddynt. Golyga hyn ei bod yn bosibl bod *cydberthyniad* ystadegol rhwng y canlyniadau hyn. Eir i'r afael â hyn yn ddyfnach yn Adran 8.5 isod. Yn ogystal, golyga fod modd derbyn bron pob rhagdybiaeth ragfynegol a osodwyd mewn perthynas â chynhyrchedd, ôl-olygu a Chyfatebiaethau Rhannol a Llawn, sef Rhagdybiaethau R3 b & c a gwrthod y Rhagdybiaeth Nwl. Isod eir i'r afael yn fwy manwl

â gwahaniaethau cyffredinol rhwng mathau o gyfatebiaeth ac amser, cyn troi at wahaniaethau amseryddol fesul cyfranogwr yn ôl math o gyfatebiaeth. Wedi hyn, trafodir WPM ar lefel gyffredinol ac unigol fesul cyfatebiaeth.

6.13 GWAHANIAETHAU CYFFREDINOL

Datgelodd yr ANOVA fod perthynas ystadegol i'w chael rhwng y defnydd o wahanol fathau o gyfatebiaethau ac amser. Cyn manylu ar ganlyniadau cyfieithwyr unigol, darperir isod ddadansoddiad o'r data fesul math o gyfatebiaeth; h.y., canlyniadau cyffredinol. Dengys Ffigur 19 y gwahaniaethau rhwng pob math o gyfatebiaeth.



Ffigur 19: Amseroedd Prosesu Cyffredinol fesul Cyfatebiaeth

Darpara Tabl 19 isod ystadegau disgrifiadol ar gyfer pob cyfatebiaeth. Unwaith yn rhagor, eiliadau yw'r raddfa fesur. Cynnwys Tabl 19 ragor o ddata disgrifiadol nag y gellir eu gweld yn Ffigur 19, a hynny er mwyn bod mor dryloyw â phosibl ynghylch y data a gasglwyd.

Tabl 19: Ystadegau Disgrifiadol fesul Cyfatebiaeth (eiliadau)

Math o Gyfatebiaeth	Ystadegyn	Rhif	Gwall. Saf
Dim Cyfatebiaeth	Cymedr	58750.05	2627.419
	95% Cyfwng Hyder ar gyfer y	Isaf 53568.89	
	Cymedr	Uchaf 63931.21	
	Canolrif	51935	
	Gwriad Safonol	37157.32	
	Lleiaf	8080	
	Uchaf	232590	
	Ystod	224510	
	Ystod Ryngchwarterol	34118	
Cyfatebiaethau 70-99%	Cymedr	37641.65	2130.702
	95% Cyfwng Hyder ar gyfer y	Isaf 33440	
	Cymedr	Uchaf 41843.30	
	Canolrif	30375	
	Gwriad Safonol	30132.68	
	Lleiaf	2510	
	Uchaf	252800	
	Ystod	250290	
	Ystod Ryngchwarterol	28575	
MT	Cymedr	17223.80	1243.649
	95% Cyfwng Hyder ar gyfer y	Isaf 14771.38	
	Cymedr	Uchaf 19676.22	
	Canolrif	11345	
	Gwriad Safonol	17587.86	
	Lleiaf	170	
	Uchaf	112690	
	Ystod	112520	
	Ystod Ryngchwarterol	17758	
Cyfatebiaethau Llawn	Cymedr	14665.85	1602.162
	95% Cyfwng Hyder ar gyfer y	Isaf 11506.46	
	Cymedr	Uchaf 17825.24	
	Canolrif	7550	
	Gwriad Safonol	22657.99	
	Lleiaf	40	
	Uchaf	238310	
	Ystod	238270	
	Ystod Ryngchwarterol	12508	

6.14 YMATEB I'R RHAGDYBIAETHAU RHAGFYNEGOL O RAN AMSER YN UNIGOL


Mae Tabl 20 isod yn crynhoi ystadegaeth ddisgrifiadol ar gyfer pob cyfieithydd a'i gynhyrchedd wrth brosesu pob math o gyfatebiaeth.

Tabl 20: Ystadegaeth Ddisgrifiadol ar gyfer pob cyfranogwr (eiliadau)

Cyfranogwr	Cymedr (eiliadau)	Canolrif (eiliadau)	Gwyrriad Safonol	Isafswm	Uchafswm	Cyfatebiaeth
1	26746	21030	14885	10610	70920	Rhannol
	12237	7950	9566	1480	32580	MT
	7737	5880	6743	1190	24930	Llawn
	70999	59400	32695	8080	139250	Dim
2	32457	32470	17723	7400	78950	Rhannol
	13256	7950	17945	930	87230	MT
	8504	5590	10720	1380	47690	Llawn
	52888	51820	22801	19490	117740	Dim
3	29171	23420	17319	7120	71590	Rhannol
	12746	7670	14072	1250	68680	MT
	8802	6300	6917	1060	31310	Llawn
	56663	56890	21442	22280	118670	Dim
4	39177	38560	18698	8620	80240	Rhannol
	24462	15540	21474	1780	71320	MT
	30925	16690	47651	40	238310	Llawn
	75543	67470	44259	18560	202140	Dim
5	69976	53320	59041	13020	252800	Rhannol
	19294	14120	15354	1640	58700	MT
	24904	18350	19315	2150	67560	Llawn
	83126	69840	51176	13620	232590	Dim
6	32995	28210	17799	10980	76530	Rhannol
	27021	23450	25206	2330	112690	MT
	5958	2630	9670	1520	41180	Llawn
	66476	56760	41652	28290	218640	Dim
7	37269	3561	19538	6000	80130	Rhannol
	18624	14100	16372	1810	59270	MT
	15646	8980	15606	3930	59580	Llawn
	34648	34870	15301	13210	74040	Dim
8	33339	25300	28267	2510	123970	Rhannol
	10149	5800	8748	170	30070	MT
	14847	7920	21856	2360	110860	Llawn
	29655	24780	13923	14250	62420	Dim

Yn ogystal â'r ystadegau hyn, mae'r math o gyfatebiaeth a broseswyd gyflymaf wedi ei hamlygu mewn print glas. Mewn pum achos, proseswyd y Cyfatebiaethau Llawn

gyflymaf (Cyfranogwr 1, 2, 3, 6 a 7), ond ôl-olygu oedd y broses gyflymaf mewn tri achos (Cyfranogwr 4, 5 ac 8). Dengys Ffigur 20 isod dueddiad canolog amseryddol pob cyfranogwr wrth brosesu pob math o gyfatebiaeth. Nodwyd uchod mai ôl-olygu MT oedd gyflymaf mewn dau achos. Heblaw am y ddau achos hyn ac un achos lle mai addasu'r cyfatebiaethau rhannol oedd gyflymaf, mae gostyngiad amseryddol graddol i'w weld â Dim Cyfatebiaeth ar un pen a Chyfatebiaethau Llawn ar y naill ben. Eiliadau yw'r raddfa fesur.



Ffigur 20: Canolrif Amser Prosesu pob cyfranogwr fesul math o gyfatebiaeth

Ond er mwyn ymateb i'r rhagdybiaethau rhagfynegol ar gyfer math o gyfatebiaeth a chynhyrchedd ar lefel *unigol*, mae angen defnyddio ystadegaeth gasgliadol ar ffurf profion-t samplau dibynnol er mwyn gwirio am arwyddocâd ystadegol rhwng Dim Cyfatebiaeth a'r ddau fath arall o gyfatebiaeth. Gwneir hynny ar gyfer pob pâr isod.

6.15 DIM CYFATEBIAETH A CHYFATEBIAETHAU RHANNOL

Gan ddechrau â phâr Dim Cyfatebiaeth a Chyfatebiaethau Rhannol, mae Tabl 21 yn cynnwys canlyniadau'r profion a wnaed ar gyfer y pâr hwn ar gyfer pob cyfranogwr.

Gwneir hynny mewn ymgais i ymateb i Ragdybiaeth R4a, a eiriwyd fel a ganlyn:⁹⁰

Bydd Cyflymder Prosesu unigol *pob* cyfieithydd yn uwch wrth brosesu Cyfatebiaethau Rhannol rhwng 70-99% nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer

Tabl 21: Profion-t Samplau Dibynnol: Dim Cyfatebiaeth v. Cyfatebiaethau Rhannol

Cyfranogwr	Dim Cyfatebiaeth v. Cyfatebiaethau Rhannol		
	Prawf-t Samplau Dibynnol	Prawf Kolmogorov-Smirnov	Cyfyngau Hyder (ms)
1	t(212)= 24, p =.045	Dim Cyfatebiaeth: D(134)=25, p =.200 Cyfatebiaethau Rhannol: D(201)=25, p=.011.	[210, 15594]
2	t(5)=24, p =.001	Dim Cyfatebiaeth: D(159)= 25, p =.105 Cyfatebiaethau Rhannol: D(155)= 25, p =.127	[24290, 52793]
3	t(5)=24, p =.001†	Dim Cyfatebiaeth: D(137)=25, p =.200 Cyfatebiaethau Rhannol: D(235)=25, p =.001.	[14506, 31224]
4	t(3.796)= 24, p =.001	Dim Cyfatebiaeth: D(111)= 25, p =.200 Cyfatebiaethau Rhannol: D(092)- 25, p =.200	[7978, 26992]
5	t(391)= 24, p =.699	Dim Cyfatebiaeth: D(157)= 25, p =.113 Cyfatebiaethau Rhannol: D(173)=25, p =.053	[-23797, 34930]
6	t(4.787)=24, p=.001†	Dim Cyfatebiaeth: D(224)= 25, p= .002 Cyfatebiaethau Rhannol: D(199)= 25, p =.012.	[31377, 71216]
7	t(3.615)=24, p =.001†	Dim Cyfatebiaeth: D(291)= 25, p= .000 Cyfatebiaethau Rhannol: D(083)= 25, p =.200	[15236, 45774]
8	t(-.534)= 24, p =.599	Dim Cyfatebiaeth: D(158)= 25, p =.107 Cyfatebiaethau Rhannol: D(.059) p =.059	[17934, 10566]

⁹⁰ Mae cyfyngau hyder sydd wedi eu hamlygu mewn print bras yn gyfyngau hyder a gyfrifwyd wedi i ymlwytho (Saes. Bootstrapping) gael ei ddefnyddio. Ystyr ymlwytho yng nghyd-destun ystadegaeth yw amcangyfrif rhyw ystadegyn (megis y cymedr) ar sail nifer o samplau amcangyfrifedig o sampl mwy, ac fe'i defnyddir os yw'r data yn amharamedrig (Field 2013, t. 871). Dynoda '†' bod y sampl wedi eu hmylwytho oherwydd dosbarthiad amharamedrig un set o ddata neu'r ddwy ohonynt.

Ar wahân i ddau gyfieithydd (Cyfranogwr 5 ac 8), mae gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol i'w weld rhwng cynhyrchedd pob cyfieithydd wrth ryngweithio â Chyfatebiaethau Rhannol o gymharu â chyfieithu hebddynt. Mae'n synhwyrol tybio bod Cyfieithydd 5 ac 8 wedi 'gorolygu' wrth addasu'r cyfatebiaethau rhannol, sef gwneud mwy o waith golygu nag oedd angen mewn gwirionedd. Wrth gymharu eu data TER (gweler Adran 5.16 ac Adran 6.20 isod am drafodaethau manylach), gwelir nad yw eu data TER yn wahanol iawn i weddill y grŵp, sy'n golygu na all hyn fod yn wir. Sgôr TER Cyfieithydd 1,2,3,4,6 a 7 ar gyfartaledd yw 16.5 wrth ymdrin â'r cyfatebiaethau rhannol, a sgôr TER Cyfieithydd 5 yw 24, a 9 yw un cyfieithydd 8. Mae'n debygol felly bod y ddau gyfieithydd hyn wedi cymryd mwy o amser wrth ddarllen y cyfatebiaethau rhannol a chynllunio pa welliannau a chywiriadau y bu angen eu gwneud cyn cyfieithu. Fel y dangoswyd eisoes yn Adran 6.4, mae'r cam cychwynnol hwn yn bwysig wrth ddefnyddio allbwn o systemau MT a TM. Er gwaethaf y ddau achos hyn felly, gellid derbyn Rhagdybiaeth R4a yn weddol hyderus a gwrthod y Rhagdybiaeth Nwl yn achos pob un arall. Gall y diffyg gwahaniaeth yn achos Cyfieithydd 5 ac 8 esbonio hefyd pam na ddaethpwyd o hyd i wahaniaeth ystadegol arwyddocaol cyffredinol yn y cymariaethau rhwng parau uchod yn Nhabl 18.

6.16 DIM CYFATEBIAETH AC MT

Mewn perthynas ag ôl-olygu a chyfieithu heb allbwn technoleg cyfieithu, roedd y rhagdybiaeth, sef Rhagdybiaeth R4c, fel a ganlyn:

Bydd Cyflymder Prosesu unigol *pob* cyfieithydd yn uwch wrth brosesu allbwn MT nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer

Tabl 22: Profion-t Samplau Dibynnol: Dim Cyfatebiaeth v. MT

Cyfranogwr	Dim Cyfatebiaeth v. MT		
	Prawf-t Samplau Dibynnol	Prawf Kolmogorov-Smirnov	Cyfyngau Hyder (ms)
1	$t(5.966) = 24, p = .001$	Dim Cyfatebiaeth: $D(134) = 25, p = .200$ MT: $D(199) = 25, p = .012$	[14658, 30163]
2	$t(7.727) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(159) = 25, p = .105$ MT: $D(222) = 25, p = .000$	[43622, 71277]
3	$t(8.080) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(137) = 25, p = .200$ MT: $D(256) = 25, p = .000$	[30640, 49488]
4	$t(5.861) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(111) = 25, p = .200$ MT: $D(216) = 25, p = .004$	[22199, 41995]
5	$t(5.562) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(157) = 25, p = .113$ MT: $D(219) = 25, p = .003$	[37277, 77109]
6	$t(4.377) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(224) = 25, p = .002$ MT: $D(170) = 25, p = .060$	[32585, 80632]
7	$t(5.376) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(291) = 25, p = .000$ MT: $D(210) = 25, p = .000$	[32907, 65530]
8	$t(6.211) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(158) = 25, p = .107$ MT: $D(201) = 25, p = .006$	[13740, 26287]

Gellir gweld bod y gwahaniaeth rhwng amser y cyfieithwyr wrth gyfieithu heb MT o gymharu â'r amser a dreuliwyd yn ôl-olygu yn ystadegol arwyddocaol yn achos pob cyfranogwr. Gan fod pob cyfieithydd wedi cynyddu ei gynhyrchedd wrth ôl-olygu o gymharu â'i waelodlin wrth gyfieithu heb unrhyw allbwn felly, gellir derbyn Rhagdybiaeth R4c a gwrthod y Rhagdybiaeth Nwl.

6.17 DIM CYFATEBIAETH A CHYFATEBIAETHAU LLAWN

Rhagdybiwyd y byddai Cyfatebiaethau Llawn yn cyflymu prosesau cyfieithu pob cyfranogwr, a hynny yn sylweddol. Dywed Rhagdybiaeth R4b:

Bydd Cyflymder Prosesu unigol *pob* cyfieithydd yn uwch wrth brosesu Cyfatebiaethau Llawn nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer

Tabl 23: Profion-t Samplau Dibynnol: Dim Cyfatebiaeth v. Cyfatebiaethau Llawn


Cyfranogwr	Dim Cyfatebiaeth v. Cyfatebiaethau Llawn		
	Prawf-t Samplau Dibynnol	Prawf Kolmogorov-Smirnov	Cyfyngau Hyder (ms)
1	$t(8.465) = 24, p = .001$	Dim Cyfatebiaeth: $D(134) = 25, p = .200$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(169) = 25, p = .062$	[20349, 33471]
2	$t(-10.029) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(159) = 25, p = .105$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(297) = 25, p = .000$	[-73805, -50195]
3	$t(9.778) = 24, p = .001$	Dim Cyfatebiaeth: $D(137) = 25, p = .200$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(161) = 25, p = .093$	[34780, 53392]
4	$t(2.438) = 24, p = .023†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(111) = 25, p = .200$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(258) = 25, p = .000$	[2465, 43071]
5	$t(5.135) = 24, p = .001$	Dim Cyfatebiaeth: $D(157) = 25, p = .113$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(153) = 25, p = .135$	[30284, 70992]
6	$t(-391) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(224) = 25, p = .002$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(390) = 25, p = .000$	[-97686, -58513]
7	$t(6.715) = 24, p = .001†$	Dim Cyfatebiaeth: $D(291) = 25, p = .000$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(301) = 25, p = .000$	[37831, 65255]
8	$t(2.550) = 24, p = .018$	Dim Cyfatebiaeth: $D(158) = 25, p = .107$ Cyfatebiaethau Llawn: $D(303) = 25, p = .000$	[2318, 25419]

Dengys y canlyniadau uchod y cyflymwyd prosesau cyfieithu pob cyfranogwr wrth ddefnyddio Cyfatebiaethau Llawn o gymharu â chyfieithu hebddynt. Golyga hyn fod modd derbyn Rhagdybiaeth R4b a gwrthod y Rhagdybiaeth Nwl. Ystyriaeth o Gyfatebiaethau Llawn ac amser yw'r rhan olaf o'r adran hon. Mae modd symud ymlaen bellach a throi at ail ran y bennod hon, sef dadansoddiad o WPM (geiriau fesul munud).

6.18 WPM CYFFREDINOL AC UNIGOL

Mae gwahaniaethau mawr i'w cael rhwng WPM y cyfranogwyr o ganlyniad i'r math o gyfatebiaeth, felly mae modd derbyn Rhagdybiaethau R5a gan wrthod eu Rhagdybiaethau Nwl ar yr un pryd. Dengys Ffigur 21 y gwahaniaethau mewn WPM

ar ffurf y cymedr. Fel y dylid disgwyl o ystyried y canlyniadau a gafwyd ar gyfer amser, mae cynnydd graddol mewn WPM wrth fynd o Dim Cyfatebiaeth i Cyfatebiaethau Llawn.



Ffigur 21: Cymedr WPM ar gyfer pob math o gyfatebiaeth

Mae Tabl 24 yn nodi WPM pob cyfranogwr yn unigol fesul math o gyfatebiaeth.

Tabl 24: WPM Pob Cyfranogwr yn unigol

Cyfranogwr	WPM			
	Dim Cyfatebiaeth	Cyfatebiaethau Rhannol 70-99%	MT	Cyfatebiaethau Llawn
1	34	46	76	110
2	17	39	76	110
3	22	42	76	110
4	16	17	47	33
5	14	39	34	165
6	18	33	54	55
7	21	31	38	27
8	40	38	94	54
<i>Cymedr</i>	<i>23</i>	<i>36</i>	<i>62</i>	<i>83</i>
<i>Canolrif</i>	<i>20</i>	<i>39</i>	<i>65</i>	<i>83</i>
<i>Gwriad Safonol</i>	<i>9</i>	<i>8</i>	<i>20</i>	<i>44</i>

6.19 CYDBERTHYNIADAU DEUNEWIDYN

Trafodir isod debygrwydd ystadegol rhwng newidyn dibynnol amser ac MT, Cyfatebiaethau Rhannol a Chyfatebiaethau Llawn. Ym Mhennod 6, ffurfiwyd rhagdybiaeth ynghylch tebygrwydd yr amser a fuddsoddir wrth ôl-olygu allbwn MT i'r amser a fuddsoddir yn cywiro Cyfatebiaethau Rhannol. Union eiriad y rhagdybiaeth honno, sef Rhagdybiaeth R6a, oedd:

Bydd cydberthyniad ystadegol rhwng Cyflymder Prosesu pob cyfieithydd wrth drin Cyfatebiaethau Rhannol yn y trothwy 70-99%, a'i Gyflymder Brosesu wrth drin yr allbwn MT

Gellir profi hyn trwy ddefnyddio techneg ystadegol sy'n profi am debygrwydd rhwng dau newidyn, sef Cydberthyniad Deunewidyn (Saes. Bivariate Correlation). Gan mai proses o *wirio a chywiro* yw ôl-olygu a chywiro Cyfatebiaethau Rhannol ill dwy, onid yw'n bosibl y gallent ofyn am yr un buddsoddiad amseryddol? Mae ymchwilio i'r cwestiwn hwn yn bwysig yn economaidd; tynnwyd sylw ym Mhennod 5 at yr hierarchaeth prisiau sydd i'w chael yn y diwydiant cyfieithu, lle telir graddau gwahanol am lefelau gwahanol o gyfatebiaeth. Pe gellid dadlau bod ôl-olygu MT a chywiro Cyfatebiaethau Rhannol yn gofyn am yr un buddsoddiad amseryddol, gall hyn fod o gymorth i'r sawl sy'n gorfod penderfynu faint y dylid ei godi am destunau a ôl-olygir. Mae'n ddigon posibl y gellid talu yr un faint am destunau a ôl-olygir (neu segmentau a ôl-olygir) ag y telir am Gyfatebiaethau Rhannol.⁹¹ Defnyddiwyd prawf tau-b Kendall am gydberthyniad ystadegol rhwng y ddau newidyn dibynnol hyn oherwydd natur amhamedrig y data.⁹² Canlyniad y prawf hwnnw oedd $t = 0.83$, $n = 200$, $p = .081$. Golyga hyn fod *diffyg* cydberthyniad ystadegol. Ni

⁹¹ Mae tystiolaeth bod hyn eisoes yn digwydd, fel y trafodwyd uchod yn Adran 4.3.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg, fel y trafodwyd yn yr un adran, hefyd yn hyrwyddo'r hierarchaeth prisiau hwn os yw'r cyfieithydd sy'n derbyn gwaith gan y cleient yn defnyddio system TM (Comisiynydd y Gymraeg 2012, t. 8).

⁹² Canlyniad y prawf Kolmogorov-Smirnov ar gyfer y data MT oedd $D(172) = 200$, $p = .001$, ac ar gyfer y data Cyfatebiaethau Rhannol $D(150) = 200$, $p = .001$.

ddylai hyn fod yn syndod o ystyried y darganfyddiad bod *gwahaniaeth* ystadegol rhyngddynt uchod. Ond roedd angen perfformio'r prawf beth bynnag serch hynny er mwyn ymateb yn ffurfiol i'r rhagdybiaeth ragfynegol a osodwyd yn gynharach. Mae angen gwrthod Rhagdybiaeth Ragfynegol R6a felly a derbyn y Rhagdybiaeth Nwl. Awgrymwyd uchod y gall cydberthyniad fod serch hynny rhwng MT a *Chyfatebiaethau Llawn*, o ganlyniad i'r diffyg gwahaniaeth rhyngddynt. Ceisiwyd profi hyn gan ddefnyddio'r un prawf ag a ddefnyddiwyd uchod. Y canlyniad oedd $t = .098$, $n = 200$, $p = .041$, sy'n golygu bod cydberthyniad ystadegol positif.⁹³ O safbwynt ansawdd yr allbwn MT, mae'n ddiddorol bod perthynas ystadegol felly rhwng yr allbwn MT a'r Cyfatebiaethau Llawn, sef segmentau sy'n gyfieithiadau derbyniol o'r IFf eisoes. Dengys hyn fod allbwn y system SMT a ddefnyddiwyd yn debygol o fod o safon uchel iawn; fel arall byddid wedi gorfod buddsoddi llawer iawn mwy o amser yn y broses o gywiro'r allbwn hwnnw. Mae'n bwysig talu sylw hefyd i'r *diffyg* perthynas rhwng yr amseroedd MT a'r amseroedd a gofnodwyd ar gyfer y Cyfatebiaethau Rhannol. O ystyried maint y sampl a ddefnyddir yma (8 cyfieithydd ac 800 o frawddegau), byddai cyflwyno MT i lifoedd prosiectau cyfieithu ac arferion gweithio cyfieithwyr y Gymraeg yn gam naturiol ymlaen i'r rhai sydd eisoes yn defnyddio systemau TM, gan fod eu cynhyrchedd yn debygol o godi hyd yn oed yn *uwch* yn hytrach nag aros ar yr un lefel fel y rhagdybiwyd.

6.20 NEWIDIADAU I'R TESTUN A SGORIAU TER

Ym Mhennod 5 disgrifiwyd metrig o'r enw TER, ynghyd â mesurau tebyg eraill. Esboniwyd bod y metrig hwn yn mesur faint o newidiadau a wneir i destun yn y broses o'i gywiro. Byddai sgôr o 100 yn golygu naill ai fod yr allbwn i'w olygu wedi ei lwyrr

⁹³ Defnyddiwyd y prawf amhamedrig hwn oherwydd dosbarthiad amhamedrig y data. Canlyniad y prawf Kolmogorov-Smirnov ar gyfer y data MT oedd $D(172) = 200$, $p = .001$, ac ar gyfer y data Cyfatebiaethau llawn y canlyniad oedd $D(271) = 199$, $p = .001$.

ailysgrifennu a bod cynnig y system wedi ei ddiystyru, neu ar y llaw arall gall awgrymu bod dim i'w olygu ac mai cyfieithiad dynol a wnaed (gweler Adran 5.16 am drafodaeth fanylach). Yn achos y rhan hon o'r astudiaeth, byddai segmentau 50-75, sef y segmentau a gyfieithwyd heb unrhyw dechnoleg cyfieithu, yn derbyn sgôr o 100, a byddai'r gweddill yn derbyn sgôr *rhwng* 0-100. Darpara Tabl 25 isod enghraifft o hyn o ddata Cyfranogwr 1. Mae gan y cyfieithiad dynol (Segment 53) sgôr TER o 100, ond mae gan y frawddeg a ôl-olygwyd (Segment 77) sgôr o 0 oherwydd na fu raid gwneud yr un newid. Mae'r newidiadau wedi eu hamlygu. Yn achos y cyfieithiad dynol, mae'r frawddeg gyfan wedi ei hamlygu oherwydd yn ôl rhesymeg TER mae'r segment cyfan wedi ei newid (yn lle golygu, roedd angen teipio pob gair).

Tabl 25: Enghraifft o Sgôr TER

Segment Saesneg	Allbwn i'w Olygu	Cyfieithiad Terfynol	Sgôr TER
We aim to establish an inclusive culture free from discrimination and based upon the values of dignity, courtesy and respect.	<dim>	Ein nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol, heb gamwahanïaethu, ac wedi'i seilio ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch.	100
The organisation is keen to deal with complaints from employees regarding their employment in a fair and consistent way, following the procedure detailed below.	Mae'r sefydliad yn awyddus i ddelio â chwynion gan weithwyr ynghylch eu cyflogaeth mewn ffordd deg a chyson, gan ddilyn y weithdrefn a nodir isod.	Mae'r sefydliad yn awyddus i ddelio â chwynion gan weithwyr ynghylch eu cyflogaeth mewn ffordd deg a chyson, gan ddilyn y weithdrefn a nodir isod.	0

Telir sylw i'r sgoriau TER yma oherwydd eu bod yn profi bod perthynas rhwng arbedion amseryddol (ac arbedion gwybyddol) ac addasu'r testun, perthynas a welwyd yn astudiaethau Tatsumi (2009) ac O'Brien (2011b) hefyd. Wrth ddadansoddi'r data, daeth i'r amlwg fod gan y Cyfatebiaethau Rhannol, Llawn ac allbwn MT sgoriau TER isel iawn. Darlunnir yn Ffigur 22 isod gymedr sgoriau TER pob math o gyfatebiaeth. Arbed amser yw prif nod ôl-olygu testunau a broseswyd gan system MT (Carl *et al.* 2011, t. 137),

ar y cyd â gweld lleihad yn yr ymdrech angenrheidiol i'w cyfieithu a chynnydd hirdymor yng nghynhyrchedd cyfieithwyr. Mae hyn hefyd yn berthnasol yn achos allbwn systemau TM. Os na all systemau MT (a TM) wireddu'r ddelfryd hon, a bwrw bod y cyfieithydd wedi golygu'r allbwn yn briodol, bernir bod y dechnoleg cyfieithu dan sylw yn aflwyddiannus (Krings 2001, t. 178; Newton 1992, t. 4). Mae 'golygu priodol' yn allweddol; mae'n amhosibl i systemau MT a TM gyflawni arbedion gwybyddol, technegol ac amseryddol, gan gynyddu cynhyrchedd yn y pen draw, os na weithreda'r cyfieithydd mewn modd sy'n caniatáu i'r fath arbedion gael eu gwireddu. Eilio'r pwynt hwn y mae Guzmán (2007, dim rhifau tudalennau) pan ddywed:

MT can provide greater benefits and less frustration as long as [...] complementary strategies are put into place. One of these strategies consists of avoiding unnecessary stylistic corrections during manual MT post-editing.⁹⁴

Mae Uswak (2014) yn cytuno:

Durch den Einsatz von Posteditoren kann die Zeitersparnis, die durch die MÜ (MT) erzielt wurde, durch den Aufwand für die Postedition wieder zunichte gemacht werden. Der Posteditionaufwand hängt von vielen Bedingungen ab [...], vom Typ des eingesetzten MÜ-Systems, von der Sprachkombination, von der Verfügbarkeit von Terminologie in geeigneter elektronischer Form, von der Textsorte, *aber auch von den Posteditoren selbst* (pwyslais gan yr awdur hwn).⁹⁵

⁹⁴ Mae 'arddull' yn rhan greiddiol o unrhyw gyfieithiad. Un elfen hanfodol o gyfieithu llwyddiannus yw sicrhau bod y testun targed yn ramadegol gywir, yn ffyddlon i'r testun ffynhonnell ac yn 'darllen' fel testun a awdurwyd yn y testun targed. Mae pwysigrwydd naturioldeb testunau targed ac arddull fel elfen bwysig o gyfieithiad llwyddiannus â gwreiddiau hynafol; mae'r syniad yn tarddu o ysgrifau nawdd sant y cyfieithwyr St. Jerome sy'n dyddio o'r 4ydd canrif OC er enghraifft, ac mae pwysigrwydd arddull wedi ei drafod gan ddamcaniaethwyr cyfieithu ar hyd y canrifoedd ers hynny, gyda Cicero, Horace, John Dryden, Alexander Tytler ac Étienne Dolet yn eu plith (Munday 2012, tt. 28-41; Bassnett 2014, tt. 50-83)). Ond mae pwynt Guzmán (2007) o hyd yn ddilys os derbynnir mai at newidiadau o ganlyniad i chwant ieithyddol y cyfieithydd unigol sydd dan y lach yma, yn hytrach na newidiadau â'r bwriad o guddio mai cyfieithiad yw'r testun ac sy'n rhoi gwedd 'naturiol' ar y testun targed. Enghraifft o newid di-angen yn sgil yr hyn sy'n well gan gyfieithydd ar lefel bersonol yw newid 'gellir cyflawni hyn' i 'cyflawnir hyn' (Saes. This can be achieved), sef newid a wnaed gan un cyfranogwr yn yr arbrawf cyntaf. Nid newid er lles arddull a safon y cyfieithu yw hwn, ond newid yn sgil chwant ieithyddol goddrychol cyfieithydd unigol. Mae newidiadau ôl-olygu'r cyfieithwyr yn frith o newidiadau fel hyn.

⁹⁵ Cyfieithiad Cymraeg yr awdur: Yn dilyn rhoi ôl-olygu ar waith, mae'n bosibl y gall yr arbedion amseryddol y mae'r MT yn eu creu gael eu dadwneud gan yr ymdrech ôl-olygu. Mae'r ymdrech ôl-olygu


Hynny yw, y cyfieithydd neu'r ôl-olygydd sy'n penderfynu a wna system MT/TM lwyddo yn ei phennaf swyddogaeth ai peidio, sef arbed ymdrech a chynyddu cynhyrchedd, nid o reidrwydd ansawdd y system a ddefnyddir sydd ond yn un o'r ffactorau perthnasol. Golyga hyn y gall system MT a TM gynhyrchu allbwn nad yw ond yn gofyn am ambell gywiriad i'w wneud yn gyfieithiad derbyniol, ac o ganlyniad â'r *potensial* i gyflymu'r broses cyfieithu, ond bod y cyfieithydd neu ôl-olygydd wedyn yn gwneud nifer o newidiadau o ganlyniad i chwant ieithyddol personol sy'n gwneud y posibilrwydd o weld yr arbedion hyn yn annhebygol.⁹⁶ Noda Allen (2003, t. 307) sawl enghraifft o ganllawiau ôl-olygu i gyfieithwyr, ac mae pob un y disgrifir ganddo yn deddfu na ddylid newid cyfieithu llwyddiannus (Allen 2003, tt. 306-312). Mae'r tueddiad i wneud hyn wedi ei ddarganfod mewn nifer o astudiaethau sydd wedi dadansoddi sut y mae cyfieithwyr profiadol, ond ôl-olygwyr amhrofiadol, yn trin y dasg ôl-olygu allbwn MT yn neilltuol (Offersgaard *et al.* 2008; De Almeida ac O'Brien 2010; Guerberof 2014; Silva 2014). Fel y noda Offersgaard *et al.* (2008, t. 155) am eu profiad o gyflwyno MT i lifoedd gwaith cyfieithwyr profiadol "[...] good translators are not necessarily good post-editors", sy'n golygu nad yw'r gallu i gyfieithu *ar ei ben ei hun* o reidrwydd yn berthnasol i ôl-olygu.⁹⁷ Darperir rhagor o dystiolaeth sy'n cefnogi'r safbwynt hon gan Carl *et al.* (2011); pan ddadansoddasant nifer y newidiadau a wnaed yn eu harbrawf technoleg iaith hwythau, darganfuont nad oedd unrhyw gydberthyniad ystadegol arwyddocaol i'w gael rhwng nifer y newidiadau a wnaed wrth ôl-olygu allbwn GTrans, ac ansawdd. Fel y dywedant yn

hon yn dibynnu ar nifer o amodau [...], o'r math o system MT, y pâr o ieithoedd a gyfieithir, argaeledd terminoleg ar ffurf electronig briodol, o bwnc y testunau, ond hefyd ar yr ôl-olygwyr eu hunain.

⁹⁶ Cofier y diffiniad o ôl-olygu a ddarparwyd ym Mhennod 3, sef "Post-editing is the process of improving a machine-generated translation with a minimum of manual labour" (TAUS 2010).

⁹⁷ Er mai cyfieithwyr yw'r bobl fwyaf addas ar gyfer y gwaith, mae angen dangos goddefgarwch at y dechnoleg a meithrin meddwl agored at ei defnydd ym maes Cyfieithu Proffesiynol hefyd, nodweddd nad yw i'w gweld yn aml (Lagoudaki 2012; Guerberof 2013). Mae hyfforddiant yn allweddol yn hynny o beth (O'Brien 2002; Rico a Torrejón 2012).


gryno, “Surprisingly, there is no correlation between the score of the post-edited sentence and the number of edit operations, indicating that more post-editing does not necessarily lead to better translations” (Carl *et al.* 2011, t. 137). Dyma pam mae’r data TER a gyflwynir yma cyn bwysiced; gwelwyd arbedion sylweddol o ran amser ac o ran WPM yn nata pob cyfranogwr, ond roedd gan bob cyfranogwr TER *isel* i gyd-fynd â hynny yn y rhan fwyaf o achosion (gellir gweld hyn yn Ffigur 22). Wrth ddehongli’r casgliadau hyn felly dylid cofio bod yr arbedion wedi bod yn bosibl oherwydd bod y cyfieithwyr ond wedi newid yr hyn yr oeddent yn gorfod ei newid, yn hytrach na gwneud newidiadau di-angen. Rhagdybir nad yw hyn wedi effeithio’n negyddol ar ansawdd terfynol eu testunau targed ychwaith, ac eir i’r afael â hyn yn rhan nesaf y traethawd ym Mhennod 7.



Ffigur 22: Sgôr TER yn ôl math o gyfatebiaeth

Dengys y canlyniadau hyn yn glir felly na ellir profi’r arbedion y mae MT a TM yn eu cynnig os na olyga’r cyfieithydd mewn modd sy’n caniatáu i hynny ddigwydd. Po fwyaf

o olygu sydd ar allbwn awtomatig, y lleiaf effeithlon fydd y broses. Mae'r sgoriau TER isel hyn hefyd i'w gweld yn nata pob cyfieithydd, fel y gellir gweld yn Ffigur 23. Ni cheir bar ar gyfer y cyfieithu ('Dim Cyfatebiaeth') oherwydd mai '100' oedd yr unig werth.



Ffigur 23: Sgôr TER pob cyfranogwr fesul math o gyfatebiaeth

Gellir gweld hefyd yn Ffigur 23, fel yn Ffigur 22, fod TER 'MT' yn agosach at TER Cyfatebiaethau Llawn nag ydyw at sgoriau TER Cyfatebiaethau Rhannol. Er na ellid profi cydberthyniad ystadegol rhwng TER MT a Chyfatebiaethau Llawn yn ôl prawf tau b Kendall (tau b= 0.14, n= 200, p = .810), ni ddarganfuwyd gwahaniaeth ystadegol ychwaith yn ôl prawf-t samplau dibynnol ($t(1.012) = 199, p = .309$), sy'n golygu y gall yr Ymdrech Dechnegol angenrheidiol wrth ymdrin â Chyfatebiaethau Llawn ac allbwn MT fod yn debyg. Ond yn bwysicach o ran prif nod y traethawd hwn, sef ymchwilio i ddefnyddioldeb technoleg cyfieithu o safbwynt y cyfieithydd proffesiynol, darganfuwyd gwahaniaeth

ystadegol arwyddocaol rhwng TER pob cyfranogwr wrth gyfieithu heb unrhyw dechnoleg cyfieithu (Dim Cyfatebiaeth) ac ymdrin ag allbwn systemau TM ar ffurf Cyfatebiaethau Llawn ($t(145) = 199, p = .001, BCa CH [97, 97]$) a Chyfatebiaethau Rhannol ($-t(83) = 174, p = .001, BCa CH [79, 83]$). Roedd nifer y newidiadau a wnaed i'r testun wrth ôl-olygu, fel y'u cofnodir gan y sgôr TER, hefyd yn sylweddol lai na sgôr TER y cyfranogwyr wrth gyfieithu ($-t(180.1) = 199, p = .001, BCa CH [-96, -94]$). Mae hyn hefyd yn cadarnhau'r canlyniadau a gyflwynwyd yn Adrannau 6.2 a 6.5 ar gyfer yr Ymdrech Dechnegol; roedd y gwaith golygu unwaith eto felly yn llai wrth ddefnyddio technoleg cyfieithu i greu cyfieithiad o gymharu â chyfieithu hebddi.

6.21 ARBEDION AC ENILLION CANRANNOL

Mae angen ystyried bellach natur yr *arbedion* amseryddol a welwyd ynghyd â'r *enillion* cysylltiedig mewn WPM. Gwneir hyn drwy gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng yr amser prosesu a WPM wrth ymdrin â 'Dim Cyfatebiaeth' (a droswyd o eiliadau i funudau) ac wrth ymdrin â phob math arall o gyfatebiaeth. Mae Tabl 26 yn cyflwyno'r arbedion amseryddol canrannol a welwyd wrth ddefnyddio'r tri math o gyfatebiaeth o gymharu â chyfieithu hebddynt o ran amser.

6.22 ARBEDION CANRANNOL AMSERYDDOL

Wrth edrych ar y data a geir yn y tabl isod, daw tri pheth i'r amlwg. Yn gyntaf, ni phrofodd yr un cyfieithydd ostyngiad yn ei gynhyrchedd heblawn am un, a hyd yn oed wedyn dim ond gan 0.1%; cynyddwyd cynhyrchedd pawb oddi ar ei waelodlin wrth gyfieithu, a hynny yn sylweddol yn y rhan fwyaf o achosion. Yn ail, mae amrywiaeth mawr i'w gael o ran yr arbedion canrannol hyn; yr arbediad lleiaf oedd 6.90% yn achos Cyfranogwr 5 a Chyfatebiaethau Rhannol, a'r arbediad mwyaf oedd 1600% yn achos

Cyfranogwr 6 a Chyfatebiaethau Llawn. Mae'r arbediad canrannol mwyaf a brofodd pob cyfranogwr wedi ei amlygu'n las. Yr hafaliad a ddefnyddiwyd i ddod o hyd i'r data hyn oedd:

$$\frac{x}{y} \times 100$$

Ffigur 24: Hafaliad ar gyfer Cyfrifo Arbedion Amseryddol

Sef cymedr yr amser prosesu wrth gyfieithu (x), wedi'i dynnu o gymedr yr amser wrth brosesu cyfatebiaeth benodol (y), cyn lluosu'r gwahaniaeth gan 100.

Tabl 26: Arbedion Canrannol: Amser

Arbedion Canrannol: Amser Prosesu (munudau)			
Cyfranogwr	Math o Gyfatebiaeth	Gwaelodlin Cyfieithu	Arbed %
1	Cyfatebiaethau Rhannol	14	27.27%
	Cyfatebiaethau Llawn		366.67%
	MT		180%
2	Cyfatebiaethau Rhannol	29	123.08%
	Cyfatebiaethau Llawn		866.67%
	MT		480%
3	Cyfatebiaethau Rhannol	22	83.33%
	Cyfatebiaethau Llawn		633.33%
	MT		340%
4	Cyfatebiaethau Rhannol	23	43.75%
	Cyfatebiaethau Llawn		91.67%
	MT		130%
5	Cyfatebiaethau Rhannol	31	6.90%
	Cyfatebiaethau Llawn		210%
	MT		287.50%
6	Cyfatebiaethau Rhannol	34	161.54%
	Cyfatebiaethau Llawn		1600%
	MT		209.09%
7	Cyfatebiaethau Rhannol	27	80%
	Cyfatebiaethau Llawn		350%
	MT		285.71%
8	Cyfatebiaethau Rhannol	12	-0.1
	Cyfatebiaethau Llawn		100%
	MT		200%

Gyda'r arbedion canrannol sylweddol hyn i'w gweld yn achos amser, mae ond i'w ddisgwyl y byddant yn trosi'n enillion yn nifer y geiriau a gynhyrchwyd hefyd. Hyn a fydd dan sylw isod.

6.23 ENILLION CANRANNOL MEWN WPM

Defnyddiwyd yr hafaliad canlynol i gyfrifo'r enillion canrannol mewn WPM:

$$\frac{x}{y} \times 100$$

Ffigur 25: Hafaliad ar gyfer cyfrifo Enillion Canrannol mewn WPM


Sef WPM wrth gyfieithu (x) wedi'i dynnu o'r WPM a welwyd wrth ddefnyddio cyfatebiaeth benodol (y), wedyn lluoswyd y canlyniad gan 100. Wrth graffu ar y tabl isod, gellir dod i dri chasgliad. Yn gyntaf, ni welwyd yr un gostyngiad yng nghynhyrchedd yr un cyfieithydd wrth ddefnyddio MT na Chyfatebiaethau Llawn, ond gwelwyd un gostyngiad bach yn achos Cyfranogwr 4 ac 8 a Chyfatebiaethau Rhannol. Yn ail, mae amrywiaeth mawr i'w gael o ran yr enillion canrannol hyn; y cynnydd lleiaf oedd 35.29% yn achos Cyfranogwr 1 a Chyfatebiaethau Rhannol, a'r cynnydd mwyaf oedd 931% yn achos Cyfranogwr 5 a Chyfatebiaethau Llawn. Mae'r cynnydd canrannol mwyaf a brofodd pob cyfranogwr wedi ei amlygu'n las, ac mae'r un gostyngiad bach wedi ei amlygu'n goch. Cyfeiria 100% at achos lle dyblwyd cynhyrchedd y cyfieithydd hwnnw, felly byddai 200% yn cyfeirio at achos lle cynyddwyd ei gynhyrchedd bedwarplyg, ac yn y blaen.

Tabl 27: Enillion Canrannol: WPM

Enillion Canrannol: WPM			
Cyfranogwr	Math o Gyfatebiaeth	Gwaelodlin Cyfieithu	Ennill %
1	Cyfatebiaethau Rhannol	34	35.29%
	Cyfatebiaethau Llawn		223.53%
	MT		123.53%
2	Cyfatebiaethau Rhannol	17	129.41%
	Cyfatebiaethau Llawn		547.06%
	MT		347.06%
3	Cyfatebiaethau Rhannol	22	90.91%
	Cyfatebiaethau Llawn		400.00%
	MT		245.45%
4	Cyfatebiaethau Rhannol	21	6%
	Cyfatebiaethau Llawn		106%
	MT		194%
5	Cyfatebiaethau Rhannol	16	178%
	Cyfatebiaethau Llawn		1078%
	MT		142%
6	Cyfatebiaethau Rhannol	14	83%
	Cyfatebiaethau Llawn		205%
	MT		200%
7	Cyfatebiaethau Rhannol	21	47%
	Cyfatebiaethau Llawn		28%
	MT		80%
8	Cyfatebiaethau Rhannol	40	-5%
	Cyfatebiaethau Llawn		35%
	MT		135%

6.24 ALLOSOD CYNHYRCHEDD

Bydd rhan olaf y bennod hon yn defnyddio'r data a gasglwyd ar gyfer WPM i allsod cynhyrchedd y grŵp hwn o wyth cyfieithydd fesul math o gyfatebiaeth. Gan droi yn awr at gynhyrchedd wedi ei allsod fesul math o gyfatebiaeth, yn hytrach na'r gwahaniaeth yn yr hyn y gellid ei gynhyrchu, dengys Ffigur 26 gynhyrchedd allsodedig cyffredinol y grŵp hwn o wyth cyfieithydd fesul math o gyfatebiaeth. Dangosir cynhyrchedd y grŵp wrh gyfieithu heb allbwn systemau MT/TM (Gwaelodlin), ynghyd â'i gynhyrchedd allsodedig wrth ddefnyddio pob math o gyfatebiaeth fesul diwrnod/wythnos. Mae'r saeth du hefyd yn amlygu'r cynnydd blynyddol cysylltiedig. Dynoda bariau â gwyrdd sydd wedi ei allsod i ddiwrnod, a bariau glas i gynhyrchedd sydd wedi ei allsod i wythnos.



Ffigur 26: Cynhyrchedd wedi ei allosod i ddiwrnod gwaith, wythnos a blwyddyn

6.25 DIWEDDGLO: PRIF DDARGANFYDDIADAU O RAN CYNHYRCHEDD

O fachu ar y cyfle i wneud defnydd mwy o dechnoleg cyfieithu felly, gallai'r effaith ar amlygrwydd cymdeithasol y Gymraeg a'i gweladwyedd yn y Gymru gyfoes, ynghyd â'r cyfleoedd i'w defnyddio mewn nifer o feysydd, fod yn un fawr. Gallai'r arbedion ariannol fod yn sylweddol hefyd. Yn ôl Comisiwn y Cynulliad, amcangyfrifwyd y byddai ôl-olygu allbwn GTrans ar gyfer cyfieithu'r Cofnod mewn blwyddyn yn costio £110,000. Dyma arbediad posibl o £130,000 gan y cyfrifwyd bod cost flynyddol cyfieithu'r Cofnod yn £240,000 yn ôl data oedd ar gael yn 2011 (gan gynnwys TAW) (Comisiwn y Cynulliad 2011, tt. 6-7). Awgrymodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2011, yn seiliedig ar ffigurau Cyngor Sir Caerffili, y gellid codi 33% o'r pris am gyfatebiaeth lawn, 66% am gyfatebiaeth rannol a 100% o'r pris a godir am gyfieithiad lle nad oes dim yn y TM (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2011, tt. 22-23). Trwy wneud, gellid cwtogi'r arian a delir am gyfieithu yn

sylweddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar adeg pan fo'r Gymraeg nid yn unig yn wynebu nifer o fygythiadau i'w dyfodol, ond hefyd ar adeg pan fo cyfieithu'n debygol o fod yn bwysicach nag erioed yn dilyn Safonau Iaith Gymraeg Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011), sydd wrthi'n cynyddu'r hyn y mae disgwyl i nifer fawr o sefydliadau ei wneud yn y Gymraeg ac ar gyfer siaradwyr y Gymraeg.⁹⁸ Mae'r dechnoleg yn bodoli, ac eglurwyd eisoes y berthynas rhwng normaleiddio ieithyddol, polisi iaith a chyfieithu. Ond ni olyga hyn y gellir dechrau defnyddio'r dechnoleg yn syth ymhob achos serch hynny, gan brofi'r enillion hyn dros nos; mae nifer o ystyriaethau pwysig sydd angen sylw yn gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddi cyfieithwyr a darpar gyfieithwyr i ddefnyddio'r dechnoleg yn gywir, a sut i ryngweithio â'r allbwn mewn modd effeithlon. Mae hefyd yn cynnwys y buddsoddiad ariannol cychwynnol o dalu am drwydded ar gyfer system TM, ynghyd â thalu am y system MT a ddefnyddir (sef £13.69 fesul miliwn o nodau *pro rata* yn achos API GTrans, a gyfetyb i tua 150,000 o eiriau, yn ôl y wybodaeth ddiweddaraf (Google 2016). Byddai sicrhau bod system llif gwaith yn ei lle, ar y cyd â system rheoli cynnwys, hefyd yn ddefnyddiol, ac yn ei gwneud yn haws clustnodi prosiectau penodol ar gyfer ôl-olygu er enghraifft. Byddai cyfnod arbrofol â'r nod o adnabod y cyfieithwyr hynny a fedr ôl-olygu'n effeithlon hefyd yn synhwyrol; fel y nodwyd uchod, nid yw pob cyfieithydd yn ôl-olygydd wrth natur, felly byddai penderfynu pwy yn y sefydliad sy'n debygol o brofi gostyngiad mewn cynhyrchedd yn sicrhau na orfodir ar unigolyn yr hyn nad yw'n mwynhau ei wneud, ac yn ail byddai'n sicrhau na welir unrhyw ostyngiadau di-angen yng nghynhyrchedd yr unigolion hyn ychwaith. Mae sicrhau rhan i gyfieithwyr yn y broses o roi MT ar waith yn gwbl hanfodol; mae Karamanis *et al.* (2011) yn disgrifio effeithiau

⁹⁸ Neu yng ngeiriau gwas sifil yn Llywodraeth Cymru a gyhoeddodd adroddiad yn ddiweddar am gaffael gwasanaethau cyfieithu EN-CY, 'It is still relatively early in the implementation of the 2011 Measure, but it is possible that the obligations presented in the Measure could lead to an increased demand for translation and interpretation' (Richards 2013, t.9).

negyddol ac emosiynol anwybyddu'r ochr ddynol i newid sefydliadol mewn perthynas â MT. Wrth ystyried hyn oll, mae adnabod anghenion y cwmni/uned o ran cyfieithu yn hanfodol; trwy ddod yn gyfarwydd â faint mae'r cwmni/uned yn ei gyfieithu fesul diwrnod/wythnos/blwyddyn, faint sy'n cael ei is-gontractio a pha fath o destunau a gyfieithir amlaf er enghraifft, bydd modd dewis y systemau MT a TM cywir, gan sicrhau y gwelir yr adenillion ar fuddsoddiad yn gynt. Mae'r broses o adnabod anghenion, hyfforddi cyfieithwyr, adnabod y cyfieithwyr mwyaf addas ar gyfer ôl-olygu MT, gwneud unrhyw newidiadau anghenrheidiol i'r llif gwaith a thalu am y dechnoleg yn golygu y bydd y cyfnod cychwynnol hwn yn debygol o arwain at ostyngiad mewn cynhyrchedd yn gyntaf oll, ynghyd â chost ariannol. Bydd y cynhyrchedd hwnnw wedyn yn cyrraedd torbwynt (lle bydd cynhyrchedd wrth ddefnyddio systemau MT a TM yn gyfuwch â chynhyrchedd hebddynt), cyn cynyddu'n sylweddol wedi hynny (Dillinger a Lommel 2004, t. 19). Ond gallai'r cynnydd mewn cynhyrchedd *yn y pen draw* fod yn sylweddol. Gall hyn effeithio'n uniongyrchol wedyn ar hyfywedd y Gymraeg, ac o bosibl ei gwneud yn llawer mwy tebygol y bydd sefydliadau a chwmnïau masnachol cenedlaethol a rhyngwladol sydd y tu hwnt i gwmpas Mesur y Gymraeg yn barod i gyfieithu a lleoleiddio i'r Gymraeg, gan fod seilwaith technegol yn ei le i hwyluso hyn mewn modd effeithiol ac effeithlon. Crynhoa Tabl 28 brif ddarganfyddiadau'r rhan hon o'r traethawd.

Tabl 28: Prif Ddarganfyddiadau Cynhyrchedd

Rhif	Rhagdybiaeth	Model a Ddefnyddiwyd	Canlyniad
1.	Bydd y Cyflymder Prosesu Cyffredinol yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau rhannol rhwng 70-99% nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer		Derbyniwyd
2.	Bydd y Cyflymder Prosesu Cyffredinol yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau llawn nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	ANOVA Ailadrodd Mesurau	Derbyniwyd
3.	Bydd y Cyflymder Prosesu Cyffredinol yn uwch wrth brosesu cyfieithiadau awtomatig o system MT nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer		Derbyniwyd
4.	Bydd Cyflymder Prosesu unigol <i>pob</i> cyfieithydd yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau rhannol rhwng 70-99% nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer		Derbyniwyd
5.	Bydd Cyflymder Prosesu unigol <i>pob</i> cyfieithydd yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau llawn nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Prawf-t Samplau Dibynnol (Dwy Gynffon)	Derbyniwyd
6.	Bydd Cyflymder Prosesu unigol <i>pob</i> cyfieithydd yn uwch wrth brosesu cyfieithiadau awtomatig o system MT nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer		Derbyniwyd
7.	Bydd WPM Cyffredinol y cyfranogwyr yn uwch wrth brosesu cyfatebiaethau rhannol rhwng 70-99% nag y bydd wrth gyfieithu segmentau nad oes allbwn technoleg cyfieithu ar eu cyfer	Dim	Derbyniwyd
8.	Bydd cydberthyniad ystadegol rhwng Cyflymder Prosesu <i>pob</i> cyfieithydd wrth drin cyfatebiaethau rhannol yn y trothwy 70-99%, a'i Gyflymder Brosesu wrth drin yr allbwn MT	Prawf tau-b Kendall	Gwrthodwyd

A gafwyd yr enillion sylweddol hyn mewn cynhyrchedd ar draul ansawdd? Gan y profwyd eisoes fod y cyfieithwyr wedi buddsoddi llai o amser yn y broses o gyfieithu, a bod yr ymdrech wedi lleihau yn ôl yr arbrofion ym Mhennod 5, teg yw gofyn pa effaith a gafodd hyn ar ansawdd y cyfieithiadau, o gymharu â chyfieithiadau a gyfieithwyd heb dechnoleg cyfieithu. Troir yn awr at ran olaf y traethawd hwn, lle trafodir ansawdd terfynol testunau cyfieithiedig a pherthynas technoleg cyfieithu â'r cysyniad dyrus hwn.

7 ANSAWDD, TECHNOLEG A CHYFIEITHU PROFFESIYNOL

It is notoriously difficult to say why, or even whether, something is a good translation, since this must depend on a complex variety of different factors that are constantly shifting in their relationship.

Halliday (2001, t. 14)

Prif thema'r rhan olaf hon yw'r berthynas rhwng ansawdd terfynol cyfieithiadau a thechnoleg cyfieithu. Bwriedir dadansoddi, eto trwy gyfrwng fframwaith rhagdybiaethol-diddwythol, y sgil-ffeithiau a ddaw o ddefnyddio cyfatebiaethau rhannol a chyfatebiaethau llawn ar y cyd ag allbwn o system MT i gynhyrchu cyfieithiad proffesiynol. Ond cyn gwneud hyn, ymchwilir i'r llenyddiaeth gyhoeddedig mewn perthynas â'r agwedd bwysig hon ar dechnoleg cyfieithu, a hynny er mwyn ffurfio rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar ymchwil yn y maes. Wedi hyn, trafodir ansawdd a'i berthynas â chysyniad cywerthedd mewn Astudiaethau Cyfieithu, cyn adolygu modelau ansawdd o'r diwydiant cyfieithu. Eir ymlaen wedyn i fanylu ar y fethodoleg a ddewiswyd ar gyfer ymchwilio i ansawdd cymharol yn y traethawd hwn.

7.1 TECHNOLEG CYFIEITHU AC ANSAWDD: ASTUDIAETHAU ALLWEDDOL

Ymddengys fod y llenyddiaeth ynghylch effaith ôl-olygu ar gyfieithiadau terfynol yn cynyddu, felly eir i'r afael ag ôl-olygu yn gyntaf cyn systemau TM. Daethpwyd o hyd i 13 astudiaeth berthnasol a gymharodd destunau a ôl-olygwyd â thestunau a gyfieithwyd. Cymharwyd yr ansawdd rhwng y ddau fath o destun naill fel nod ynddo ef ei hun mewn saith astudiaeth, neu fel ymgais i ddilysu'r data proses a gasglwyd yn y gweddill. Ni chynhwyswyd astudiaethau lle cymharwyd allbwn MT amrwd â thestunau a gyfieithwyd gan fod dynol, eithr testunau a gyfieithwyd ac a ôl-olygwyd yn unig.

Mewn ymgais i ymchwilio i fanteision defnyddio MT wrth wella argaeledd gwasanaethau Saesneg a Ffrangeg mewn rhanbarthau gwahanol yng Nghanaada, cynhaliodd Bowker (2009) werthusiad cymharol o destunau a gyfieithwyd ac a ôl-olygwyd gan gyfieithwyr, a hynny o'r Ffrangeg i'r Saesneg (ar gyfer cymuned Ffrangeg ei hiaith Saskatchewan) ac o'r Saesneg i'r Ffrangeg (ar gyfer cymuned Saesneg ei hiaith gorllewin Quebec). Gofynnwyd i siaradwyr y ddwy iaith (yr oedd y rhan fwyaf ohonynt naill ai'n uniaith Saesneg (Quebec) neu'n uniaith Ffrangeg (Saskatchewan) ddewis pa destun a oedd yn well ganddynt trwy gyfrwng holiadur electronig. Maint sampl Bowker oedd 104 ar gyfer Saesneg i Ffrangeg a 119 ar gyfer Ffrangeg i Saesneg. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddewis naill ai destun a gyfieithwyd heb MT, testun a ôl-olygwyd gan gywiro'r gwallau amlycaf yn unig, testun a ôl-olygwyd gan gywiro popeth (gan gynnwys arddull, felly ôl-olygiad llawn) a chyfieithiad awtomatig nas cywirwyd o gwbl. Roedd yn well gan y gymuned Ffrangeg y cyfieithiad a wnaed heb ddefnyddio MT mewn 71.1% o achosion, a nododd 22.2% o gyfranogwyr mai'r testunau a ôl-olygwyd yn llawn a oedd yn well ganddynt (Bowker 2009, t. 140). Sefyllfa gwbl wahanol a gafwyd yn achos y gymuned Saesneg yn Quebec serch hynny; dim ond 8.4% a ddewisodd y cyfieithiad dynol dros bob un arall, a dewisodd 37.8% y cyfieithiad a ôl-olygwyd yn llawn (Bowker 2009, t. 146). Nododd y gymuned Ffrangeg yn astudiaeth Bowker mai 'cadwraeth ddiwylliannol' yw eu prif reswm dros eisiau cyfieithiadau Ffrangeg, ond dim ond 10.9% o'r gymuned Saesneg a nododd hynny (Bowker 2009, tt. 138-142). Gall hyn esbonio amharodrwydd y gymuned Ffrangeg ei hiaith i dderbyn cyfieithiadau sydd, yn eu tyb hwy, o safon israddol.

Mewn astudiaeth debyg ond ar raddfa fwy ar gyfer cyfieithu o'r Ffrangeg i'r Saesneg, cynhaliodd Bowker ac Ehgoetz (2009) astudiaeth gymharol i ddarganfod a fyddai'n well gan ddefnyddwyr cyfieithiadau ym Mhrifysgol ddwyieithog Ottawa ddefnyddio cyfieithiadau dynol, cyfieithiadau a ôl-olygwyd neu gyfieithiadau awtomatig

o system cyfieithu awtomatig nas cywirwyd. Roedd y 31 cyfranogwr yn ymwybodol o sut y cynhyrchwyd y gwahanol destunau. Nododd 67.7% o'r cyfranogwyr y byddai'n iawn ganddynt dderbyn y cyfieithiadau a ôl-olygwyd a nododd 32.2% y byddai'n well ganddynt y cyfieithiadau dynol. Ni ddywedodd neb y byddai'n well ganddo y cyfieithiadau awtomatig na chawsant eu golygu. Dengys y canlyniadau hyn felly y gall MT wasanaethu cymuned ddwyieithog, os caiff y cyfieithiadau eu cywiro'n briodol, a dengys nad yw defnydd o'r dechnoleg o reidrwydd yn creu testunau terfynol o safon israddol.

Dadansoddodd Fiederer ac O'Brien (2009) wahaniaethau rhwng y ddau fath o destun mewn perthynas â'r hyn y galwyd ganddynt yn '*accuracy*' (sef faint o wybodaeth a drosglwyddwyd o'r Iff i'r ID), '*clarity*' (pa mor ddarllenadwy a chywir oedd yr ID) ac arddull. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr (sef 11 myfyriwr MA Cyfieithu a oedd yn rhugl yn y ddwy iaith) ddewis eu hoff gyfieithiad hefyd. Dangosodd eu canlyniadau mai'r testunau a ôl-olygwyd a dderbyniodd y sgoriau uchaf ar gyfer '*accuracy*' a '*clarity*', ond mai'r cyfieithiadau a grëwyd heb ddefnyddio MT a dderbyniodd y sgoriau uchaf ar gyfer arddull. Mewn perthynas â'u 'hoff gyfieithiadau', roedd yn well gan y rhan fwyaf o werthuswyr destunau a gyfieithwyd heb ddefnyddio MT. Nid oedd y cyfranogwyr yn ymwybodol o darddiad y segmentau, h.y. ai testunau a ôl-olygwyd neu a gyfieithwyd oeddent.

Yn dilyn ymchwil Plitt a Masselot (2010) a fesurodd gynhyrchedd cyfieithwyr wrth ddefnyddio MT o gymharu â chyfieithu hebdo ar gyfer cyfieithu o'r Saesneg i'r Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg, cynaliasant asesiad ansawdd o rai o'r testunau targed a ôl-olygwyd ac a gyfieithwyd. Gofynnwyd i'r tîm asesu ansawdd benderfynu a oedd cyfieithiad yn weddol dda neu'n dda. Roedd pob testun a gyflwynwyd ar gyfer yr asesiad ansawdd yn ddigon da i gael ei gyhoeddi yn ôl yr awduron (Plitt a Masselot 2010,

t. 14). Dadansoddwyd hefyd ganran nifer y gwallau y cafodd eu nodi gan y tîm asesu ansawdd, a darganfuwyd bod y canran hwnnw yn uwch yn achos y testunau a gyfieithwyd o gymharu â'r testunau a ôl-olygwyd (Plitt a Masselot 2010, t. 15). Yn hytrach nag effeithio'n negyddol ar ansawdd y testunau terfynol felly, dangoswyd y medr defnyddio MT *wella* testunau targed mewn rhai achosion.

Gan ddefnyddio grŵp o 49 myfyriwr a oedd ar fin gorffen eu hastudiaethau (BA ac MA), cymharodd García (2011) ansawdd cyfieithiadau'r cyfranogwyr a grëwyd trwy gyfieithu heb MT a thrwy ôl-olygu allbwn MT yn *Google Translator Toolkit*. Gweithiodd y cyfranogwyr o Dseinëeg i Saesneg ac o Saesneg i Dseinëeg. Er mwyn dadansoddi'r ansawdd cymharol, defnyddiodd García fframwaith marcio arholiadau'r NAATI (*National Accreditation Authority for Translators and Interpreters*), sef cymdeithas arholi a rheoleiddio cyfieithwyr genedlaethol Awstralia. Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar gategoreiddio gwallau yn y testunau a gyflwynir gan ymgeiswyr a thynnir un marc am bob gwall. Er mwyn pasio mae angen sgôr rhwng 70-100. Rhoddodd Marciwr 1 sgôr uwch i'r testunau a ôl-olygwyd mewn 78% o achosion, a Marciwr 2 mewn 64% o achosion. Roedd y marcwyr ill dau yn gyfieithwyr proffesiynol profiadol â phrofiad o werthuso cyfieithiadau. Yn ôl prawf T samplau annibynnol, roedd y gwahaniaeth rhwng marciau'r ddau fath o destun yn ystadegol arwyddocaol yn achos Marciwr 1 ($p = 0.009$) ac yn achos Marciwr 2 ($p = 0.037$).

Yn rhan o astudiaeth beilot ehangach (Carl *et al.* 2011) i ddadansoddi'r broses cyfieithu ac ôl-olygu rhwng y Ddaneg a'r Saesneg, cymharodd saith adolygydd ansawdd y testunau a ôl-olygwyd a'r testunau a gyfieithwyd. Gofynnodd y fframwaith ansawdd a ddefnyddiwyd i adolygwyr restru dau gyfieithiad a gynhyrchwyd trwy gyfieithu a dau gyfieithiad a gynhyrchwyd trwy ôl-olygu yn ôl pa un a oedd yn well ganddynt. Cyfieithwyr

proffesiynol a greodd y testunau ymhob achos. Barnodd y saith adolygydd (pedwar cyfieithydd proffesiynol, dau â chefnidir mewn Astudiaethau Cyfieithu ac un unigolyn dwyieithog y mae'r Ddaneg yn famiaith iddo) fod y rhan fwyaf o'r testunau a ôl-olygwyd *yn well* na'r testunau a gyfieithwyd, er nad oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol yn ôl prawf gradd arwyddedig Wilcoxon ($p = 0.05053$). Mae'n arwyddocaol serch hynny na farnwyd bod ansawdd y testunau a ôl-olygwyd yn waeth nag eiddo'r testunau a gyfieithwyd, ac nad oedd defnyddio MT i gyfrannu at y broses o gyfieithu testun o reidrwydd wedi arwain at destun terfynol israddol. Mae'r awduron yn nodi serch hynny fod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn gymhleth, ac y byddant yn defnyddio fframwaith gwerthuso sy'n categoreiddio problemau penodol yn y testunau targed ar gyfer ymchwil bellach (Carl *et al.* t. 141).

Mae Skadiņš *et al.* (2011) yn dadansoddi ansawdd cymharol yn dilyn prosesau cyfieithu ac ôl-olygu, mewn ymgais i ddilysu eu data proses o'u harbrawf. Recriwtiwyd adolygydd cyfieithiadau proffesiynol, a chyfrifwyd ansawdd y testunau trwy dalu sylw i bedair prif paramedr (cywirdeb [y cyfieithu, sef ffyddlondeb], terminoleg, arddull ac ansawdd iaith [cywirdeb gramadegol]). Yn dilyn hyn, categoreiddiwyd y testunau terfynol yn ôl 'Rhagoriaeth', 'Da', 'Gweddol', 'Gwael' a 'Gwael iawn'. Dangosodd data Skadiņš *et al.* fod cyflwyno MT i'r llif gwaith wedi gwaethygu ansawdd terfynol y testunau, a bod 'ansawdd iaith' wedi gwaethygu fwyaf.

Er mwyn dilysu canlyniadau arbrofion cynhyrchedd ac ymchwilio i ansawdd cymharol testunau a gyfieithwyd ac a ôl-olygwyd, defnyddiodd O'Curran (2014) fframwaith asesu sy'n gofyn i adolygwyr dalu sylw i chwe pharamedr, sef cywirdeb (ffyddlondeb yr ID i'r IFf), iaith (atalnodi, syllafu, gramadeg), terminoleg, arddull, gwlad/rhanbarth (amser, dyddiad, arian cyfred ayyb) a swyddogaeth (testun cudd, gofod

rhwng geiriau ayyb). Gofynnwyd iddynt ystyried hefyd ddifrifoldeb y gwall unigol, sef 'Major Error' a 'Minor Error'. Dadansoddodd O'Curran (2014) gyfieithu o'r Saesneg i'r Ffrangeg, Sbaeneg a Phortiwgaleg Brasil a recriwtiodd adolygwyr cyfieithiadau profiadol (er na nodir faint). Darganfu O'Curran fod y testunau a gyfieithwyd yn cynnwys mwy o wallau yn ôl y fframwaith a ddefnyddiwyd fesul 1,000 o eiriau na thestunau a ôl-olygwyd, ac o ran y math o wall, roedd yn y testunau a gyfieithwyd ragor o wallau arddull na'r rhai a ôl-olygwyd. Yn ôl mathau eraill o wall, nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng y mathau o gamgymeriadau ac amryfuseddau a ganfuwyd yn y ddau fath o destun, sy'n golygu ei bod yn annhebyg bod ôl-olygu yn fwy tebygol na chyfieithu o beri gwallau o fath penodol. Eto felly, canfuwyd nid yn unig bod defnyddio MT yn annhebygol o effeithio'n negyddol ar ansawdd testunau terfynol, ond ei fod mewn gwirionedd â'r potensial i'w wella.

Ymchwiliodd Daems *et al.* (2013) i gyfieithu rhwng yr Iseldireg a'r Saesneg, a roeddent am ddarganfod a all ôl-olygu arwain at destun terfynol israddol o gymharu â chyfieithu'r un testun. Gweithredwyd fframwaith asesu gwreiddiol yn eu harbrawf, yn seiliedig ar gywirdeb gramadegol, ffyddlondeb i ystyr y gwreiddiol, a nifer o is-gategoriâu y tu fewn i'r ddau brif gategori hyn. Wedi recriwtio dau adolygydd a chan ddefnyddio pedwar testun, darganfuont fod ôl-olygu wedi arwain at destun gwell yn achos tri o'r testunau, a bod dim gwahaniaeth ystyrion mewn ansawdd yn achos y pedwerydd testun.

Er mwyn dilysu eu data proses o arbrawf a gymharodd gyflymder cyfieithwyr wrth ôl-olygu o gymharu â'u cyflymder wrth ddefnyddio system TM (yn seiliedig ar bedwar testun),⁹⁹ cynhaliodd Läubli *et al.* (2013) astudiaeth ansawdd ag arbenigwyr a chyfranogwyr yr arbrawf. Cyfieithu o'r Almaeneg i'r Ffrangeg oedd o dan y chwyddwydr yn yr astudiaeth hon. Gofynnwyd i'r arbenigwyr ym maes cyfieithu (dau ddarlithydd

⁹⁹ Ôl-olygu a oedd yn gyflymach, gyda gostyngiad amseryddol o -19.9% (Läubli *et al.* 2013, t. 86).

cyfieithu o Brifysgol Gwyddorau Cymwysedig Zürich) arfarnu cyfieithiadau yn ôl arddull, gramadeg, cystrawen, cywirdeb semantaidd a strategaethau cyfieithu, gan roi sgôr allan o 4 i'r cyfieithiadau. Pedwar oedd y sgôr orau. Arfarnwyd bod y fersiynau o destunau A a B a ôl-olygwyd yn well na fersiynau o'r un testun a grëwyd trwy ddefnyddio'r TM (a gynhwysodd nifer o gyfatebiaethau rhannol a llawn, ond roedd angen cyfieithu rhai brawddegau yn y rhaglen heb unrhyw allbwn o'r TM). Sgoriodd y fersiynau a ôl-olygwyd 16% yn uwch yn achos testun A a 7% yn achos testun B. Yn achos testun C, 2.4% oedd y canran, ond -2.1% yn achos testun D. Sgoriwyd y fersiynau a ôl-olygwyd (A, B, C, a D) yn uwch hefyd na'r cyfieithiadau cyfeiriol a gynhyrchwyd gan gyfieithwyr proffesiynol profiadol, a sgoriwyd y cyfieithiadau a gynhyrchwyd yn y system TM yn uwch na'r cyfieithiadau cyfeiriol yn achos testunau B a D hefyd. Yn yr ail ran, gofynnwyd i gyfranogwyr yr arbrawf ddewis yr hyn yr ystyriwyd ganddynt yn well cyfieithiad; cynhyrchwyd un cyfieithiad cyfeiriol gan gyfieithwyr proffesiynol profiadol, a fersiwn o'r un testun ffynhonnell a gynhyrchwyd yn yr arbrawf o dan y ddwy amod, sef cyfieithu trwy ôl-olygu a chyfieithu yn y system TM. Roedd yn well gan y cyfranogwyr y cyfieithiadau cyfeiriol na'r cyfieithiadau a gynhyrchwyd yn y system TM yn y rhan fwyaf o achosion, ac roedd y gwahaniaeth hwnnw yn ystadegol arwyddocaol yn ôl Prawf Arwydd ($p = 0.013$). Yn achos ôl-olygu, nid oedd y cyfranogwyr wedi dangos bod y naill set o gyfieithiadau na'r llall yn well ganddynt (canlyniad Prawf Arwydd $p = 0.667$), felly roedd y cyfieithiadau a ôl-olygwyd cystal â'r cyfieithiadau cyfeiriol a gynhyrchwyd heb unrhyw dechnoleg cyfieithu.

Cyfieithu deunydd fforymau siarad sydd dan sylw yn astudiaeth Vázquez *et al.* (2013), a hynny o'r Saesneg i'r Ffrangeg. Gan ddefnyddio fframwaith asesu LISA, a ddisgrifiwyd uchod, darganfuont mai'r testunau a ôl-olygwyd a dderbyniodd y sgôr uchaf, a bod y testunau a gyfieithwyd trwy addasu cyfatebiaethau rhannol o ansawdd is o

gymharu â thestunau a ôl-olygwyd ac a gyfieithwyd heb allbwn MT a TM. Serch hynny, nid oedd y gwahaniaeth rhwng y tri math o destun yn ystadegol arwyddocaol yn ôl prawf ANOVA ($p > 5$).

Cyflawnodd Bowker a Ciro (2015) werthusiad derbynnydd o dri chyfieithiad a gynhyrchwyd gan naill ai ddefnyddio allbwn Google Translate heb ei olygu, testun a ôl-olygwyd yn gyflym (lle anwybyddwyd gwallau arddull), neu destun a ôl-olygwyd yn llawn (lle cywirwyd popeth fel bod safon y cyfieithiad yn adlewyrchu safon cyfieithiadau dynol). Cyfieithu o'r Saesneg i'r Sbaeneg sydd dan sylw, a sail yr astudiaeth yw anghenion cyfieithu mewnfudwyr sy'n siarad Sbaeneg yn Ottawa. Roedd Bowker a Ciro am ddarganfod a yw'r gymuned hon yn barod i dderbyn cyfieithiadau a gynhyrchwyd gan ddefnyddio system MT (heb ei olygu neu wedi ei ôl-olygu i raddau amrywiol) yn hytrach na chyfieithiad dynol, gan gyfeirio at gost cyfieithu dynol proffesiynol yng Nghanada. Hefyd, gofynnodd yr awduron a fyddai'r dewisiadau hyn yn newid pe gwyddai'r cyfranogwyr gost y dull cynhyrchu a pha mor hir y cymerodd y broses cyfieithu. Canfu Bowker a Ciro (2015, t. 180) ei bod yn well yn achos y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i'r holiadur dderbyn cyfieithiad dynol dros y fersiynau a ôl-olygwyd, pan oedd y wybodaeth ynghylch dull, costau ac amser cynhyrchu yn anhysbys. Fodd bynnag, pan ddatgelwyd y meta data hyn, dewisodd mwyafrif y cyfranogwyr destunau a ôl-olygwyd 'yn gyflym', gyda fersiynau a ôl-olygwyd yn llawn yn dod yn ail. Deillia'r gwahaniaeth hwn o'r ffaith fod mwyafrif yr ymatebwyr naill ai am dderbyn cyfieithiad Sbaeneg i brosesu gwybodaeth yn gyflymach, i gadarnhau eu bod yn deall rhywbeth neu oherwydd hyfedredd cyfyngedig. At y dibenion hyn, "An elegant text is not required" (Bowker a Ciro 2015, t. 181). Dengys hyn fod ôl-olygu, hyd yn oed pan anwybyddir newidiadau arddull, yn medru diwallu anghenion y defnyddiwr a darparu gwerth am arian.

Mae Turner *et al.* (2015) yn canolbwyntio ar gyfieithu deunydd iechyd cyhoeddus yn yr UDA o'r Saesneg i'r Dsieiinëeg, gan gymharu testunau a gyfieithwyd â thestunau a ôl-olygwyd trwy gywiro allbwn system GTrans. Gofynnwyd i un cyfieithydd proffesiynol ac un gweithiwr iechyd cyhoeddus profiadol werthuso cyfieithiadau'r ôl-olygwyr, a gyfatebodd i 20 set o ddogfennau. Bu raid i'r ddau adolygydd werthuso'r cyfieithiadau yn ôl gramadeg, ffyddlondeb, dewis geiriau, addasrwydd diwylliannol a lefel darllen (sef rhwyddineb darllen tybiedig y testunau). Roedd yn well gan yr adolygwyr y testunau a gyfieithwyd heb unrhyw gymorth gan GTrans ymhob achos.

Gan droi yn awr at systemau TM, mae rhywfaint o dystiolaeth nad yw sgil-ffeithiau defnyddio'r systemau hyn mor gadarnhaol ag a dybir gan rai yn y diwydiant technoleg iaith. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a welir uchod o ran MT, lle mae nifer o ymchwilwyr naill ai wedi darganfod nad oes gwahaniaeth sylweddol mewn ansawdd cymharol, bod dim gwahaniaeth o gwbl neu hyd yn oed fod MT wedi gwella ansawdd y testunau hyn. Ond mae angen pwysleisio'r goleddfydd 'rhywfaint' yma serch hynny; mae Drugan (2013) a Jimenez-Crespo (2009, t. 214) ill dau yn gytûn bod y llenyddiaeth ar yr agwedd hon ar yr ymchwil gyhoeddedig ym maes Astudiaethau Cyfieithu yn gyfyngedig, felly annoeth fyddai ceisio dadlau ar ei sail na ddylid defnyddio systemau TM mewn cyd-destun proffesiynol. Ni lwyddwyd i ddod o hyd i ymchwil ar yr agwedd hon o safbwynt y Gymraeg pan gynhaliwyd yr adolygiad llenyddiaeth ychwaith. Daethpwyd o hyd i bedair astudiaeth a ddadansoddodd effaith defnyddio systemau TM ar ansawdd y testun terfynol. Eir ymlaen i werthuso'r rhain.

Aeth astudiaeth beilot Bowker (2005) i'r afael ag ansawdd terfynol testunau myfyrwyr MA a oedd ar fin cymhwyso'n gyfieithwyr proffesiynol, gan ddadansoddi cyfieithu o'r Ffrangeg i'r Saesneg. Dyluniodd arbrawf â thri grŵp; cyfieithodd Grŵp A

(n=3) 32 segment o hysbyseb swydd Ffrangeg i'r Saesneg heb ddefnyddio system TM a'i chyfatebiaethau, cyfieithodd Grŵp B (n=3) yr un testun ond gyda saith cyfatebiaeth lawn a chwe chyfatebiaeth rannol allan o 32 segment, a chyfieithodd Grŵp C (n=3) yr un hysbyseb, ond gyda saith cyfatebiaeth lawn a chwe chyfatebiaeth rannol allan o'r un nifer o segmentau, sef 32. Cynhwysodd cyfatebiaethau llawn a rhannol Grŵp C wallau iaith a gwallau cyfieithu; nod Bowker oedd canfod a fyddai defnyddio system TM yn cyflymu cyfieithu, i ddarganfod a fyddai testunau'r grŵpiau a ddefnyddiodd system TM yn cynnwys gwallau, cymysgedd arddulliol ac anghysondebau ac yn olaf i ddarganfod a gâi'r gwallau a gyflwynwyd yn fwriadol i gyfatebiaethau Grŵp C eu chwynnu neu eu gadael yn y testun targed. Gosodwyd terfyn amser o 40 munud i bob cyfranogwr ymhob grŵp hefyd, â'r bwriad ychwanegol o ddadansoddi effaith terfynau amser tyn ar allu cyfieithwyr i sylwi ar wallau yn y cyfatebiaethau y cynigir iddynt a'u parodrwydd i'w cywiro. Mae canlyniadau Bowker yn ddiddorol, er y dylid cadw mewn cof mai astudiaeth beilot ydoedd gyda myfyrwyr MA ac nid cyfieithwyr profiadol, a nifer bach o segmentau (n=96). Cwblhawyd y cyfieithiad gan bob cyfranogwr yng Ngrŵp B ac C, ond methodd dau allan o dri yng Ngrŵp A â gorffen mewn pryd. Yr hyn sydd fwyaf perthnasol o ran ansawdd yw bod gwaith Grŵp A (yn ôl Bowker, a farciodd y cyfieithiadau ei hun ar sail ei phrofiad cyfieithu) yn well na gwaith Grŵp B a Grŵp C, a bod Gwaith B yn well na gwaith Grŵp C. Roedd cyfieithiadau Grŵp B yn cynnwys anghysondeb terminolegol a geirfaol, a honnodd Bowker fod testunau unigol hefyd yn cynnwys cymysgedd arddulliol mewnol (y defnydd o'r goddefol er enghraifft yn lle berfau gweithredol, a'r defnydd o enwau yn lle berfau). Cyfieithiadau terfynol Grŵp C, serch hynny, a ddiodeffodd waethaf. O gofio bod y cyfatebiaethau a roddodd i'r cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn cynnwys gwallau gramadegol a chamgyfieithu y disgwyliwyd i'r cyfranogwyr eu cywiro, cynhwysodd y testunau terfynol 13 allan o 15 o'r gwallau a roddwyd yng nghyfatebiaethau llawn TM

unigol y cyfranogwr, a 4 allan o'r 15 o roddwyd yn y cyfatebiaethau rhannol. Yn debyg i gyfieithiadau terfynol Grŵp B, gwelodd Bowker yr un dystiolaeth o gymysgedd arddulliol ac enghreifftiau o anghysondebau hefyd. Mae'n debyg na chredodd y myfyrwyr fod angen gwirio a golygu cyfatebiaethau llawn, fel y cyfeddyf Bowker (2005, t. 18) ei hun, felly gall hyn egluro pam y cafodd mwy o wallau o'r cyfatebiaethau llawn eu cadw na gwallau yn y cyfatebiaethau rhannol.

Dadansoddodd Guerberof (2009) ansawdd cyfieithiadau terfynol cyfieithwyr fesul segment a grëwyd heb ddefnyddio systemau TM ac MT a thrwy ryngweithio â hwy. Cymerodd 8 cyfieithydd ran yn astudiaeth Guerberof (2009) a chyfieithwyd o'r Saesneg i'r Sbaeneg. Guerberof ei hun a adolygodd y testunau terfynol. Dadansoddodd faint o wallau a gafwyd gan gymhwyso fframwaith adolygu LISA (*Localisation Industry Standards Association*) at y cyfieithiadau terfynol, sy'n cynnwys yr un categorïau â'r fframwaith a ddefnyddiwyd gan O'Curran (2014) uchod ar y cyd ag un ychwanegol, sef '*Mistranslation*'. Daeth Guerberof o hyd i wallau yn segmentau terfynol pob cyfieithydd, ni waeth pa ddull y defnyddiwyd i'w creu. Serch hynny, canfuwyd 52% o wallau yn y segmentau a gyfieithwyd trwy ddefnyddio'r cyfatebiaethau rhannol, 27% yn y segmentau a gyfieithwyd trwy ôl-olygu'r allbwn MT (defnyddiwyd system Language Weaver i greu peiriant ar sail data TM) a 21% yn y segmentau a gyfieithwyd heb ddefnyddio TM nac MT. Er bod llai o wallau yn y cyfieithiadau dynol, pwysleisia Guerberof (2009, t. 19) na chaniatawyd i'r cyfieithwyr adolygu eu gwaith ar ôl gorffen (elfen o'r broses cyfieithu a welir yn llifoedd gwaith nifer o gyfieithwyr proffesiynol (Alves a Vale 2011; Dragsted a Carl 2013), felly gall hyn esbonio'r nifer uchel o wallau yn gyffredinol. Mewn perthynas â dwy baramedr bwysig 'iaith' a 'camgyfieithu', mae'n ddiddorol sylwi hefyd mai'r cyfieithiadau dynol sy'n cynnwys y nifer mwyaf o achosion o gamgyfieithu (sef 8% o'r holl wallau o gymharu â 2% wrth ôl-olygu a 6% wrth ddefnyddio'r TM), ac nad yw'r

defnydd o MT wedi arwain at fwy o wallau iaith (6% wrth ôl-olygu a 6% wrth gyfieithu, ond 11% wrth ddefnyddio'r TM). Mae hyn yn ddiddorol iawn o gofio bod y system MT yn cynnig allbwn sydd fel arfer yn anramadegol. Mae'n arwyddocaol mai cyfieithu *heb* dechnoleg cyfieithu sy'n fwy tebygol o beri camgyfieithiadau, yn ôl yr astudiaeth hon o 2008.

Gan ddefnyddio methodoleg corpws, cymharodd Jimenez-Crespo (2009) destunau a leoleiddiwyd i'r Sbaeneg o'r Saesneg, gan ddadansoddi strwythurau a chynnwys gwefannau a chysondeb geirfaol, cystrawennol a theipograffig. Er mwyn ymchwilio i effaith cyfieithu mewn systemau TM ar strwythurau a chynnwys gwefannau Sbaeneg, manteisiodd Jimenez-Crespo (2009) ar gorpws o 21,322 o wefannau a leoleiddiwyd mewn system TM a 19,102 o wefannau a grëwyd mewn cyd-destun uniaith heb system TM. Darganfu fod strwythurau a chynnwys y gwefannau lleoleiddiedig hyn yn debycach i'w gwefannau Saesneg, ond bod gwefannau a grëwyd yn Sbaeneg ar gyfer y gymuned Sbaeneg ei hiaith yn cydymffurfio â normau'r genre honno ar gyfer Sbaeneg. Er enghraifft, byddai'r gwefannau a leoleiddiwyd yn cynnwys llawer mwy o gyfeiriadau at wybodaeth am breifatrwydd (Diogelu Data, Preifatrwydd, Briwsion) a rhannau 'Amdanom ni' gan fod gwefannau Americanaidd yn fwy tebygol o gynnwys y math hwn o wybodaeth nag yw gwefannau Sbaeneg, oherwydd y cyd-destun cyfreithiol a diwylliannol gwahanol (Jimenez-Crespo 2009, t. 223). Darganfu hefyd fod gwefannau a leoleiddiwyd mewn systemau TM yn cynnwys llawer mwy o anghysondebau geirfaol, cystrawennol a theipograffig na gwefannau a grëwyd mewn cyd-destun uniaith Sbaeneg.

Dadansoddodd Guerberof (2014a) y berthynas rhwng ôl-olygu, defnyddio cyfatebiaethau rhannol a chyfieithu heb dechnoleg cyfieithu a phrofiad, gan ofyn a fyddai'r defnydd (neu ddiffyg defnydd) o'r technolegau hyn ynghyd â phrofiad y

cyfieithydd sy'n eu defnyddio yn effeithio ar ansawdd terfynol testunau. Cyfieithu o'r Saesneg i'r Sbaeneg a oedd dan y chwyddwydr a chymerodd pedwar cyfieithydd ar hugain ran yn yr astudiaeth, ar y cyd â thri adolygydd. Eto, defnyddiwyd model ansawdd LISA i werthuso'r testunau terfynol, sy'n seiliedig ar nifer y gwallau a'r math. Yn debyg i ganfyddiadau Bowker (2005), darganfu Guerberof (2014a, t. 66) fod cyfieithwyr llai profiadol yn tueddu i wneud mwy o wallau wrth ryngweithio â chyfatebiaethau rhannol na chyfieithwyr profiadol, eto mae'n debyg oherwydd y diffyg sylw a delir i'r gwallau cyfieithu yn y cyfatebiaethau hyn. Dengys hyn bwysigrwydd hyfforddi darpar gyfieithwyr i ddefnyddio'r dechnoleg yn gywir. Yr hyn sydd fwyaf diddorol serch hynny yw'r ffaith y canfuwyd mwy o wallau yn y testunau a gyfieithwyd o gymharu â'r testunau a ôl-olygwyd ac a grëwyd trwy ryngweithio â'r cyfatebiaethau rhannol (Guerberof 2014a, tt. 65-72). Dengys canlyniadau Guerberof felly nad yw'r defnydd o systemau MT a TM o reidrwydd yn effeithio'n negyddol ar ansawdd testunau terfynol cyfieithwyr, pan fesurir ansawdd gan gyfrif nifer y gwallau a ganfyddir yn y testunau hyn.

Er nad â astudiaeth Fantinuoli (2016) i'r afael ag ansawdd fel y cyfryw, mae o hyd yn berthnasol. Nod Fantinuoli, trwy gyfrwng metholeg corpws gymharol, yw darganfod a yw testunau a gyfieithwyd mewn system TM yn wahanol i destunau a gyfieithwyd mewn prosesydd geiriau, ac i destunau nas cyfieithwyd ond a ysgrifennwyd mewn cyd-destun unieithog. Newidynnau dibynnol Fantinuoli (2016, tt. 303-305) yw hyd brawddegau, dwysedd geirfaol, y defnydd o ragenwau dangosol a chymhareb enwau/berfau.¹⁰⁰ Darganfu'r awdur fod brawddegau a gyfieithwyd mewn system TM yn

¹⁰⁰ Byddai hyd brawddegau gwahanol yn awgrymu bod y naill destun neu'r llall wedi ei symleiddio, a byddai dwysedd geirfaol llai yn awgrymu bod testunau a gyfieithwyd trwy system TM wedi eu symleiddio hefyd. Byddai llai o ragenwau dangosol mewn testunau a gyfieithwyd trwy system TM yn awgrymu diffyg cydlynrwydd testunol, a byddai cymhareb enwau/berfau wahanol yn awgrymu bod y system TM wedi ymyrryd mewn agweddau terminolegol a chyfoeth geirfaol yn gyffredinol.

tueddu i fod yn fyrrach (cymedr hyd brawddegau a gyfieithwyd mewn system TM oedd 20.27, cymedr y brawddegau nas cyfieithwyd mewn system TM oedd 25.47). Mynegir dwysedd geirfaol yn ganran. Dwysedd geirfaol y corpws o gyfieithiadau a wnaed mewn system TM oedd 58.79%, ond 58.18% oedd y canran cyfatebol ar gyfer testunau nas cyfieithwyd mewn system TM. Mewn perthynas â rhagenwau dangosol, sy'n gysylltiedig â chydlynrwydd testunol cyfieithiadau, cymedr y testunau a gyfieithwyd mewn system TM oedd 0.14%, ond 0.25% oedd y canran cyfatebol ar gyfer testunau nas cyfieithwyd mewn system TM. Daethpwyd o hyd i wahaniaeth rhwng y ddau fath o gyfieithiadau o ran y gymhareb berfau/enwau hefyd; 2.29 oedd sgôr y cyfieithiadau a wnaed mewn system TM, ond 2.56 ar gyfer testunau nas cyfieithwyd mewn system TM. Mae Lapshinova-Koltunski (2013) hefyd yn cadarnhau'r darganfyddiadau hyn.¹⁰¹

Mae'r casgliadau felly yn gymysg ar gyfer yr effaith a gaiff ôl-olygu ar y testun targed, gyda thair astudiaeth yn tynnu sylw at y gwallau a gyflwynwyd i'r testun ffynhonnell yn dilyn y defnydd o MT, er bod y gweddill yn unfryd bod y defnydd o MT wrth gyfieithu'n broffesiynol yn medru gwella ansawdd y testun terfynol yn hytrach na'i ddifetha. Mae'r darlun ychydig yn llai ffafriol pan ddaw i'r defnydd o systemau TM serch hynny; mae pob astudiaeth berthnasol y gellid dod o hyd iddi, heblaw am un, yn dadlau nad yw'r defnydd o systemau o reidrwydd yn llesol i ansawdd y testun terfynol, yn enwedig mewn perthynas â chysondeb, arddull a chydlyniad testunol y cyfieithiad gorffenedig. Tynnodd dwy o'r astudiaethau hyn sylw at berthnasedd profiad y cyfieithydd yn hynny o beth; nid oedd cyfieithwyr llai profiadol yn ddigon beirniadol o gynigion y TM, gan adael i wallau lithro trwy'r rhwyd. Dylid pwysleisio hefyd, fel y dadleuwyd uchod, fod cynnal a chadw cynnwys systemau TM yn hollbwysig (mae system TM ond cystal â'r

¹⁰¹ Ond gweler cyhoeddiad diweddarach gan yr awdur hwn lle mae'n herio llawer o'i chasgliadau cynharach (Lapshinova-Koltunski 2016).

cynnwys y ceir ynnddi), a bod proses adolygu derfynol, lle chwynnir gwallau cyn dychwelyd testun, yr un mor bwysig.

7.2 TECHNOLEG CYFIEITHU AC ANSAWDD: SGIL-EFFEITHIAU POSIBL

Yn dilyn adolygu'r astudiaethau hyn a'r hyn a ddywed Drugan (2013, tt. 102-124) am berthynas technoleg ag ansawdd mewn cyd-destun cyfieithu proffesiynol, amlinella Tabl 29 brif sgil-ffeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) defnyddio systemau TM a MT wrth gyfieithu.

Tabl 29: Sgil-ffeithiau posibl defnyddio systemau TM a MT wrth gyfieithu

Sgil-ffeithiau posibl	
<i>Cadarnhaol</i>	<i>Negyddol</i>
Cysondeb terminoleg a thestunol	Bytholi a chylchredeg cyfieithiadau o ansawdd gwael trwy ddefnyddio TM a MT os nas chwynnir
Awtomeiddio rhai elfennau o'r Asesiad Ansawdd	Tynnir cyfieithiadau o'u cyd-destun oherwydd segmenteiddio gorfodol
Arbenigedd staff ar gael i bawb, hyd yn oed ar ôl iddynt symud ymlaen	Cymysgedd arddulliol a diffyg cydlynrwydd testunol
Amhosibl colli segmentau	Anwybyddu gwallau cyfatebiaethau'r TM

Mae'r effeithiau negyddol i'w gweld, yn ôl nifer, oherwydd bod y diwydiant cyfieithu bellach yn canolbwyntio ar segmentau ac unedau llai o destun, yn hytrach nag ar destun a gyfieithir yn ei gyfanrwydd gan un cyfieithydd unigol. Gall y segmenteiddio gorfodol hwn olygu bod y cyfieithydd yn llawer mwy tebygol o barchu strwythur y testun ffynhonnell hefyd, "The rigidity of maintaining the same order and number of sentences [...] may affect the naturalness and quality of the translation" (Bowker 2002, t. 117). Honnir bod y defnydd o systemau TM yn neilltuol felly wedi newid y broses y mae'r dechnoleg i fod i'w chynorthwyo (Bowker 2002). Mae'r cyfieithydd bellach yn gweithio ar '*microtext*', a dadleuir bod canlyniadau negyddol i ansawdd testunau terfynol y broses cyfieithu yn sgil hyn oherwydd mai'r *testun* yw prif wrthrych Astudiaethau Cyfieithu yn

draddodiadol, nid y *frawddeg* unigol heb ei chyd-destun (Jimenez-Crespo 2009, t. 217). Dadl cwmnïau technoleg iaith ar y llaw arall yw bod y defnydd o'u systemau TM yn sicrhau cysondeb terminolegol oherwydd y gallu i storio a mewnosod terminoleg wrth gyfieithu, a bod ailddefnyddio cyfieithiadau a gyfieithwyd eisoes yn sicrhau y cedwir cysondeb testunau bob tro gan y defnyddir yr un cyfieithiad a wnaed ynghynt (Jimenez-Crespo 2009, t. 214). Mae lle i gredu nad yw'r wir sefyllfa cyn symled â hyn serch hynny. Mae astudiaeth gan Moorkens (2011), er enghraifft, yn dadansoddi pedwar ffeil TMX wahanol (sef y ffeiliau a gynnwys ddata'r systemau TM), dau sy'n cynnwys segmentau Saesneg i Almaeneg a dau sy'n cynnwys segmentau Saesneg i Siapaneg, ac yn eu harchwilio am anghysondebau. Dengys ei ymchwil fod y ffeiliau TMX yn cynnwys nifer o anghysondebau ac y gall y defnydd o systemau gyflwyno anghysondebau hyd yn oed lle nad oes rhai yn y segmentau ffynhonnell. Mae ysgolheigion Astudiaethau Cyfieithu ar y naill law a hyrwyddwyr a masnachwyr technoleg cyfieithu ar y llaw arall yn mynd benben â'i gilydd felly mewn perthynas ag ansawdd y *cynnyrch* cyfieithiedig a chysondeb cynnwys ffeiliau TMX, hyd yn oed os ceir cytundeb ynghylch effeithiau cadarnhaol technoleg ar y *broses* cyfieithu. Mae Pym a Gil (2006, t. 11) yn cytuno, "Translation Memories make this [sef cyfathrebu ystyrion trwy gyfieithu mewn cyd-destun] difficult. Indeed, they move translators back to the linguistic equivalence paradigms of the 1960s".

Ond ni olyga hyn oll na ellir lleddfu'r sgil-ffeithiau posibl serch hynny, neu hyd yn oed eu hatal yn llwyr. Trwy sicrhau y caiff TM (neu sawl TM) y sefydliad eu rheoli yn effeithiol, a sicrhau hefyd mai dim ond cynnwys a wiriwyd gan gyfieithydd profiadol y caiff ei ychwanegu at y system yn ogystal, mae bytholi a chylchredeg cyfieithiadau o ansawdd gwael yn llai tebygol o ddigwydd. Mae Exposito (2011) yn disgrifio sut y gwneir hynny er enghraifft yn adran gyfieithu'r Sbaeneg yn y Comisiwn Ewropeaidd. Er y bydd systemau TM yn segmenteiddio testunau cyfain naill ai yn frawddegau unigol neu yn

baragraffau byrion, nid yw'n amhosibl cyfieithu gan barchu cyd-destun yr IFf a'r brawddegau sy'n dod cyn y frawddeg a gyfieithir a'r un a ddaw ar ei hôl. Gellir defnyddio dwy sgrin, un yn dangos y testun yn ei gyfanrwydd a'r llall yn dangos rhyngwyneb y TM.¹⁰² Gellir defnyddio un sgrin ar gyfer rhyngwyneb y TM a gosod y testun cyfan i'w gyfieithu ar stondin plastig wrth ymyl y sgrin hefyd.¹⁰³ Mewn perthynas â chymysgedd arddulliol, os yw pob cyfieithydd mewn sefydliad sy'n cyfrannu at y TM yn cydymffurfio ag arddull tŷ'r sefydliad hwnnw, anodd gweld sut y gall hyn fod yn broblem fawr. Gall cymysgedd arddulliol fod yn broblem serch hynny os ffurfiwyd TM (neu sawl TM) y sefydliad trwy fewngludo ffeiliau TMX cyfieithwyr eraill. Gall hyn arwain felly at y cyfieithydd yn newid y testun a gynigir i gyd-fynd ag arddull y sefydliad/ei arddull ei hun. Ond hyd yn oed wedyn, os oes proses adolygu terfynol gref ar waith yn yr uned gyfieithu/cwmni, mae modd osgoi hyn hefyd. Dengys yr astudiaethau uchod mai profiad a hyfforddiant yw'r brif ffactor mewn perthynas ag anwybyddu gwallau iaith a chamgyfieithu mewn cyfatebiaethau rhannol a llawn, nid y defnydd o'r cyfatebiaethau hyn fel y cyfryw. Strwythurau hyfforddiant cryf felly yw'r ateb amlwg i'r sgil-ffaith hon. Oherwydd gellid lleddfu pob effaith negyddol y tynnwyd sylw ati yn y llenyddiaeth felly, yr un astudiaeth a ddangosodd na fu effaith negyddol o ddefnyddio TM ac oherwydd profiad proffesiynol yr awdur, penderfynwyd ffurfio rhagdybiaethau a fyddai'n disgwyl gweld effaith gadarnhaol yn sgil defnyddio system TM o safbwynt arddull.

Gan fod y llenyddiaeth ynghylch y berthynas rhwng technoleg cyfieithu ac ansawdd cyfieithiadau wedi ei hadolygu a'r sgil-ffeithiau wedi eu trafod, eir i'r afael yn yr adran nesaf â sut y mae ansawdd wedi ei drin a'i drafod ym maes Astudiaethau

¹⁰² Hyn a wna'r awdur, lle mae gweithio ar ddwy sgrin yn norm yn ei sefydliad p'un bynnag.

¹⁰³ Yn ystod cyfnod yr awdur mewn cwmni cyfieithu hirsefydlig, roedd gan bob cyfieithydd stondin fach, a châi pob un testun ei argraffu fel y gellid ei weld yn ei gyfanrwydd heb sgrin.

Cyfieithu, a sut y mae'r diwydiant cyfieithu yn dadansoddi ansawdd. Gwneir hyn er mwyn dod yn nes at ffurfio methodoleg addas i ymchwilio i ansawdd y cyfieithiadau a gynhyrchwyd yn yr arbrawf diwethaf, ac i ateb y trydydd cwestiwn ymchwil.

7.3 CYWERTHEDD, ANSAWDD AC ASTUDIAETHAU CYFIEITHU

Diffyg cytuno a chysondeb sy'n nodweddu pwnc asesu ansawdd ym maes Astudiaethau Cyfieithu; ni cheir o hyd un model cymwysedig i fynd i'r afael â'r agwedd bwysig hon ar gynhyrchu cyfieithiad mewn cyd-destun proffesiynol, ac ni wyddys a geir un byth (Schäffner 1998, t. 5; Koo a Kinds 2000, t. 147; Colina 2008, t. 98; Depraetere a Vackier 2011, t. 25; Mateo 2014, t. 73). Mae'r methodolegau niferus a adolygwyd uchod yn destament i hyn. Mae hollt hefyd rhwng sut y mae academyddion wedi trin a thrafod ansawdd, a sut y mae'r diwydiant cyfieithu ar y llaw arall wedi cysyniadoli'r broblem. Yng ngeiriau Halliday (2001, t. 13), "For a linguist, translation theory is the study of how things are [...]. For the translator, translation theory is the study of how things ought to be and what can help to achieve a better or more effective product". Mae nifer o fodelau ansawdd wedi eu cynnig gan ysgolheigion (cf. al-Qinai 2000; Colina 2008; Williams 2004; House 2015), ond ni ddefnyddir yr un ohonynt wrth gyfieithu'n broffesiynol o ddydd i ddydd (O'Brien 2012). Yn ogystal, mae sut y mae maes Astudiaethau Cyfieithu wedi bod yn diffinio ac yn ailddiffinio 'cysyniad dadleuol' cywerthedd ers y 1960au (Kenny 2009, t. 96), sef y berthynas theoretig rhwng yr IFf a'r ID, yn gynrychioliadol o sut y mae rhai academyddion wedi methu'n llwyr â bod o gymorth i'r grŵp a ddylai fod yn un o'u prif feysydd ymchwil, sef cyfieithwyr proffesiynol. Dadleuodd Catford (1965/2000) a Vinay a Darbelnet (1995/2004) a ddyfynnwyd yn Munday (2012) er enghraifft nad un cysyniad sefydlog yw cywerthedd, eithr perthynas rhwng dwy iaith y gellir ei sicrhau ar sawl lefel, ac nid ar lefel y frawddeg yn unig. Dadleuodd y swyddogaethwyr Almaenig o'r 1980au

ymlaen mai'r testun targed a'i swyddogaeth yw'r prif ganolbwynt ac nid y testun ffynhonnell (Nord 1997). Yn hytrach na cheisio cyflawni cywerthedd trwy sicrhau y caiff ystyr yr IFf ei 'throsglwyddo' i'r ID, dadleuodd hyrwyddwyr *Skopostheorie* mai sicrhau bod y cyfieithiad yn cyfateb i swyddogaeth y testun ffynhonnell (sef ei *skopos*, o'r gair Groeg am nod neu bwrpas) yw'r nod, ac mai eilbeth oedd ystyried cywerthedd o ran iaith a chynnwys. Dadleuodd Nida (1964/2004) mai effaith gyfatebol ar y gynulleidfa darged yw elfen bwysicaf cywerthedd, nid cywerthedd o ran iaith ac ystyr, gan ddadlau bod cywerthedd dynamig (effaith gyfatebol ar y gynulleidfa) a chywerthedd naturiol (sef sicrhau y trosglwyddir ffurf a chynnwys yr IFf i'r ID mor agos â phosibl) yn bwysicach. Daw hyn yn uniongyrchol o'i waith fel cyfieithydd Beiblaidd a'i ddymuniad i beri tröedigaeth grefyddol i'r rhai a ddarllenai'i gyfieithiadau. Yn ôl Koller (2011) a ddyfynnwyd yn House (2015), ceir cywerthedd ar bum lefel wahanol, sef cywerthedd dynodol, cynodiadol, testunol-normadol, pragmataidd ac esthetig. Gwahaniaethodd Pym (2014) rhwng cywerthedd naturiol a chywerthedd dynamig, gan greu dryswch terminolegol cwbl ddiangen yn y maes rhwng ei ddefnydd o'r termau 'cywerthedd dynamig' a 'chywerthedd naturiol' a defnydd Nida yntau ohonynt. Cyfeiria 'cywerthedd naturiol' at gywerthedd sy'n bodoli eisoes rhwng dwy iaith ar un llaw, a chyfeiria 'cywerthedd dynamig' at gywerthedd lle mae shift amlwg wedi bod wrth gyfieithu ac nid yw'r ID yn debyg o ran neges na ffurf i'r IFf. Mae hyn debyg i '*divergent similarity*' a '*convergent similarity*' Chesterman (2005). Mae'r Ysgol Ddisgrifiadol hyd yn oed wedi ceisio ymestyn ffiniau cyfieithu i gynnwys "assumed translation" (Toury 1995, t. 33), gan achosi hyd yn oed fwy o ansicrwydd ynghylch sut y gellir gwerthuso cyfieithiad; nid oes modd gwneud hynny os na wyddys meini prawf yr hyn a ystyrir yn gyfieithiad a'r hyn nad yw'n gyfieithiad (House 2001, t. 130). Mae rhai ysgolheigion hyd yn oed wedi gwrthod bodolaeth a defnyddioldeb cywerthedd yn llwyr, naill ai fel rhan o'r traddodiad

hermeniwtiaid neu'r traddodiad dadadeiladu yn dilyn Jacques Derrida (1930-2004), sy'n gwrthod bod unrhyw fath o ystyr sefydlog yn y lle cyntaf fel bod cywerthedd yn bosibl (Snell-Hornby 1988; Munday 2012). Mae eraill o leiaf wedi amau dilysrwydd theoretig y term (Baker 2011, t. 5). Mae'r diffyg consensws hwn yn bwysig i bwnc y rhan hon o'r traethawd gan mai sylfaen unrhyw drafodaeth gyflawn ar ansawdd cyfieithiadau yw'r cywerthedd hwn (Krein-Kühle 2014, t. 22; House 2015, t. 5).

Ar wahân i fodolaeth sawl model academaidd, nid yw ysgolheigion yn gytûn ychwaith felly ynghylch yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw testun targed yn gyfieithiad llwyddiannus ai peidio. Mae'n ffodus felly fod y diwydiant wedi mynd ati ei hun i ddyfeisio modelau cymwysedig i ddiwallu ei anghenion ymarferol, y gallent fod yn ddefnyddiol ar gyfer yr astudiaeth gyfredol. Trafodir y rhain isod.¹⁰⁴

7.4 MODELAU ANSAWDD DIWYDIANNOL

Er bod cwmnïau iaith ac unedau cyfieithu yng Nghymru yn debygol o fod wedi datblygu eu prosesau sicrhau ac asesu ansawdd eu hunain (sydd fel rheol yn cynnwys proses adolygu dwyieithog gan uwch-gyfieithydd/cyfieithydd sy'n gwirio gwaith pawb neu gyfieithwyr llai profiadol yn unig, yn ôl profiad yr awdur),¹⁰⁵ mae hefyd nifer o fodelau safonol y gellir eu defnyddio i wneud hyn. Yn gyntaf oll, ceir modelau a seilir ar

¹⁰⁴ Cyn bwrw ymlaen i wneud hyn, dylid nodi na fydd yr ymdriniaeth hon yn mynd i'r afael â'r prosesau sydd yn eu lle i sicrhau ansawdd testunau terfynol cyn ac ar ôl iddynt gael eu gwirio. Mae'n hanfodol gwahaniaethu yma rhwng y gweithdrefnau neilltuol y mae cwmnïau cyfieithu ac unedau yn eu defnyddio i sicrhau ansawdd *cyn* ac *ar ôl* i'r testun gael ei adolygu (megis eu prosesau recriwtio, meini prawf ar gyfer pwy sy'n gymwys i adolygu, penderfyniadau ynghylch adolygiadau unieithog a dwyieithog, a gwaith pwy a adolygir ac o dan ba amgylchiadau), a'r modelau a ddefnyddir *wrth wneud* yr asesiadau ansawdd hyn. Er bod y gweithdrefnau hyn yn bwysig ac yn debygol o effeithio ar y cyfieithiadau ei hun, byddai trafodaeth deg ohonynt allan o sgôp. Ond gweler Drugan (tt. 125-183) am drafodaeth gynhwysfawr ar weithdrefnau i sicrhau ansawdd.

¹⁰⁵ Ystyr 'adolygiad dwyieithog' yw adolygu'r cyfieithiad gan ei gymharu â'r IFf (er mwyn dod o hyd i wallau cyfieithu), gyda'r ddau destun yn gyfochrog. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwirio cywirdeb iaith (cywirdeb gramadegol/cywair) yr ID.

deipoleg gwallau. Mae'r modelau hyn yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau a adolygir uchod, ac fe'u seilir ar dynnu marciau o gyfanswm ar gyfer gwallau ar draws paramedrau gwahanol, gyda phob gwall yn y paramedrau hyn yn amrywio mewn difrifoldeb. Bydd y cyfieithiadau wedyn yn 'pasio' neu'n 'methu' ar sail y sgoriau hyn (O'Brien 2012b). Mae'r modelau hyn yn cynnwys metrig ansawdd SAE J 2450, SICAL Llywodraeth Canada, Blackjack, a model ansawdd LISA.¹⁰⁶ Mae cysondeb rhwng y modelau hyn mewn perthynas â'r prif baramedrau y ceir ynddynt, sef iaith, terminoleg, cywirdeb y cyfieithu a'r arddull, ac mae cysondeb hefyd o ran yr is-gategoriâu unigol y tu fewn iddynt (O'Brien 2012b, tt. 60-61). Mae'n debyg mai poblogrwydd model LISA sy'n gyfrifol am hyn, ac mae nifer o fodelau eraill a grëwyd i ddiwallu anghenion cwmnïau unigol yn seiliedig arno (O'Brien 2012b, t. 56). O ran gweithredu'r modelau, cyfieithwyr unigol profiadol sy'n gyfrifol am eu cydlynu, fel arfer gan ddefnyddio taenlenni (O'Brien 2012b, t. 64). Mae'r modelau hyn wedi eu beirniadu'n ddiweddar am na allant addasu i ddiwydiant cyfieithu sy'n prysur newid; honnir na allant ymateb yn ddigonol i fathau newydd o destun (gwefannau, cynnwys a grëir gan y defnyddiwr er enghraifft), technolegau newydd (MT, Gwe2.0), a chyd-destun cyllidol gwahanol lle mae'r economi yn wahanol i'r hyn ydoedd ar ddechrau'r ganrif. Cwynir yn ogystal na all y modelau hyn dalu sylw digonol i nifer o ystyriaethau gwahanol sy'n ymwneud â swyddogaeth gyfathrebu'r testun ac anghenion defnyddwyr a chleientiaid unigol er enghraifft (O'Brien 2012b, tt. 55-56). Yn dilyn hyn, datblygodd O'Brien a sefydliad TAUS Fodel Asesu Ansawdd Dynamig (cf. O'Brien 2012b), sydd â'r nod o deilwra asesu ansawdd i gyd-destunau gwahanol. Ceir hefyd fodelau asesu ansawdd a ddatblygwyd mewn cyd-destunau gwahanol (sef ymchwil a datblygu ym maes MT, modelau didactig a ddefnyddir

¹⁰⁶ Er bod y gymdeithas honno bellach wedi diflannu, defnyddir y model y datblygwyd ganddi o hyd.

asesu myfyrwyr cyfieithu, cyfieithu cymunedol, h.y. cyfieithu a wneir gan y gymuned ei hun, a chyfieithu technegol). Er na ddaw'r modelau hyn o'r diwydiant, gallant fod yn ddefnyddiol wrth asesu cyfieithiadau proffesiynol, ac mae O'Brien (2012b) wedi cynnwys pob ohonynt yn y Model Asesu Ansawdd Dynamig ac yn dadlau y dylid eu defnyddio yn y diwydiant hefyd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Disgrifia Tabl 30 y modelau hyn yn unigol.

Tabl 30: Modelau Asesu Ansawdd Eraill

Rhif	Enw'r Model Asesu Ansawdd	Nod y Model / Cyd-destun Defnydd
1	Asesiad Cydymffurfiaeth	Asesu a yw'r cyfieithiad yn cydymffurfio â gofyniadau a rheoleiddiadau rhanbarthol/cenedlaethol, er enghraifft ym maes cynhyrchion meddygol
2	Gwerthusiad ar sail Defnyddioldeb (e.e. Doherty <i>et al.</i> 2010)	Asesu rhwyddineb defnyddio'r cynnyrch i wneud tasg
3	Teipoleg Gwallau	Adnabod a chategoreiddio gwallau iaith a chyfieithu
4	Asesiad Ffyddlondeb a Chywirdeb (e.e. Fiederer ac O'Brien 2009)	Cyfeiria 'Ffyddlondeb' at gywirdeb cyfieithu a 'Chywirdeb' at safon yr ID
5	Gwerthusiad a wneir gan y Gymuned	Gan dorfoli'r gwerthusiad, mae'r gymuned iaith ei hun yn cydweithio i ddod o hyd i lefel dderbyniol o ansawdd, fel arfer gan bleidleisio dros y cyfieithiad sydd orau
6	Gwerthusiad Darllenadwyedd	Asesu rhwyddineb darllen y cyfieithiad
7	Gwerthuso ar sail Teimladau Defnyddwyr	Asesu sut y mae'r gynulleidfa darged yn teimlo am gynnyrch cyfieithiedig
8	Adborth gan Gwsmeriaid (e.e. Bowker 2009)	Cesglir barnau comisiynwyr cyfieithiadau a defnyddwyr cyfieithiadau dros gyfnod o amser i ddarganfod pa mor dderbyniol mae'r cyfieithiad/au

Gan fod sawl model asesu ansawdd wedi eu trafod, gellir mynd ymlaen bellach a disgrifio'r fethodoleg a gymhwyswyd yn yr astudiaeth bresennol, a gosod y rhagdybiaethau rhagfynegol perthnasol. Disgrifir yn awr y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ymchwilio i ansawdd y cyfieithiadau a grëwyd yn yr arbrawf cynhyrchedd. Bwriad hyn yw gofyn a all y defnydd o systemau TM a MT wrth gyfieithu'n broffesiynol arwain at destunau terfynol israddol, er gwaethaf yr arbedion amseryddol a gwybyddol. Wedyn, eir ymlaen i ddadansoddi'r canlyniadau.

7.5 DYLUNIAD ARBROFION

Wrth ymateb i'r cwestiwn ymchwil a osodwyd yn y Cyflwyniad, penderfynwyd defnyddio dulliau ymchwil cymysg ac i drionglu'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data. Fel y dadleuir isod, mae mesur ymateb defnyddwyr cyfieithiadau yr un mor bwysig ag adolygiadau gan gyfieithwyr pan ddaw i werthuso safon cyfieithiadau. Oherwydd hyn, mae i'r rhan hon o'r ymchwil ddwy ran, ac yn y ddwy ran hyn ceir tri chynnod casglu data. Yn y rhan gyntaf, gofynnir i adolygwyr (sef cyfieithwyr profiadol â phrofiad o wirio cyfieithiadau cydweithwyr) werthuso cyfieithiadau, gan gymharu'r cyfieithiadau â'r testunau ffynhonnell. Wedyn, bydd yr awdur yn defnyddio dull tryloyw o fesur cysondeb fesul math o gyfatebiaeth. Yn yr ail ran, cynhelir gwerthusiad o'r cyfieithiadau o safbwynt darpar ddarllenwyr y cyfieithiadau hyn. Cesglir data gwrthrychol trwy ddefnyddio data tracio llygaid yn y rhan gyntaf a data goddrychol ar sail graddfeydd Likert yn yr ail ran. Mae Tabl 31 isod yn esbonio'n fanylach strwythur y fethodoleg.

Tabl 31: Strwythur y fethodoleg a ddefnyddiwyd i fesur ansawdd terfynol testunau

Cyfnod A – Asesiad Ansawdd Dwyieithog	Cyfnod B – Gwerthusiad gan Ddefnyddwyr	
<i>Rhan A</i>	<i>Rhan B1</i>	<i>Rhan B2</i>
Cymharu'r IFF â'r ID	Mesur darllenadwyedd a dealladwyedd y testunau a gynhyrchwyd trwy gasglu data gwrthrychol. Defnyddir y testunau a ddefnyddiwyd yn yr arbrawf ymdrech yn y rhan TM. Ôl-olygwyd y testun Saesneg am we 2.0 fel bod testun a ôl-olygwyd ar gael hefyd.	Mesur darllenadwyedd a dealladwyedd y testunau a gynhyrchwyd trwy gasglu data goddrychol. Defnyddir y testunau a ddefnyddiwyd yn yr arbrawf ymdrech yn y rhan TM. Ôl-olygwyd y testun Saesneg am we 2.0 fel bod testun a ôl-olygwyd ar gael hefyd.
Ffyddlondeb <ul style="list-style-type: none"> Ffyddlondeb ar raddfa 1-4 		
Cywirdeb <ul style="list-style-type: none"> Cywirdeb Gramadegol ar raddfa 1-4 		
Arddull <ul style="list-style-type: none"> Arddull ar raddfa 1-4 		
Cysondeb		
<p>Nod: Cymherir y testunau a gyfieithwyd, yn cynnwys y rhai a gyfieithwyd â chymorth y systemau MT a TM, â'r IFF gan ddau adolygydd, â'r bwriad o fesur ansawdd y cyfieithiadau hyn mewn perthynas â ffyddlondeb a chywirdeb. Ystyrir arddull hefyd. Bwriad hyn yw gofyn a yw'n bosibl bod cyfieithu yn y modd hwn yn amharu ar ansawdd terfynol cyfieithiadau. Wedyn, bydd yr awdur yn dadansoddi pa mor gyson oedd y cyfieithiadau fesul math o gyfatebiaeth, gan ddefnyddio dull y manylir arno isod.</p>	<p>Nod: Bwriad hyn yw gofyn a all testunau a gyfieithwyd â chymorth MT fod yn fwy neu lai darllenadwy na chyfieithiadau nas cynhyrchwyd yn y modd hwn</p>	<p>Nod: Bwriad hyn yw gofyn a all testunau a gyfieithwyd â chymorth MT fod yn fwy neu lai dealladwy a darllenadwy na chyfieithiadau nas cynhyrchwyd yn y modd hwn</p>
<p>Dull Ymchwil: Mewn taenlen Excel, gofynnir i adolygwyr benderfynu ar ffyddlondeb (yr un wybodaeth/ dim gwybodaeth/ mwy o wybodaeth), cywirdeb gramadegol ac arddull gan ddefnyddio cwmprestr mewn taenlen Excel.</p>	<p>Dull Ymchwil: Tracio llygaid, gan gasglu data am nifer cyfartalog y sylliadau ac amser cyfartalog a dreuliwyd yn syllu. Caiff dyluniad ymchwil rhyng-grŵpiau ei ddefnyddio, lle cymherir canlyniad un grŵp â chanlyniadau grŵpiau eraill. Bydd Grŵp 1 (grŵp rheoli, neu grŵp cyfieithu, n=6) yn darllen cyfieithiad a wnaed heb ddefnyddio MT, a bydd Grŵp 2 (grŵp arbrofol, neu grŵp MT, n=6) yn darllen fersiwn a ôl-olygwyd o'r un testun ffynhonnell. Oherwydd y posibilrwydd y gallai cyfranogwyr fod wedi cofio'r hyn a ddarllenwyd eisoes pe defnyddid dull ailadrodd mesurau (cf. O'Brien 2010, t. 169), penderfynwyd mai rhyng-grŵpiau oedd y dyluniad mwyaf priodol.</p>	<p>Dull Ymchwil: Gofynnir i gyfranogwyr ddewis ar raddfa Likert pum pwynt pa mor ddarllenadwy a dealladwy mae'r testunau a gyfieithwyd trwy gywiro allbwn MT a thrwy gyfieithu heb MT. Caiff dyluniad ymchwil rhyng-grŵpiau ei ddefnyddio, lle cymherir canlyniad un grŵp â chanlyniadau grŵpiau eraill. Darperir i gyfranogwyr ddiffiniadau o'r ddau gysyniad</p>

7.6 DIFFINIADAU

Gan fod ansawdd yn ganolog i'r rhan hon o'r traethawd, fe'i diffinnir yma. Yn gyntaf oll, mae angen derbyn mai cysyniad ansefydlog ydyw, heb ddiffiniad clir. Bydd gofynion y sefyllfa neu fanylion y prosiect yn golygu y bydd yr hyn a ystyrir yn dderbyniol yn newid. Hyn sydd ym mlaen meddwl O'Brien (2012b) wrth ddisgrifio'i 'model dynamig'; yn hytrach na chyfyngu ar ystyr ansawdd a niweidio'r drafodaeth trwy wneud hynny, dylid ystyried ansawdd yn gysyniad sy'n newid yn ôl yr amgylchiadau. Mewn rhai cyd-destunau, bydd cyfieithiad awtomatig amherffaith yn ddefnyddiol er enghraifft, ond mewn cyd-destunau eraill ni fyddai cyfieithiad awtomatig heb ei gywiro yn dderbyniol o gwbl. Mae cysyniad cywerthedd hefyd yn rhwym o newid wrth drafod cyfieithu llenyddiaeth, ond nid cyfieithu llenyddiaeth sydd dan sylw yn y traethawd hwn. Nid yw'r diffiniad a ddarperir isod felly â'r nod o ddiffinio ansawdd cyfieithu yn gyffredinol, eithr â'r nod o ddiffinio ansawdd at ddiben y traethawd hwn, sydd â'r diwydiant cyfieithu proffesiynol yn ganolbwynt iddo. Gan dderbyn meini prawf Goudec (2010, t. 272), mae angen i'r cyfieithiadau a grëwyd ar gyfer y traethawd hwn, ac sy'n addas i gael eu hystyried yn gyfieithiadau derbyniol mewn cyd-destun proffesiynol lle cyhoeddir cyfieithiadau at ddefnydd y cyhoedd, gydymffurfio â'r meini prawf hyn:

1. Iaith Darged (ID) sy'n cynnwys holl wybodaeth yr IFf, dim mwy a dim llai;
2. ID sy'n ramadegol gywir ac yn briodol o ran cywair;
3. ID sy'n hawdd ei darllen ac yn ddealladwy yn ôl ei defnyddwyr.

Daw hyn â ni at gysyniadau darllenadwyedd a dealladwyedd. Yn syml, ystyr darllenadwyedd yw rhwyddineb darllen testun, sef pa mor hawdd neu anodd y mae i ddarllen y brosesu testun. Mae cysylltiad amlwg felly rhwng yr ymdrech wybyddol a brawf darllen ydych chi wrth ddarllen, a darllenadwyedd testun. Mae sawl dull o fesur

darllenadwyedd, ac mae nifer o fynegeion darllenadwyedd wedi eu cyhoeddi ers y 1920au (Doherty 2012, tt. 12-17).¹⁰⁷ Ystyr dealladwyedd ar y llaw arall yw rhwyddineb deall testun. Hynny yw, pa mor hawdd neu anodd y mae i ddarllenwydd brosesu ac wedyn *ddeall* yr hyn a ddarllenwyd. Er bod rhai ysgolheigion yn trin y ddau gysyniad hyn yn un cysyniad cyflawn, mae eraill yn eu hystyried ar wahân (Doherty 2012, t. 22). Dilynir yma Doherty (2012) sydd wedi dadansoddi darllenadwyedd a dealladwyedd ar wahân, a chytunir yma â Suojanen *et al.* (2015, t. 53) pan ddywedant fod *darllenadwyedd* yn nodwedd ar y testun, tra bo *dealladwyedd* yn gysyniad rhyng-bersonol sy'n dibynnu ar ffactorau unigol megis gwybodaeth o'r pwnc, cymhelliad i ddarllen, deallusrwydd, cynhwysedd y cof gweithredol a llu o ffactorau eraill. Ni ddylai fod yn syndod felly na cheir un metrig ar gyfer y ddau gysyniad, er bod nifer ar gyfer y naill gysyniad a'r llall. Nid yw ystyried darpar ddarllenwyr wrth fesur ansawdd ym maes Astudiaethau Cyfieithu o reidrwydd yn newydd ychwaith; dadleuodd hyrwyddwyr *Skopostheorie* yn y nawdegau fod angen ystyried rôl y testun targed a'i ddarllenwyr wrth werthuso cyfieithiadau, a dadleuai Eugene Nida cyn hynny mai effaith gyfatebol ar y gynulleidfa darged (sef y darllenwyr) yw ffon fesur cyfieithu llwyddiannus. Mae cyfrol ddiweddar gan Suojanen *et al.* (2015) wedi adolygu'r cyfraniadau cynnar hyn at yr hyn a alwant yn '*User-centred Translation*', ac wedi dadlau bod angen edrych o'r newydd ar bwysigrwydd y darllenwydd pan ddaw i werthuso cyfieithiadau. Dymunant weld shiftt paradeim, o "Active translation

¹⁰⁷ Penderfynwyd peidio â defnyddio'r rhain, sef Flesch-Kincaid, Dale-Chall, Fog, Fry Graph, SMOG a'r *Automated Readability Index*, ymysg eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r mynegeion hyn yn seiliedig ar hyd brawddegau neu eiriau neu nifer y sillafau fesul gair. Gall hyn fod yn broblematig ym maes Astudiaethau Cyfieithu; gwyddys fod cyfieithiadau yn tueddu i fod yn hwy na'r testunau ffynhonnell (Fantinuouli 2016), a gall gwahaniaethau rhwng ieithoedd achosi problemau hefyd. Er enghraifft, un cyfieithiad Cymraeg posibl o 'Huw is reading' (tri gair) yw 'Mae Huw yn darllen' (pedwar gair). Yn ôl y mynegeion hyn, byddai'r frawddeg Gymraeg yn anos ei darllen, nad yw o reidrwydd yn wir yn ymarferol. Noda Suojanen (2015, t. 52) hefyd na all y mynegeion hyn ystyried cydlynrwydd testunau, llif rhesymegol y testun nac ychwaith gysondeb geirfaol, sydd hefyd yn ystyriaethau pwysig mewn perthynas â darllenadwyedd. Fel y dywed O'Brien (2010, t. 144), "[readability formulas] tell us little about how much cognitive effort is involved in reading texts, understanding them, and translating them", ac felly "cognitive effort during reading can perhaps be better measured using eye tracking methodologies" (Ibid, t. 146).

agents and passive or unknowable translation recipients” chwedl Drugan (2013, t. 179) i sefyllfa lle mae'r gynulleidfa darged yr un mor bwysig i gyfieithwyr ag unrhyw ystyriaeth arall. Cyfranna'r traethawd hwn at hyn felly trwy ystyried teimladau a barnau'r *darllenwyr*, yn ogystal â rhai'r *arbenigwyr*. Dadleuir bod hyn yn hanfodol yn achos y Gymraeg lle mae cynifer o Gymry rhugl yn gwrthod deunydd yn yr iaith (y bydd llawer ohono'n debygol o fod yn gyfieithiadau) ac yn tueddu i droi at y Saesneg pan ddaw i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.¹⁰⁸

7.6.1 Diffinio a Chyfrifo Cysondeb

Ystyr cysondeb yn y cyd-destun hwn yw tebygrwydd yr wyth cyfieithiad llwyddiannus i'w gilydd. Er mwyn i ryw elfen o'r cyfieithiadau gael eu hystyried yn gyson, rhaid iddi fod yn bresennol ymhob cyfieithiad o'r frawddeg ffynhonnell. Ni chaiff elfen sydd ond i'w gweld mewn chwe chyfieithiad er enghraifft ei hystyried yn 'gyson'. Ystyr "elfen cysondeb" yw cyfieithiad o ryw elfen yn y frawddeg ffynhonnell, nid geiriau unigol yn unig, ar y cyd â therminoleg benodol. Ymchwilir i gysondeb y cyfieithiadau fesul brawddeg ffynhonnell, cyn cyfrifo sgôr gyfartalog fesul math o gyfatebiaeth. Gellir gweld yn Atodiad 19 bob brawddeg a sut y cyfrifwyd y sgôr hon fesul brawddeg. Y sgôr a ddefnyddir ar gyfer mynegi'r cysondeb hwn fydd y 'canran cysondeb'. Gellir gweld y fethodoleg hon ar waith yn Ffigur 27 isod. Mae pob cyfieithiad sy'n gyson ar draws yr

¹⁰⁸ Dengys ymchwil ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, y cyfeiriwyd ati ym Mhennod 2, fod o leiaf hanner siaradwyr rhugl y Gymraeg yn manteisio ar wasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg. Er y derbynnir yma fod rhesymau seicolegol hanesyddol am y nifer uchel o siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n defnyddio'r Saesneg, mae ystyried rôl cyfieithiadau dealladwy a darllenadwy yn hanfodol. Wrth ystyried effaith technoleg ar ansawdd cyfieithiadau, mae angen ystyried hefyd a all y defnydd ohoni wella neu waethygu darllenadwyedd a dealladwyedd y cyfieithiadau hyn, a gofyn beth yw'r effaith seicolegol ar y gynulleidfa darged. Fel y dywedodd un cyfranogwr ymchwil mewn adroddiad gan y Cyngor ar Bopeth yn 2015 (t. 53), "Oedd, roedd e'n glir, a be dw i'n ei weld, ydi pan maen nhw [y darparwyr gwasanaethau] yn cyfieithu deunydd maen nhw'n gorgymhlethu pethau, yn dewis iaith ffurfiol iawn...". Mae cyfieithu clir felly, hynny yw cyfieithu llwyddiannus, yn ganolog i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn y Gymru ddwyieithog. Er na ellir ond cyffwrdd â'r pwnc pwysig hwn yma trwy gyfrwng ymchwil ar dechnoleg cyfieithu, mae yn sicr yn drywydd ar gyfer ymchwil bellach trwy gyfrwng fframwaith ymchwil tebyg.

wyth cyfieithiad (sef ‘This document > Mae’r ddogfen hon yn’, ‘our equality policies > ein polisiau cydraddoldeb’ ac ‘and the > a’r’) wedi eu hamlygu’n goch. Er bod “Gymraeg” i’w gweld ymhob cyfieithiad, ni ellir ei hystyried yn ‘elfen cysondeb’ gan mai rhan o gyfieithiad ydyw o “The Welsh language” ac mae pum cyfieithydd wedi rhoi ‘yr iaith Gymraeg’ ac mae’r tri arall wedi rhoi ‘y Gymraeg’. Nid yw’r cyfieithiad o ‘The Welsh language’ felly yn gyson.

Saesneg	CYF1	CYF2	CYF3	CYF4	CYF5	CYF6	CYF7	CYF8
This document outlines our equality policies regarding age, sexuality, gender and the Welsh language.	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein polisiau cydraddoldeb o safbwynt oedran, rhywioldeb, rhywedd a'r iaith Gymraeg.	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein polisiau cydraddoldeb o ran oed, rhywedd, rhyw a'r Gymraeg.	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein polisiau cydraddoldeb ynghylch oedran, rhywioldeb, rhyw a'r iaith Gymraeg.	Mae'r ddogfen hon yn nodi ein polisiau cydraddoldeb ynghylch oedran, rhywioldeb, rhyw a'r Gymraeg.	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n polisiau cydraddoldeb ynaglwn ag oed, rhywioldeb, rhyw a'r iaith Gymraeg.	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein polisiau cydraddoldeb mewn cysylltiad ag oedran, rhywedd, rhyw a'r Gymraeg.	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein polisiau cydraddoldeb ynghylch oedran, rhywioldeb, rhyw a'r iaith Gymraeg.	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein polisiau cydraddoldeb yn ymwneud ag oed, rhywioldeb, rhyw a'r iaith Gymraeg.
Nifer y Geiriau	123							
Nifer sy'n debyg	65							
Canran Cysondeb	52.00%							

Ffigur 27: Enghraifft o sut y mae cysondeb wedi ei gyfrifo

Gellir gweld yn Ffigur 27 felly fod ‘Canran Cysondeb’ o 52.00%. Golyga hyn fod mwy na hanner y cyfieithiadau’n gyson, gan fod pob cyfieithydd wedi cynnig yr un cyfieithiad 52.00% o weithiau ar gyfartaledd. Deuir o hyd i’r sgôr hon, sef y ‘Canran Cysondeb’, gan ddod o hyd i gymedr nifer y geiriau ar gyfer pob cyfieithiad (felly yn achos Ffigur 31, 122 gair wedi ei rannu gan 8), cyn dod o hyd i gyfanswm nifer y geiriau sy’n gyson (8 wedi ei luosi gan 8 yn achos Ffigur 27), ac wedyn deuir o hyd i ganran cyfanswm nifer y geiriau sy’n gyson allan o gyfanswm y geiriau ymhob cyfieithiad.

7.7 DULLIAU SAMPLO

Gan ddilyn yr hyn a wnaed ar gyfer yr arbrofion ymdrech a chynhyrchedd, defnyddiwyd 'samplo hwylus'. Gofynnwyd i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru anfon e-bost at ei haelodau yn hysbysebu gwaith adolygu. Nodwyd bod tâl o £225 am gwblhau'r gwaith yn brydlon ac yn llwyddiannus. Penderfynwyd bod angen talu'r cyfranogwyr y tro hwn oherwydd maint y gwaith; mae marcio 800 o frawddegau yr un yn waith gwybyddol-ddwys. Meini prawf cymryd rhan yng Nghyfnod A oedd:

1. Sgiliau ieithyddol cadarn a gwybodaeth drylwyr o ramadeg y Gymraeg;
2. Gradd yn y Gymraeg;
3. Profiad helaeth o gyfieithu'n broffesiynol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg (o leiaf 4 blynedd);
4. Profiad o adolygu cyfieithiadau gan gyfieithwyr eraill;
5. Yn ddelfrydol, statws uwch-gyfieithydd ac aelodaeth sylfaenol/gyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar gyfer cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.


Mewn perthynas â darllenwyr cyfieithiadau, cysylltwyd â darpar gyfranogwyr trwy e-bostio staff a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd angen bod yn rhugl yn y Gymraeg er mwyn cymryd rhan yng Nghyfnod B. Nid oedd sgiliau cyfieithu yn berthnasol ar gyfer y rhan hon o'r ymchwil nac ychwaith sgiliau darllen Saesneg; y gallu i ddarllen y Gymraeg oedd yr unig nodwedd angenrheidiol.

7.8 Y FEDDALWEDD A CHALEDWEDD A DDEFNYDDIWD

Ar gyfer Cyfnod A, defnyddiwyd meddalwedd MS Excel, lle gofynnwyd i'r cyfieithwyr werthuso'r cyfieithiadau mewn taenlen fesul segment. Ar gyfer Cyfnod B Rhan B1, defnyddiwyd traciwr llygaid. Defnyddiwyd traciwr a werthir gan gwmni Gazepoint, sef eu GP3 Eyetracker sy'n gweithio ar 60Hz.¹⁰⁹ Esboniwyd y theori gefndirol

¹⁰⁹ Hynny yw, mae'r traciwr yn cofnodi data syllu'r cyfranogwr 60 o weithiau fesul eiliad (Holmqvist *et al.* 2011, t. 30).


i'r defnydd o ddata syllu yn Adran 5.13, ond yn ei hanfod a chan ddilyn Clifton *et al.* (2007, t. 248), po hiraf y syllir ar air neu destun, yr anoddaf ydyw i'w brosesu, h.y. mae ei ddarllenadwyedd a'i ddealladwyedd yn isel. O ran meddalwedd, dadansoddwyd y data tracio llygaid gan ddefnyddio meddalwedd a werthir gan yr un cwmni, sef Gazepoint Analysis UX Edition. Dengys Ffigur 28 sgrin-lun o blot syllu a rhyng-wyneb y feddalwedd, gyda wyneb yr ymchwilydd wedi'i guddio. Cysylltir y traciwr hwn â gliniadur neu gyfrifiadur; golyga hyn fod y traciwr yn fwy hyblyg a hwylus na thracwyr a geir y tu fewn i sgriniau, ac yn llai ymwithiol na'r rhai a wisgir ar y pen neu fel sbectol. Caniatwyd cyfnod o ymgynffwrdd â'r traciwr hefyd cyn calibradu. Gofynnwyd i bob cyfranogwr eistedd o flaen y cyfrifiadur, a chasglwyd eu data y naill ar ôl y llall. Dangoswyd y testun ar ddangosydd grisial hylif 17.5 modfedd, mewn ffont Calibri a maint ffont 16. Rhoddwyd bwllch o 1.5 rhwng llinellau. Yn ôl adolygiad trylwyr o'r llenydiaeth, nid yw'r dull ymchwil hwn wedi ei ddefnyddio o'r blaen wrth ymchwilio i gyfieithu proffesiynol Cymraeg. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi croes wedyn ar raddfa Likert a argraffwyd ar bapur, a throsglwyddwyd y sgoriau hyn wedyn i daenlen Excel.



Ffigur 28: Sgrin-lun o ryngwyneb GazePlot Analysis

7.9 CYFARWYDDIADAU

Derbyniodd y cyfieithwyr gyfarwyddiadau ar gyfer Cyfnod A. Rhoddwyd yr un set o gyfarwyddiadau i bob cyfieithydd. Derbyniodd y cyfranogwyr yng Nghyfnod B gyfarwyddiadau hefyd ynghylch beth i'w wneud yn yr arbrawf. Darparwyd yn ogystal ddiffiniadau o ddarllenadwyedd a dealladwyedd, a gwelodd pob cyfranogwr yr un diffiniad. Yn olaf, darparwyd hefyd esboniad o ystyr y categorïau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad ansawdd arbenigol, sef rhan A1. Gellir gweld hwn yn Ffigur 29 isod. Defnyddiwyd yr un system sgorio yn llwyddiannus gan Fiederer ac O'Brien (2009).



Ffigur 29: Y fframwaith asesu ansawdd a ddefnyddiwyd ar gyfer Rhan A

7.10 Y TESTUNAU A DDEFNYDDIWDYD YNG NGHYFNOD B

Crëwyd dau grŵp ar hap gan ddefnyddio generadur rhifau ar hap, ar ôl rhoi rhif unigol i bob cyfranogwr. Gofynnwyd i'r ddau grŵp hyn ddarllen un testun yr un. Darllenodd y Grŵp cyntaf y cyfieithiad dynol o destun 'Polisi Absenoldeb o'r Swyddfa' (Atodiad 13). Cynhwysodd y testun hwn 155 gair a 745 nod. Darllenodd yr ail grŵp wedyn y fersiwn a ôl-olygwyd o 'Polisi Absenoldeb o'r Swyddfa' (Atodiad 14). Cynhwysodd y testun hwn 144 gair a 669 nod. Cyfieithydd proffesiynol a gyfieithodd y testunau ymhob achos. Dilëwyd segmentau nad effeithiodd ar lif y testun. Sicrhawyd bod y deunydd darllen yn ffurfio testun rhesymegol, yn hytrach na bod y deunydd hwn yn gyfres ddi-gyswllt o frawddegau, gan y gallai hyn fod wedi ymyrryd mewn modd negyddol yn rhwyddineb y broses darllen (O'Brien 2010, t. 150). Gofynnwyd i gyfranogwyr beidio â darllen yn uchel, gan fod hyn yn arafu'r broses hefyd (O'Brien 2010, t. 153). Ffurfiodd y testunau baragraff byr ar y sgrin fel bod modd i'r deunydd ffitio'r sgrin heb orfod sgrolio i lawr. Maint ffont y testun oedd 16, y ffont a ddefnyddiwyd oedd Calibri a defnyddiwyd gofod 1.5 rhwng llinellau. Sicrhawyd na welsai'r cyfranogwyr y testunau ymlaen llaw; mae gwybodaeth gefndirol am destun yn y Cof Tymor Hir yn hwyluso darllen, felly byddai profiad o'r testunau wedi rhoi mantais annheg i'r cyfranogwr (Ericson a Kintsch 1995). Atgoffwyd y cyfranogwyr y byddai gofyn iddynt gwblhau holiadur Likert ar ôl gorffen mewn perthynas â dealladwyedd yn benodol; gwnaed hyn er mwyn annog darllen i ddeall, ac i atal darllen arwynebol. Mae'r testunau a ddefnyddiwyd i'w weld yn Atodiadau 13 a 14.

7.11 Y PRAWF SGRINIO A DDEFNYDDIWDYD YNG NGHYNOD B

Er mwyn sicrhau bod y ddau grŵp mor debyg i'w gilydd â phosibl o ran eu gallu i ddarllen y Gymraeg (y gellid ei ystyried yn newidyn dryslyd), cynhaliwyd prawf sgrinio. Gofynnwyd i'r 12 cyfranogwr ddarllen paragraff byr (Atodiad 15) a rhoi croes ar raddfa 1-5 i nodi eu barnau ynghylch dealladwyedd a darllenadwyedd y testun. Cyfeiriodd 1 at ddiffyg darllenadwyedd a'u bod heb ddeall y testun, a chyfeiriodd 5 at ddarllenadwyedd uchel iawn a'u bod wedi deall y testun yn ei gyfanrwydd. Y gwiriad safonol ar gyfer darllenadwyedd oedd 0.7 gyda chanolrif o 4.5, a gwiriad safonol dealladwyedd oedd 0.5 gyda chanolrif o 4.5. Golyga hyn fod y cyfranogwyr yn debyg iawn i'w gilydd o ran eu sgiliau darllen Cymraeg a'u bod oll wedi darllen a deall y testun yn ddigonol. O'r herwydd, nid ystyrir y gallu i ddarllen y Gymraeg yn newidyn dryslyd ac ni chafodd neb ei ddiarddel o'r arbrawf.

7.12 PEILOT

Cynhaliwyd peilot ar gyfer yr adolygiad ansawdd gan arbenigwyr. Gofynnwyd i gyfieithydd proffesiynol farcio set o 20 cyfieithiad o waith Cyfieithydd 1 a gymerodd ran yn yr arbrawf cynhyrchedd. Gofynnwyd am adborth ar y system farcio ac ar y disgrifiadau a ddarparwyd (Ffigur 29). Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r system farcio yn dilyn yr adborth cadarnhaol. Cynhaliwyd peilot byr ar gyfer yr arbrawf tracio llygaid lle gofynnwyd i gyfranogwyr ddarllen testun byr ar y sgrin iddynt gael ymgynefino â'r traciwr a'r amgylchfyd ymchwil, ac er mwyn galluogi'r awdur i sylwi ar unrhyw broblemau cyn dechrau ar yr arbrawf.

7.13 DILYSRWYDD

Diffiniwyd ystyr wyddonol dilysrwydd ym Mhennod 5. Datgenir isod ddilysrwydd yr arbrofion a gynhaliwyd mewn perthynas â dilysrwydd mewnol ac allanol. Sicrhawyd dilysrwydd mesurol trwy ddewis traciwr llygaid o ansawdd da (60Hz) a thrwy ddefnyddio dulliau ystadegol cydnabyddedig i ddadansoddi'r data a meddalwedd briodol i wneud hynny. Ar gyfer sylfeini gwybyddol y broses ddarllen sy'n ganolog i ddarllen cyfieithiadau, gweler Pennod 4.

Tabl 32: Dilysrwydd Ymchwil

Dilysrwydd Mewnol	Dilysrwydd Allanol
Dyluniad yr arbrawf wedi'i gadw'n gyson ar draws cyfranogwyr, derbyniodd pob cyfranogwr yr un driniaeth a'r un set safonol o gyfarwyddiadau	Trosoglwyddwyd yr holl ddata i setiau data i'w dadansoddi yn briodol ac yn fanwl
Deallodd pob cyfranogwr yr hyn y disgwyliwyd iddo ei wneud	Defnyddiwyd dulliau ymchwil nad oeddent yn ymwthiol
Casglwyd y data gwrthrychol a goddrychol yn ystod yr un sesiwn	Roedd gwybodaeth ynghylch sut y cynhaliwyd yr arbrofion yn glir er mwyn galluogi dyblygu
Defnyddiwyd maint sampl digon mawr	Darparwyd amser i bawb ymgyswrtio â'r amgylchedd
Nid oedd gan yr ymchwilydd berthynas â'r cyfranogwyr, nac ar lefel bersonol na phroffesiynol Sicrhawyd bod gan y cyfieithwyr y sgiliau a phrofiad angenrheidiol	Defnyddiwyd peiriant a oedd yn gyfarwydd i bawb, sef cyfrifiadur pen desg â Windows

7.14 NEWIDYNNAU A RHAGDYBIAETHAU

Manylir yma ar y rhagdybiaethau rhagfynegol a'r newidynnau dibynnol a fesurir er mwyn ymateb iddynt. Yn gyntaf oll, rhestrir isod y newidynnau dibynnol.

Tabl 33: Newidynnau Dibynnol Ansawdd

Newidynnau Dibynnol Ansawdd	
Newidyn Dibynnol	Disgrifiad
Y sgôr a roddir ar gyfer ffyddlondeb (rhwng 1-4)	Cyfrifir sgôr gyfartalog ar gyfer ffyddlondeb yn ôl math o gyfatebiaeth, gan gyfrifo'r sgôr gyfartalog allan o sgôr pob taenlen
Y sgôr a roddir ar gyfer cywirdeb gramadegol (rhwng 1-4)	Cyfrifir sgôr gyfartalog ar gyfer gramadeg yn ôl math o gyfatebiaeth, gan gyfrifo'r sgôr gyfartalog allan o sgôr pob taenlen
Y sgôr a roddir ar gyfer arddull (rhwng 1-4)	Cyfrifir sgôr gyfartalog ar gyfer arddull yn ôl math o gyfatebiaeth, gan gyfrifo'r sgôr gyfartalog allan o sgôr pob taenlen
Y sgôr a gyfrifir ar gyfer cysondeb	Cyfrifir sgôr cysondeb gyfartalog
Cyfanswm yr amser a dreulir yn syllu wrth ddarllen	Cyfanswm amser y sylliadau a grëir ar gyfer pob cyfranogwr yn y ddau grŵp, fel y'i cyfrifir gan y feddalwedd
Yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn syllu wrth ddarllen	Yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn syllu, fel y'i cyfrifir gan y feddalwedd
Y sgôr ar gyfer darllenadwyedd (1-5 ar raddfa Likert)	Y sgôr gyfartalog ar gyfer y grŵp yn seiliedig ar ganlyniad pawb yn y grŵp hwnnw
Y sgôr ar gyfer dealladwyedd (1-5 ar raddfa Likert)	Y sgôr gyfartalog ar gyfer y grŵp yn seiliedig ar ganlyniad pawb yn y grŵp hwnnw

Tabl 34: Rhagdybiaethau Ansawdd

Rhif	Rhan	Rhagdybiaeth	Disgrifiad		
R7a	Asesiad Ansawdd Dwyieithog	Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau rhannol yn israddol mewn perthynas â ffyddlondeb	Dylai cyfieithiadau a grëwyd trwy ddefnyddio technoleg cyfieithu fod yr un mor dderbyniol ag unrhyw gyfieithiad arall, ymhob agwedd ar gyfieithu proffesiynol llwyddiannus		
R7b		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau rhannol yn israddol mewn perthynas â chywirdeb gramadegol			
R7c		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau rhannol yn cynnwys mwy o wallau arddull na chyfieithiadau a grëwyd heb ddefnyddio systemau TM			
R7ch		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau llawn yn israddol mewn perthynas â ffyddlondeb			
R7d		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau llawn yn israddol mewn perthynas â chywirdeb gramadegol			
R7e		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau llawn yn cynnwys mwy o wallau arddull na chyfieithiadau a grëwyd heb ddefnyddio systemau TM			
R8a		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT trwy ôl-olygu yn israddol mewn perthynas â ffyddlondeb,			
R8b		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT trwy ôl-olygu yn israddol mewn perthynas â chywirdeb gramadegol			
R8c		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT trwy ôl-olygu yn israddol mewn perthynas ag arddull			
R9a/b		Bydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM yr un mor gyson â chyfieithiadau a grëwyd heb TM			
R9c		Bydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT yr un mor gyson â chyfieithiadau a grëwyd heb MT			
R10a		Asesiad Defnyddiadwyedd		Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng cyfanswm amser syllu y grŵp sy'n darllen y cyfieithiad a grëwyd trwy ôl-olygu, a'r grŵp arall a ddarllenodd y cyfieithiad o'r un testun ffynhonnell a grëwyd heb ddefnyddio systemau MT	Ni ddisgwylir i'r defnydd o dechnoleg cyfieithu effeithio'n negyddol ar ddarllenadwyedd testunau terfynol
R10b				Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn syllu wrth ddarllen cyfieithiadau dynol a chyfieithiadau a wnaed trwy gywiro'r allbwn MT	Yn dilyn y rhagdybiaethau ynghylch nifer y sylliadau, disgwylir yn unol â hynny na fydd ystadegol rhwng yr amser cyfartalog a dreuliyd yn syllu ychwaith
R11a	Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer darllenadwyedd ar gyfer pob grŵp		Ni ddisgwylir i'r defnydd o dechnoleg cyfieithu effeithio'n negyddol ar ddarllenadwyedd testunau terfynol yn ôl eu defnyddwyr		
R11b	Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer dealladwyedd ar gyfer pob grŵp		Ni ddisgwylir i'r defnydd o dechnoleg cyfieithu effeithio'n negyddol ar ddealladwyedd testunau terfynol yn ôl eu defnyddwyr		

Mae'r adrannau nesaf yn cyflwyno canlyniadau'r set olaf hon o arbrofion. Bydd Pennod 8, sef y Casgliad, wedyn yn pwysu a mesur yr holl ganlyniadau a gafwyd trwy gydol y prosiect ac yn clymu'r gwahanol linyddau ynghyd.


7.15 CANLYNIADAU CYFNOD A: ASESIAID ANSAWDD DWYIEITHOG

Yn Adran 7.5, esboniwyd bod dau adolygydd, sef dau gyfieithydd profiadol sydd hefyd yn adolygu gwaith cyfieithwyr eraill ac yn prawf ddarllen cyfieithiadau, wedi gwerthuso'r 17,440 o eiriau ar draws yr 800 cyfieithiad a wnaed yn yr arbrawf cynhyrchedd. Gofynnwyd i'r cyfieithwyr wneud hyn gan ddefnyddio fframwaith asesu ansawdd ac iddo dri chategori: Ffyddlondeb (faint o'r neges a drosglwyddwyd yn llwyddiannus), Cywirdeb Gramadegol ac Arddull, a hynny ar raddfa o 1 i 4. Pedwar oedd y sgôr uchaf. Crëwyd 4,800 o sgoriau unigol o ganlyniad i'r gwaith hwn. Wedyn, cyfrifodd yr awdur sgôr cysondeb ar gyfer y cyfieithiadau yn ôl math o gyfatebiaeth. Dadansoddir y canlyniadau hyn isod. Dechreuir trwy ystyried dosbarthiad cyffredinol y sgoriau yn ôl y tri chategori a math o gyfatebiaeth.

7.16 ASESIAID ANSAWDD GAN YR ADOLYGWYR


Isod, mae modd gweld dosbarthiad cyffredinol y sgoriau a roddwyd gan y ddau adolygydd wrth asesu ansawdd y cyfieithiadau a wnaed heb unrhyw gymorth gan systemau MT neu TM (Dim Cyfatebiaeth) (Ffigur 30). Eto, 4 oedd y sgôr uchaf.

Yn achos y tri chategori ansawdd, barnwyd bod y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau yn dderbyniol.




Ffigur 30: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: Dim Cyfatebiaeth

Gellir gweld isod yn Ffigur 31 ddbarthiad cyffredinol y sgoriau ar gyfer y cyfieithiadau a grëwyd gan gywiro'r cyfatebiaethau rhannol. Unwaith eto, barnwyd bod ansawdd y cyfieithiadau hyn at ei gilydd o safon uchel gan i'r rhan fwyaf dderbyn y sgôr uchaf oll, sef 4.




Ffigur 31: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: Cyfatebiaethau Rhannol



Ffigur 31: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: Cyfatebiaethau Llawn

Mae'r patrwm hwn yn parhau yn achos y Cyfatebiaethau Llawn (Ffigur 32). Nid yw derbyn cyfieithiadau a wnaed eisoes yn y gorffennol felly yn amharu ar ansawdd cyfieithiadau newydd yn y rhan fwyaf o achosion. Yn olaf, dengys Ffigur 33 ddosbarthiad y sgoriau ar gyfer y cyfieithiadau a gynhyrchwyd trwy ôl-olygu, sef cywiro allbwn y system MT. Gan barhau â'r patrwm cyffredinol a welir uchod, barnodd y ddau adolygydd fod y cyfieithiadau a gynhyrchwyd trwy ôl-olygu hefyd yn dderbyniol yn y rhan fwyaf o achosion, a hynny o ran arddull, cywirdeb gramadegol a ffyddlondeb.



Ffigur 32: Dosbarthiad Cyffredinol y Sgoriau Ansawdd: MT

Mae'r data hyn felly yn amlygu dau bwynt pwysig. Yn gyntaf, nid ymddengys fod y defnydd o dechnoleg cyfieithu wedi effeithio'n negyddol ar ansawdd y cyfieithiadau

terfynol, gan fod mwyafrif helaeth y cyfieithiadau wedi derbyn y sgôr uchaf posibl ar gyfer pob categori (gweler Tabl 35 am ragor o dystiolaeth am hyn). Yn ail, dengys y data hefyd fod y casgliadau y daethpwyd iddynt am gynhyrchedd ym Mhennod 7 yn ddilys, gan fod y cyfieithiadau y mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig arnynt yn dderbyniol. Eir ymlaen yn awr i dyrchu'n ddyfnach yn y data hyn.¹¹⁰

Tabl 35: Canrannau'r sgoriau a roddwyd gan y ddau olygydd annibynnol

Math o Gyfatebiaeth	Ffyddlondeb	Cywirdeb Gramadegol	Arddull
Dim Cyfatebiaeth	Canran o'r brawddegau a gafodd sgôr:		
	1: 0.5%	1: 0.5%	1: 0.8%
	2: 1.8%	2: 2.3%	2: 2.3%
	3: 21.3%	3: 17.5%	3: 28.8%
	4: 76.5%	4: 79.8%	4: 68.3%
	Ffyddlondeb	Cywirdeb Gramadegol	Arddull
Cyfatebiaethau Rhannol	Canran o'r brawddegau a gafodd sgôr:		
	1: 0.0%	1: 0.0%	1: 0.3%
	2: 3.0%	2: 5.0%	2: 2.8%
	3: 23.8%	3: 20.5%	3: 30.8%
	4: 73.3%	4: 74.5%	4: 66.3%
	Ffyddlondeb	Cywirdeb Gramadegol	Arddull
Cyfatebiaethau Llawn	Canran o'r brawddegau a gafodd sgôr:		
	1: 0.0%	1: 0.0%	1: 0.5%
	2: 2.8%	2: 0.3%	2: 0.5%
	3: 14.0%	3: 16.3%	3: 22.8%
	4: 83.3%	4: 83.5%	4: 76.3%
	Ffyddlondeb	Cywirdeb Gramadegol	Arddull
MT	Canran o'r brawddegau a gafodd sgôr:		
	1: 0.0%	1: 0.3%	1: 0.3%
	2: 0.5%	2: 0.3%	2: 0.0%
	3: 10.0%	3: 16.3%	3: 20.8%
	4: 89.5%	4: 83.3%	4: 79.0%

¹¹⁰ Nodyn byr am nifer yr adolygwyr – mae defnyddio dau adolygydd yn gyffredin yn y llenyddiaeth. Defnyddiwyd dau gan García (2011), Teixeira (2011), Daems *et al.* (2013) a Läubli *et al.* (2013). Hefyd, er gwaethaf cynnig swm sylweddol o arian (£225) am gwblhau'r gwaith, dim ond dau a gysylltodd â'r awdur.

Sail y rhagdybiaethau ynghylch ansawdd yn y rhan hon yw bod ansawdd y cyfieithiadau yn debyg i'w gilydd, ni waeth sut y cynhyrchwyd y cyfieithiadau hyn (h.y. trwy ôl-olygu, cywiro'r TM neu gyfieithu heb dechnoleg). Hynny yw, dylai fod *perthynas* rhwng y sgoriau. Gellir ymchwilio i'r berthynas hon gan ddefnyddio prawf ystadegol o'r enw cydberthyniad rhestrol graddedig Spearman. Mae Tabl 36 yn disgrifio canlyniadau'r profion hyn ar gyfer pob pâr.

Tabl 36: Cydberthyniadau'r Sgoriau Ansawdd

Cydberthyniadau y Sgoriau Ansawdd				
		Cyf. Rhannol	Cyf. Llawn	MT
<i>Arddull</i>	Dim Cyfateb.	$r_s(398) = 1.000, p = .001$	$r_s(398) = 0.827, p = .001$	$r_s(398) = 0.956, p = .001$
<i>Cywirdeb Gramadegol</i>	Dim Cyfateb.	$r_s(398) = 0.973, p = .001$	$r_s(398) = 0.755, p = .001$	$r_s(398) = 0.895, p = .001$
<i>Ffyddlondeb</i>	Dim Cyfateb.	$r_s(398) = 1.000, p = .001$	$r_s(398) = 0.819, p = .001$	$r_s(398) = 0.639, p = .001$

Yn gyntaf oll, wrth gymharu sgoriau'r ddau adolygydd ar gyfer Cyfatebiaethau Rhannol â'u sgoriau ar gyfer Dim Cyfatebiaeth, gellir gweld yn y tabl fod cydberthyniad cryf iawn rhwng y sgoriau. Golyga hyn y gellir derbyn Rhagdybiaethau R7a, R7b ac R7c, ac mae modd dadlau nad yw cywiro Cyfatebiaethau Rhannol yn debygol o beri i'r cyfieithiadau terfynol fod yn llai cywir nac yn llai ffyddlon na chyfieithiadau a wnaed heb TM, a bydd y Gymraeg cystal yn arddulliol hefyd. Mae hyn yn ddiddorol o ystyried canlyniadau Bowker (2005) a Guerberof (2012), a ddarganfu fod cywiro'r Cyfatebiaethau Rhannol yn arwain at wallau yn llithro trwy'r rhwyd gan nad oedd y cyfieithwyr weithiau yn talu digon o sylw i'r gwahaniaethau yn y gyfatebiaeth. Wrth ddadansoddi'r sgoriau a roddwyd i'r Cyfatebiaethau Llawn a'u cymharu â sgoriau'r cyfieithiadau a wnaed heb y TM neu MT, yr un yw'r patrwm. Mae'r canlyniadau ar gyfer MT serch hynny yn llawer mwy diddorol. Mae allbwn systemau MT yn dueddol o gynnwys gwallau ffyddlondeb a hefyd wallau iaith. Oherwydd sut y mae'r allbwn hwn yn cael ei greu, h.y. ar sail corpora enfawr a chyfrifiadau tebygolrwydd ystadegol, gellir dadlau bod llunio cyfieithiad sydd

hefyd yn Gymraeg naturiol yn her, a gallai'r lletchwithdod neu gyfieithu llythrennol hefyd adael eu hól ar y cyfieithiad terfynol wedi ôl-olygu. Serch hynny, darganfuwyd cydberthyniad ystadegol arwyddocaol rhwng y sgoriau arddull ar gyfer MT (neu ôl-olygu) a Dim Cyfatebiaeth, a hefyd rhwng y sgoriau cywirdeb gramadegol. O gofio bod Fiederer ac O'Brien (2009) wedi darganfod bod ôl-olygu yn arwain at gyfieithiad llai arddulliol gan ddefnyddio'r un fframwaith asesu, mae'r canlyniad hwn yn bwysig. Golyga hyn fod modd derbyn Rhagdybiaethau R8a ac R8c. Nid yw ôl-olygu yn arwain at gyfieithiad terfynol llai arddulliol nac ychwaith at gyfieithiad sy'n cynnwys gwallau iaith felly. Mae Tabl 37 isod yn arddangos cymedr y sgoriau ar gyfer y tri chategori fesul math o gyfatebiaeth. Gellir gweld mai'r un oedd canolrif y sgoriau ar gyfer pob elfen o ansawdd ac ar gyfer pob math o gyfatebiaeth, ac o ran y cymedr (yr effeithir arno gan allanolion a sgoriau sydd y tu hwn i rychwant cyffredinol y data, dylid cofio), sgoriau ansawdd y testunau a ôl-olygwyd (MT) oedd y rhai uchaf.

Tabl 37: Tueddiad Canolog y Sgoriau Ansawdd

	Tueddiad Canolog	Dim Cyfatebiaeth	Cyfatebiaethau Rhannol	MT	Cyfatebiaethau Llawn
Arddull	Cymedr	3.65	3.63	3.79	3.75
	Canolrif	4.00	4.00	4.00	4.00
Cywirdeb Gramadegol	Cymedr	3.70	3.70	3.83	3.83
	Canolrif	4.00	4.00	4.00	4.00
Ffyddlondeb	Cymedr	3.74	3.70	3.89	3.80
	Canolrif	4.00	4.00	4.00	4.00


Gall cyfieithu trwy gydweithio ag allbwn MT a chyfatebiaethau o system TM wneud y broses cyfieithu yn haws yn wybyddol ac yn haws mewn perthynas â chynhyrchu testun (Pennod 5). Gall gynyddu cynhyrchedd yn sylweddol hefyd (Pennod 6). Dengys y

canlyniadau hyn na ddigwydd yr arbedion niferus ar draul ansawdd y cyfieithiadau, ac y gall yr ansawdd wella hyd yn oed mewn rhai achosion os derbynnir y cymedrau. Troir yn awr at gysondeb cyfieithiadau.

7.17 CYSONDEB CYFIEITHIADAU

Fel y dadleuwyd eisoes, mae cysondeb, ar y cyd ag ansawdd yn gyffredinol, yn elfen bwysig o gyfieithu proffesiynol. Mae defnyddio terminoleg a geirfa gyffredinol yn gyson, ar y cyd â strategaethau cyfieithu cyffredin i frawddegau ffynhonnell y gwyddys eu bod yn heriol, yn allweddol er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg ac er mwyn lledaenu geirfa Gymraeg yn effeithiol. Gall cyfieithwyr sy'n rhannu TM fanteisio ar arbenigedd aelodau mwy profiadol o staff, gan ailddefnyddio eu cyfieithiadau i frawddegau tebyg er enghraifft yn hytrach nag ymlafnio a methu, gan gyhoeddi cyfieithiad diffygiol. Yn ogystal, os yw cyfieithwyr yn cyson ddefnyddio 'gwefan' ar draws sefydliadau a phrosiectau er enghraifft, mae'n annhebygol y bydd fawr o gystadlu rhwng dau derm ar gyfer yr un cysyniad (tudalen we v. gwefan) yn y pen draw. Bydd hyn wedyn yn ei wneud yn anos i dermau neu eirfa ddiffygiol ymledu, gan gyfrannu at gynnal safonau ieithyddol uchel wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bryd dadansoddi bellach felly effaith y technolegau hyn ar gysondeb. Er mwyn gwneud hyn, cyfrifwyd 'canran cysondeb' rhwng yr wyth cyfieithiad o'r un frawddeg ffynhonnell. Yr hyn a wnaed felly oedd *dynwarded* sefyllfa cyfieithu lle mae sawl cyfieithydd yn wynebu'r un segment i'w gyfieithu. Gofynnwyd i ba raddau y gallai cywiro allbwn o systemau MT a TM *leihau'r* gwahaniaethau rhwng y gwahanol gyfieithiadau a *hybu* cysondeb mewn perthynas â geirfa a therminoleg. A all cywiro cyfatebiaethau rhannol a llawn ac ôl-olygu allbwn system MT gynyddu cysondeb felly, trwy beri i gyfieithiadau o'r un testun ffynhonnell

ymdebygu i'w gilydd yn ieithyddol? Yn Ffigur 34 isod, gellir gweld yn glir fod y cyfieithiadau a gynhyrchwyd heb ddefnyddio unrhyw dechnoleg cyfieithu wedi derbyn sgôr cysondeb isel iawn (30%). Golyga hyn fod y cyfieithiadau i'r segmentau y bu angen eu cyfieithu heb gymorth allbwn o systemau TM ac MT yn tueddu i fod yn wahanol iawn i'w gilydd. Mae'r strategaethau cyfieithu a ddefnyddiwyd, ynghyd â geirfa a therminoleg, hefyd yn tueddu i fod yn wahanol felly.



Ffigur 33: Sgôr Cysondeb fesul Math o Gyfatebiaeth

Wrth ddefnyddio allbwn o system TM ar ffurf Cyfatebiaethau Rhannol (70-99%), mae'r strategaethau cyfieithu a ddefnyddiwyd gan y cyfieithwyr, ynghyd â'r eirfa a therminoleg, wedi ymdebygu i'w gilydd. Mae addasu'r hyn sydd yn y TM felly yn rhwystro'r cyfieithydd rhag gorfod cynnig cyfieithiad newydd. Yn y pen draw, canlyniad hyn yn y rhan fwyaf o achosion yw cysondeb cyfieithiadau, ar y cyd ag arbed ymdrech (Pennod 5) a chynyddu cynhyrchedd (Pennod 6). Dylid nodi serch hynny nad yw'r sgôr mor uchel ag y gall fod (55%), a bod nifer o gyfieithwyr wedi penderfynu addasu cynnwys

y TM.¹¹¹ Mewn perthynas â Chyfatebiaethau Llawn, mae ailgylchu cyfieithiad a wnaed eisoes hefyd yn sicrhau cysondeb. Trwy aildefnyddio cyfieithiadau derbyniol cyfieithydd arall (neu eiddo'r un cyfieithydd o brosiect blaenorol), mae modd sicrhau y cedwir yr un eirfa, yr un strategaethau cyfieithu a'r un derminoleg ar gyfer yr un cyfieithiad o'r un frawddeg ffynhonnell. Gwelir hyn hefyd yn achos defnyddio MT. Trwy ôl-olygu allbwn system MT, mae'r cyfieithwyr wedi medru cynhyrchu cyfieithiadau tebyg iawn i'w gilydd.

Pe bai raid i gyfieithydd mewn swyddfa yng Nghaerdydd felly gyfieithu'r un frawddeg a'r un derminoleg ryw fis ar ôl i gyfieithydd yng Nghaernarfon ddelio â'r un frawddeg a'r un derminoleg er enghraifft, dengys y canlyniadau hyn y byddai eu cyfieithiadau yn debygol iawn o gynnwys yr un eirfa, terminoleg a strategaethau cyfieithu, ar yr amod eu bod wedi defnyddio system MT neu wedi cytuno i rannu'r un TM. Hyn yw hanfod cysondeb ym maes cyfieithu proffesiynol. Eir ymlaen yn awr i ddadansoddi canlyniadau'r arbrawf olaf. Ar ôl trafod sut y mae'r arbenigwyr wedi ymateb i gyfieithiadau a gynhyrchwyd trwy gydweithio â thechnoleg cyfieithu, sut y mae'r darlennydd cyffredin yn ymateb a pha effaith a geir ar y cyhoedd? Gellir dadansoddi hyn trwy gofnodi hyd a phatrymau ymddygiad syllu cyfranogwyr wrth iddynt ddarllen, gan ddefnyddio system tracio llygaid. Hyn a fydd dan sylw yn yr adran nesaf.

7.18 CANLYNIADAU CYFNOD B: ARBRAWF TRACIO LLYGAID

Dadansoddir yn awr ganlyniadau'r arbrawf olaf a wnaed i fesur ymateb siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn gyfieithwyr, h.y. y cyhoedd y cynhyrchir cyfieithiadau ar ei gyfer, i gyfieithiadau a wneir trwy ôl-olygu. Nod hyn yw ymchwilio i'r posibilrwydd bod y

¹¹¹ Profir hyn gan eu sgoriau TER, cf. Pennod 6.


defnydd o allbwn MT i gyfieithu, trwy ôl-olygu'r allbwn, yn arwain at destun sy'n llai darllenadwy a dealladwy i'r cyhoedd. Rhesy meg hyn yw bod allbwn MT yn tueddu i gynnwys gwallau gramadegol dybryd ar y cyd â gwallau cyfieithu. Mae'n ddigon posibl bod y gwallau hyn yn lithro trwy'r rhwyd er gwaethaf ôl-olygu ac yn effeithio ar ddefnyddioldeb y cyfieithiad o safbwynt ei ddarllenwyr terfynol, sef y cyhoedd. Mae'n dilyn, o gymhwyso'r rhesy meg hon, na fu angen gwneud yr un arbrawf ar gyfer cyfieithiadau a grëwyd trwy addasu deunydd o'r TM. Mae'r cyfieithiadau hyn sy'n rhan o'r TM yn annhebygol o gynnwys gwallau iaith difrifol a fedr ddifetha profiad darllen y cyhoedd,¹¹² felly gellid dadlau na fyddai mesur ymateb seicolegol y cyhoedd i'r cyfieithiadau hyn yn ddefnydd call o amser ac adnoddau. Ystyriwyd perthynas allbwn systemau MT a TM ag ansawdd eisoes. Yn awr, mae'n bryd rhoi cyfieithiadau a ôl-olygwyd trwy brawf arall terfynol: o dderbyn bod ansawdd y cyfieithiadau a ôl-olygwyd wedi eu barnu'n gyfieithiadau llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion, beth fydd barn y cyhoedd o safbwynt eu prosesau darllen?

Esboniwyd uchod yn Adran 5.12 fod po fwyaf o amser a dreulir yn syllu wrth ddarllen, y mwyaf ymdrechgar y bernir y broses darllen i fod. Os yw'r broses hon o ddarllen cyfieithiad yn ymdrechgar, gellid dadlau bod y cyfieithiad hwnnw yn aflwyddiannus o safbwynt ei ddefnyddwyr terfynol, gan eu bod wedi gorfod buddsoddi cryn ymdrech wybyddol er mwyn ei ddefnyddio. Os yw ôl-olygu allbwn systemau MT yn newid y broses darllen i'r fath raddau fel bod y cyhoedd sy'n darllen cyfieithiadau yn cael trafferth wrth ddeall cyfieithiad, byddai'n anodd dadlau bod ôl-olygu bob tro yn llesol i ansawdd cyfieithiadau. Cynhaliwyd arbrawf seicoieithyddol felly i roi hyn ar brawf, lle

¹¹² Ni ddadleuir na all TM gynnwys cyfieithiadau sy'n wallus iawn yn ieithyddol. Dadleuir serch hynny fod hyn yn annhebygol o gofio bod cyfieithiadau'n cael eu hadolygu cyn cael eu hanfon i'r TM yn y rhan fwyaf o achosion.

darllenodd un grŵp gyfieithiad a wnaed heb unrhyw allbwn MT, a darllenodd y grŵp arall gyfieithiad a ôl-olygwyd o'r un testun ffynhonnell.

Gan eithrio o'r data sylliadau cofnodedig a oedd yn llai na 175.00ms gan na chânt eu hystyried i fod yn rhan o'r broses ddarllen oherwydd eu bod mor fyr (Rayner 1998), fel y gwnaed hefyd yn Jensen (2011b), dengys Ffigur 34 isod y data hyd sylliadau.




Ffigur 34: Hyd sylliadau fesul Grŵp

Gellir gweld yn Ffigur 34 na cheir fawr o wahaniaeth rhwng y ddwy set o ddata a bod ymddygiad syllu'r ddau grŵp wrth ddarllen yn debyg iawn i'w gilydd. Cadarnhawyd y gwahaniaeth hwn gan brawf T Samplau Annibynnol. Canlyniad y prawf hwnnw oedd $t(22) = -.631$, $p = 0.552$. Gellir derbyn Rhagdybiaeth R10a felly, a dadlau ar sail y canlyniad hwn nad effeithiodd ôl-olygu wrth gynhyrchu cyfieithiad ar brosesau darllen y cyfranogwyr. Nid amharodd ôl-olygu felly ar brofiad darllen yr aelodau o'r cyhoedd a gymerodd ran a chafwyd perthynas rhwng prosesau darllen y ddau grŵp. Darperir rhagor o ddata yn y tabl isod. Mae *cyfanswm* yr amser mewn eiliadau a dreuliwyd yn syllu i'w weld mewn cromfachau ar y dde.

Tabl 38: Canolrif Hyd Sylliadau fesul cyfranogwr mewn ms

Canolrif Hyd Sylliadau fesul Cyfranogwr	
Grŵp Cyfieithu (Testun a Gyfieithwyd)	Grŵ MT (Testun a Ôl-olygwyd)
280 (44)	279 (26)
279 (32)	343 (34)
312 (61)	303 (36)
264 (44)	310 (32)
260 (24)	296 (33)
276 (55)	213 (13)


Gan droi at gyfanswm yr amser a dreuliwyd yn syllu, ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth yn ôl prawf T Samplau Annibynnol, $t(10) = 2.165$, $p = 0.056$. Dengys Ffigur 35 y data hyn yn weddol glir.



Ffigur 35: Cyfanswm yr Amser Syllu

Golyga hyn y gellir derbyn Rhagdybiaeth R10b. Eto felly, nid effeithiodd y defnydd o allbwn MT i gynorthwyo'r broses cyfieithu mewn ffordd negyddol ar brosesau darllen y cyfranogwyr. Dadansoddir isod ganlyniadau'r dasg a wnaed ar ôl yr arbrawf tracio llygaid, lle gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi eu credoau ynghylch darllenadwyedd a dealladwyedd y testun trwy roi croes ar raddfa 5 pwynt Likert. Cyfeiria darllenadwyedd at rwyddineb darllen y testun o ran gramadeg, strwythur, sillafu a *sut* yr ysgrifennwyd y testun. Cyfeiria dealladwyedd at rwyddineb deall y testun a faint o neges y testun a

ddeallwyd. Cyfeiriodd 1 at ddiffyg darllenadwyedd ac at ddiffyg dealltwriaeth, a 5 at ddarllenadwyedd uchel a dealltwriaeth lawn o'r testun. Gellir gweld yn Ffigur 37 isod mai bach iawn yw'r gwahaniaethau rhwng canolrifoedd y sgoriau a roddwyd fesul grŵp.



Ffigur 36: Y sgoriau a roddwyd ar raddfa 5 pwynt Likert

O ran darllenadwyedd, ni chanfuwyd unrhyw wahaniaeth ystyrlon. Cadarnhawyd hynny gan ganlyniad y prawf T Samplau Annibynnol, $t(10) = -1.342$, $p = 0.209$. Yr un canlyniad a gafwyd o safbwynt dealladwyedd; ni fu fawr o wahaniaeth rhwng y ddau grŵp a chadarnhawyd hyn gan y prawf T Samplau Annibynnol, $t(10) = 2.301$, $p = 0.057$.

Tabl 39: Sgoriau a roddwyd fesul cyfranogwr

Sgôr a Roddwyd 1-5			
Grŵp Cyfieithu (Testun a Gyfieithwyd)		Grŵp MT (Testun a Ôl-olygwyd)	
<i>Darllenadwyedd</i>	<i>Dealladwyedd</i>	<i>Darllenadwyedd</i>	<i>Dealladwyedd</i>
3	5	5	4
5	5	5	3
4	4	4	3
5	5	4	3
4	5	5	5
4	5	5	5

Gellir derbyn Rhagdybiaethau R11a ac R11b felly. Mae Tabl 40 yn crynhoi'r canlyniadau ar gyfer Rhan A ac mae Tabl 41 yn gwneud hyn ar gyfer Rhan B. Yn ôl

canlyniadau'r arbrawf hwn felly, nid yw ôl-olygu o reidrwydd yn arwain at gyfieithiad israddol o safbwynt y cyhoedd. Gall defnyddwyr cyfieithiadau ddarllen a deall cyfieithiad a ôl-olygwyd cystal ag unrhyw gyfieithiad arall. O gyfuno'r canlyniad hwn â'r canlyniadau uchod fod ôl-olygu wedi gwella ansawdd y cyfieithiadau yn ôl y ddau gyfieithydd arbenigol, mae'r defnydd o MT wrth gyfieithu'n broffesiynol unwaith eto wedi bod yn llwyddiant.

Tabl 40: Prif Ddarganfyddiadau Ansawdd, Rhan A

Rhif	Rhan	Rhagdybiaeth	Model a Ddefnyddiwyd	Canlyniad
7a	Asesiad Ansawdd Dwyieithog	Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau rhannol yn israddol mewn perthynas â ffyddlondeb	Prawf Cydberthyniad Rhestrol Spearman	Derbyniwyd
R7b		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau rhannol yn israddol mewn perthynas â chywirdeb gramadegol		Derbyniwyd
R7c		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau rhannol yn cynnwys mwy o wallau arddull na chyfieithiadau a grëwyd heb ddefnyddio systemau TM		Derbyniwyd
R7ch		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau llawn yn israddol mewn perthynas â ffyddlondeb		Derbyniwyd
R7d		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau llawn yn israddol mewn perthynas â chywirdeb gramadegol		Derbyniwyd
R7e		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM ar ffurf cyfatebiaethau llawn yn cynnwys mwy o wallau arddull na chyfieithiadau a grëwyd heb ddefnyddio systemau TM		Derbyniwyd
R8a		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT trwy ôl-olygu yn israddol mewn perthynas â ffyddlondeb		Derbyniwyd
R8b		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT trwy ôl-olygu yn israddol mewn perthynas â chywirdeb gramadegol		Derbyniwyd
R8c		Ni fydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT trwy ôl-olygu yn israddol mewn perthynas ag arddull		Derbyniwyd
R9a/b		Bydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau TM (cyfatebiaethau rhannol-R9a, cyfatebiaethau llawn-R9b) yr un mor gyson â chyfieithiadau a grëwyd heb TM		Derbyniwyd
R9c		Bydd y cyfieithiadau a grëwyd trwy gywiro'r allbwn o systemau MT yr un mor gyson â chyfieithiadau a grëwyd heb MT		Derbyniwyd

Tabl 41: Prif Ddarganfyddiadau Ansawdd, Rhan B

Rhif	Rhan	Rhagdybiaeth	Model a Ddefnyddiwyd	Canlyniad
R10a	Asesiad Defnyddiadwyedd	Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng cyfanswm amser syllu y grŵp sy'n darllen y cyfieithiad a grëwyd trwy ôl-olygu, a'r grŵp arall a ddarllenodd y cyfieithiad o'r un testun ffynhonnell a grëwyd heb ddefnyddio systemau MT	Prawf T Samplau Annibynnol	Derbyniwyd
R10b		Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn syllu wrth ddarllen cyfieithiadau dynol a chyfieithiadau a wnaed trwy gywiro'r allbwn MT		Derbyniwyd
R11a		Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer darllenadwyedd ar gyfer pob grŵp	Prawf T Samplau Annibynnol	Derbyniwyd
R11b		Ni fydd gwahaniaeth ystadegol rhwng y sgôr gyfartalog ar gyfer dealladwyedd ar gyfer pob grŵp		Derbyniwyd

Mae pennod olaf y traethawd hwn yn tynnu pob canlyniad at ei gilydd er mwyn ffurfio casgliad. Wrth wneud hynny, atebir y tri chwestiwn ymchwil a osodwyd yn y dechrau.

Nod y traethawd hwn oedd ymchwilio i berthynas technoleg cyfieithu â thair prif agwedd y broses cyfieithu broffesiynol, sef ymdrech, cynhyrchedd ac ansawdd. Er mwyn dadansoddi effaith defnyddio technoleg cyfieithu ar y broses cyfieithu o gymharu â chyfieithu hebddi, dewiswyd arbrofi ag effeithiau ar ymdrech, cynhyrchedd ac ansawdd gan eu bod yn mapio ar y broses cyfieithu honno, proses a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4. Mae'r arbrawf ymdrech wedi dadansoddi'r broses o ffurfio cyfieithiad a'i ysgrifennu ac mae'r arbrawf cynhyrchedd wedi dadansoddi'r gwahaniaeth amseryddol rhwng cydweithio â thechnoleg cyfieithu a chyfieithu hebddi. Ymchwiliwyd yn olaf i effaith hyn oll ar y cyfieithiad gorffenedig, sef allbwn terfynol y broses honno, a hynny o safbwynt y cyfieithydd a'r cyhoedd. Gosodwyd cyfres o ragdybiaethau ac aed i'r afael â hwy trwy gyfrwng fframwaith arbrofol. Gan fod canlyniadau'r arbrofion hyn bellach yn hysbys, mae modd ateb y cwestiynau ymchwil a ddewiswyd a dod i gasgliadau ynghylch effaith technolegau cyfieithu ar y broses cyfieithu (ymdrech a chynhyrchedd) a'i allbwn terfynol (cyfieithiad a'i ansawdd). Y canlyniadau hyn sy'n ffurfio prif gyfraniad yr astudiaeth hon i ymchwil ym maes cyfieithu, cynllunio ieithyddol a'r Gymraeg, a hefyd i faint rydym yn ei wybod am dechnoleg cyfieithu yn rhyngwladol.

8.1 YMDRECH

CY1: A yw defnyddio systemau Cof Cyfieithu a Chyfieithu Awtomatig yn gwneud y broses o greu cyfieithiad yn haws i'r cyfieithydd yn wybyddol ac yn haws o ran cynhyrchu testun?

Wrth ateb y cwestiwn ymchwil hwn, dadansoddwyd yn gyntaf pa effaith a gaiff ôl-olygu ar y broses cyfieithu o safbwynt ymdrech. Hynny yw, gofynnwyd i ba raddau y mae modd i ôl-olygu allbwn MT a TM leihau'r ymdrech wybyddol wrth ffurfio cyfieithiad

